

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 26/11/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol](#)  
[Questions to the Minister for Natural Resources](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)  
[Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwlansys](#)  
[Urgent Question: Ambulance Response Times](#)

[Adroddiad Dilydol y Pwyllgor Menter a Busnes ar Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg \(STEM\)](#)  
[The Enterprise and Business Committee's Follow-up Report into Science, Technology, Engineering and Mathematics \(STEM\) Skills](#)

[Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#)  
[Stage 1 Debate on the Financial Education and Inclusion \(Wales\) Bill](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adeiladau Crefyddol](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Religious Buildings](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Cŵn Tywys Cymru: Rhyddid i Symud i Bobl Ddall a Rhannol Ddall yng Nghymru](#)  
[Short Debate: Guide Dogs Cymru: Freedom of Movement for Blind and Partially Sighted People in Wales](#)

[Dadl Fer—Gohiriwyd o 19 Tachwedd 2014: Pobl Hŷn a Gwaith: Cydnabod Cyfraniad Pobl Hŷn yn y Gweithlu Ledled Cymru](#)  
[Short Debate—Postponed from 19 November 2014: Older People and Work: Recognising the Contribution of Older People in the Workplace across Wales](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The Assembly is now in session.

Prynhawn da. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr yn eistedd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

## Questions to the Minister for Natural Resources

### Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau

### Wild Animals in Circuses

13:30 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau? OAQ(4)0229(NR)*

*1. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's position regarding the use of wild animals in circuses? OAQ(4)0229(NR)*

13:30 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*

The Welsh Government believes that there is no place for wild animals in circuses. We remain willing to work with the Department for Environment, Food and Rural Affairs to introduce an England and Wales ban on the use of exotic wild animals in circuses.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu nad oes lle i anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau. Parhawn i fod yn barod i weithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i gyflwyno gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt egsotig mewn syrcasau yng Nghymru a Lloegr.

- 13:30 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I know that this is a cause that you have previously been passionate about, so I am pleased to hear that. I understand that there are concerns over the delays in the UK Government bringing forward legislation to ban the use of wild animals in circuses that would cover Wales, and that temporary regulations, which have been introduced, do not apply here. What discussions is the Welsh Government having to ensure that a ban on wild animals is brought in by the UK Government before the next general election, and if it fails to do so, what measures can be introduced to specifically cover Wales?
- Gwn i chi fod yn angerddol ynghylch yr achos hwn yn y gorffennol, felly rwy'n falch o glywed hynny. Rwy'n deall bod pryderon dros oedi Llywodraeth y DU rhag cyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau a fyddai'n cynnwys Cymru, ac am nad yw'r rheoliadau dros dro, sydd wedi eu cyflwyno, yn gymwys yma. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cael i sicrhau bod gwaharddiad ar anifeiliaid gwyllt yn cael ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU cyn yr etholiad cyffredinol nesaf, a phe bai'n methu â gwneud hynny, pa fesurau y gellir eu cyflwyno ar gyfer Cymru yn benodol?
- 13:31 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that question. The previous Minister wrote to Lord de Mauley back in July 2013, confirming that the Welsh Government was keen to work with DEFRA to bring forward joint parliamentary legislation to ban the use of wild animals in circuses in both England and Wales. Three months ago, I wrote to Lord de Mauley myself, soon after coming into post really, to say that I was keen to have some progress on this. As I say, that was three months ago, but I did receive a reply today, so I think that perhaps your question has helpfully speeded that along. He has indicated that he is prepared to meet to discuss how things can be taken forward further, so I would be happy to provide an update to Members following that meeting.
- Diolch am eich cwestiwn. Ysgrifennodd y Gweinidog blaenorol at yr Arglwydd de Mauley yn ôl ym mis Gorffennaf 2013, i gadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i weithio gyda DEFRA i gyflwyno deddfwriaeth seneddol ar y cyd i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrzasau yng Nghymru a Lloegr. Dri mis yn ôl, ysgrifennaiis at yr Arglwydd de Mauley fy hun, yn fuan wedi dechrau ar y swydd mewn gwirionedd, i ddweud fy mod yn awyddus i weld rhywfaint o gynnydd ar hyn. Fel y dywedais, roedd hynny dri mis yn ôl, ond cefais ateb heddiw, felly credaf efallai fod eich cwestiwn wedi helpu i gyflymu hynny. Mae wedi nodi ei barodrwydd i gyfarfod a thrafod sut y gellid symud ymlaen ymhellach ar bethau, felly byddwn yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau wedi'r cyfarfod hwnnw.
- With regard to what we can do here insofar as regulations are concerned, I can ask my officials to explore whether we can come to a section 83 agreement under the Government of Wales Act 2006, to try to see if we can make those regulations currently in place in England applicable to Wales. However, we should mention that there are no circuses with wild animals based in Wales, although they do occasionally visit.
- Mewn perthynas â'r hyn y gallwn ei wneud yma o ran y rheoliadau, gallaf ofyn i fy swyddogion archwilio a allwn ddod i gytundeb adran 83 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i geisio gweld a allwn wneud y rheoliadau sydd mewn grym yn Lloegr ar hyn o bryd yn gymwys i Gymru. Fodd bynnag, dylem grybwyll nad oes unrhyw syrzasau gydag anifeiliaid gwyllt wedi'u lleoli yng Nghymru, er eu bod yn ymweld yn achlysurol.
- 13:32 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that update, Deputy Minister. The majority of local authorities in Wales have actually banned circuses using wild animals on public land in their local council area. So, when you are looking at the options that Welsh Government has in taking action here, would you also ask your officials to approach the number of Welsh councils that have not yet passed such regulations and ask them to do so, as it would effectively implement a ban, certainly on publicly owned land here in Wales?
- Diolch i chi am yr wybodaeth, Ddirprwy Weinidog. Mewn gwirionedd, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru wedi gwahardd syrzasau sy'n defnyddio anifeiliaid gwyllt ar dir cyhoeddus yn ardaloedd eu cynghorau lleol. Felly, pan edrychych ar yr opsiynau sydd gan Lywodraeth Cymru i weithredu yma, a wnewch chi hefyd ofyn i'ch swyddogion fynd at y cynghorau yng Nghymru nad ydynt eto wedi pasio rheoliadau o'r fath i ofyn iddynt wneud hynny, gan y byddai hynny i bob pwrpas yn rhoi gwaharddiad ar waith, yn sicr ar dir sy'n eiddo cyhoeddus yma yng Nghymru?
- 13:33 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that contribution. I would be more than happy to do so.
- Diolch yn fawr am y cyfraniad hwnnw. Byddwn yn fwy na pharod i wneud hynny.
- 13:33 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, Minister, as a backbencher, you were promoting a private Members' Bill on this very topic, and I entirely agree with that proposal. I think that if you are looking at regulations, it would be very nice, now that you have got a ministerial position, that you actually bring that legislation to us.
- Wrth gwrs, Weinidog, fel aelod o'r meinciau cefn, roeddech yn hyrwyddo Bil Aelod preifat ar yr union bwnc hwn, a chytunaf yn llwyr â'r cynnig hwnnw. Os edrychych ar y rheoliadau, rwy'n credu y byddai'n braf iawn pe baech yn cyflwyno'r deddfwriaeth hon, yn awr eich bod mewn swydd weinidogol.

- 13:33 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I did not notice a question there, but with regard to regulations, the time that it would take to bring regulations through the Assembly would be quite lengthy and I do have other priorities now within my portfolio, such as bringing forward the dog breeding regulations and the micro-chipping regulations, which is why I think that the section 83 agreement might be the most speedy and simple way in order to bring those regulations into force in Wales.
- Ni sylwais ar gwestiwn yno, ond o ran rheoliadau, byddai'r amser y byddai'n ei gymryd i ddod â rheoliadau drwy'r Cynulliad yn eithaf hir ac mae gen i flaenoriaethau eraill yn fy mhortffolio ar hyn o bryd, megis cyflwyno'r rheoliadau bridio cŵn a'r rheoliadau microsglodwynu, a dyna pam rwy'n credu efallai mai cytundeb adran 83 fuasai'r ffordd gyflymaf a symlaf o ddod â'r rheoliadau hynny i rym yng Nghymru.
- Cyfraddau Ailgylchu** **Recycling Rates**
- 13:34 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(4)0224(NR)*
- 2. Will the Minister provide an update on recycling rates in Wales? OAQ(4)0224(NR)*
- 13:34 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*
- I thank the Member for Delyn for her question. The percentage of local authority municipal waste, excluding abandoned vehicles, that was re-used, recycled or composted has continued to increase since 2000-01, reaching 54.3% in 2013-14. In 2012, the construction and demolition sector recycled 87% and the industrial and commercial sector recycled 58%.
- Diolch i'r Aelod dros Ddelyn am ei chwestiwn. Ac eithrio cerbydau a adawyd, mae'r ganran o wastraff trefol awdurdodau lleol a gafodd ei aildddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio wedi parhau i gynyddu ers 2000-01, gan gyrraedd 54.3% yn 2013-14. Yn 2012, ailgylchodd y sector adeiladu a dymchwel 87% ac ailgylchodd y sector diwydiannol a masnachol 58%.
- 13:34 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am particularly pleased, of course, that Flintshire, in which both of our constituencies lie, is one of those local authorities continuing to increase its rate of recycling and composting. However, improvements in many areas are slowing down, and in some areas there has been a disappointing drop in the recycling rate. Minister, have you been able to identify the reasons for that, and what actions can you take to ensure that improvements are made across the board?
- Rwy'n arbennig o falch, wrth gwrs, fod Sir y Fflint, lle mae etholaethau'r ddau ohonom, yn un o'r awdurdodau lleol sy'n parhau i gynyddu eu cyfradd ailgylchu a chompostio. Fodd bynnag, mae gwelliannau mewn llawer o ardaloedd yn arafu, ac mewn rhai ardaloedd gwelwyd gostyngiad siomedig yn y gyfradd ailgylchu. Weinidog, a ydych chi wedi gallu nodi'r rhesymau dros hynny, a pha gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud yn gyffredinol?
- 13:34 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member is right to recognise the success rates by local authorities across Wales. We now have the fourth best recycling rate in the whole of Europe, which is something that we should be incredibly proud of. However, there are still some local authorities struggling with the principle of diversion and recycling targets, and it is something that my team works with local authorities to deliver on. We are using the collaborative change programme, which is about funding and support mechanisms for local authorities. However, there is a blueprint on recycling and waste management that we subscribe to, and we hope local authorities will adopt that principle. It will be the game changer if we could get it established across the whole of the UK—the whole of Wales, sorry.
- Mae'r Aelod yn iawn i gydnabod cyfraddau llwyddiant awdurdodau lleol ledled Cymru. Erbyn hyn ni sydd â'r gyfradd ailgylchu orau ond tair drwy Ewrop gyfan, sy'n rhywbeth y dylem fod yn hynod falch ohono. Fodd bynnag, mae rhai awdurdodau lleol yn dal i frwydro ag egwyddor targedau dargyfeirio ac ailgylchu, ac mae'n rhywbeth y mae fy nhim yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w gyflawni. Rydym yn defnyddio'r rhaglen newid gydweithredol, sy'n ymwneud â chyllid a systemau cymorth i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae glasbrint ar ailgylchu a rheoli gwastraff yr ydym yn ei arddel, a gobeithiwn y bydd awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r egwyddor honno. Byddai'n newid byd pe gallwn ei sefydlu ar draws y DU gyfan—Cymru gyfan, mae'n ddrwg gennyf.
- 13:35 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you may be aware that Machynlleth recycling centre is closing soon, and there are fears in the local community that this will add to reduced rates of recycling and also fly-tipping. Is there anything the Welsh Government can do to allay these fears?
- Weinidog, efallai y gwyddoch y bydd canolfan ailgylchu Machynlleth yn cau cyn bo hir, ac mae ofn yn y gymuned leol y bydd hyn yn ychwanegu at gyfraddau ailgylchu is yn ogystal â thipio anghyfreithlon. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i dawelu'r ofnau hyn?

- 13:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, of course. If I was a local constituent, I would go straight to my councillor, and the Member, of course, is a member of Powys County Council. The issue is that he is a member of the council making these decisions on the principle of recycling; that is a matter for the local authority and all councillors who sit on that local authority.
- Wel, wrth gwrs. Pe bawn i'n un o'r etholwyr lleol, buaswn yn mynd yn syth at fy nghynghorydd, ac mae'r Aelod, wrth gwrs, yn aelod o Gyngor Sir Powys. Y broblem yw ei fod yn aelod o'r cyngor sy'n gwneud y penderfyniadau hyn ar egwyddor ailgylchu; mae hynny'n fater ar gyfer yr awdurdod lleol a phob cynghorydd sy'n aelod o'r awdurdod lleol hwnnw.
- 13:36 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydym yn gwybod bod degau o filoedd o dunelli o ddeunydd wedi ei ailgylchu yn cael ei allforio ar hyn o bryd. A allaf ofyn pa ymdrechion mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i sicrhau bod rhagor eto o allu o fewn Cymru—a chapasiti o fewn Cymru—i ailgylchu mwy, er mwyn i ni gael y budd yn economaidd allan o hynny hefyd?
- We know that tens of thousands of tonnes of materials that are recycled are currently exported. May I ask you what efforts the Welsh Government is making to ensure that there is yet more capacity within Wales in order to recycle more, so that we get the economic benefit from that?
- 13:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course; the Member is right to raise this very issue. I have asked my team for an update in terms of the end of life of all recyclates, and how best we can benefit from that. There is a great opportunity for local authorities to recycle and to gain income from that waste stream. It is something that, again, the blueprint encourages local authorities to do, and something that I am very keen to enhance.
- Wrth gwrs; mae'r Aelod yn iawn i godi'r mater hwn. Rwyf wedi gofyn i fy nhîm am ddiweddariad o ran diwedd oes deunyddiau eildro, a sut y gallwn elwa orau ar hynny. Mae cyfle gwych i awdurdodau lleol ailgylchu ac i ennill incwm o'r ffrwd wastraff honno. Mae'n rhywbeth y mae'r glasbrint, unwaith eto, yn annog awdurdodau lleol i'w wneud, ac yn rhywbeth yr wyf yn awyddus iawn i'w wella.
- 13:37 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Recycling rates, obviously, are on an upward trend, and that is good news. However, the recent fall in Cardiff, I think, shows that we cannot be complacent—on the figures, or on the public's ability to understand 22 different recycling systems across Wales. What preparatory work has been done regarding the merging and the simplifying of those systems, ahead of any council mergers, which will inevitably lead to further changes in household recycling collections?
- Mae cyfraddau ailgylchu, yn amlwg, yn dangos tueddiad ar i fyny, ac mae hynny'n newyddion da. Fodd bynnag, credaf fod y gostyngiad diweddar yng Nghaerdydd yn dangos na allwn fod yn hunanfodlon—ynglŷn â'r ffigurau, nac ynglŷn â gallu'r cyhoedd i ddeall 22 system ailgylchu wahanol ledled Cymru. Pa waith paratoi a wnaed ar uno a symleiddio'r systemau hynny, cyn uno unrhyw gynghorau, a fydd yn anochel yn arwain at newidiadau pellach o ran casglu deunydd ailgylchu o gartrefi?
- 13:37 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As I said in a previous debate on recycling, I do not think that we should have the issue of merger being a factor that will complicate these issues. There are already targets in place for local authorities to deliver on, and they are very successful. As for Cardiff, I have spoken to the authority. There were some circumstances that were beyond its control with regard to the way the targets were missed, unfortunately, last year, but it is something that it is committed to working with me on. Again, we all need to take ownership of the recycling agenda, and that includes Government, local authorities, and the people in the communities that we all represent.
- Fel y dywedais mewn dadl flaenorol ynghylch ailgylchu, nid wyf yn credu y dylem ystyried mater o uno yn ffactor a fydd yn cymhlethu'r materion hyn. Mae targedau eisoes ar waith i awdurdodau lleol eu cyflawni, ac maent yn llwyddiannus iawn. O ran Caerdydd, rwyf wedi siarad â'r awdurdod. Roedd rhai amgylchiadau a oedd y tu hwnt i'w reolaeth o ran y ffordd y methwyd â chyrraedd y targedau y llynedd, yn anffodus, ond mae'n rhywbeth y mae wedi ymrwymo i weithio arno gyda mi. Unwaith eto, mae angen i ni oll berchenogi'r agenda ailgylchu, ac mae hynny'n cynnwys y Llywodraeth, awdurdodau lleol, a phobl y cymunedau rydym yn eu cynrychioli.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

- 13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First this afternoon, we have Plaid Cymru—Llyr Gruffydd.
- Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym Blaid Cymru—Llyr Gruffydd.

- 13:38 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the First Minister, in his oral statement on the legislative programme back in July of this year, when mentioning the Planning (Wales) Bill, said that the Government wants communities to be able to influence how places grow and change. Do you not appreciate that, actually, there may be a danger that the proposals are moving to a more top-down structure, where you have local development plans that are beholden to strategic development plans, on a regional level, which, in turn, will be beholden to the national development framework, and that, actually, there is a danger that that community voice will be diminished?
- Weinidog, yn ei ddatganiad llafar ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn ôl ym mis Gorffennaf eleni wrth sôn am y Bil Cynllunio (Cymru), dywedodd y Prif Weinidog fod y Llywodraeth am i gymunedau allu dylanwadu ar sut y mae lleoedd yn tyfu a newid. A ydych yn derbyn y gallai fod perygl fod yr argymhellion mewn gwirionedd yn symud fwyfwy at strwythur o'r brig i lawr, lle mae gennyhych gynlluniau datblygu lleol sy'n ddyledus i gynlluniau datblygu strategol ar lefel ranbarthol, ac a fydd yn eu tro yn ddyledus i'r fframwaith datblygu cenedlaethol, a bod perygl y bydd llais cymunedol o'r fath yn cael ei wanhau?
- 13:39 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, I am grateful for the Member's question today. However, that is not the case, and is not what is happening within the planning Bill structure. Local development plans will absolutely be at the heart of communities, and the involvement that currently exists. The principle of strategic development plans, which will again be owned by local authorities across the strategic development area, will still relate to the local development plans that are created at the local level that the Member has concerns about. However, the democratic process is indeed very important to me, as well as to the communities that he represents, and that is something that we will continue to do, including in the planning Bill and the new framework powers that we will bring forward with that.
- Wrth gwrs, diolch am gwestiwn yr Aelod heddiw. Fodd bynnag, nid yw hynny'n wir, ac nid hynny sy'n digwydd o fewn strwythur y Bil cynllunio. Bydd cynlluniau datblygu lleol yn gwbl ganolog i gymunedau, a'r ymglymiad sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd egwyddor y cynlluniau datblygu strategol, a fydd unwaith eto'n eiddo i awdurdodau lleol ar draws yr ardal ddatblygu strategol, yn dal i ymwneud â'r cynlluniau datblygu lleol sy'n cael eu creu ar y lefel leol y mae gan yr Aelod bryderon yn eu cylch. Fodd bynnag, mae'r broses ddemocrataidd yn bwysig iawn i mi yn wir, yn ogystal ag i'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn parhau i'w wneud, yn cynnwys yn y Bil cynllunio a'r pwerau fframwaith newydd y byddwn yn eu cyflwyno gydag ef.
- 13:39 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- The panels that will be responsible for the strategic development plans, as outlined, will be made up of a third of elected members who would be representatives from various sectors. Would you consider adopting a model similar to the Scottish model, where anyone who is not democratically accountable—in other words, local councillors would form the strategic panel, but they would be allowed to co-opt non-voting members from other sectors?
- Bydd y paneli a fydd yn gyfrifol am y cynlluniau datblygu strategol, fel yr amlinellwyd, yn cynnwys traean o aelodau etholedig a fyddai'n gynrychiolwyr o wahanol sectorau. A fydech yn ystyried mabwysiadu model tebyg i fodel yr Alban, lle mae unrhyw un nad yw'n atebol yn ddemocrataidd—hynny yw, byddai cynghorwyr lleol yn ffurfio'r panel strategol, ond byddent â'r hawl i gyfethol aelodau heb bleidlais o sectorau eraill?
- 13:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes.
- Byddwn.
- 13:40 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you very much; that is positive. Again, in relation to the strategic development panels, is there not a danger, do you think, given that the latest betting, apparently, is for six local authorities in Wales, that those local planning authorities would be, in essence, more regional in their nature and that creating strategic development plans would be largely redundant by the time that we get there?
- Diolch yn fawr iawn; mae hynny'n gadarnhaol. Unwaith eto, mewn perthynas â'r paneli datblygu strategol, o ystyried bod y betio diweddaraf ar chwe awdurdod lleol yng Nghymru, mae'n debyg, a ydych chi'n credu y byddai'r awdurdodau cynllunio lleol hynny, yn eu hanfod, yn fwy rhanbarthol o ran eu natur ac y byddai creu cynlluniau datblygu strategol yn ddiangen i raddau helaeth erbyn yr adeg y cyrhaeddwn y fan honno?

- 13:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Indeed. The Bill is futureproof, we believe, in terms of legislation profile. We understand that any mergers or changes to the boundaries of local authorities will have no effect in terms of the way the planning Bill operates. In fact, the Member is absolutely right to suggest that larger local authorities will not need to have a strategic development plan, as they will, in essence, be a larger region in themselves, and therefore they will have created an LDP local to the region that they represent.
- Yn wir. Credwn fod y Bil yn ddiogel at y dyfodol o ran proffil y ddeddfwriaeth. Deallwn na fydd unrhyw uno neu newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol yn cael unrhyw effaith o ran y ffordd y mae'r Bil cynllunio yn gweithredu. Yn wir, mae'r Aelod yn llygad ei le i awgrymu na fydd angen i awdurdodau lleol mwy o faint gael cynllun datblygu strategol, gan y byddant, yn eu hanfod, yn rhanbarthau mwy o faint ynddynt eu hunain, ac felly byddant wedi creu Cynllun Datblygu a fydd yn lleol i'r rhanbarth y maent yn ei gynrychioli.
- 13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the opposition spokesperson—Antoinette Sandbach.
- Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid—Antoinette Sandbach.
- 13:41 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, this week you wrote to us regarding Ynni'r Fro, your community energy programme. According to the figures released in your letter, over £1 million of the current spend of just over £3 million had been spent on technical development officer support. Do you think that that has achieved value for money for the programme?
- Weinidog, yr wythnos hon ysgrifenasoch atom ynghylch Ynni'r Fro, eich rhaglen arbed ynni yn y gymuned. Yn ôl y ffigurau a ryddhawyd yn eich llythyr, gwariwyd dros £1 miliwn o'r gwariant presennol o ychydig dros £3 miliwn ar gefnogaeth swyddogion datblygu technegol. A ydych yn meddwl bod hynny wedi sicrhau gwerth am arian ar gyfer yr rhaglen?
- 13:41 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We make no apology for helping communities to help themselves on the issue of energy need. We think that this is a long-term project, starting to develop effectively and, of course, we will continue to work across the whole of Wales. There are 53 schemes in many of the constituencies that are represented by many Members in this Chamber and I am sure that it is welcome by most.
- Nid ydym yn ymddiheuro am helpu cymunedau i helpu eu hunain ar fater anghenion ynni. Credwn fod hwn yn brosiect hirdymor sy'n dechrau datblygu yn effeithiol ac wrth gwrs, byddwn yn parhau i weithio ledled Cymru gyfan. Mae 53 cynllun gan lawer o'r etholaethau a gynrychiolir gan nifer o Aelodau yn y Siambr hon ac ryw'n sicr bod hynny'n cael ei groesawu gan y rhan fwyaf.
- 13:42 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, of course, it was a long-term programme due to finish in March of next year. Only one community scheme has actually been built and that community scheme at Penllergaer in Swansea is being forced to be turned off regularly by Natural Resources Wales because of the impact that it is having on migratory salmon. It has been described by an insider as an ecological, financial and political disaster. Why, Minister, did your technical development officers, on which you have spent over £1 million, not pick up the problems of migratory salmon and the impact that they might have on a project that is now likely not to generate the electricity that you believed that it would?
- Weinidog, roedd yn rhaglen hirdymor, wrth gwrs, a oedd i ddod i ben ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf. Dim ond un cynllun cymunedol sydd wedi ei godi mewn gwirionedd ac mae'r cynllun cymunedol hwnnw ym Mhenlle'r-gaer yn Abertawe yn cael ei orfodi i ddiffodd yn rheolaidd gan Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd yr effaith y mae'n ei chael ar eogiaid mudol. Mae wedi ei ddisgrifio gan rywun ar y tu mewn fel trychineb ecolegol, ariannol a gwleidyddol. Weinidog, pam na sylwodd eich swyddogion datblygu technegol, y gwariasoch dros £1 miliwn arnynt, ar broblem eogiaid mudol a'r effaith y gallent ei chael ar brosiect sydd yn awr yn debygol o beidio â chynhyrchu'r trydan y credech y byddai'n ei gynhyrchu?
- 13:42 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I cannot help but recognise that the Member is not too fond of this scheme. The fact of the matter is that many communities are. There are 53 schemes in the pipeline that are due to be enabled. The Member does raise the very important issue that, to date, there is one scheme that has been enabled, but there are many more in the pipeline, so you cannot attribute that funding to just one scheme; there are many more in the pipeline that will deliver for the communities across Wales.
- Ni allaf ond sylwi nad yw'r Aelod yn rhy hoff o'r cynllun hwn. Y ffaith amdani yw bod llawer o gymunedau yn ei hoffi. Mae 53 cynllun ar y gweill i gael eu gweithredu. Coda'r Aelod fater pwysig iawn mai un cynllun sydd wedi'i weithredu hyd yma, ond mae llawer mwy ar y gweill, felly ni allwch briodoli'r cyllid hwnnw i un cynllun yn unig; mae llawer mwy ar y gweill a fydd yn darparu ar gyfer y cymunedau ledled Cymru.



The Member is right; when we are making an assessment of the use of an energy source, we should consider the issues of migratory salmon and other elements that should be considered in the business plan. I am not aware of that particular issue that the Member refers to, but the Member, with other colleagues in her party, appears with these 'insiders'; please ask them to come to see me because I am more than happy to have a conversation with them.

Mae'r Aelod yn iawn; pan fyddwn yn gwneud asesiad o ddefnydd ffynhonnell ynni, dylem ystyried materion eogiaid mudol ac elfennau eraill y dylid eu hystyried yn y cynllun busnes. Nid wyf yn ymwybodol o'r mater penodol y mae'r Aelod yn cyfeirio ato, ond mae'r Aelod, ynghyd â chydweithwyr eraill yn ei phlaid, i'w gweld gyda'r bobl hyn 'ar y tu mewn'; gofynnwch iddynt ddod i fy ngweld os gwelwch yn dda oherwydd rwy'n fwy na hapus i gael sgwrs â hwy.

13:43 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that if you ask your officials to look into the project or if you speak to NRW, you will find out that what I am suggesting to you is, in fact, correct and true.

Weinidog, rwy'n siŵr, pe baech chi'n gofyn i'ch swyddogion edrych i mewn i'r prosiect neu pe baech yn siarad â CNC, buasech yn cael gwybod bod yr hyn rwy'n ei ddweud yn gywir ac yn wir mewn gwirionedd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

In 2012, your predecessor, John Griffiths, suggested that 22 Ynni'r Fro-supported schemes were meant to have been completed by March 2015. Only three schemes are scheduled to be completed by March 2015. In your list of 50 projects, provided yesterday, with completion dates spanning between now and 2018, you indicated that some of these specific schemes may not see completion. How many, Minister, do you anticipate will not see completion and can you really stand there and say to the taxpayers of Wales that this scheme has provided value for money in these circumstances?

Yn 2012, awgrymodd eich rhagflaenydd, John Griffiths, fod 22 o gynlluniau a gâi eu cefnogi gan Ynni'r Fro, i'w cwblhau erbyn Mawrth 2015. Tri chynllun yn unig sy'n mynd i fod wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2015. Yn eich rhestr o 50 prosiect, a gafodd ei darparu ddoe, gyda dyddiadau cwblhau rhwng nawr a 2018, dywedasoch na fydd rhai o'r cynlluniau penodol hyn yn cael eu cwblhau. Weinidog, faint ohonynt y rhagwelwch na fyddant yn cael eu cwblhau ac a allwch chi sefyll yn y fan hon a dweud wrth drethdalwyr Cymru fod y cynllun hwn wedi darparu gwerth am arian o dan yr amgylchiadau hyn?

13:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely. There is generation happening; we are looking to the other schemes to complete. The Member clearly has a downer on community energy projects and that is a real disappointment because, actually, most of our communities across Wales will benefit from this programme and the investment of long-term energy opportunities for our communities. It is a shame that the Member does not also agree with us.

Yn bendant. Mae cynhyrchu'n digwydd; rydym yn edrych ar gwblhau'r cynlluniau eraill. Mae'n amlwg fod gan yr Aelod agwedd negyddol at brosiectau ynni cymunedol ac mae hynny'n siom oherwydd, mewn gwirionedd, bydd y rhan fwyaf o'n cymunedau ledled Cymru yn elwa o'r rhaglen hon ac o'r buddsoddiad mewn cyfleoedd ynni hirdymor ar gyfer ein cymunedau. Mae'n drueni nad yw'r Aelod yn cytuno gyda ni hefyd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Lywydd. Will the Deputy Minister make a statement on her recent visit to John Owen's upland farm in Conwy?

Diolch yn fawr, Lywydd. A wnaiff y Dirprwy Weinidog roi datganiad am ei hymweliad diweddar â fferm fynydd John Owen yng Nghonwy?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would be delighted to. I had a visit to the farm in Conwy just last Thursday. It was really productive. It was organised by the National Farmers' Union. The purpose of the meeting was to discuss the challenges facing upland hill farmers particularly. The Member will be aware that I am very limited in terms of what I can say with regard to that, because of the judicial review that is currently going on. However, the meeting was very productive.

Pleser fydd gwneud hynny. Ymwelais â'r fferm yng Nghonwy ddydd lau diwethaf. Roedd yn hynod gynhyrchiol. Cafodd yr ymweliad ei drefnu gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod yr heriau sy'n wynebu ffermwyr yr ucheldir yn arbennig. Bydd yr Aelod yn gwybod fy mod yn gyfyngedig iawn o ran yr hyn y gallaf ei ddweud ar hynny, oherwydd yr adolygiad barnwrol sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y cyfarfod yn gynhyrchiol iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:45

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to the Deputy Minister for that response. I am sure that Mr Owen, in his role as chairman of NFU Cymru's less favoured area board, did indeed take the opportunity to explain the constraints that he faces in his farming, and also the consequences of your predecessor's decision in terms of ending dedicated support to the uplands. However, without wishing to become something of a broken record, I think it is worth emphasising that EU rural development plan regulations do still allow the enactment of a differential strategy to support farmers who face those challenges. In that context, Deputy Minister, and given the fresh insights that you have gained during that visit, will you please give fresh impetus to efforts to address that, not through pillar 1, but through the RDP, so that these difficulties are alleviated for those farmers that face them?

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Dirprwy Weinidog am ei ymateb. Rwy'n sicr fod Mr Owen, yn ei rôl fel cadeirydd bwrdd ardal lai ffafriol NFU Cymru, wedi manteisio ar y cyfle i egluro'r cyfyngiadau y mae'n eu hwynebu wrth ffermio, a hefyd canlyniadau penderfyniad eich rhagflaenydd o ran dod â chymorth penodol i'r ucheldiroedd i ben. Fodd bynnag, heb geisio swnio fel record wedi torri, credaf ei bod yn werth pwysleisio bod rheoliadau cynllun datblygu gwledig yr UE yn dal i ganiatáu gweithredu strategaeth wahaniaethol i gefnogi ffermwyr sy'n wynebu'r heriau hynny. Yn y cyd-destun hwnnw, Ddirprwy Weinidog, ac o ystyried yr argraffiadau newydd a gawsom yn ystod yr ymweliad hwnnw, a wnewch chi roi hwb newydd i'r ymdrechion i fynd i'r afael â hynny, nid drwy golofn 1, ond drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, fel bod yr anawsterau hyn yn cael eu lliniaru ar gyfer y ffermwyr sy'n eu hwynebu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a result of that productive meeting that we had in John Owen's farm recently, I did arrange for my officials to have a round table discussion with the NFU to look specifically at what we can do under the RDP to help hill farmers in particular. I did, however, ask them to consider ideas that are not based on headage payments or area-based schemes, because part of the purpose behind our approach to reform of the common agricultural policy is to make a system that is fair and targets support at where it is most needed. Headage payments and area-based schemes do tend to be quite blunt instruments in terms of often giving extra money to people who are doing very well, and perhaps taking money out of the pot, then, that could be used for more constructive schemes that might be looked at, for example, sustainable production grants or making improvements to the supply chain, and so on. That meeting will take place shortly.

O ganlyniad i'r cyfarfod cynhyrchiol a gawsom ar fferm John Owen yn ddiweddar, trefnais i fy swyddogion gael trafodaeth o amgylch y bwrdd gyda'r NFU i edrych yn benodol ar yr hyn y gallwn ei wneud o dan y Cynllun Datblygu Gwledig i helpu ffermwyr mynydd yn arbennig. Fodd bynnag, gofynnais iddynt ystyried syniadau nad ydynt yn seiliedig ar daliadau y pen neu gynlluniau ar sail arwynebedd, oherwydd rhan o ddiben ein dull o ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin yw creu system sy'n deg ac sy'n targedu cymorth lle mae ei angen fwyaf. Mae taliadau y pen a chynlluniau sy'n seiliedig ar arwynebedd yn tueddu i fod yn offerynnau eithaf di-awch o ran eu bod yn aml yn rhoi arian ychwanegol i bobl sy'n gwneud yn dda iawn, ac efallai'n cymryd arian allan o'r pot y gellid ei ddefnyddio ar gyfer edrych ar gynlluniau mwy adeiladol, er enghraifft, grantiau cynhyrchu cynaliadwy neu wella'r gadwyn gyflenwi, ac yn y blaen. Bydd y cyfarfod hwnnw'n cael ei gynnal yn fuan.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you again, Deputy Minister, for that response. Another aspect that you have repeatedly emphasised as being important is seeking innovation in agriculture through the RDP. Last week saw the launch, under the interim chairmanship of Andrew R.T. Davies, of the cross-party group on shooting and conservation. As you will be aware, shooting currently accounts for some 2,900 jobs in Wales and contributes around £75 million to our gross value added. In that context, Deputy Minister, and with the stated intent that exists to develop further this sector, particularly in the Welsh uplands, what targets do you have to promote shooting and related conservation activities over the remainder of this Assembly term?

Diolch i chi unwaith eto am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. Agwedd arall rydych wedi rhoi pwyslais arni dro ar ôl tro yw ceisio arloesedd mewn amaethyddiaeth drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Yr wythnos diwethaf, lansiodd y grŵp trawsbleidiol ar saethu a chadwraeth o dan gadeiryddiaeth dros dro Andrew R.T. Davies. Fel y gwyddoch, mae saethu'n cynnal tua 2,900 o swyddi yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn cyfrannu tua £75 miliwn at ein gwerth ychwanegol gros. Yn y cyd-destun hwnnw, Ddirprwy Weinidog, a chydâ'r bwriad sydd wedi'i ddatgan i ddatblygu'r sector hwn ymhellach, yn enwedig ar ucheldiroedd Cymru, pa dargedau sydd gennych i hyrwyddo saethu a gweithgareddau cadwraeth cysylltiedig dros weddill tymor y Cynulliad hwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, the Minister for Natural Resources has overall responsibility for conservation, and he has obviously heard what you said. I am familiar with the British Association for Shooting and Conservation's report, which I think you referred to in the figures that you have quoted to me. I have received a copy of that report and I have read it.

Wel, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gadwraeth ac mae'n amlwg wedi clywed yr hyn a ddywedasoch. Rwy'n gyfarwydd ag adroddiad Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, yr adroddiad y cyfeirwyd ato gennych yn y ffigurau a ddyfynasoch. Rwyf wedi derbyn copi o'r adroddiad hwnnw ac rwyf wedi ei ddarllen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



I should say from the outset, really, that I am sensitive to the fact that there are a variety of views on this particular issue insofar as shooting sports are concerned, but, of course, any applications for funding from any group will be considered equally. I know that the British Association for Shooting and Conservation does have a productive relationship with Government in terms of the advice and information that it gives to us in responding to consultations, and so forth.

Dylwn ddweud o'r cychwyn, mewn gwirionedd, fy mod yn sensitif i'r ffaith fod yna amrywiaeth o safbwyntiau ar y mater penodol hwn i'r graddau y bo chwaraeon saethu dan sylw, ond wrth gwrs, bydd unrhyw geisiadau am gyllid gan unrhyw grŵp yn cael ystyriaeth gyfartal. Gwn fod gan Gymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain berthynas gynhyrchiol â'r Llywodraeth o ran y cyngor a'r wybodaeth y mae'n eu rhoi i ni wrth ymateb i ymgynghoriadau ac yn y blaen.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

We now move back to questions on the paper, and question 3 is from Gwenda Thomas.

Rydym yn awr yn symud yn ôl i'r cwestiynau ar y papur, ac mae cwestiwn 3 gan Gwenda Thomas.

## Glo Brig

## Opencast Mining

13:49 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

3. *A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sydd ar waith i sicrhau bod cwmnïau glo brig yn adfer y tir ar ôl cwblhau'r gwaith?* OAQ(4)0220(NR)

3. *Will the Minister outline what measures are in place to ensure that open cast mining companies reinstate the land at completion of operations?* OAQ(4)0220(NR)

13:49 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for Neath for her question. National planning policy on securing restoration is contained in 'Minerals Planning Policy Wales' and 'Minerals Technical Advice Note 2: Coal'. These documents describe the measures available.

Diolch i'r Aelod dros Gastell-nedd am ei chwestiwn. Mae polisi cynllunio cenedlaethol ar sicrhau gwaith adfer yn cael ei gynnwys yn 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo'. Mae'r dogfennau hyn yn disgrifio'r mesurau sydd ar gael.

13:49 **Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that response, Minister. There has been a hole in the ground of some description in the upper Amman Valley since 1948. Following application after application, and extension after extension after extension, we have reached the point where the current hole may be the final hole. There is now an application for the restoration of this site, which, as you are aware, Minister, I have asked to be called in. Many of my constituents have lived alongside, and have supported, the coaling operations throughout this time. Unfortunately, over recent years, the relationship between the operator, the landowner and the surrounding communities appears to have become unstuck. Minister, what discussions have you had with the opencast industry to persuade the operators to live up to their responsibility to be good neighbours, both during coaling and at the end of operations, and, specifically, to meet residents' expectation of the restoration of former sites?

Diolch i chi am eich ymateb, Weinidog. Mae twll yn y ddaear o ryw fath neu'i gilydd wedi bod yn Nyffryn Aman uchaf ers 1948. Yn dilyn cais ar ôl cais, ac estyniad ar ôl estyniad ar ôl estyniad, rydym wedi cyrraedd y pwynt lle mae'n bosibl mai'r twll presennol yw'r twll terfynol. Mae cais ar y gweill ar hyn o bryd i adfer y safle, ac fel y gwyddoch, Weinidog, rwyf wedi gofyn i gael fy ngalw i mewn ar y mater. Mae llawer o fy etholwyr wedi byw ochr yn ochr â'r gwaith cloddio ac wedi ei gefnogi drwy gydol y cyfnod hwn. Yn anffodus, dros y blynyddoedd diwethaf, ymddengys bod y berthynas rhwng y gweithredwr, perchennog y tir a'r cymunedau cyfagos wedi suro. Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch gyda'r diwydiant glo brig i berswadio'r gweithredwyr i gadw at eu cyfrifoldeb i fod yn gymdogion da yn ystod y cloddio ac ar ddiwedd y gwaith, ac yn benodol, i fodloni disgwyliadau trigolion o ran adfer hen safleoedd?

13:50

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for her question, and, if I may, Presiding Officer, without prejudice to any planning application before me or that has been made in the past, make some general comments with regard to opencast, I think that the Member is absolutely right that communities should be at the heart of the consideration of these determinations, recognising that many communities have been blighted by the landscape where the conditions of application have not been met, or, indeed, restoration has not occurred. I have recently received research on the issue across Wales on sites. I have met with the Coal Authority recently to ask it to provide me with some more details at the planning stages of understanding how this could operate better. However, it is something that I am aware of, and I know the Member and others in this Chamber make regular representation on this.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Lywydd, heb beryglu unrhyw gais cynllunio sydd ger fy mron neu a wnaed yn y gorffennol, hoffwn wneud rhai sylwadau cyffredinol mewn perthynas â glo brig. Rwy'n credu bod yr Aelod yn hollol gywir i ddweud y dylai cymunedau fod yn ganolog i'r ystyriaeth o'r penderfyniadau hyn, gan gydnabod bod llawer o gymunedau wedi cael eu handwyo gan y dirwedd lle na fodlonwyd amodau cais, neu'n wir, lle nad oes gwaith adfer wedi digwydd. Rwyf wedi derbyn ymchwil diweddar ar y mater ar safleoedd ledled Cymru. Rwyf wedi cyfarfod â'r Awdurdod Glo yn ddiweddar i ofyn iddo roi mwy o fanylion i mi ar y camau cynllunio er mwyn deall sut y gallai hyn weithredu'n well. Fodd bynnag, mae'n rhywbeth rwy'n ymwybodol ohono ac rwy'n gwybod bod yr Aelod ac eraill yn y Siambr hon yn gwneud sylwadau ar hyn yn gyson.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

**William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister will know that Celtic Energy, based in Caerphilly, has proposed restoration strategies for its particular opencast developments, which include replacing forestry plantations, reflecting the traditional use of the land, reinstating watercourses and improved public access. Are these exemplars that the Minister would endorse in all applications of this kind?

Bydd y Gweinidog yn gwybod bod Celtic Energy yng Nghaerffili wedi cynnig strategaethau adfer ar gyfer ei ddatblygiadau glo brig penodol, sy'n cynnwys planhigfeydd coedwigaeth i adlewyrchu'r defnydd traddodiadol o'r tir, adfer cyrsiau dŵr a gwell mynediad i'r cyhoedd. A yw'r rhain yn enghreifftiau y byddai'r Gweinidog yn eu cymeradwyo ym mhob cais o'r math hwn?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, if I may, I will just say this the once, Presiding Officer: this does not prejudice me in making any decisions I may make in the future regarding any application. The issue for me is ensuring that communities fully understand what the consequences are of coal extraction and how that will be completed at the end of the programme, regardless of the developer or regardless of area.

Unwaith eto, os caf i, ac unwaith yn unig y byddaf yn dweud hyn, Lywydd: nid yw hyn yn niweidio penderfyniadau y gallwn eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas ag unrhyw gais. Y mater i mi yw sicrhau bod cymunedau yn deall yn llwyr beth yw canlyniadau cloddio am lo a sut y bydd hynny'n cael ei gwblhau ar ddiwedd y rhaglen, pwy bynnag yw'r datblygwr ac ym mha ardal bynnag y mae.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, now that the court cases involving the directors of Celtic Energy and Oak Regeneration have been dismissed, I am wondering whether you can discuss the ramifications of these outcomes in this Chamber. If you read Mr Justice Hickinbottom's ruling on 18 February, you will see that it contains many worrying details of this alleged conspiracy. Setting aside the rights and wrongs of this case, how can your Government make sure that this does not happen again? You mention the report on the restoration of opencast sites, and I have sent you a lengthy response as to my suggestions. Minister, when will you be acting on this? I disagree that they are friendly neighbours. These opencast sites are a blight on our communities and we need to make sure that they are restored and that we do not have these holes appearing in other parts of Wales.

Weinidog, gan fod yr achosion llys a oedd yn ymwneud â chyfarwyddwyr Celtic Energy ac Oak Regeneration wedi cael eu gollwng, tybed a allwch chi drafod goblygiadau'r canlyniadau hyn yn y Siambr. Os darllenwch ddyfarniad Mr Justice Hickinbottom ar 18 Chwefror, gwelwch ei fod yn cynnwys llawer o fanylion sy'n peri pryder ynglŷn â'r cynllwyn honedig hwn. Gan osod y pethau cywir ac anghywir ynglŷn â'r achos hwn ar y naill ochr am nawr, sut y gall eich Llywodraeth sicrhau nad yw hyn yn digwydd eto? Rydych yn sôn am yr adroddiad ar adfer safleoedd glo brig, ac rwyf wedi anfon ymateb hirfaith atoch yn rhoi fy awgrymiadau. Weinidog, pryd y byddwch yn gweithredu ar hyn? Rwy'n anghytuno eu bod yn gymdogion cyfeillgar. Mae'r safleoedd glo brig hyn yn falltodd ar ein cymunedau ac mae angen i ni sicrhau eu bod yn cael eu hadfer ac nad yw'r tyllau hyn yn ymddangos mewn rhannau eraill o Gymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:53	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Well, of course, I will make the Chamber aware of my response to the document that we commissioned in terms of restoration. It is an important activity that does take place, but it has to be within the remit of being affordable at all stages, including extraction and restoration. That is something that I am keen on and my officials are giving me further advice on.</p>	<p>Wel, wrth gwrs, gwnaf yn siŵr fod y Siambr yn ymwybodol o fy ymateb i'r ddogfen a gomisiynwyd gennym o ran adfer y tir. Mae'n weithgarwch pwysig sydd yn digwydd, ond mae'n rhaid iddo ddogwydd o fewn cylch gwaith sy'n fforddiadwy ar bob cam, yn cynnwys cloddio ac adfer. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n awyddus i'w wneud ac mae fy swyddogion yn rhoi cyngor pellach i mi ar hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:53	<p><b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I agree with Bethan Jenkins on the fact that there are some serious questions around restoration, particularly in the pit in Margam, the Parc Slip pit, which is also a big hole, which is now filling up with water and therefore could pose a danger to local residents. What are you doing about helping local authorities? Whereas Celtic Energy may have said something about Caerphilly, it actually got rid of the problem by selling off that site to Oak Regeneration, and Oak Regeneration is now claiming that it has no money for restoration work and it is going to end up with a problem on that site. What are you going to do to help local authorities tackle the restoration issues, and, in future, are you going to ensure that bonds are in place to ensure that this situation does not arise anywhere else in Wales?</p>	<p>Weinidog, rwy'n cytuno â Bethan Jenkins ynglŷn â'r ffaith fod yna gwestiynau difrifol yn codi mewn perthynas ag adfer, yn enwedig yn y pwll ym Margam, pwll Parc Slip, sydd hefyd yn dwll mawr, ac sydd bellach yn llenwi â dŵr ac felly gallai fod yn beryglus i drigolion lleol. Beth ydych chi'n ei wneud i helpu awdurdodau lleol? Er y gallai Celtic Energy fod wedi dweud rhywbeth am Gaerffili, mae'n wir iddo gael gwared ar y broblem drwy werthu'r safle i Oak Regeneration, ac mae Oak Regeneration yn awr yn honni nad oes ganddo unrhyw arian ar gyfer gwaith adfer, sy'n mynd i arwain at broblem ar y safle hwnnw. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r materion adfer, ac yn y dyfodol, a ydych am sicrhau bod bondiau ar waith i sicrhau na fydd y sefyllfa hon yn digwydd yn unman arall yng Nghymru?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:54	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I think the Member raises an important issue around the bond process and how we can establish cash upfront, effectively, to give communities reassurance on the restoration profile of development. This is something that I am giving serious consideration to, but, again, I refer to my previous comments on specific applications, current or past.</p>	<p>Rwy'n credu bod yr Aelod yn codi mater pwysig ynglŷn â phroses bond a sut y gallwn bennu arian ymlaen llaw, i bob pwrpas, er mwyn rhoi sicrwydd i gymunedau ynghylch profiil adfer y datblygiad. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n rhoi ystyriaeth ddifrifol iddo, ond unwaith eto, cyfeiriai at fy sylwadau blaenorol ar geisiadau penodol, ar hyn o bryd neu yn y gorffennol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Stociau Sewin</b>		<b>Sewin Stocks</b>	
13:54	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddiogelu a chynyddu stociau sewin yn ein hafonydd? OAQ(4)0233(NR)</i></p>	<p><i>4. What steps is the Welsh Government taking to protect and increase sewin stocks in our rivers? OAQ(4)0233(NR)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:54	<p><b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for your question. Welsh Government provides funding to Natural Resources Wales to fulfil its statutory role to maintain, improve and develop fisheries.</p>	<p>Diolch i chi am eich cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid i Cyfoeth Naturiol Cymru allu cyflawni ei rôl statudol i gynnal, gwella a datblygu pysgodfeydd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:55	<b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Weinidog, yn draddodiadol, mae sewin wedi bod yn bysgodyn holl bwysig yn yr Afon Teifi, yn fy etholaeth i ac etholaethau eraill yn y fan hon, ac yn rhan o lwyddiant y clybiau pysgota ar hyd y Teifi. Yn 2002, cafodd 5,000 o sewin eu dal ar y Teifi, ond dim ond 1,500 yn 2013, ac, yn y cyfnod hwnnw, mae'r canran o 'catch and release' wedi tyfu'n sylweddol gan y clybiau pysgota. Mae pysgotwyr lleol wedi ysgrifennu adroddiad ar rai o resymau tu ôl i'r dirywiad poblogaeth hyn, yn cynnwys effaith pysgota gyda rhwydi ar y Teifi ar y niferoedd o sewin. Anfonaf gopi o'r adroddiad i chi, ond rwy'n gofyn i chi yn benodol i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu rhaglen 'proactive' ar afonnydd fel y Teifi i gynyddu'r stoc sewin i'r dyfodol.</p>	<p>Minister, traditionally, sewin has been a crucially important fish in the Teifi river, in my constituency and the constituencies of others in this Chamber, and part of the success of fishing clubs along that river. In 2002, 5,000 sewin were caught on the Teifi, but only 1,500 in 2013. In that period, the percentage of catch and release has increased significantly among the fishing clubs. Local fishermen have written a report on some of the reasons behind this population decline, including the impact of fishing with nets on the Teifi on the numbers of sewin. I will send you a copy of the report, but I ask you specifically to work with Natural Resources Wales in order to develop a proactive programme on our rivers, such as the Teifi, to increase the sewin stock for the future.</p>
13:55	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I share the concern of the Member about ensuring that we have a healthy population and improving in delivering fisheries wherever they are across Wales. It is something that I will be speaking further about with Natural Resources Wales to see how we can enhance our river stocks and, of course, protect species where they need to be protected.</p>	<p>Rwy'n rhannu pryder yr Aelod ynglŷn â sicrhau fod gennym niferoedd iach a'n bod yn gwella o ran darpariaeth pysgodfeydd ble bynnag y maent yng Nghymru. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod ymhellach gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i weld sut y gallwn wella ein stociau afonydd a diogelu rhywogaethau lle mae angen eu diogelu, wrth gwrs.</p>
13:56	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, last month, a release of water from Llys y Frân reservoir in my constituency was arranged for the eastern Cleddau river. I understand that it was the first time that the fisheries water bank has been used to help fish stocks in the Cleddau. In light of this release, what projected outcome does the Welsh Government anticipate seeing in relation to sewin stocks in the eastern Cleddau, and, indeed, in rivers across Wales?</p>	<p>Weinidog, fis diwethaf, trefnwyd y buasai dŵr o gronfa ddŵr Llys y Frân yn fy etholaeth yn cael ei ryddhau i afon Cleddau Ddu. Deallaf mai dyma'r tro cyntaf i glawdd dŵr y pysgodfeydd gael ei ddefnyddio i helpu stociau pysgod yn afon Cleddau. Yn sgîl y datganiad hwn, pa ganlyniad y mae Llywodraeth Cymru yn ei ragweld mewn perthynas â stociau sewin yn afon Cleddau Ddu, ac yn wir, mewn afonydd ledled Cymru?</p>
13:56	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I do not have any detail in response to the Member's question today, but I will write to the Member with any further details I may have.</p>	<p>Nid oes gennyf unrhyw fanylion mewn ymateb i gwestiwn yr Aelod heddiw, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gydag unrhyw fanylion pellach y gallwn eu cael.</p>
	<b>EIDCymru</b>	<b>EIDCymru</b>
13:56	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>5. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau ymgynghoriad EIDCymru? OAQ(4)0228(NR)</p>	<p>5. Will the Minister provide an update on the outcome of the EIDCymru consultation? OAQ(4)0228(NR)</p>
13:57	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I have issued a written statement today detailing the outcome of the EIDCymru and slaughter derogation consultation. This includes details of the timetable for implementation of EIDCymru.</p>	<p>Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig heddiw yn manylu ar ganlyniad ymgynghoriad EIDCymru a llacio'r rheolau lladd. Mae'n cynnwys manylion yr amserlen ar gyfer gweithredu EIDCymru.</p>

13:57

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n siŵr bod y ffermwyr yn ddiolchgar iawn am y datganiad y bore yma. A gaf ofyn i chi a oes unrhyw bryderon ynglŷn â'r oedi am ryw flwyddyn? Ni fydd y gyfundrefn hon yn weithredol tan fis Ionawr 2016. Felly, a oes pryderon ynglŷn â'r oedi, yn arbennig felly o ran materion trawsffiniol, lle mae llawer iawn o ffermwyr yn y gogledd yn mynd i farchnadoedd yn Lloegr, a'r ffordd arall rownd? Mae'r system hon wedi bod yn weithredol am rai blynyddoedd erbyn hyn yn Lloegr. A gaf hefyd ofyn i chi os ydych yn barod i roi ryw fath o addewid heddiw, o ran argymhellion 'Working Smarter', y byddech yn gweithredu'r rheiny ar gyfer y system newydd hon, achos mae nifer yn pryderu, achos nad yw'r systemau electronig yn hollol ddiabynnadwy, bydd lot o waith papur i ffermwyr gwblhau?

I am sure that farmers will be very grateful for this morning's statement. May I ask you whether there are any concerns about the delay of around a year? This regime will not be implemented until January 2016. So, are there any concerns about those delays, particularly in terms of cross-border issues, where many farmers in north Wales go to market in England, and vice versa? The system has been in operation for some years now in England. May I also ask you whether you are willing to give some sort of pledge today that the 'Working Smarter' recommendations will be implemented for this new system, because many are concerned that, because the electronic systems are not entirely reliable, there is a great deal of paperwork that farmers will have to complete?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those questions. As you will know, the Department for Environment, Food and Rural Affairs introduced the animal reporting and movement service, ARAMS, system for sheep movement in England. Actually, it has been useful that it went ahead before us because we have been able to learn significant lessons from its experience: in particular, that we need to have adequate time for user acceptance and user testing of the system. My officials are working closely with colleagues in AFFA and DEFRA and the Scottish Government to ensure that links are established to capture those cross-border movements. England and Wales are seeking similar outcomes, but we are developing, as you say, our independent systems. However, officials are working closely with DEFRA and its contractor SouthWestern to ensure that the systems can exchange the relevant data in recognition of those important cross-border issues. With regard to the timetable, it is a priority of mine to deliver on EIDCymru for a number of reasons, not least because it is a European Commission requirement on us to do so and, as you said, it was recommendation 37 in Gareth Williams's 'Working Smarter' report as well. Also, as we seek to open up new markets, improved traceability of our produce is going to become increasingly important in future. We have a livestock identification advisory stakeholder group, and it is its role, really, to advise Government on the pace as we move forward. However, it is a priority of mine to do so.

Diolch am y cwestiynau. Fel y gwyrddoch, cyflwynodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig system y gwasanaeth adrodd a symud anifeiliaid, ARAMS, ar gyfer symud defaid yn Lloegr. Mewn gwirionedd, roedd yn ddefnyddiol fod Lloegr wedi cyflwyno'r system o'n blaenau gan i ni allu dysgu gwersi pwysig o'u profiad: yn benodol, fod angen digon o amser arnom er mwyn i ddefnyddwyr allu derbyn a phrofi'r system. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Physgodfeydd, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth yr Alban i sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu creu ar gyfer casglu gwybodaeth am y symudiadau trawsffiniol hynny. Mae Cymru a Lloegr yn edrych am ganlyniadau tebyg, ond fel y dywedwch, rydym yn datblygu ein systemau annibynnol. Fodd bynnag, mae swyddogion yn gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'i gontractwr SouthWestern i sicrhau bod y systemau'n gallu cyfnewid y data perthnasol i gydnabod y materion trawsffiniol pwysig hynny. O ran yr amserlen, mae'n flaenoriaeth gennyf i gyflawni EIDCymru am nifer o resymau, yn bennaf oherwydd bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny ac fel y dywedasoch, dyna oedd argymhelliad 37 yn adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' Gareth Williams hefyd. Wrth i ni geisio agor marchnadoedd newydd, mae gwella ein gallu i olrhain ein cynnyrch yn mynd i ddod yn gynyddol bwysig yn y dyfodol. Mae gennym grŵp cynghori rhanddeiliaid ar adnabod da byw, a'i rôl, mewn gwirionedd, yw cynghori'r Llywodraeth ar gynnal cyflymder wrth i ni symud ymlaen. Fodd bynnag, mae'n flaenoriaeth gennyf i wneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

With regard to IT compatibility, the Welsh Government will be providing the necessary codes to all flock management system companies, when we have them, to try to ensure that there is a smooth move to the new system.

O ran cydweddoldeb TG, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r codau angenrheidiol i bob cwmni system rheoli diadell, pan fyddant gennym, i geisio sicrhau ein bod yn symud yn llyfn i'r system newydd.

13:59

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, for your previous answer. In light of there being a new European Commissioner responsible for agriculture, has the Welsh Government considered readdressing the issue of tolerance levels for EIDCymru with the European Commission?

Diolch am eich ateb, Ddirprwy Weinidog. O ystyried bod yna Gomisiynydd Ewropeaidd newydd yn gyfrifol am amaethyddiaeth, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried ailedrych ar fater lefelau goddefiant ar gyfer EIDCymru gyda'r Comisiwn Ewropeaidd?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:00

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The situation currently is that no tolerance will apply in Wales. If I were to allow tolerance, I would be putting the Welsh Government and our individual farming businesses at risk, because the European Commission has made its views on this up to now very clear.

Looking ahead, the establishment of EIDCymru will help strengthen our management information systems, and where there are problems and issues, we can certainly use them as a body of evidence to take to the European Commission for discussion and negotiation on the way forward. I have already asked the farming industry in Wales to share its experiences with me, so that we are able to have that body of evidence to take to our discussions with the European Commission. However, when I have the meeting with the new Commissioner, it could be something that we discuss.

Y sefyllfa ar hyn o bryd yw na fydd unrhyw oddefiant yn gymwys yng Nghymru. Pe bawn yn caniatáu goddefiant, byddwn yn rhoi Llywodraeth Cymru a'n busnesau ffermio unigol mewn perygl, am fod y Comisiwn Ewropeaidd wedi gwneud ei farn ar hyn yn glir iawn hyd yma.

Yn y dyfodol, bydd sefydlu EIDCymru yn helpu i gryfhau ein systemau gwybodaeth rheoli, a lle bydd problemau a materion yn codi, gallwn yn sicr eu defnyddio fel corff o dystiolaeth i'w gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd ei drafod a chytuno ar y ffordd ymlaen. Rwyf eisoes wedi gofyn i'r diwydiant ffermio yng Nghymru rannu ei brofiadau gyda mi, er mwyn i ni allu cael y corff hwnnw o dystiolaeth i'w gyflwyno yn ein trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, pan fyddaf yn cael y cyfarfod gyda'r Comisiynydd newydd, gallai fod yn rhywbeth y byddwn yn ei drafod.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n croesawu'r datganiad y bore yma. Rydym wedi bod yn aros ers mis Mai am hwn, wrth gwrs. Un o'r pethau sydd ddim yn y datganiad, serch hynny, yw unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r cyfnod adrodd. Byddwch chi'n gwybod, yn yr ymgynghoriad, roedd pobl yn bryderus iawn eich bod yn newid y cyfnod adrodd o dri diwrnod i ddiwrnod yn unig, sef 24 awr. A ydych chi wedi gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cyfnod hwnnw y tu fewn i EIDCymru?

I welcome the statement this morning. We have been waiting since May for this, of course. One thing that is not in the statement, however, is any decision as regards the reporting period. You will know, in the consultation, that people were very concerned about the fact that you are changing the reporting period from three days to one day, namely 24 hours. Have you made a decision about that period as part of EIDCymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The decision on that has not yet been made, but I will be making that decision in consultation with the advisory group, to which I previously referred.

Nid yw'r penderfyniad ar hynny wedi cael ei wneud eto, ond byddaf yn gwneud y penderfyniad hwnnw mewn ymgynghoriad â'r grŵp cynghori, y grŵp y cyfeiriais ato eisoes.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cynhyrchu Ynni

## Energy Production

14:01

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisi cynllunio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chynhyrchu ynni? OAQ(4)0225(NR)*

*6. Will the Minister outline the Welsh Government's planning policy in relation to energy production? OAQ(4)0225(NR)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Planning policies relating to energy production can be found in 'Planning Policy Wales', 'Minerals Planning Policy Wales' and the associated technical advice notes.

Gellir dod o hyd i bolisiau cynllunio sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni yn 'Polisi Cynllunio Cymru', 'Polisi Cynllunio Mwynau Cymru' a'r nodiadau cyngor technegol cysylltiedig.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



14:01	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Thanks. While 'Planning Policy Wales' does not contain specific policies relating to solar farms, it does include general planning about the encouragement of renewable energy sources and the protection of the highest quality agricultural land. However, as you will be aware, Deeside solar park was approved, despite the loss of 109 ha of best and most versatile agricultural land and the proximity of alternative brownfield land. Now, the proposed Trench Farm solar farm planning application near Wrexham would cover 54 acres of heritage greenbelt land, affecting trees, wildlife and woodland walks. How, therefore, do you respond to the statement by the UK environment Secretary, Liz Truss, that the benefits of solar farms do not outweigh the destruction of agricultural land?</p>	<p>Diolch. Er nad yw 'Polisi Cynllunio Cymru' yn cynnwys polisiau penodol sy'n berthnasol i ffermydd solar, mae'n cynnwys cynllunio cyffredinol ar gyfer annog ffynonellau ynni adnewyddadwy a diogelu tir amaethyddol o'r ansawdd uchaf. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, cafodd parc solar Glannau Dyfrdwy ei gymeradwyo, er gwaethaf colli 109 ha o'r tir amaethyddol gorau a mwyaf hyblyg ac agosrwydd tir llwyd amgen. Yn awr, bydd cais cynllunio arfaethedig fferm solar Trench Farm ger Wrecsam yn cynnwys 54 o erwau o dir treftadaeth llain las, sy'n effeithio ar goed, bywyd gwylt a llwybrau cerdded mewn coetiroedd. Felly, sut rydych yn ymateb i'r datganiad gan Ysgrifennydd Amgylchedd y DU, Liz Truss, sy'n dweud nad yw manteision ffermydd solar yn gorbwysu'r dinistr i dir amaethyddol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:02	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Actually, planning policy is to do with Wales and not England, and we have our own planning Minister. That is called 'devolution'. I have tried to meet the relevant Minister with regard to interests that we may have, but, to date, she has not been able to meet with us.</p> <p>Let me just say that, in regard to the specific application, it is a matter for the local planning authority or Planning Inspectorate Wales. It is not a matter for me at this point.</p>	<p>A dweud y gwir, mae polisi cynllunio'n ymwneud â Chymru, nid Lloegr, ac mae gennym ein Gweinidog cynllunio ein hunain. Gelwir hynny'n 'ddatganoli'. Rwyf wedi ceisio cyfarfod â'r Gweinidog perthnasol mewn perthynas â buddiannau a allai fod gennym, ond hyd yn hyn, nid yw hi wedi gallu cyfarfod â ni.</p> <p>O ran y cais penodol, gadewch i mi ddweud mai mater i'r awdurdod cynllunio lleol neu Arolygiaeth Cynllunio Cymru ydyw. Nid yw'n fater i mi ar y pwynt hwn.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<b>Mick Antoniw</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Minister, would you agree with me that not only should resources underground be subject to planning in Wales but that the issue of licences to extract should also be a matter that is devolved to Welsh authority?</p>	<p>Weinidog, a fydddech yn cytuno â mi nid yn unig y dylai adnoddau tanddaearol fod yn destun polisi cynllunio yng Nghymru ond y dylai mater trwyddedau i'w cloddio fod yn fater wedi ei ddatganoli i Gymru hefyd?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>I would subscribe to the issue that the Member raises, as it is an important one. The Silk commission, obviously, is in consideration around energy consents and that may be, of course, something for further debate with the First Minister and the relevant parties in Westminster.</p>	<p>Buaswn yn cytuno â'r hyn y mae'r Aelod yn ei godi, gan ei fod yn un pwysig. Yn amlwg, mae Comisiwn Silk yn ystyried caniatâd ynni a gallai hynny fod yn rhywbeth i'w drafod ymhellach gyda'r Prif Weinidog a'r pleidiau perthnasol yn San Steffan, wrth gwrs.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<b>Alun Ffred Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>Yn y gwledydd ar y cyfandir lle mae ynni adnewyddadwy yn llwyddo ac yn boblogaidd, mae cynlluniau cymunedol yn ffurfio canran uchel iawn o'r cyflenwyr. Pam, felly, nad yw Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod amod cynllunio ar bob cynllun ynni adnewyddadwy sy'n sicrhau budd i'r gymuned leol?</p>	<p>On the continent, in those countries where renewable energy is successful and popular, community schemes form a very high percentage of suppliers. Why, then, does the Welsh Government not make it a planning condition for all renewable energy schemes that they benefit the local community?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:03	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<p>The issue is microgeneration and support for communities, and schemes such as the Ynni'r Fro scheme are popular with most, apart from one Member on the opposite bench. The fact is that we are very positive in investing Welsh Government funds in communities. Of course, what we do not want to do is be too prescriptive on planning applications, ensuring that community ownership is the key to the development of local communities.</p>	<p>Y mater yw microgynhyrchu a chymorth i gymunedau, ac mae cynlluniau megis cynllun Ynni'r Fro yn boblogaidd gyda'r rhan fwyaf o bobl, ar wahân i un Aelod ar y fainc gyferbyn. Y ffaith yw ein bod yn gadarnhaol iawn yn buddsoddi arian Llywodraeth Cymru yn y cymunedau. Wrth gwrs, yr hyn nad ydym eisiau ei wneud yw bod yn rhy ragnodol ynghylch ceisiadau cynllunio, gan sicrhau mai perchnogaeth gymunedol yw'r allwedd i ddatblygu cymunedau lleol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:04

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, I recently met with a company in my constituency keen to diversify its business and use a by-product to create energy via biomass. Utility companies have said that there is no capacity to export that energy into the grid, because holding capacity is pending planning applications in other parts of the county—applications that I believe are unlikely to succeed, because they are not in line with local or national planning policy, yet they could take years to resolve. What discussions can you have with relevant utility companies and Westminster Government officials to improve this system so that viable projects are not held up because of unviable planning applications?

Weinidog, cyfarfûm yn ddiweddar â chwmni yn fy etholaeth sy'n awyddus i arallgyfeirio ei fusnes a defnyddio sgil-gynnyrch i greu ynni drwy fïomas. Mae cwmnïau cyfleustodau wedi dweud nad oes capasiti i allforio'r ynni hwnnw i'r grid, gan fod y capasiti dal yn dibynnu ar ganlyniadau ceisiadau cynllunio mewn rhannau eraill o'r sir—ceisiadau sy'n annhebygol o lwyddo yn fy marn i gan nad ydynt yn unol â pholisi cynllunio lleol neu genedlaethol, ac eto gallent gymryd blynyddoedd i'w datrys. Pa drafodaethau y gallwch chi eu cael gyda chwmnïau cyfleustodau perthnasol a swyddogion Llywodraeth San Steffan i wella'r system hon fel nad yw prosiectau hyfyw yn cael eu dal yn ôl oherwydd ceisiadau cynllunio annichonadwy?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member raises an important point. I would be very interested in the detail of the scheme she refers to. If she could drop a line to me with that detail, I will take a look at that for her.

Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig. Buasai gennyf ddiddordeb mawr ym manylion y cynllun y mae hi'n cyfeirio ato. Pe gallai anfon gair ataf gyda'r manylion hynny, edrychaf ar hynny iddi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, mae Llywodraeth San Steffan yn rhuthro tuag at echdynnu nwy siâl fel pe bai'n rhywbeth sy'n mynd i achub y dydd lle mae ynni yn y cwestiwn. Rwy'n credu bod llawer o waith i'w wneud i sefydlu ffracio fel proses ddiogel, yn enwedig pan mae wedi ei gymhwyso yng Nghymoedd de Cymru. Gwnaeth eich rhagflaenydd hefyd ddynodi y dylai unrhyw gais fod ar sail tystiolaeth gadarn, felly a fydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau cynllunio ar gyfer unrhyw gais ffracio, ac a fyddwch hefyd yn cyflwyno moratorium nes bod tystiolaeth ddiogel wedi ei sefydlu?

Minister, the Westminster Government is rushing towards shale gas extraction as though it were something that was going to save the day where energy is concerned. I believe that there is a great deal of work to be done before establishing fracking as a safe process, particularly when applied to the south Wales Valleys. Your predecessor also stated that any application should be on the basis of strong evidence, and so will the Welsh Government be introducing planning guidance for any fracking applications, and will you also introduce a moratorium until reliable evidence has been provided?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we are taking a precautionary approach to this whole process and, again, as previously by my colleague, we take all applications on merit, as appropriate. The reality of this issue is that the UK Government is responsible for the policy on unconventional gas exploitation, and it is its responsibility to grant petroleum exploration and development licences that allow for the exploration of the resource. As Mick Antoniw raised earlier, this is about whether we have the powers to make those decisions or whether, as is, the UK Government has those decision-making powers.

Wel, mae gennym agwedd ragofalus tuag at y broses hon yn ei chyfanrwydd ac unwaith eto, fel fy nghydweithiwr yn flaenorol, rydym yn ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant, fel sy'n briodol. Realiti'r mater yw mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y polisi ar ddatblygu nwy anghonfensiynol a chyfrifoldeb y Llywodraeth yw rhoi trwyddedau chwilio a datblygu petrolewm sy'n caniatáu i bobl ddatblygu'r adnodd. Fel y dywedodd Mick Antoniw yn gynharach, mae hyn yn ymwneud â pha un a oes gennym bwerau i wneud y penderfyniadau hyn neu, fel y mae hi, ai Llywodraeth y DU sydd â'r pwerau hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Bywyd Gwyllt yng Nghymru**

**Welsh Wildlife**

14:06

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am warchod bywyd gwyllt yng Nghymru? OAQ(4)0223(NR)*

*7. Will the Minister make a statement on the protection of Welsh wildlife? OAQ(4)0223(NR)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the Member's question. I will be launching my vision and action plan for biodiversity, the nature recovery plan for Wales, next year, following the current consultation, which closes on 3 December.

Diolch i chi am gwestiwn yr Aelod. Byddaf yn lansio fy nghynllun gweledigaeth a gweithredu ar fioamrywiaeth, cynllun adfer natur Cymru, y flwyddyn nesaf, yn dilyn yr ymgynghoriad presennol, sy'n dod i ben ar 3 Rhagfyr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:06 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will be aware of the Scottish Parliament's species champions initiative, whereby individual Members of the Scottish Parliament adopt or develop an affinity with certain species. For example, Minister, you might see yourself as the red kite soaring majestically above us, the Tory spokesman might identify with the red squirrel, itself with an invasive species threatening it, and perhaps the Lib Dems' spokesperson, a hedgehog, which is also becoming an endangered species. [Laughter.] The initiative seems to me to be one that has captured the public imagination. Do you think that there is room for an initiative such as this in Wales?
- Weinidog, byddwch yn gwybod am fenter hyrwyddwyr rhywogaethau Senedd yr Alban, lle mae Aelodau unigol o Senedd yr Alban yn mabwysiadu neu'n datblygu cysylltiad â rhywogaethau penodol. Er enghraifft, Weinidog, efallai y gwelwch eich hun fel y barcud coch yn hedfan yn urddasol uwchben, efallai y byddai llefarydd y Toriaid yn uniaethu â'r wiwer goch, sydd â rhywogaeth oresgynnol yn ei bygwth, a llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, efallai, yn ddraenog, sydd hefyd dod yn rhywogaeth mewn perygl. [Chwerthin.] I mi, mae'r fenter i'w gweld yn un sydd wedi dal dychymyg y cyhoedd. A gredwch fod lle i fenter fel hon yng Nghymru?
- 14:07 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member is very kind in his assumption of my being a red kite. The issue is one of merit. I will give that further consideration in the development of the nature recovery plan, but we are looking more at the principle of habitats, as opposed to species. The Member makes a very valid point, and we will look at it carefully.
- Mae'r Aelod yn garedig iawn yn ei dybiaeth fy mai barcud coch ydw i. Mae'r mater yn un teilwng. Byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn wrth ddatblygu'r cynllun adfer natur, ond rydym yn edrych mwy ar egwyddor cynefinoedd, yn hytrach na rhywogaethau. Mae'r Aelod yn gwneud pwynt dilys iawn, a byddwn yn edrych arno'n ofalus.
- 14:07 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there have been a number of sightings over the years of big cats in the Welsh countryside. [Laughter.] I wonder what research the Welsh Government may have commissioned on the subject of big cats, and the threat that they might pose to native wildlife species.
- Weinidog, mae nifer wedi gweld cathod mawr yng nghefn gwlad Cymru dros y blynyddoedd. [Chwerthin.] Tybed pa ymchwil y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ei gomisiynu ar gathod mawr a'u bygythiad posibl i rywogaethau bywyd gwyllt brodorol.
- 14:08 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- None. [Laughter.]
- Dim. [Chwerthin.]
- 14:08 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I believe in the big cat.
- Wel, Rwy'n credu yn y gath fawr.
- Minister, the recent DEFRA-commissioned study into snares estimates that, depending on the time of year, up to 50,000 fox snares are set in Wales alone. The legislation governing the use of snares is some 30 years old, and I am sure that you share my concerns about the welfare of wild animals and the frequent examples we see of domestic pets being injured by them. Will you undertake to review this legislation, or do you currently think it adequate?
- Weinidog, mae'r astudiaeth ddiweddar a gomisiynwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar faglau yn amcangyfrif bod hyd at 50,000 o faglau llwynogod, yn dibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn, yn cael eu gosod yng Nghymru'n unig. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r defnydd o faglau tua 30 mlwydd oed, ac rwy'n siŵr eich bod yn rhannu fy mhryderon ynglŷn â lles anifeiliaid gwyllt a'r enghreifftiau mynych a welwn o anifeiliaid anwes yn cael eu hanafu ganddynt. A wnech chi ymrwymo i adolygu'r ddeddfwriaeth hon, neu a ydych yn credu ei bod yn ddigonol ar hyn o bryd?
- 14:08 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I think that the Member is right to raise this issue. It is about the protection of wildlife species, and where snares are misused or ill placed, that is inappropriate and is something that I will give consideration to with my Deputy Minister.
- Credaf fod yr Aelod yn iawn i godi'r mater hwn. Mae'n ymwneud â gwarchod rhywogaethau bywyd gwyllt, a lle caiff maglau eu camddefnyddio neu eu gosod yn y mannau anghywir, mae hynny'n amhriodol ac yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried gyda fy Nirprwy Weinidog.

## Trechu Tlodi Tanwydd

## Tackling Fuel Poverty

14:09	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>8. A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â threchu tlodi tanwydd? OAQ(4)0226(NR)</i>	<i>8. Will the Minister outline the Welsh Government's priorities in tackling fuel poverty? OAQ(4)0226(NR)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:09	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The Welsh Government is committed to tackling fuel poverty, and we are doing this through our energy efficiency programmes, which include Nest and Arbed.	Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, ac rydym yn gwneud hyn drwy ein rhaglenni effeithlonrwydd ynni, sy'n cynnwys Nyth ac Arbed.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:09	<b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> How will you engage—and I hope you will—with the Bevan Foundation regarding its comments to the Communities, Equality and Local Government Committee two weeks ago:  ‘that fuel poverty should have a higher profile in the tackling poverty action plan, because it is a fundamental human need to have a warm home....One of the things that we have flagged up in that is the relatively small impact of the Nest programme against the scale of the problem....Our suggestion is that fuel poverty should be brought more centre stage?’	Sut y byddwch yn ymgysylltu—ac rwy'n gobeithio y byddwch chi—â Sefydliad Bevan ynglŷn â'i sylwadau i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol bythefnos yn ôl a ddywedodd:  ‘dylai tlodi tanwydd gael proffil uwch yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi, oherwydd mae cêl cartref cynnes yn angen dynol sylfaenol... Un o'r pethau rydym wedi tynnu sylw atynt yn hynny yw effaith gymharol fach y rhaglen Nyth o gymharu â maint y broblem... Ein hawgrym ni yw y dylai tlodi tanwydd fod yn fwy canolog?’	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:09	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am grateful for the Member's view and for that of the third party, but let me outline that the Welsh Government's fuel poverty strategy was published in 2010. It sets out key actions that we will be taking to tackle fuel poverty, which include improving the energy efficiency of homes and low-income households. Since publishing the strategy, we have significantly increased our investment, and Nest and Arbed are two very successful schemes running through Wales, with over 9,000 homes across Wales being invested in as part of our energy efficiency programme.	Diolch i'r Aelod am ei farn ac am farn y trydydd parti, ond gadewch i mi ddweud bod strategaeth tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru wedi cael ei chyhoeddi yn 2010. Mae'n nodi camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, sy'n cynnwys gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi ac aelwydydd incwm isel. Ers cyhoeddi'r strategaeth, rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad yn sylweddol, ac mae Nyth ac Arbed yn ddau gynllun llwyddiannus iawn sy'n digwydd drwy Gymru, gan fuddsoddi mewn 9,000 a mwy o gartrefi ledled Cymru fel rhan o'n rhaglen effeithlonrwydd ynni.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:10	<b>Mike Hedges</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Will the Minister join me in recognising the important work being done by Communities First in supporting residents to get the best deal on fuel?	A wnaiff y Gweinidog ategu fy nghydnabyddiaeth o'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud gan Cymunedau yn Gyntaf yn cynorthwyo preswylwyr i gael y fargen orau ar danwydd?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:10	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Elements like Communities First, in helping local residents to secure energy through the best deal collectively, is something that we would welcome. Again, departments across Government are working together to ensure that we can roll this best practice out across Wales.	Mae elfennau fel Cymunedau yn Gyntaf, sy'n helpu trigolion lleol i gael ynni drwy sicrhau'r fargen orau gyda'i gilydd, yn rhywbeth y byddem yn ei groesawu. Unwaith eto, mae adrannau ar draws y Llywodraeth yn cydweithio i sicrhau ein bod yn gallu cyflwyno'r arfer gorau hwn ledled Cymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:10	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Weinidog, rydych wedi cyfeirio at Nest fel prosiect sy'n hynod lwyddiannus. Sut ydych chi'n ymateb, felly, i'r amcangyfrif yn adroddiad Bevan ar dlodi y bydd yn cymryd 78 o flynyddoedd i Nest gyrraedd pob un cartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd yng Nghymru?	Minister, you have referred to Nest as a very successful project. How do you respond, therefore, to the estimate in the Bevan report on poverty that it will take 78 years for Nest to reach each and every home suffering from fuel poverty in Wales?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

- 14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am disappointed by the fact that it will take so long with regard to achieving success. However, what you can be assured of is that this Labour Welsh Government will ensure that we tackle the issues around poverty in our most deprived areas first, working with communities for communities, not as they are doing in London: changing or moving the goalposts in terms of measuring poverty as a whole.
- Rwyf wedi fy siomi gan y ffaith y bydd yn cymryd cymaint o amser i lwyddo. Fodd bynnag, gallwch fod yn sicr y bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â thlodi yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn gyntaf, gan weithio gyda chymunedau ar ran y cymunedau hynny, nid fel y maent yn ei wneud yn Llundain: newid y dulliau o fesur tldi yn ei gyfarwydd.
- 14:11 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Can the Minister confirm his support for an energy price freeze as a vital first step in tackling fuel poverty? Does he agree with me that, despite the rubbing of this policy by Plaid last week, their support for our amendment has at least shown them to be more progressive than their Westminster counterparts?
- A all y Gweinidog gadarnhau ei gefnogaeth i rewi prisiau ynni fel cam cyntaf hanfodol ar gyfer trechu tldi tanwydd? A yw'n cytuno â mi, er bod Plaid Cymru wedi lladd ar y polisi hwn yr wythnos diwethaf, fod eu cefnogaeth i'n gwelliant o leiaf wedi dangos eu bod yn fwy blaengar na'u cymheiriaid yn San Steffan?
- 14:11 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful for the Member's question, of course. As the Labour administration in Westminster, London and across the UK has said, if it comes into power in the next general election, there will be a fuel price freeze, which is something that we subscribed to in a vote only the other week, although unfortunately not supported by the Conservative group opposite.
- Diolch am gwestiwn yr Aelod, wrth gwrs. Fel y mae'r weinyddiaeth Lafur yn San Steffan, Llundain a ledled y DU wedi dweud, os daw i rym yn yr etholiad cyffredinol nesaf, bydd prisiau tanwydd yn cael eu rhewi, sy'n rhywbeth rydym newydd ei gefnogi mewn pleidlais yr wythnos o'r blaen, er na chafodd ei gefnogi gan y grŵp Ceidwadol gyferbyn, yn anffodus.

## Cyfathrebu Brys (Achosion Iechyd Anifeiliaid)

## Emergency Communications (Animal Health Incidents)

- 14:12 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithdrefnau cyfathrebu brys ar gyfer achosion iechyd anifeiliaid? OAQ(4)0232(NR)*
- 9. Will the Minister make a statement on emergency communications procedures for animal health incidents? OAQ(4)0232(NR)*
- 14:12 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Communications procedures are explained in the 'Welsh Government Contingency Plan for Exotic Animal Diseases 2014', which was updated and re-published last month. This includes updating the Welsh Government website, issuing ministerial statements and press notices, and using social media.
- Mae gweithdrefnau cyfathrebu'n cael eu hesbonio yng nghynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddau egrotig mewn anifeiliaid 2014, a gafodd ei ddiweddarau a'i ailgyhoeddi fis diwethaf. Mae'n cynnwys diweddarau gwefan Llywodraeth Cymru, cyhoeddi datganiadau gweinidogol a hysbysiadau'r wasg, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- 14:12 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Deputy Minister, for that response. Also, thank you for the meeting that you gave to me and to the other spokespeople just last week on the current avian flu outbreak in Yorkshire and its potential implications for us here in Wales. It is abundantly clear that a coherent communications strategy is, of course, essential when we are dealing with incidents of this kind. We saw that as long ago as 2001, during the original foot-and-mouth disease incident, and then subsequently also how important that is. In the context of this, Deputy Minister, to what extent do you think it necessary to further integrate the communications systems that exist with local authorities in Wales into Welsh Government, to have a more seamless approach, particularly given the potential turbulence that could result from local government reorganisation?
- Diolch am eich ymateb, Ddirprwy Weindog. Hefyd, diolch i chi am gyfarfod â mi a'r llefarwyr eraill yr wythnos diwethaf i drafod yr achosion o ffliw adar yn Swydd Efrog ar hyn o bryd a'r goblygiadau posibl i ni yma yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'n gwbl amlwg fod strategaeth gyfathrebu gydlynol yn hanfodol pan fyddwn yn ymdrin â digwyddiadau o'r math hwn. Gwelsom mor bwysig yw hynny mor bell yn ôl â 2001 yn ystod yr achosion gwreiddiol o glwy'r traed a'r genau, ac ar ôl hynny hefyd. Yn y cyd-destun hwn, Ddirprwy Weindog, i ba raddau rydych chi'n credu bod angen integreiddio'r systemau cyfathrebu sy'n bodoli gydag awdurdodau lleol yng Nghymru ymhellach yn Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau dull mwy di-dor, yn enwedig o ystyried y cynnwrf posibl a allai ddeillio o ad-drefnu llywodraeth leol?

14:13	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Well, that question, I suppose, relates back to the contingency plan and the way in which local authorities are integral to that. I think that local authorities, when there is an outbreak of animal disease, are integral in terms of providing advice on the ground, but I think that more important, almost, are the roles of individual veterinarians in terms of advising the farmers they work with, and the wildlife groups and so forth. I will certainly bear this in mind and give it some further consideration.</p>	<p>Wel, mae'r cwestiwn hwnnw, mae'n debyg, yn gysylltiedig â'r cynllun wrth gefn a'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn rhan annatod o hynny. Pan welir achosion o glefyd anifeiliaid, rwy'n credu bod awdurdodau lleol yn rhan annatod o'r broses o ddarparu cyngor ar lawr gwlad, ond rwy'n credu bod rolau milfeddygon unigol yn bwysicach, bron, o ran cynghori'r ffermwyr y maent yn gweithio gyda hwy, a'r grwpiau bywyd gwyllt ac yn y blaen. Byddaf yn sicrhau y cadw hyn mewn cof ac yn ei ystyried ymhellach.</p>
14:14	<b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p><i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>Deputy Minister, thank you for updating us on the updating of the website, ministerial statements et cetera, but what efforts are made by the Government to rehearse these communications? When a major incident occurs—and I cast my mind back to the foot-and-mouth disease outbreak—obviously there was a plethora of organisations involved, from the police to local authorities, from central Government here to voluntary organisations and unions, all of which came together. That is a huge organisational project, leave alone the routes of communication required to pull everyone together. So, what type of rehearsals are undertaken by Government to see that these procedures work in practice, rather than waiting for the actual events to happen on the ground, which none of us wants to see again in Wales?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, diolch i chi am roi gwybod i ni ynghylch diweddarau'r wefan, datganiadau gweinidogol ac yn y blaen, ond pa ymdrechion a wneir gan y Llywodraeth i ymarfer y cyfathrebiadau hyn? Pan fydd digwyddiad mawr yn digwydd—ac rwy'n cofio'r achosion o glwy'r traed a'r genau—yn amlwg roedd llu o sefydliadau'n gysylltiedig, o'r heddlu i awdurdodau lleol, o'r Llywodraeth ganolog yma i sefydliadau gwirfoddol a'r undebau, a daeth pawb o'r rhain at ei gilydd. Mae hynny'n brosiect gweithdrefnol enfawr, heb sôn am y llwybrau cyfathrebu roedd eu hangen i dynnu pawb at ei gilydd. Felly, pa fath o ymarferion y mae'r Llywodraeth yn eu cynnal i sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn gweithio'n ymarferol, yn hytrach nag aros i'r digwyddiadau go iawn ddigwydd ar lawr gwlad, rhywbeth nad oes yr un ohonom am ei weld eto yng Nghymru?</p>
14:14	<b>Rebecca Evans</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>We do have tests, or rehearsals, on a Wales basis but also on a UK basis, because we know that animal diseases do not respect boundaries, if you like. The next large-scale rehearsal is due towards the end of next year.</p>	<p>Mae gennym brofion, neu ymarferion, ar sail Cymru yn ogystal ag ar sail y DU, oherwydd gwyddom nad yw clefydau anifeiliaid yn parhau ffiniau, os mynnwch. Mae'r ymarfer nesaf ar raddfa fawr i fod i ddigwydd tua diwedd y flwyddyn nesaf.</p>
	<b>Prosiectau Ynni Cymunedol Adnewyddadwy</b>	<b>Renewable Community Energy Projects</b>
14:15	<b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p><i>10. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddatblygu prosiectau ynni cymunedol adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(4)0230(NR)</i></p>	<p><i>10. What plans does the Minister have to develop renewable community energy projects in Wales? OAQ(4)0230(NR)</i></p>
14:15	<b>Carl Sargeant</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>The Welsh Government is committed to the development of community-led renewable energy projects after the current Ynni'r Fro scheme ends in March 2015.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n cael eu harwain gan y gymuned ar ôl i gynllun cyfredol Ynni'r Fro ddod i ben ym mis Mawrth 2015.</p>
14:15	<b>Julie Morgan</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>I thank the Minister for that response. I am sure the Minister is aware of the radical changes they have made in Germany to their energy production, with a huge increase in renewables from 6% in 2000 to 20% in 2011 and the aim of getting to 35% by 2020. Does he agree that if Wales is to develop renewables in that sort of way, it is a long-term process and it is very important that we sow the seeds now, working with local communities?</p>	<p>Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Rwy'n siŵr bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r newidiadau radical y maent wedi ei wneud yn yr Almaen ym maes cynhyrchu ynni, gyda chynnydd enfawr mewn ynni adnewyddadwy o 6% yn 2000 i 20% yn 2011 a'r nod yw cyrraedd 35% erbyn 2020. Os yw Cymru i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn y ffordd honno, a yw'n cytuno ei bod yn broses hirdymor a'i bod yn bwysig iawn i ni hau'r hadau yn awr, gan weithio gyda chymunedau lleol?</p>



- 14:15 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Indeed. The Member raises a very important issue. I am very keen to learn from the experiences of our European partners in developing schemes in order to develop them with communities in Wales. The Member is also right to say that this is about the catalyst to change. The Ynni'r Fro scheme is that very scheme where we are investing in our communities, learning lots from the difficulties and challenges faced in planning and the demographics of such a change. However, it is about being positive and having the opportunity to make those changes with communities for communities.
- Yn wir. Mae'r Aelod yn codi mater pwysig iawn. Rwy'n awyddus iawn i ddysgu o brofiadau ein partneriaid Ewropeaidd o ran llunio cynlluniau i'w datblygu gyda chymunedau yng Nghymru. Mae'r Aelod hefyd yn iawn i ddweud bod hyn yn ymwneud â'r catalydd i newid. Cynllun Ynni'r Fro yw'r union gynllun lle rydym yn buddsoddi yn ein cymunedau, yn dysgu llawer o'r anawsterau a'r heriau a wynebwr wrth gynllunio a demograffeg newid o'r fath. Fodd bynnag, mae'n ymwneud â bod yn gadarnhaol a chael cyfle i wneud y newidiadau hynny gyda chymunedau ar ran y cymunedau.
- 14:16 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you, Minister. Well, of course, the projects in Germany require connection to a smart network. One of the barriers, not just to communities but to individuals taking up renewable energy schemes, is the connection costs that they are required to pay, and particularly the connection costs if you are to measure your contribution in electricity generation. Minister, what discussions have you had to look at those costs and to see how much of a barrier that is proving to be to take-up? In fact, do you have any evidence from Ynni'r Fro itself that that is proving a barrier to take-up?
- Diolch i chi, Weinidog. Wel, wrth gwrs, mae'r prosiectau yn yr Almaen yn galw am gysylltiad â rhwydwaith clyfar. Un o'r rhwystrau, nid yn unig i gymunedau ond i unigolion sy'n ymwneud â chynlluniau ynni adnewyddadwy, yw'r costau cysylltu sydd angen eu talu, ac yn arbennig y costau cysylltu os ydych am fesur eich cyfraniad cynhyrchu trydan. Weinidog, pa drafodaethau a gawsoch i edrych ar y costau hynny ac i weld faint o rwystr yw hynny i'r nifer sy'n ymuno â'r cynlluniau? Yn wir, a oes gennych unrhyw dystiolaeth gan Ynni'r Fro ei hun fod hynny'n rhwystr o gwbl?
- 14:16 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- I have tasked my team to start looking at energy generation in terms of opportunities and new projects that could be brought forward. This is something that I will update the Chamber on when I have further details, Presiding Officer.
- Rwyf wedi gofyn i fy nhim i ddechrau edrych ar gynhyrchu ynni o ran cyfleoedd a phrosiectau newydd y gellid eu cyflwyno. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr yn ei gylich pan fydd gennyf fwy o fanylion, Lywydd.
- 14:17 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- In my constituency, in Treforest, there is a hydro project that is reaching the middle stages of development, and one of the complications is, of course, the degree of real expertise in finance and corporate matters that these trusts often need in order to become a reality. What level of support of that type is available to these projects?
- Yn fy etholaeth i, yn Nhrefforest, mae yna brosiect ynni dŵr sy'n cyrraedd camau canol ei ddatblygiad, ac un o'r cymhlethdodau, wrth gwrs, yw'r radd o arbenigedd go iawn sydd ei angen yn aml ar yr ymddiriedolaethau hyn yn maes cyllid a materion corfforaethol cyn gallu bodoli. Pa lefel o gefnogaeth o'r math hwnnw sydd ar gael i'r prosiectau hyn?
- 14:17 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- The Treforest group can access the full support of specialist technical development officers through the Welsh Government's Ynni'r Fro scheme. The development officer will be able to explain to the group the whole process of developing a hydro project of this kind. It will also be given help to access preparatory grant funding of up to £30,000, should it wish to pursue that programme and be a valid programme in which to invest.
- Gall grŵp Treforest gael cymorth llawn gan swyddogion datblygu technegol arbenigol drwy gynllun Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru. Bydd y swyddog datblygu yn gallu esbonio'r broses gyfan o ddatblygu prosiect ynni dŵr o'r math hwn i'r grŵp. Hefyd, mae cymorth ar gael i'r grŵp gael gafael ar hyd at £30,000 o gyllid grant paratoadol os yw'n dymuno dilyn y rhaglen honno a'i bod yn rhaglen ddilys i fuddsoddi ynddi.
- 14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo Video](#)
- Thank you, Minister. I call Russell George on a point of order.
- Diolch i chi, Weinidog. Galwaf ar Russell George ar bwynt o drefn.

14:18 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Thank you, Presiding Officer. In his answer to my question in relation to question 2, the Minister suggested that a local resident of Machynlleth could contact me as their local county councillor. I am not a county councillor for Machynlleth and it is wrong to suggest that a resident could contact me to make representations on their behalf in this regard. Neither am I a member of the council's executive or Cabinet, which make decisions on council matters.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi, Lywydd. Yn ei ateb i fy nghwestiwn mewn perthynas â chwestiwn 2, awgrymodd y Gweinidog y gallai un o drigolion lleol Machynlleth gysylltu â mi fel eu cynghorydd sir lleol. Nid wyf yn gynghorydd sir dros Fachynlleth ac mae'n anghywir i awgrymu y gallai preswlydd gysylltu â mi i gyflwyno sylwadau ar ei ran yn hyn o beth. Nid wyf i ychwaith yn aelod o weithrediaeth y cyngor na'r Cabinet, sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion y cyngor.

I am grateful to you for allowing me to point out the Minister's error and to put this on the record.

Diolch i chi am ganiatáu i mi dynnu sylw at wall y Gweinidog ac i roi hyn yn y cofnod.

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am sorry; do not expand it too much. That was not a point of order. That was a point of information and I am sure the Minister heard what you said.

Mae'n ddrwg gennyf; peidiwch â'i ehangu ormod. Nid oedd hwnnw'n bwynt o drefn. Roedd yn bwynt o wybodaeth ac rwy'n siŵr fod y Gweinidog wedi clywed yr hyn a ddywedaso.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

### Effaith Diwygio Lles yn Nhorfaen

## Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty

### The Impact of Welfare Reform in Torfaen

14:18 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith diwygio lles yn Nhorfaen? OAQ(4)0260(CTP)*

*1. Will the Minister make a statement on the impact of welfare reform in Torfaen? OAQ(4)0260(CTP)*

14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

We estimate the UK Government's welfare reforms will reduce annual benefit and tax credit entitlements in Torfaen by £30 million in 2015-16. Although losses will vary depending on individual circumstances, the average annual loss per working-age adult in Torfaen is estimated to be £540.

Rydym yn amcangyfrif y bydd diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn tocio £30 miliwn oddi ar hawliau budd-daliadau a chredyd treth blyneddol yn Nhorfaen yn 2015-16. Er y bydd y colledion yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, amcangyfrifir y bydd y golled gyfartalog flynyddol i oedolyn o oedran gweithio yn Nhorfaen yn £540.

14:19 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thanks, Minister, for those very sobering figures. You will recall that, during the welfare reform debate yesterday, I raised the situation where the local authority in Torfaen is spending £352,000 annually on discretionary housing payments, yet only receives a grant of £244,000 from the Department for Work and Pensions. Now, I understand that the shortfall is currently met by a mixture of funding from Welsh Government and is topped up by the local authority, and, as we know, local authorities are under huge pressures because of UK Government funding cuts. Will you commit to working closely with Torfaen and other authorities facing this kind of shortfall? Will you also make it clear to the Treasury that it is unacceptable for councils like Torfaen to be short-changed in this way, particularly as there are some authorities that are failing to spend their full allocation?

Diolch am y ffigurau sobreiddiol iawn hynny, Weinidog. Byddwch yn cofio, yn ystod y ddatl ar ddiwygio lles ddoe, fy mod wedi disgrifio sefyllfa lle mae'r awdurdod lleol yn Nhorfaen yn gwario £352,000 yn flynyddol ar daliadau tai yn ôl disgrisiwn, ac eto ond yn cael grant o £244,000 o'r Adran Gwaith a Phensiynau. Yn awr, rwy'n deall bod cyfuniad o gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r gweddill gan yr awdurdod lleol yn gwneud iawn am y diffyg ar hyn o bryd, ac fel y gwyddom, mae awdurdodau lleol o dan bwysau enfawr oherwydd toriadau cyllid Llywodraeth y DU. A wnewch chi ymrwmo i weithio'n agos gyda Thorfaen ac awdurdodau eraill sy'n wynebu'r math hwn o ddiffyg? A wnewch chi hefyd ei gwneud yn glir i'r Trysorlys nad yw'n dderbyniol fod cynghorau megis Torfaen yn colli arian yn modd hwn, yn enwedig gan fod rhai awdurdodau yn methu â gwario eu dyraniad llawn?

- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, certainly, I will. I do have concerns regarding the inconsistencies in the discretionary housing payment system. My officials are working very closely with the UK Government and Welsh local authorities to agree a discretionary housing payment framework. That would really help things along because it would give applicants as fair and consistent a decision as possible, because some elements of it are very unfair. It will make decisions that are designed to improve outcomes for people and it will help those who are making an effort to help themselves in the first place. So, absolutely, I give you that commitment.
- Gwnaf, rwy'n siŵr o wneud. Mae gennyf bryderon ynghylch yr anghysondebau yn y system daliadau tai yn ôl disgrisiwn. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos iawn gyda Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gytuno ar fframwaith taliadau tai yn ôl disgrisiwn. Byddai hwnnw'n help mawr gan y byddai'n rhoi penderfyniad mor deg a chyson â phosibl i'r rhai sy'n gwneud cais amdano, gan fod rhai elfennau ohono'n annheg iawn. Bydd yn gwneud penderfyniadau wedi eu llunio ar gyfer gwella canlyniadau i bobl a bydd yn helpu'r rhai sy'n gwneud ymdrech i helpu eu hunain yn y lle cyntaf. Felly, yn bendant, rwy'n rhoi'r ymrwymiad hwnnw i chi.
- 14:20 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, the UK Government has made nearly £8 million available to local authorities in Wales in discretionary housing payments, including £244,000 to Torfaen alone to help people affected by the removal of the spare room subsidy. Given that almost two thirds of councils in the United Kingdom spent less than they were allocated in DHP last year, what action has the Minister taken to ensure that councils in Wales are making full and effective use of this funding?
- Weinidog, mae Llywodraeth y DU wedi rhyddhau tua £8 miliwn i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn taliadau tai yn ôl disgrisiwn, yn cynnwys £244,000 i Dorfaen yn unig i helpu pobl sydd wedi'u heffeithio yn sgîl diddymu'r cymhorthdal ystafell sbâr. O ystyried bod bron i ddwy ran o dair o'r cynghorau yn y Deyrnas Unedig wedi gwario llai nag a ddyrannwyd iddynt o daliadau tai yn ôl disgrisiwn y llynedd, pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod cynghorau yng Nghymru yn gwneud defnydd llawn ac effeithiol o'r arian hwn?
- 14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, the funding they have given is not enough and what they really need to do is get rid of the bedroom tax.
- Yn amlwg, nid yw'r cyllid y maent wedi'i roi yn ddigon a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud mewn gwirionedd yw cael gwared ar y dreth ystafell wely.
- 14:21 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I could not agree more, Minister. We are only about a third of the way into the UK Government's austerity measures. So, there is much more pain to come. Those least culpable for the financial crisis are being punished the most. The Supporting People programme clearly demonstrates its value by helping the most vulnerable to not become homeless. Of course, that also saves money. In Torfaen, the council can demonstrate that it made a saving of £1,940 to health and social care for just one service user because of the help from the Supporting People team. Will you reconsider the £10 million budget cut that you proposed to this scheme?
- Rwy'n cytuno'n llwyr, Weinidog. Tua un rhan o dair o'r ffordd yn unig i mewn i fesurau caledi Llywodraeth y DU ydym ni. Felly, mae llawer mwy o boen i ddod. Y rheiny sydd i'w beio leiaf am yr argyfwng ariannol sy'n cael eu cosbi fwyaf. Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn dangos ei gwerth yn glir drwy helpu'r rhai mwyaf agored i niwed i osgoi mynd yn ddigartref. Wrth gwrs, mae hynny hefyd yn arbed arian. Yn Nhorfaen, gall y cyngor ddangos ei fod wedi arbed £1,940 i iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer un defnyddiwr gwasanaeth yn unig oherwydd y cymorth gan y tîm Cefnogi Pobl. A wnech chi ailystyried eich toriad arfaethedig o £10 miliwn yng nghyllideb y cynllun hwn?
- 14:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, as a Welsh Government, we have had to make some very difficult decisions. Within my portfolio, I probably have the four biggest spending programmes, of which Supporting People is one. Decisions taken in previous years have helped cushion the effect of the cut this year for the Supporting People programme. I am having discussions; I was at a mother and baby hostel in Cardiff yesterday morning and it was obviously something that they wanted to discuss with me. We need to help them all we can to manage the cut in the programme and for it not to affect the front-line service. Clearly, local authorities are having to make difficult decisions too.
- Yn amlwg, fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn. Yn ôl pob tebyg, yn fy mhorthfolio i y mae'r pedair rhaglen lle ceir y gwariant mwyaf, ac mae Cefnogi Pobl yn un ohonynt. Mae penderfyniadau a wnaed mewn blynyddoedd a fu wedi helpu i liniaru effaith y toriad eleni ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl. Rwy'n cael trafodaethau; roeddwn mewn hostel ar gyfer mamau a'u babanod yng Nghaerdydd fore ddoe ac roedd yn amlwg yn rhywbeth roeddent am ei drafod gyda mi. Mae angen i ni wneud popeth yn ein gallu i'w helpu i reoli'r toriad yn y rhaglen a sicrhau nad yw'n effeithio ar wasanaeth y rheng flaen. Yn amlwg, mae awdurdodau lleol yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd hefyd.

## Materion Cydraddoldeb a Thlodi

## Equality Issues and Poverty

14:22 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cysylltiad rhwng materion cydraddoldeb a thlodi? OAQ(4)0258(CTP)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*2. Will the Minister make a statement on the link between equality issues and poverty? OAQ(4)0258(CTP)*

14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Certain groups are more at risk of living in poverty, including disabled people, women, certain ethnic minority groups, lone parents, and young people not in employment, education and training. Our tackling poverty action plan and strategic equality plan include commitments to improve outcomes for those individuals with protected characteristics.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae rhai grwpiau yn wynebu mwy o risg o fyw mewn tlodi, yn cynnwys pobl anabl, menywod, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, unig rieni, a phobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi a'n cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnwys ymrwymadau i wella canlyniadau i unigolion â nodweddion gwarchoddedig.

14:23 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
I thank you for that answer, Minister, but recent analysis by the Equality and Human Rights Commission does confirm what we suspect—that Tory-led tax and benefit changes have hit some groups much harder than others. Families with disabled members have lost the most. Women have lost more than men, and ethnic minority groups for various reasons have been disproportionately hit too. In short, the more you earn, the less you have lost, while more low-income families, women and minority groups have been tipped into poverty. Minister, as the universal credit roll-out creeps on, what more can our Welsh Government do to counter the UK Government's sustained economic attack on those people? How is it working to identify and support those disproportionately hit by these discriminatory austerity policies?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog, ond mae dadansoddiad diweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cadarnhau ein hamheuon—bod newidiadau i drethi a budd-daliadau o dan y Toriaid wedi effeithio ar rai grwpiau yn waeth nag eraill. Teuluoedd ag aelodau anabl sydd wedi colli fwyaf. Mae menywod wedi colli mwy na dynion, a grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi cael eu taro i raddau anghymesur am wahanol resymau hefyd. Yn gryno, po fwyaf rydych yn ei ennill, y lleiaf rydych wedi ei gollu, ac mae mwy o deuluoedd incwm isel, menywod a grwpiau lleiafrifol wedi eu gwneud yn dlawd. Weinidog, wrth i ni barhau i gyflwyno credyd cynhwysol, beth arall y gall ein Llywodraeth yng Nghymru ei wneud i wrthsefyll ymosodiad economaidd parhaus Llywodraeth y DU ar y bobl hyn? Sut y mae'n gweithio i nodi a chynorthwyo'r bobl sy'n cael eu taro i raddau anghymesur gan y polisiâu caledi gwahaniaethol hyn?

14:24 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
As we set out yesterday in the debate we had on welfare reform in Plenary, despite the challenges we are all facing, you can be absolutely assured that, as a Government, we will continue to mitigate the impact of the UK Government's changes where we can by using the levers we do have available. I highlighted yesterday advice services. We have put an extra £2 million into advice services. We cannot plug all the gaps. I think that I made that very clear yesterday. We have also undertaken some research, which Members will be aware of. With a few exceptions, the reforms we have assessed tend to adversely affect more females than males, for instance, and we know that non-working lone-parent households, again most of whom are female, are among those households that have seen the largest income losses from the reforms.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Fel y nodwyd gennym ddoe yn y ddatl a gawsom ar ddiwygio lles yn y Cyfarfod Llawn, er gwaethaf yr heriau rydym i gyd yn eu hwynebu, gallwch fod yn sicr y byddwn, fel Llywodraeth, yn parhau i liniaru effaith newidiadau Llywodraeth y DU lle y gallwn drwy ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael i ni. Ddoe, tynnais sylw at wasanaethau cynghori. Rydym wedi rhoi £2 filiwn ychwanegol i wasanaethau cynghori. Ni allwn lenwi'r holl fylchau. Credaf fy mod wedi gwneud hynny yn berffaith glir ddoe. Hefyd, rydym wedi gwneud gwaith ymchwil y bydd yr Aelodau'n ymwybodol ohono. Gydag ychydig o eithriadau, mae'r diwygiadau rydym wedi'u hasesu yn tueddu i gael effaith niweidiol ar fwy o fenywod na dynion, er enghraifft. Gwyddom fod teuluoedd un rhiant nad ydynt yn gweithio, y mwyafrif ohonynt yn fenywod unwaith eto, ymhlith yr aelwydydd sydd wedi colli fwyaf o incwm o ganlyniad i'r diwygiadau.

14:25 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the social mobility commission annual report recently revealed that 26% of children who receive free school meals will go on to get five good GCSEs in Wales, compared with 38% in England. Given that every child should have equal access to study, what is the Welsh Government doing to stop poverty being a barrier to achieving good qualifications in Wales?

Weinidog, dangosodd adroddiad blynyddol y comisiwn symudedd cymdeithasol yn ddiweddar mai 26% o'r plant sy'n cael prydau ysgol am ddim sy'n mynd ymlaen i gael pump TGAU da yng Nghymru, o'i gymharu â 38% yn Lloegr. O ystyried y dylai pob plentyn gael mynediad cyfartal i astudio, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i atal tlodi rhag bod yn rhwystr i ennill cymwysterau da yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We do a great deal of work in our most deprived communities, particularly where there are children involved. You will be aware that the child poverty strategy is currently out to consultation. Within that, we have to look at new areas of poverty that, perhaps, we had not thought about back in 2011—food poverty being one and in-work poverty being another. However, we know that free school meals are a very important aspect of tackling child poverty.

Rydym yn gwneud llawer iawn o waith yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, yn enwedig gyda phlant. Gwyddoch fod y strategaeth dlodi plant ar hyn o bryd yn destun ymgynghori. O fewn hynny, mae'n rhaid i ni edrych ar feysydd tlodi newydd nad oeddem efallai wedi meddwl amdanynt yn ôl yn 2011—tlodi bwyd yn un a thlodi mewn gwaith yn un arall. Fodd bynnag, gwyddom fod prydau ysgol am ddim yn agwedd bwysig iawn o drechu tlodi plant.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will know that Lansbury Park, or the St James ward, has today been recognised as the most deprived ward in Wales—ironically, it is a ward in the constituency of your predecessor, the local Member for Caerphilly. In your press response, you mention 'stubborn poverty' and that there are programmes in place, such as Communities First and Flying Start. These are all good programmes, but you will know that there is a high percentage of the unemployed, those with disabilities, single parents and the elderly there, many on low incomes. What is your Government doing to target those wards during the austerity cuts, and how will you obtain well-paid jobs, which are the real answer to inequality and poverty?

Weinidog, gwyddoch fod Parc Lansbury, neu ward St James, wedi cael ei chydnabod heddiw fel y ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru—yn eironig, ward yn etholaeth eich rhagflaenydd, yr Aelod Lleol dros Gaerffili, yw hi. Yn eich ymateb i'r wasg, rydych yn sôn am 'dlodi ystyfnig' a bod rhaglenni ar waith, megis Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae'r rhain yn rhaglenni da ond gwyddoch fod canran uchel o'r di-waith, pobl ag anabledau, unig rieni a henoed yno, a llawer ohonynt ar incwm isel. Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i dargedu'r wardiau hyn yn ystod y toriadau caledi, a sut rydych chi'n mynd i sicrhau swyddi sy'n talu'n dda, sef yr ateb go iawn i anghydraddoldeb a thlodi?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree that we have to make sure that we provide jobs, apprenticeships and other training opportunities for people to enable them to come out of poverty. Tackling poverty is a priority for this Welsh Government, and all Ministers have to demonstrate how their policies and schemes are helping towards that. So, clearly, I will be working very closely with not just the Minister for Economy, Science and Transport but all ministerial colleagues to ensure that jobs and growth are very high on the agenda, as they are.

Rwy'n cytuno bod rhaid i ni sicrhau ein bod yn darparu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi eraill i bobl i'w galluogi i ddod allan o dlodi. Mae trechu tlodi yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae'n rhaid i bob Gweinidog ddangos sut y mae eu polisiau a'u cynlluniau yn helpu tuag at hynny. Felly, yn amlwg, byddaf yn gweithio'n agos iawn â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a hefyd gyda phob un o'r Gweinidogion i sicrhau bod swyddi a thwf yn uchel iawn ar yr agenda, fel y maent.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First this afternoon is the opposition spokesperson, Mark Isherwood.

Yn gyntaf y prynhawn yma, mae llefarydd yr wrthblaid, Mark Isherwood.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:27	<p><b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>On the day that the Welsh index of multiple deprivation, looking at income, employment, education and health, has identified high pockets of deprivation in north Wales's coastal towns, parts of Wrexham, the south Wales Valleys, Cardiff and Newport, why do you believe that Alan Milburn's 'State of the Nation 2014: Social Mobility and Child Poverty in Great Britain' report said that, in the UK,</p> <p>'Wales has the second highest child poverty rate and the second lowest working age employment rate'?</p>	<p>Ar y diwrnod y mae'r mynegai amddifadedd lluosog, sy'n edrych ar incwm, cyflogaeth, addysg ac iechyd, wedi nodi pcedi difreintiedig iawn yn nhrefi arfordirol gogledd Cymru, rhannau o Wrecsam, Cymoedd de Cymru, Caerdydd a Chasnewydd, pam rydych chi'n credu bod Alan Milburn yn ei adroddiad Cyflwr y Genedl 2014: Symudedd Cymdeithasol a Thlodi Plant ym Mhrydain Fawr yn dweud, o blith gwledydd y DU, mai</p> <p>'Cymru sydd â'r gyfradd uchaf ond un o dlodi plant a'r gyfradd isaf ond un o bobl oedran gweithio mewn gwaith?'</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:27	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I do not know why Alan Milburn's report said that. What I do know is that we had the Welsh index of multiple deprivation for 2014 published today, and what I need to do is consider that in detail and consider what factors are underlying the performance in our communities—both the positive performance and the weaker performance.</p>	<p>Nid wyf yn gwybod pam y dywedodd adroddiad Alan Milburn hynny. Yr hyn rwy'n ei wybod yw bod y mynegai amddifadedd lluosog ar gyfer 2014 wedi'i gyhoeddi heddiw, a'r hyn sydd angen i mi ei wneud yw ei ystyried yn fanwl ac ystyried pa ffactorau sy'n sail i'r perfformiad yn ein cymunedau—y perfformiad cadarnhaol a'r perfformiad gwannach.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:28	<p><b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I think that it is very concerning if you have not read Alan Milburn's report, as it is critical and falls within your direct brief. It also says that,</p> <p>'Almost three quarters of children eligible for free school meals do not achieve five good GCSEs, higher than any English region and all but six English local authorities'.</p> <p>Why do you think that that is, Minister?</p>	<p>Mae'n destun pryder mawr yn fy marn i os nad ydych wedi darllen adroddiad Alan Milburn, gan ei fod yn allweddol ac yn rhan uniongyrchol o'ch briff. Mae hefyd yn dweud,</p> <p>'Nid yw bron i dri chwarter y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael pump TGAU da, sy'n uwch nag unrhyw ranbarth yn Lloegr a phob un ond chwe awdurdod lleol yn Lloegr'.</p> <p>Beth yw'r rheswm am hynny yn eich tyb chi, Weinidog?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:28	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I did not say that I had not read it; I said that I did not know why he had said that. I think that I have answered that question in my answer to Mohammad Asghar.</p>	<p>Ni ddywedais nad oeddwn wedi'i ddarllen; dywedais nad oeddwn yn gwybod pam ei fod wedi dweud hynny. Credaf fy mod wedi ateb y cwestiwn yn fy ateb i Mohammad Asghar.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:28	<p><b>Mark Isherwood</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The report also said that,</p> <p>'There are fewer professional jobs in Wales than anywhere but the North East and Northern Ireland'.</p> <p>Successive UK Governments and their policies apply to every part of the UK, but only Wales has its devolved Welsh Government. Why have 15 and a half years of Labour-led Welsh Government left Wales so far behind the rest of the United Kingdom?</p>	<p>Dywedodd yr adroddiad hefyd fod,</p> <p>'...llai o swyddi proffesiynol yng Nghymru nag yn unman ond Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd Iwerddon'.</p> <p>Mae llywodraethau olynol y DU a'u polisiau yn berthnasol i bob rhan o'r DU, ond dim ond Cymru sydd â Llywodraeth Cymru ddatganoledig. Pam y mae 15 a hanner o flynyddoedd o Lywodraeth Cymru dan arweiniad y blaid Lafur wedi gadael Cymru mor bell y tu ôl i weddill y Deyrnas Unedig?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I do not agree with what the Member has said. Certainly, in north-east Wales, we have seen some extremely well-paid jobs, we have seen companies coming in and we have the enterprise zone in Deeside, which is bringing in excellent manufacturing jobs.
- Nid wyf yn cytuno â'r hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud. Yn sicr, yng ngogledd-ddwyrain Cymru, rydym wedi gweld rhai swyddi sy'n talu'n dda dros ben, rydym wedi gweld cwmnïau yn dod i mewn ac mae gennym yr ardal fenter yng Nglannau Dyfrdwy, sy'n dod â swyddi gweithgynhyrchu ardderchog i mewn.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.
- 14:29 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, in your letter to me, dated 19 November, you stated that the objective of a £649,000 advertising campaign engaged by your predecessor was to increase the membership of credit unions by 25% over and above the predicted growth rates. Can you tell me what the predicted growth rates were, please, and can you say what percentage of the 2,819 new members of credit unions since June 2014 can be directly attributed to this marketing campaign?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn eich llythyr ataf, dyddiedig 19 Tachwedd, dywedasoch mai amcan ymgyrch hysbysebu gwerth £649,000 eich rhagflaenydd oedd cynyddu aelodaeth undebau credyd 25% yn uwch na'r cyfraddau twf a ragwelwyd. A allwch chi ddweud wrthyf beth oedd y cyfraddau twf a ragwelwyd ac a allwch ddweud pa ganran o'r o'r 2819 aelod newydd o undebau credyd ers mis Mehefin 2014 y gellir ei phriodoli yn uniongyrchol i'r ymgyrch farchnata hon?
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I cannot say directly which ones can be attributed to the marketing campaign. I think that it is very important that we continue with the marketing campaign. I want to see the number of members in credit unions increase, along with the junior members also.
- Ni allaf ddweud yn uniongyrchol pa rai y gellir eu priodoli i'r ymgyrch farchnata. Credaf ei bod yn bwysig iawn ein bod yn parhau â'r ymgyrch farchnata. Rwyf am weld nifer aelodau undebau credyd yn cynyddu, ynghyd â'r aelodau iau hefyd.
- 14:30 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, Minister. I understood that the marketing campaign had come to an end. If you indicated there that you are going to be spending more money, we need to see what value that money is going to get. In assessing the success or otherwise of your advertising campaign, can you state what the target cost per acquisition was, and how that compares with the actual cost per acquisition of £240 per member? Also, how many of these new members were tier 1 and how many were tier 2 members?
- Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Deallais fod yr ymgyrch farchnata wedi dod i ben. Os dynodoch yno eich bod am wario mwy o arian, mae angen i ni weld pa werth fydd i'r arian hwnnw. Wrth asesu llwyddiant neu fethiant eich ymgyrch hysbysebu, a allwch chi nodi beth oedd y targed o ran cost caffael, a sut y mae hynny'n cymharu â gwir gost caffael o £240 yr aelod? Hefyd, faint o'r aelodau newydd a oedd yn haen 1 a faint a oedd yn aelodau haen 2?
- 14:30 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I do not have that information to hand, but I would be very happy to write to the Member with that.
- Nid oes gennyf yr wybodaeth honno wrth law ond byddwn yn hapus iawn i ysgrifennu at yr Aelod ynglŷn â hynny.
- 14:30 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Okay; thank you, Minister. In your letter, you point out that the actual membership of credit unions has fallen by 2,219 since the end of June 2014, which is a total loss of 5,038 members. You attribute this to the closure of dormant accounts, which is, in fact, a standard exercise carried out by credit unions on a regular basis. Given that this £649,000 expenditure has led to a drop in credit union membership, do you accept that it could have been spent more effectively by using it to improve the sustainability of Welsh credit unions?
- Iawn; diolch i chi, Weinidog. Yn eich llythyr, rydych yn nodi bod gwir aelodaeth undebau credyd wedi gostwng 2,219 ers diwedd mis Mehefin 2014, sy'n gyfanswm colled o 5,038 o aelodau. Rydych yn priodoli hyn i gau cyfrifon segur, sydd mewn gwirionedd yn ymarfer safonol a gyflawnir gan undebau credyd yn rheolaidd. O ystyried bod y gwariant o £649,000 wedi arwain at ostyngiad yn aelodaeth undebau credyd, a ydych yn derbyn y gallai fod wedi cael ei wario'n fwy effeithiol drwy ei ddefnyddio i wella cynaliadwyedd undebau credyd yng Nghymru?

14:31	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> That is something that I certainly need to look at. I did query that drop in membership, and I was told that there was a significantly higher number of dormant accounts closed in that period. When I write to the Member, I will add that information in.	Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y mae angen i mi edrych arno. Holais ynghylch y gostyngiad yn yr aelodaeth, a dywedwyd wrthyf fod nifer cryn dipyn yn uwch o gyfrifon segur wedi cau yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan fyddaf yn ysgrifennu at yr Aelod, byddaf yn ychwanegu'r wybodaeth honno.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:31	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.	Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:31	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Weinidog, mae'n ymddangos bod y Blaid Geidwadol yn credu pe baech yn darllen adroddiad Alan Milburn y gallech weddnewid cyflwr economaidd Cymru a mynd i'r afael â phroblemau tlodi. Fodd bynnag, y gwir yw bod angen inni greu ein hatebion yma yng Nghymru. Mae gennyh chi adran sydd â chyllid o £737 miliwn i fynd i'r afael â thlodi. A ydych yn credu bod Llywodraeth Cymru yn gwneud digon yn y maes hwn?	Minister, it seems that the Conservative Party believes that if you read Alan Milburn's report, you could transform the state of the Welsh economy and tackle the problems of poverty. However, the truth is that we need to create our solutions here in Wales. You have a department with funding of £737 million to tackle poverty. Do you think that the Welsh Government is doing enough in this area?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:32	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> We are certainly doing a substantial amount. Can you ever do enough? 'Probably not' is the answer to that. However, in terms of the money that we are spending, as I mentioned in the previous answer to Jocelyn Davies, I have the four big preventative spending programmes in my budget now, with Supporting People having come in to the portfolio. I think that it is very important that that money is targeted at our most deprived communities. Clearly, going forward, we need to continue to monitor and evaluate the programmes.	Rydym yn sicr yn gwneud cryn dipyn. A allwch chi byth wneud digon? 'Na, yn ôl pob tebyg' yw'r ateb i hynny. Fodd bynnag, o ran yr arian rydym yn ei wario, fel y soniais yn yr ateb blaenorol i Jocelyn Davies, mae gennyf y pedair rhaglen gwariant ataliol mawr yn fy nghyllideb yn awr, o ganlyniad i gynnwys Cefnogi Pobl yn y portffolio. Credaf ei bod yn bwysig iawn i'r arian gael ei dargedu at ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Yn amlwg, wrth symud ymlaen, mae angen i ni barhau i fonitro a gwerthuso'r rhaglenni.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:32	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Cyfeiriaf yn nodol at ddau faes lle y gallwch wneud gwahaniaeth. Mae cynnydd o bron i 50% mewn pobl sy'n cael eu hadnabod fel pobl ddi-gartref, ond nid yw'r bobl hyn yn derbyn blaenoriaeth fel 'priority need'—y categori arbennig hwnnw. A ydych wedi ystyried cael gwared ar gategori'r 'priority need' er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru?	I refer in particular to two areas where you can make a difference. There is an increase of almost 50% in people who are recognised as being homeless, but these people are not prioritised as being part of the 'priority need' category. Have you considered getting rid of the 'priority need' category in order to tackle homelessness in Wales?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> No. What is a priority for me going forward is the implementation of the Housing (Wales) Act 2014 this year, which has a focus on preventing homelessness, and also the renting homes Bill, which I will be introducing early in the new year into the Assembly, will help us to address the issues of homelessness.	Na. Yr hyn sy'n flaenoriaeth i mi wrth symud ymlaen yw gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 eleni, sydd â ffocws ar atal digartrefedd, a hefyd bydd y Bil rhentu cartrefi, y byddaf yn ei gyflwyno i'r Cynulliad yn gynnar yn y flwyddyn newydd, yn ein helpu i fynd i'r afael â materion digartrefedd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:33	<b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Cyfeiriais yn gynharach wrth eich cyd-Weinidog at y ffaith bod adroddiad Bevan, sydd yn galw arnom i ailfeddwl ynglŷn â thlodi, yn nodi y bydd prosiect NEST, yr oedd eich cyd-Weinidog yn credu ei fod yn brosiect llwyddiannus iawn, yn cymryd 78 mlynedd i gyrraedd pob cartref sy'n dioddef o dlodi tanwydd. A yw'r math hwnnw o gynnydd yn dderbyniol yn eich golwg chi, ynteu a ydych yn credu bod rhaid sicrhau bod y prosiect hwnnw yn llawer iawn mwy effeithiol nag yw ar hyn o bryd?	I referred earlier, with your fellow Minister, to the fact that the Bevan report, which calls on us to think again about poverty, states that the NEST project, which your fellow Minister thought was a very successful project, will take 78 years to reach all households in fuel poverty. Do you think that that kind of increase is acceptable, or do you think that it must be ensured that that project is much more effective than it is at the moment?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:34

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Minister for Natural Resources stated, it is very disappointing when you are faced with that very stark figure of 78 years. I think that it is really important that we continue to have our focus on tackling poverty. For instance, I am having an evaluation of the Communities First programme, which will report to me in the new year. It is important that I look at that evaluation, that we look at where the good practice is, and at the performance of the Communities First clusters, which I am sure would be the first to say that they could do better in some areas; they need to strive to do so. I think that it is about making sure that all of our programmes that are specifically for tackling poverty work together and target those—. There are definitely stubborn areas of poverty that we need to focus on.

### Tlodi yng Nghanolbarth Cymru

14:34

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynd i'r afael â thlodi yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0257(CTP)*

14:34

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We are committed to tackling poverty and improving the lives of all low-income families, including those in mid Wales. The tackling poverty action plan includes commitments to tackle rural poverty. Initiatives such as the Supporting People programme are providing substantial funding to support vulnerable people in mid Wales.

14:35

**Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your answer, Minister. You will be aware that there are no Communities First clusters in Powys, even though the Welsh index of multiple deprivation notes that Powys is the most deprived local authority for access to services. What is the Welsh Government doing to support densely populated communities in Powys that do not qualify for support under Communities First?

14:35

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, the issues facing people living in rural communities will be different to those facing people living in more populated areas. One of the issues in Powys is that you do have a very dispersed population. While we do not have Communities First, we have other programmes, such as Flying Start, for instance, and I know that I am coming to do a visit with you next week in a Flying Start setting, in your constituency. So, there is a great deal of work going on outside of Communities First in your area.

Fel y dywedodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, mae'n siomedig iawn pan fyddwch yn wynebu ffigwr moel o 78 mlynedd. Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar drechu tlodi. Er enghraifft, rwy'n cynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a fydd yn adrodd yn y flwyddyn newydd. Mae'n bwysig fy mod yn edrych ar y gwerthusiad, ein bod yn edrych ar lle mae'r arferion da ac ar berfformiad y clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Hwy fyddai'r cyntaf, rwy'n sicr, i ddweud y gallent wneud yn well mewn rhai meysydd; mae angen iddynt ymdrechu i wneud hynny. Credaf ei fod yn fater o sicrhau bod ein holl raglenni sy'n benodol ar gyfer trechu tlodi yn gweithio gyda'i gilydd ac yn targedu'r—. Yn bendant, mae yna ardaloedd o dlodi ystyfnig sy'n rhaid i ni ganolbwyntio arnynt.

### Poverty in Mid Wales

*3. Will the Minister make a statement on tackling poverty in mid Wales? OAQ(4)0257(CTP)*

Rydym wedi ymrwmo i fynd i'r afael â thlodi a gwella bywydau pob teulu ar incwm isel yn cynnwys y rhai yng nghanolbarth Cymru. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi yn cynnwys ymrwymadau i drechu tlodi gwledig. Mae mentrau fel y rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi pobl agored i niwed yng nghanolbarth Cymru.

Diolch am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol nad oes unrhyw glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ym Mhowys, er bod y mynegai amddifadedd lluosog yn nodi mai Powys yw'r awdurdod lleol mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo cymunedau poblog ym Mhowys nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan Cymunedau yn Gyntaf?

Yn amlwg, bydd y materion sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn wahanol i'r rhai sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy poblog. Un o'r problemau ym Mhowys yw bod gennych chi boblogaeth wasgaredig iawn. Er nad oes gennym Cymunedau yn Gyntaf, mae gennym raglenni eraill, megis Dechrau'n Deg, er enghraifft, ac rwy'n gwybod fy mod yn dod gyda chi yr wythnos nesaf i ymweld ag un o leoliadau Dechrau'n Deg yn eich etholaeth. Felly, mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud y tu allan i Cymunedau yn Gyntaf yn eich ardal chi.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:36 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Os cofiwch chi y llynedd, Weinidog, gyda'r toriadau cyntaf i lywodraeth leol, un o'r pethau cyntaf yr aeth rhai awdurdodau ati i'w torri, yn enwedig yng nghanolbarth Cymru—Powys, er enghraifft—oedd gwasanaethau cyngori, megis Cyngor ar Bopeth. Newidiwyd y penderfyniad hwnnw oherwydd ymgyrchu lleol, ac rwy'n falch o hynny, oherwydd mae'r dystiolaeth yn gryf iawn bod gwybodaeth, megis gan Cyngor ar Bopeth, yn cryfhau'r economi leol yn hytrach na'i gwanychu. Fodd bynnag, beth wnewch chi fel Llywodraeth wrth fynd ymlaen, gyda thoriadau pellach i arian llywodraeth leol, i sicrhau bod y gwasanaethau cyngori hyn—sydd mor bwysig i'r economi leol—yn cael eu cadw?

If you remember last year, Minister, with the first cuts to local government, one of the first things that some authorities set about cutting, especially in mid Wales—Powys, for example—were advisory services, such as Citizens Advice. That decision was changed as a result of local campaigning, and I am pleased about that, because there is very strong evidence that information, such as provided by Citizens Advice, strengthens the local economy rather than weakens it. However, what will you as the Government do, going forward, with further cuts to local government funding, to ensure that these advisory services—which are so important to the local economy—are maintained?

14:36 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, advice services are certainly very important to local communities. I mentioned in an earlier answer to Joyce Watson that what we had done is put an extra £2 million in this year for advice services. I know that Welsh Citizens Advice is one of the organisations that has benefitted from that.

Yn wir, mae gwasanaethau cyngori yn sicr yn bwysig iawn i gymunedau lleol. Soniais mewn ateb cynharach i Joyce Watson mai'r hyn rydym wedi'i wneud yw rhoi £2 filiwn ychwanegol tuag at wasanaethau cyngori eleni. Gwn fod Cyngor ar Bopeth Cymru yn un o'r sefydliadau sydd wedi elwa o hynny.

14:37 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, a guide to analysing deprivation in rural areas, which was published alongside the figures for the multiple deprivation index today, stated that analysis of the underlying indicators, by settlement type, shows that there are significant numbers of deprived people living in rural areas. You have acknowledged that there are no Communities First programmes in Powys. You said that Flying Start is available—and it is—but you also said that that was just one of a number of programmes that were assisting people living in deprived communities within Powys. Could you name the others, and could you give us an assessment of their effectiveness in addressing deprivation in rural Wales?

Weinidog, nododd canllaw i ddadansoddi amddifadedd mewn ardaloedd gwledig a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ffigurau ar gyfer y mynegai amddifadedd lluosog heddiw, fod dadansoddi'r dangosyddion sylfaenol, yn ôl math o anheddiad, yn dangos bod nifer sylweddol o bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd gwledig. Rydych wedi cydnabod nad oes unrhyw raglenni Cymunedau yn Gyntaf ym Mhowys. Dywedasoeh fod Dechrau'n Deg ar gael—ac mae hynny'n wir—ond dywedasoeh hefyd mai dim ond un o nifer o raglenni a oedd yn cynorthwyo pobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ym Mhowys oedd honno. A wnewch chi enwi'r lleill ac a wnewch chi roi asesiad o'u heffeithiolrwydd yn mynd i'r afael ag amddifadedd yn y Gymru wledig?

14:38 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

There is also the provision of Families First, and Powys's grant allocation for this year's delivery of Families First programme is over £1.1 million. That funding will ensure that vulnerable families, holistically, are reached, and will provide them with the necessary support in your constituency.

Hefyd, mae darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae dyraniad grant Powys ar gyfer darparu rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf eleni dros £1.1 miliwn. Bydd y cyllid hwnnw'n sicrhau bod teuluoedd sy'n agored i niwed, yn holistaidd, yn cael eu cyrraedd, a bydd yn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol iddynt yn eich etholaeth.

## Y Strategaeth Cynhwysiant Digidol

## The Digital Inclusion Strategy

14:38 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth cynhwysiant digidol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0263 (CTP)

4. Will the Minister provide an update on the Welsh Government's digital inclusion strategy? OAQ(4)0263 (CTP)

14:38	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Digital inclusion remains a priority, as more services move online. Our revised digital inclusion delivery plan, which was published in the summer, highlights good progress, including supporting over 52,000 individuals through Communities 2.0. However, I recognise that more still needs to be done by partners across all sectors to help to tackle this important issue.</p>	<p>Mae cynhwysiant digidol yn parhau i fod yn flaenoriaeth wrth i fwy o wasanaethau symud ar-lein. Mae ein cynllun cyflawni cynhwysiant digidol diwygiedig, a gyhoeddwyd yn yr haf, yn tynnu sylw at gynnydd da, yn cynnwys cynorthwyo mwy na 52,000 o unigolion drwy Cymunedau 2.0. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod angen i bartneriaid ym mhob sector barhau i wneud mwy i helpu i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn.</p>
14:38	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Although I remain disappointed in your Government's performance on stimulating demand for superfast broadband, I do welcome your work on improving digital inclusion in Wales. However, with many people still unable to get online, what discussions have you had with public service providers following the short debate on the Keep me Posted campaign, about the importance of maintaining free postal communication for people who cannot get online?</p>	<p>Er fy mod yn dal yn siomedig ynghylch perfformiad eich Llywodraeth ar ysgogi'r galw am fand eang cyflym iawn, rwy'n croesawu eich gwaith ar wella cynhwysiant digidol yng Nghymru. Fodd bynnag, gyda llawer o bobl yn dal i fethu mynd ar-lein, pa drafodaethau a gawsoch â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn y ddadl fer ar yr ymgyrch Keep Me Posted ynglŷn â phwysigrwydd cadw gohebiaeth am ddim ar bapur i bobl sy'n methu mynd ar-lein?</p>
14:39	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Yes, I have had discussions. I met with Royal Mail, and I know that officials have taken those discussions forward too. I do welcome your praise for our digital inclusion project. I think that Communities 2.0 is a fantastic project, which, as I say, has reached 52,000 people. I have done a couple of visits already in this portfolio, where I have met people who have never touched a computer before in their life, and they are really now engaged with online activity.</p>	<p>Ie, rwyf wedi cael trafodaethau. Cyfarfûm â'r Post Brenhinol, a gwn fod swyddogion wedi symud y trafodaethau hynny yn eu blaen hefyd. Rwy'n croesawu eich canmoliaeth i'n prosiect cynhwysiant digidol. Credaf fod Cymunedau 2.0 yn brosiect gwych sydd wedi cyrraedd 52,000 o bobl, fel y dywedais. Rwyf wedi gwneud un neu ddau o ymweliadau eisoes yn rhan o'r portfolio hwn, lle cyfarfûm â phobl nad ydynt erioed wedi cyffwrdd â chyfrifiadur yn eu bywydau o'r blaen, ac maent yn awr yn bwrw iddi go iawn ar weithgareddau ar-lein.</p>
	<b>Tai Fforddiadwy</b>	<b>Affordable Housing</b>
14:39	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>5. A wnaiff y Gweinidog amlinellu trafodaethau a gynhaliwyd gyda datblygwyr tai ynghylch y ddarpariaeth o dai fforddiadwy? OAQ(4)0265(CTP)</i></p>	<p><i>5. Will the Minister outline discussions held with housing developers on the provision of affordable housing? OAQ(4)0265(CTP)</i></p>
14:39	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Meetings of the house builder engagement programme are held on a quarterly basis. I am attending the next meeting, which is to be held next Monday. This will inform what action Government can take to increase house-building activity, including the provision of affordable housing.</p>	<p>Mae cyfarfodydd y rhaglen ymgysylltu adeiladwyr tai yn cael eu cynnal bob chwarter. Rwy'n mynd i'r cyfarfod nesaf, sy'n cael ei gynnal ddydd Llun nesaf. Bydd yn llywio'r camau y gall y Llywodraeth eu rhoi ar waith i gynyddu gweithgarwch adeiladu tai, yn cynnwys darparu tai fforddiadwy.</p>
14:40	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Thank you very much for you answer, Minister. Developers have raised with me the question of the design quality requirement standards. A revision of these standards would provide opportunities for an increase in the provision of affordable houses and have a better impact upon meeting demand for affordable houses. Are you minded to look again at the design quality requirement standards?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn i chi am eich ateb, Weinidog. Mae datblygwyr wedi fy holi ynghylch safonau'r gofynion ansawdd dylunio. Byddai adolygiad o'r safonau hyn yn rhoi cyfle i sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ac yn cael gwell effaith ar ateb y galw am dai fforddiadwy. A ydych o blaid edrych eto ar safonau'r gofynion ansawdd dylunio?</p>

14:40	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> No, I am not.	Nac ydw.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:40	<b>Jocelyn Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, will you consider extending your Houses into Homes scheme beyond property speculators, developers and landlords perhaps to first-time buyers, so that older empty properties needing refurbishment can be brought back into use by people who actually want to live in them?	Weinidog, a wnewch chi ystyried ymestyn eich cynllun Troi Tai'n Gartrefi y tu hwnt i hapfasnachwyr eiddo, datblygwyr a landlordiaid, efallai, i gynnwys prynwyr tro cyntaf, fel y gall eiddo gwag hŷn sydd angen gwaith adnewyddu yn cael ei wneud yn addas i'w ddefnyddio unwaith eto gan bobl sy'n dymuno byw ynddynt?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:40	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> It is certainly something that I could look at, yes. I am looking at all of our house schemes, if you like, within the portfolio. So, it is certainly something that I can look at and I will write to the Member.	Mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn edrych arno, ydy. Rwy'n edrych ar bob un o'n cynlluniau tai, os mynnwch chi, yn y portffolio. Felly, mae'n sicr yn rhywbeth y gallaf edrych arno a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:41	<b>Aled Roberts</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Mae'n debyg bod adroddiad y bore yma yn dangos bod prisiau tai yn codi unwaith eto yng Nghymru, gan ddangos bod pwysau cynyddol ar y Llywodraeth ynghylch darparu tai fforddiadwy. Mae anghysondeb ynghylch y ffordd y mae cynghorau lleol yn defnyddio adran 106 y Ddeddf Cynllunio. A ydych wedi gwneud unrhyw fath o astudiaeth o pam mae hynny'n digwydd ac a ydych yn rhoi unrhyw bwysau ar yr awdurdodau lleol hynny sy'n methu â gwneud defnydd o'r adran yn y Ddeddf?	It seems that there was a report this morning showing that house prices are rising again in Wales, demonstrating that there is increased pressure on the Government regarding the provision of affordable housing. There is an inconsistency in the way that local councils use section 106 of the Planning Act. Have you undertaken any kind of study of why that is happening and are you putting any pressure on those local authorities that fail to make use of that section of the Act?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:41	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I have not had any specific discussions on that issue coming into the portfolio, but, again, it is something that I can certainly have a look at, to see if there is anything that we can do to put pressure on local authorities, if that indeed is the case.	Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau penodol am y mater yn rhan o'r portffolio, ond unwaith eto, mae'n rhywbeth y gallaf edrych arno, yn sicr, i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i roi pwysau ar awdurdodau lleol, os yw hynny'n wir.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn Dechrau'n Deg</b>		<b>Welsh-medium Provision in Flying Start</b>	
14:41	<b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y data monitro diweddaraf ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Dechrau'n Deg? OAQ(4)0255(CTP)</i>	<i>6. Will the Minister provide an update on the latest monitoring data on Welsh-medium provision in Flying Start? OAQ(4)0255(CTP)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:42	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Welsh-language provision is an integral part of Flying Start. Over 1,100 childcare places are available to be delivered through the medium of Welsh in Flying Start settings in 2014-15. Of these places, 228 requests for Welsh-medium provision were specifically made between April and August this year, and 227 were met.	Mae darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhan annatod o Dechrau'n Deg. Mae dros 1100 o leoedd gofal plant ar gael i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn 2014-15. O'r lleoedd hyn, gwnaed 228 o geisiadau penodol am ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng mis Ebrill a mis Awst eleni, a chafwyd lle i 227.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>



- 14:42 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As you say, Flying Start is expanding and some communities will be using this service for the first time, so I am hoping that work will be done to develop demand there, because Welsh-language skills can only ever be an advantage in Wales and early exposure and familiarity with the language help children to prepare to embrace that advantage. How are you going to ensure that Flying Start childcare providers are encouraged to use whatever Welsh they have with the children, bearing in mind that so many of them will have received compulsory Welsh-language education as part of their own schooling?
- Fel y dywedwch, mae Dechrau'n Deg yn ehangu a bydd rhai cymunedau yn defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf, felly rwy'n gobeithio y bydd gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r galw yno, gan na all sgiliau iaith Gymraeg fod yn ddim byd ond mantais yng Nghymru a bydd dod i gysylltiad cynnar â'r iaith ac ymgyfarwyddo â hi yn helpu plant i baratoi i elwa ar y fantais honno. Sut rydych chi am sicrhau bod darparwyr gofal plant Dechrau'n Deg yn cael eu hannog i ddefnyddio pa bynnag Gymraeg sydd ganddynt gyda'r plant, gan gadw mewn cof y bydd cynifer ohonynt wedi derbyn addysg Gymraeg orfodol yn rhan o'u haddysg eu hunain?
- 14:42 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is certainly something that we do encourage. A couple of weeks ago, I visited two very different Flying Start settings. One was in Milford Haven, where they were singing Welsh songs, so it was happening organically, if you like. I then went on to open a Flying Start setting in Aberporth, which has Welsh-medium provision. So, I think that that is happening out there, but we will continue to encourage it.
- Mae'n sicr yn rhywbeth rydym yn ei annog. Gwpwl o wythnosau yn ôl, ymwelais â dau leoliad Dechrau'n Deg gwahanol iawn. Roedd un yn Aberdaugleddau, lle'r oeddent yn canu caneuon Cymraeg, felly roedd yn digwydd yn organig, os mynnwch. Yna euthum ymlaen i agor lleoliad Dechrau'n Deg yn Aber-porth, sy'n darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, credaf fod hynny'n digwydd, ond byddwn yn parhau i'w annog.
- 14:43 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- May I also stress the importance of Welsh-medium Flying Start? I know of the many difficulties that we had in Swansea in getting it for a number of people, including my own grandchild. May I ask that the Government works towards making sure that Flying Start, through the medium of Welsh, can be offered to all parents of children living in Flying Start areas who want it?
- A gaf fi hefyd bwysleisio pa mor bwysig yw Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg? Gwn am y nifer o anawsterau a gawsom yn Abertawe i'w gael i nifer o bobl, yn cynnwys fy wyres hun. A gaf fi ofyn i'r Llywodraeth weithio tuag at wneud yn siŵr fod modd cynnig Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg i rieni pob plentyn sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac sydd ei eisiau?
- 14:43 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- As I mentioned in my original answer to Suzy Davies, there have been 228 requests in the first five months of this year and 227 were met; 99% of all such requests have been met, which I am sure that you will agree is an improvement on previous figures.
- Fel y crybwyllais yn fy ateb gwreiddiol i Suzy Davies, cafwyd 228 o geisiadau yn ystod pum mis cyntaf y flwyddyn hon a chafwyd lle i 227 ohonynt; mae 99% o'r holl geisiadau o'r fath wedi'u bodloni, ac rwy'n siŵr y cytunwch fod hynny'n welliant ar ffigurau blaenorol.
- 14:44 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, in response to a written question, your predecessor, Jeff Cuthbert, said that 'most' documents are already bilingual or available in Welsh and English. Do you think that it is acceptable that that is 'most', as of August, and by what kind of date do you anticipate that you will be able to deliver all documents around Flying Start in both languages?
- Weinidog, mewn ymateb i gwestiwn ysgrifenedig, dywedodd eich rhagflaenydd, Jeff Cuthbert, fod 'y rhan fwyaf' o'r dogfennau eisoes yn ddwyieithog neu ar gael yn Gymraeg a Saesneg. A ydych yn meddwl ei bod yn dderbyniol mai'r 'rhan fwyaf' oedd hynny ym mis Awst, ac erbyn pa fath o ddyddiad y rhagwelwch y byddwch yn gallu cyflwyno pob dogfen sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg yn y ddwy iaith?
- 14:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I would hope that we will be able to do that in the very short term, but I will ask my officials to give me an update and write to the Member.
- Byddwn yn gobeithio gallu gwneud hynny yn y tymor byr iawn, ond byddaf yn gofyn i fy swyddogion am newyddion diweddaraf ac yn ysgrifennu at yr Aelod.

## Cymunedau yn Gyntaf

## Communities First

- 14:44 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o gymunedau y nodwyd y dylent gael cyllid drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf cychwynnol sydd wedi cael eu codi allan o amddifadedd? OAQ(4)0254(CTP)  
 7. Will the Minister outline how many communities identified for the initial Communities First funding programme have been lifted out of deprivation? OAQ(4)0254(CTP)
- 14:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 I have seen how Communities First is helping to change lives for the better and lift people out of deprivation. An evaluation of the early stages of the refocused programme is under way. It will evidence how it is delivering against strategic objectives and will be available in the new year.  
 Rwyf wedi gweld sut y mae Cymunedau yn Gyntaf yn helpu i newid bywydau er gwell ac yn codi pobl allan o amddifadedd. Mae gwerthusiad o gamau cynnar y rhaglen addasedig ar y gweill. Bydd yn dangos tystiolaeth ar sut y mae'n cyflawni yn erbyn amcanion strategol a bydd ar gael yn y flwyddyn newydd.
- 14:45 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 Thank you very much, Minister, for your answer. As has previously been said today, the St James ward in Caerphilly has now been identified as the most deprived ward in Wales, although I acknowledge that, overall, for wards within south-east Wales, including the initial Communities First programme, there has been an overall decrease in the rates of limiting long-term illness and employment-related benefits. However, how is this programme really achieving improvement in deprivation for these communities?  
 Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Fel y dywedwyd o'r blaen heddiw, mae ward St James yng Nghaerffili wedi cael ei nodi fel y ward fwyaf difreintiedig yng Nghymru, er fy mod yn cydnabod bod wardiau de-ddwyrain Cymru at ei gilydd, yn cynnwys y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gychwynnol, wedi gweld gostyngiad cyffredinol yng nghyfraddau salwch cyfyngus hirdymor a budd-daliadau seiliedig ar gyflogaeth. Fodd bynnag, sut y mae'r rhaglen hon yn cyflawni gwir welliant o ran amddifadedd i'r cymunedau hyn?
- 14:45 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 I am obviously aware of the publication of the Welsh index of multiple deprivation today. Of course, it is a relative measure and there will always be more deprived areas announced within the index. I think that the most important thing to look at is the performance of the Communities First clusters—and, as I mentioned before, I think that is both the positive performance and the weaker performance—and to make sure that best practice is shared. I am sure that all of the clusters would say that they can and must do better. However, I do think that Communities First is delivering in our most deprived communities.  
 Rwy'n amlwg yn ymwybodol fod y mynegai amddifadedd lluosog wedi'i gyhoeddi heddiw. Wrth gwrs, mesur cymharol ydyw a bydd ardaloedd mwy difreintiedig bob amser yn cael eu cyhoeddi yn y mynegai. Credaf mai'r peth pwysicaf i'w ystyried yw perfformiad y clystyrau Cymunedau yn Gyntaf—ac fel y soniais o'r blaen, y perfformiad cadarnhaol a'r perfformiad gwannach rwy'n ei feddwl—a gwneud yn siŵr bod arferion gorau yn cael eu rhannu. Rwy'n siŵr y byddai pob un o'r clystyrau'n dweud y gallant ac y dylent wneud yn well. Fodd bynnag, rwy'n credu bod Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.
- 14:46 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 Minister, I think that it is increasingly important that Communities First areas become a focus for the delivery of public services for a variety of organisations. I wonder whether you will ensure, as far as the Newport East cluster is concerned, that you as the Minister and colleagues across Government, as well as Newport City Council, the voluntary sector and the community itself are increasingly the focus for that service delivery, collaboration and co-operation?  
 Weinidog, rwy'n meddwl ei bod yn gynyddol bwysig i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ddod yn ganolbwynt ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus i amrywiaeth o sefydliadau. O ran clwstwr Dwyrain Casnewydd, tybed a wneuch chi sicrhau mai chi fel y Gweinidog a chydweithwyr ar draws y Llywodraeth, yn ogystal â Chyngor Dinas Casnewydd, y sector gwirfoddol a'r gymuned ei hun yw'r ffocws yn gynyddol ar gyfer darparu gwasanaethau, cydweithio a chydweithredu?
- 14:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)  
 Yes, absolutely. If we are going to tackle poverty, the Government cannot do it on its own and it is really important that we work in partnership. Another thing that is really important is to make sure that our programmes are aligned. Clearly, that has started with Communities First and Flying Start, but that partnership working with all our partners is so important.  
 Gwnaf, yn bendant. Os ydym yn mynd i drechu tloedi, ni all y Llywodraeth ei wneud ar ei phen ei hun ac mae'n bwysig iawn ein bod yn gweithio mewn partneriaeth. Peth arall sy'n wirioneddol bwysig yw gwneud yn siŵr bod ein rhaglenni'n gyson â'i gilydd. Yn amlwg, mae hynny wedi dechrau gyda Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, ond mae gwaith partneriaeth o'r fath gyda'n holl bartneriaid mor bwysig.

14:47	<p><b>Bethan Jenkins</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, byddwch wedi gweld ymchwil y Joseph Rowntree Foundation yr wythnos hon, sy'n dangos bod mwy o bobl ifanc mewn tloedi o ganlyniad i gontractau ansefydlog. Mae hwn yn dod ar yr un amser ag ymchwil gan Gartrefi Cymunedol Cymru am y ffaith ei fod yn gwneud lot o waith ychwanegol o ran cynhwysiant ariannol yn sgil y ffaith nad yw hwn yn digwydd mewn lleoedd eraill. Pa waith a pha brosiectau y mae Cymunedau yn Gyntaf yn gwneud yn y maes cynhwysiant ariannol?</p>	<p>Minister, you will have seen the Joseph Rowntree Foundation research this week, which demonstrated that there are more young people in poverty because of unstable contracts. This comes at the same time as research from Community Housing Cymru that it is doing a great deal of additional work on financial inclusion in light of the fact that it is not being provided elsewhere. What work and what projects is Communities First doing in terms of financial inclusion?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:47	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Communities First works very closely with local authorities in relation to the financial inclusion strategy. Obviously, the Chamber will be debating Stage 1 of your Bill this afternoon.</p>	<p>Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio'n agos iawn gydag awdurdodau lleol ar y strategaeth cynhwysiant ariannol. Yn amlwg, bydd y Siambr yn trafod Cam 1 o'ch Bil y prynhawn yma.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Cymunedau Ffydd</b>		<b>Faith Communities</b>	
14:47	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â chymunedau ffydd?</i> OAQ(4)0252(CTP)</p>	<p><i>8. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's engagement with faith communities?</i> OAQ(4)0252(CTP)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:47	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>The First Minister chairs the faith communities forum twice a year and I attend as deputy chair. This is a good opportunity to hear first-hand how policies affect faith communities, what issues are important to them, and what action needs to be taken in partnership.</p>	<p>Mae'r Prif Weinidog yn cadeirio fforwm cymunedau ffydd ddwywaith y flwyddyn ac rwy'n ei mynychu fel is-gadeirydd. Mae'n gyfle da i glywed o lygad y ffynnon sut y mae polisiau'n effeithio ar gymunedau ffydd, pa faterion sy'n bwysig iddynt a pha gamau sydd angen eu cymryd mewn partneriaeth.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:48	<p><b>Darren Millar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, I recently undertook a visit to the Yad Vashem Holocaust History Museum in Jerusalem, and it was remarked that Wales could do better in commemorating the anniversary of the Holocaust, which takes place each year. Next year is the seventieth anniversary of the liberation of Auschwitz and Birkenau at the end of world war two. What work is the Welsh Government doing to mark that particular occasion, and what support will you be giving to the Holocaust Commission to enable it to have a programme of activities across Wales?</p>	<p>Weinidog, yn ddiweddar ymwelais ag Amgueddfa Hanes yr Holocaust Yad Vashem yn Jerwsalem, a gwnaed y sylw y gallai Cymru wneud yn well o ran cofio'r Holocaust yn flynyddol. Y flwyddyn nesaf, bydd hi'n ddeng mlynedd a thrigain ers rhyddhau Auschwitz a Birkenau ar ddiwedd yr ail ryfel byd. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i nodi'r achlysur arbennig hwn, a pha gymorth a rowch i Gomisiwn yr Holocaust i'w alluogi i gynnal rhaglen o weithgareddau ar draws Cymru?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:48	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>It is very important that we mark that anniversary, and I will ensure that we have discussions in the very near future to see what is wanted, what is required, and to take that forward.</p>	<p>Mae'n bwysig iawn ein bod yn nodi'r pen-blwydd hwnnw, a byddaf yn sicrhau ein bod yn cael trafodaethau yn y dyfodol agos iawn i weld beth sydd ei eisiau, beth sydd ei angen, ac i frw ymlaen â hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:49	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Weinidog, fel y bu ichi ddweud, mae'n bwysig ein bod yn nodi digwyddiadau hanesyddol o'r fath yma. Ond, a fydddech yn cytuno â fi ei bod yn bwysig ein bod hefyd yn ymwybodol o droseddau rhyfel cyfredol, fel yr hyn sy'n digwydd i'r Palestinaid yn y dwyrain canol ar hyn o bryd?</p>	<p>Minister, as you said, it is important that we do note such historic events. But, would you also agree with me that it is important that we should be aware of current war crimes, as is happening with Palestinians in the middle east at present?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:49	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Well, yes, as I answered in my response to Darren Millar's question, it is important that we mark the anniversary of that. Obviously, there is a great deal of war, unfortunately, around the world, and that is one of the reasons why we should have close relationships with the faith communities to hear what is important to them and what we can do to assist them.</p>	<p>Wel, byddwn, fel rwyf wedi ateb yn fy ymateb i gwestiwn Darren Millar, mae'n bwysig ein bod yn nodi'r pen-blwydd hwnnw. Yn amlwg, mae llawer iawn o ryfeloedd o gwmpas y byd, yn anffodus, a dyna un o'r rhesymau pam y dylem gael perthynas agos gyda'r cymunedau ffydd i glywed beth sy'n bwysig iddynt hwy a beth y gallwn ei wneud i'w cynorthwyo.</p>
14:49	<b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, the focal point for many of our faith communities closer to home continues to be their actual place of worship, but, unfortunately, given the financial climate that we are living in, and also dwindling congregations in some cases, they are forced to seek innovative ways of keeping those places of worship, whether it be church or chapel, open. A particularly successful example of this in my region is St Mary's church in the heart of Brecon, where the congregation has developed a successful cafe and community space, which also includes a reporting point for local police and many other community groups. In that context, Minister, what can the Welsh Government do further to assist such faith companies to safeguard their places of worship, and also bring something of great value to the wider community?</p>	<p>Weinidog, canolbwynt llawer o'n cymunedau ffydd yn agosach adref o hyd yw'r man lle byddant yn addoli, ond yn anffodus, o ystyried yr hinsawdd ariannol rydym yn byw ynddi a'r gostyngiad ym maint cynulleidfaoedd hefyd mewn rhai achosion, maent yn cael eu gorfodi i chwilio am ffyrdd arloesol o gadw'r manau addoli hynny, yn eglwysi neu'n gapeli, ar agor. Un enghraifft arbennig o lwyddiannus o hyn yn fy rhanbarth yw Eglwys y Santes Fair yng nghanol Aberhonddu, lle mae'r gynulleidfa wedi datblygu caffi a gofod cymunedol llwyddiannus, sydd hefyd yn cynnwys man adrodd i'r heddlu lleol a llawer o grwpiau cymunedol eraill. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo cwmnïau ffydd o'r fath i ddiogelu eu manau addoli, yn ogystal â sicrhau rhywbeth o werth mawr i'r gymuned ehangach?</p>
14:50	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I think that the Member is right; churches are having to come forward with more innovative uses of their space, particularly at difficult financial times. I have not been asked specifically for any funding, but as you will be aware, funding is difficult at the moment. However, I would be very happy to discuss with any Member who is concerned about that.</p>	<p>Credaf fod yr Aelod yn iawn; mae eglwysi yn gorfod cynnig ffyrdd mwy arloesol o ddefnyddio'u gofod, yn enwedig ar adegau anodd yn ariannol. Nid oes neb wedi gofyn yn benodol i mi am arian, ond fel y gwyddoch, mae cyllido'n anodd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddwn yn barod iawn i drafod gydag unrhyw Aelod sy'n pryderu am hynny.</p>
14:51	<b>John Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Minister, would you agree that it is very important at the current time that the Welsh Government and partners work as closely as possible with our Muslim communities, given the considerable tensions that exist, particularly around international events?</p>	<p>Weinidog, a fydddech yn cytuno ei bod yn bwysig iawn ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid weithio mor agos â phosibl gyda'n cymunedau Mwslimaidd, o ystyried y tensiynau sylweddol sy'n bodoli, yn enwedig mewn perthynas â digwyddiadau rhyngwladol?</p>
14:51	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>Absolutely, because we know that people in Wales are fearful because of the events happening elsewhere in the world, and it is something that I have discussed in the Chamber before. My predecessor, Jeff Cuthbert, held several meetings with the Muslim community over the summer. I have continued discussions with the faith forum, as I have said. I think that it is very important that we do all we can to work with such communities to support them at difficult times.</p>	<p>Yn hollol, oherwydd gwyddom fod pobl yng Nghymru yn ofnus oherwydd digwyddiadau mewn rhannau eraill o'r byd, ac mae'n rhywbeth rwyf wedi'i drafod yn y Siambr o'r blaen. Cynhaliodd fy rhagflaenydd, Jeff Cuthbert, sawl cyfarfod gyda'r gymuned Fwslimaidd dros yr haf. Rwyf wedi parhau trafodaethau gyda'r fforwm ffydd, fel y dywedais. Credaf ei bod yn bwysig iawn i ni wneud popeth yn ein gallu i weithio gyda chymunedau o'r fath i'w cefnogi ar adegau anodd.</p>
	<b>Rhieni yn y Carchar</b>	<b>Parental Imprisonment</b>
14:51	<b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl awdurdodau lleol yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o blant yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni yn y carchar? OAQ(4)0256(CTP)</p>	<p>9. Will the Minister make a statement on the role of local authorities in raising awareness of children affected by parental imprisonment? OAQ(4)0256(CTP)</p>

14:52

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is essential for children affected by parental imprisonment to receive appropriate support from local authorities. We have recently published guidance requiring local authorities to consider how to support children affected by parental imprisonment.

Mae'n hanfodol fod plant yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni yn y carchar yn cael cefnogaeth briodol gan awdurdodau lleol. Yn ddiweddar, cyhoeddassom ganllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried sut i gefnogi plant yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni yn y carchar.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:52

**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. We know that, every year, an estimated 200,000 children in England and Wales are affected by parental imprisonment. Unfortunately, many schools continue to be generally unaware of those pupils who are affected by it, and what could be done to support them through the education system. We know that there is some good practice out there, particularly in my area of Rhondda Cynon Taff where the needs of these children are central to the local authority's education and lifelong learning wellbeing strategy action plan. Would you agree, Minister, that this ensures the early identification of those children who are at risk of disengagement from learning? What consideration has been given to rolling out the processes across local authorities in Wales to ensure that this practice becomes the norm, not the exception?

Diolch i chi, Weinidog. Bob blwyddyn, gwyddom fod 200,000 amcangyfrifedig o blant yng Nghymru a Lloegr yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni yn y carchar. Yn anffodus, mae llawer o ysgolion nad ydynt at ei gilydd yn gwybod pa ddisgyblion yr effeithir arnynt a beth y gellid ei wneud i'w cefnogi drwy'r system addysg. Gwyddom fod rhywfaint o arfer da i'w gael, yn enwedig yn fy ardal i yn Rhondda Cynon Taf lle mae anghenion plant o'r fath yn ganolog i gynllun gweithredu strategaeth lles addysg a dysgu gydol oes yr awdurdod lleol. Weinidog, a fydddech yn cytuno bod hyn yn sicrhau y caiff plant sydd mewn perygl o ymddeithrio rhag dysgu yn cael eu nodi'n gynnar? Pa ystyriaeth a roddwyd i gyflwyno'r prosesau ar draws awdurdodau lleol Cymru i sicrhau bod yr arfer hwn yn dod yn arfer yn hytrach nag yn eithriad?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

14:53

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Early identification of children who may be affected by parental imprisonment is absolutely vital, because it ensures that they get the support they need. It is very encouraging to hear of the work being done in your constituency, and I will certainly ask my officials to look at that. There is a crossover to the Minister for Education and Skills' portfolio also, but I am sure that his officials would be interested also.

Mae'n gwbl allweddol ein bod yn nodi plant a allai gael eu heffeithio oherwydd bod eu rhieni yn y carchar er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'n galonogol iawn clywed am y gwaith sy'n cael ei wneud yn eich etholaeth a byddaf yn sicrhau yn gofyn i fy swyddogion edrych ar hynny. Mae'n gorgyffwrdd â phortffolio'r Gweinidog Addysg a Sgiliau hefyd, ac rwy'n siŵr y byddai gan ei swyddogion yntau ddiddordeb.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

It is also vital that we support projects to support children affected by parental imprisonment, and there are several such projects in Wales. One I saw in my previous portfolio was the Invisible Walls Wales project at HMP Parc, which works with prisoners to ensure that they keep in touch with their families and to bring the families in. In north Wales, a bus is provided to take families to HMP Altcourse, where families perhaps could not afford to travel to see a prisoner. So, it is really important that we, as a Government, also support such projects.

Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn cefnogi prosiectau i gynorthwyo plant yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni yn y carchar a cheir nifer o brosiectau o'r fath yng Nghymru. Un a welais yn fy mhortffolio blaenorol oedd prosiect Waliau Anweledig Cymru yng Ngharchar Parc, sy'n gweithio gyda charcharorion i sicrhau eu bod yn cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd ac i ddod â'r teuluoedd i mewn. Yng ngogledd Cymru, mae bus yn cael ei ddarparu i fynd â theuluoedd i HMP Altcourse, lle na fyddai teuluoedd o bosibl yn gallu fforddio teithio i weld carcharor. Felly, mae'n bwysig iawn ein bod ni, fel Llywodraeth, yn cefnogi prosiectau o'r fath hefyd.

14:54

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am really pleased that Chris Chapman has asked this question today, Minister, because it is an area that we have not discussed enough in this Chamber in the past. Chris Chapman touched on most of the points that I would have made, but just looking at the statistics, they really are quite stark. Within Wales, only two out of the 22 local authorities made any real reference to the issue of caring for the children of prisoners in their children and young people's plan. A significant number of children experience parental imprisonment during their school years. You have answered the question about support for schools. May I ask you, quite simply, what you are going to do, working with other Ministers, to make sure that local authorities have a much greater focus on this in future, whether you put it on more of a statutory basis or not?

Rwy'n hynod o falch bod Chris Chapman wedi gofyn y cwestiwn hwn heddiw, Weinidog, oherwydd mae'n faes nad ydym wedi trafod digon arno yn y Siambr hon yn y gorffennol. Cyffyrddodd Chris Chapman ar y rhan fwyaf o'r pwyntiau y buaswn i wedi'u gwneud ond o fwrw cipolwg ar yr ystadegau, gwelwn pa mor llwm ydynt mewn gwirionedd. Yng Nghymru, dim ond dau o'r 22 awdurdod lleol a gyfeiriodd o gwbl at ofalu am blant carcharorion yn eu cynllun plant a phobl ifanc. Mae nifer sylweddol o blant yn cael profiad o riant yn y carchar yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol. Rydych wedi ateb y cwestiwn ynghylch cymorth i ysgolion. A gaf fi ofyn i chi, yn syml, beth rydych chi am ei wneud, gan weithio gyda Gweinidogion eraill, er mwyn sicrhau bod awdurdodau yn canolbwyntio llawer mwy ar hyn yn y dyfodol, pa un a ydych yn ei roi ar sail fwy statudol ai peidio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Public Services is in the Chamber and heard your question, so if it is indeed two out of 22 local authorities then, clearly, we need to make sure that they are aware of the recently published guidance, because it is up to local authorities to ensure that support is provided for children affected by parental imprisonment. I will ensure—working with the Minister for Public Services—that we raise awareness with the other 20 local authorities.

Mae'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yn y Siambr a chlywodd eich cwestiwn, felly os yw'n wir mai dau o'r 22 awdurdod lleol sy'n gwneud hyn, yna mae'n amlwg fod angen i ni wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan mai mater i awdurdodau lleol yw sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu ar gyfer plant yr effeithir arnynt oherwydd bod eu rhieni yn y carchar. Gan weithio gyda'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, byddaf yn sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth ymhlith yr 20 awdurdod lleol arall.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydych chi wedi sôn am y prosiect Invisible Walls yn y Parc, ac mae hwnnw'n dibynnu ar grant o £3 miliwn gan gronfa'r loteri. O ystyried bod gwaith adeiladu ar y carchar yn Wrecsam yn mynd rhagddo, a'r ffaith bod swyddogion o Lywodraeth Cymru ar y tasglu sy'n ymwneud â'r paratodau ar gyfer y carchar hwnnw, a wnewch chi roi rhyw fath o warant inni heddiw y byddwch chi'n trafod y materion hyn wrth i'r gwasanaethau yn Wrecsam ddatblygu, achos mae perygl y bydd prosiectau fel Invisible Walls yn diflannu unwaith y bydd arian y loteri yn diflannu?

Minister, you have mentioned the Invisible Walls project in Parc prison, and that is dependent on a £3 million grant from the lottery fund. Considering that the work on the construction of the prison in Wrexham is ongoing, and the fact that there are Welsh Government officials on the taskforce involved in the preparations for that prison, can you give us some kind of guarantee today that you will discuss these issues as the services in Wrexham develop, because there is a risk that projects such as Invisible Walls will disappear once the lottery funding disappears?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The community safety division also awards funding to Parc prison regarding the Invisible Walls project. It is a brilliant project, and you are absolutely right that it was made in Wales, and it is now transferring to England, so it is really important that the north Wales prison, if that is appropriate, has it there. I know that education and health officials, for instance, are engaged with the Ministry of Justice while the prison is being constructed, to have the discussions around the provision of support services for prisoners.

Mae'r isadran diogelwch cymunedol hefyd yn rhoi arian i garchar y Parc mewn perthynas â'r prosiect Waliau Anweledig. Mae'n brosiect gwyb ac rydych yn llygad eich lle ei fod yn tarddu o Gymru a bellach yn trosglwyddo i Loegr, felly mae'n bwysig iawn bod y carchar yn ngogledd Cymru, os yw hynny'n briodol, yn ei gael yno. Gwn fod swyddogion addysg ac iechyd, er enghraifft, yn ymwneud â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth i'r carchar gael ei adeiladu ar gyfer trafod darparu gwasanaethau cymorth i garcharorion.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Cymunedau yn Gyntaf

## Communities First

14:56

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Beth yw asesiad y Gweinidog o lwyddiant y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0250(CTP)

10. What is the Minister's assessment of the success of the Communities First programme? OAQ(4)0250(CTP)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



- 14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I have visited several Communities First settings and seen for myself how the programme is changing lives for the better and building more prosperous, healthier and learning communities. Additionally, an evaluation of the early stages of the refocused programme is now under way and this will be available in the new year.
- Rwyf wedi ymweld â nifer o leoliadau Cymunedau yn Gyntaf a gweld drofod fy hun sut y mae'r rhaglen yn newid bywydau er gwell, ac yn adeiladu cymunedau iachach, mwy ffyniannus, sy'n dysgu. Yn ogystal, mae gwerthusiad o gamau cynnar y rhaglen addasedig bellach ar y gweill a bydd hwn ar gael yn y flwyddyn newydd.
- 14:57 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae dros 10 mlynedd wedi mynd heibio ers i indecs amddifadedd lluosog Cymru gael ei greu. A oes unrhyw un o'r ardaloedd a gynhwyswyd yn y rhestr o'r cymunedau mwyaf difreintiedig gwreiddiol wedi gwella a chryfhau digon i beidio â chael eu cynnwys fel rhai difreintiedig erbyn hyn?
- More than 10 years have passed since the Welsh index of multiple deprivation was created. Has any one of the areas included in the original list of the most deprived areas improved sufficiently so that it is not included among the most deprived areas by now?
- 14:57 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Clearly, the index has been published today, and as I have said in previous answers, I now need to consider very carefully the factors underlying performance in our communities to see where the movement has been. There have not been large movements of wards, so I think that we need to look at what performance has been positive, what has been weaker, and then compare over the 10 years which wards have had the biggest movements.
- Yn amlwg, cafodd y mynegai ei gyhoeddi heddiw ac fel y dywedais mewn atebion blaenorol, mae angen i mi ystyried yn ofalus iawn y ffactorau sy'n sail i berfformiad yn ein cymunedau i weld lle bu symud. Ni fu symudiadau mawr yn y wardiau, felly rwy'n meddwl bod angen i ni edrych ar ba berfformiad a fu'n gadarnhaol, yr hyn sy'n wannach, a chymharu dros y deng mlynedd pa wardiau sydd wedi profi'r symudiadau mwyaf.
- 14:58 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, what assessment have you made of the Communities First investment in organisations such as the Clydach Development Trust, which operated the Forge Fach community centre in Gower, but was made insolvent? One of the previous Deputy Ministers, Vaughan Gething, committed to make a full statement on the situation and the significant Communities First investment that was lost in the trust. I am sure that you would agree that if we are to ensure that Communities First and other publicly funded projects deliver for our communities—especially in areas like Clydach—we must learn lessons from this. So, could you update me on this please?
- Weinidog, pa asesiad a wnaethoch o'r buddsoddiad Cymunedau yn Gyntaf mewn sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Ddatblygu Clydach, a weithredai ganolfan gymunedol Forge Fach yng Ngŵyr, ond a aeth yn fethdalwr? Mae un o'r Dirprwy Weinidogion blaenorol, Vaughan Gething, wedi ymrwymo i wneud datganiad llawn ar y sefyllfa a'r buddsoddiad Cymunedau yn Gyntaf sylweddol a gollwyd yn yr ymddiriedolaeth. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno, os ydym am sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf a phrosiectau eraill a ariannir yn gyhoeddus yn darparu ar gyfer ein cymunedau—yn enwedig mewn ardaloedd fel Clydach—mae'n rhaid i ni ddysgu gwersi o hyn. Felly, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am hyn os gwelwch yn dda?
- 14:58 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It is very important that we learn lessons. I do not have that information to hand, but I will write to the Member.
- Mae'n bwysig iawn ein bod yn dysgu gwersi. Nid oes gennyf y wybodaeth honno wrth law, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod.

## Banciau Bwyd

## Food Banks

- 14:58 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith banciau bwyd? OAQ(4)0259(CTP)
11. Will the Minister make a statement on the work of food banks? OAQ(4)0259(CTP)

14:58

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government recognises and values the work of the Welsh food bank network and the contribution it makes to our tackling poverty agenda. We want food banks to link with other areas, such as Communities First and advice services, to work collectively to tackle the issues that people face in desperate times.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwaith y rhwydwaith banciau bwyd yng Nghymru a'u cyfraniad tuag at ein hagenda drechu tlodi. Rydym am i fanciau bwyd gysylltu â meysydd eraill, megis Cymunedau yn Gyntaf a gwasanaethau cyngori, er mwyn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r materion y mae pobl yn eu hwynebu ar adegau anodd iawn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:59

**Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that reply. She will know that many Assembly Members, as many other members of the community, will be supporting food banks, particularly at this time of year. I wonder whether the Minister has had a chance to look at the most recent study commissioned by the Church of England, Trussell Trust, Oxfam and the Child Poverty Action Group, which showed that over half of those using food banks are using them because of delays or sanctions under the benefits system. This reflects the Minister's debate yesterday, but 20% of those using them are using them due to low income—that is, in-work poverty. Time and time again, the UK Government rejects these studies, even though they are undertaken according to social study norms, saying that they are not official statistics and that it will not accept them. Is there anything that the Welsh Government can do in terms of collecting official statistics about the use of food banks in Wales and beyond, working with other devolved Governments, so that we can at least challenge the UK Government on the pernicious effects of its policies and welfare reform?

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Bydd yn gwybod y bydd llawer o Aelodau'r Cynulliad, fel llawer o aelodau eraill o'r gymuned, yn cefnogi banciau bwyd, yn enwedig ar yr adeg hon o'r flwyddyn. Tybed a yw'r Gweinidog wedi cael cyfle i edrych ar yr astudiaeth ddiweddaraf a gomisyndwyd gan Eglwys Loegr, Ymddiriedolaeth Trussell, Oxfam a'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, a ddangosai fod dros hanner y rhai sy'n defnyddio banciau bwyd yn eu defnyddio oherwydd oedi neu gosbau o dan y system fudd-daliadau. Mae hyn yn adlewyrchu dadl y Gweinidog ddoe, ond mae 20% o'r rhai sy'n eu defnyddio yn gwneud hynny oherwydd incwm isel—hynny yw, tlodi mewn gwaith. Dro ar ôl tro, mae Llywodraeth y DU yn gwrthod yr astudiaethau hyn, er eu bod yn cael eu gwneud yn unol â safonau astudiaethau cymdeithasol, gan ddweud nad ydynt yn ystadegau swyddogol ac na fydd yn eu derbyn. A oes unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud o ran casglu ystadegau swyddogol ynghylch y defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru a thu hwnt, gan weithio gyda Llywodraethau datganoledig eraill, fel y gallwn o leiaf herio Llywodraeth y DU ar effeithiau niweidiol ei pholisïau a'i diwygiadau lles?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:00

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think that the Member raises a very important point and I would certainly be happy to see what we could do in that area. I have had the opportunity to look at the report. We now have 80,000 people in Wales being helped by the Trussell Trust in 2013-14. That has doubled in a year. So, clearly, I am sure that Members can see that the UK Government's welfare reform is not working.

Yn wir, rwy'n meddwl bod yr Aelod yn codi pwynt pwysig iawn a byddwn yn sicr yn hapus i weld beth y gallwn ei wneud yn hynny o beth. Rwyf wedi cael cyfle i edrych ar yr adroddiad. Bellach mae gennym 80,000 o bobl yng Nghymru yn cael cymorth gan Ymddiriedolaeth Trussell yn 2013-14. Mae hynny wedi dyblu mewn blwyddyn. Felly, yn amlwg, rwy'n sicr y gall Aelodau weld nad yw diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn gweithio.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:00

**Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

When I met the admirable Trussell Trust earlier this year, it told me that food banks are an expression of something that has been going on in the churches for ever, namely feeding the hungry. When I met another food bank provider in north Wales, it said that it had a passion to help people with a hand up, not a handout. Would you join me in welcoming the contribution that the third sector, the faith-based sector and the private sector are making, particularly this week, given that it is the fifth neighbourhood food collection between the Trussell Trust and Tesco?

Pan gyfarfûm ag Ymddiriedolaeth Trussell, sy'n sefydliad rhagorol, yn gynharach eleni, dywedodd wrthyf fod banciau bwyd yn fynegiant o rywbeth a fu'n digwydd erioed yn yr eglwysi, sef bwydo'r newynog. Pan gyfarfûm â darparwr banc bwyd arall yng ngogledd Cymru, dywedodd ei fod yn angerddol ynglŷn â chynnig help i bobl yn hytrach na thaffen. A fydddech yn ymuno â mi i groesawu cyfraniad y trydydd sector, y sector ffydd a'r sector preifat, yn enwedig yr wythnos hon, o gofio mai dyma'r pumed tro i Ymddiriedolaeth Trussell a Tesco gasglu bwyd gan y gymdogaeth?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:01	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Yes, I absolutely welcome the contribution of the third sector and church organisations. I think that the faith communities certainly play a much wider role in society than we sometimes give them credit for, but, unfortunately, I still make the point that Simon Thomas made: it is the UK Government's welfare reforms that are forcing so many people to use food banks in Wales.	Byddwn, rwy'n llwyr groesawu cyfraniad y trydydd sector a sefydliadau eglwysig. Credaf fod y cymunedau ffydd yn bendant yn chwarae rhan lawer ehangach yn y gymdeithas nag y cânt glod gennym am ei wneud, ond yn anffodus, rwy'n dal i wneud y pwynt a wnaeth Simon Thomas: diwygiadau lles Llywodraeth y DU sy'n gorfodi cymaint o bobl i ddefnyddio banciau bwyd yng Nghymru.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:01	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Question 12, OAQ(4)0249(CTP), has been transferred for written answer. Question 13, OAQ(4)0261(CTP), is withdrawn.	Mae cwestiwn 12, OAQ (4) 0249 (CTP), wedi'i drosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig. Mae cwestiwn 13, OAQ (4) 0261 (CTP), wedi'i dynnu'n ôl.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<b>Rhaglen Dechrau'n Deg</b>	<b>Flying Start Programme</b>	
15:01	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Dechrau'n Deg? OAQ(4)0251(CTP)</i>	<i>14. Will the Minister make a statement on the Flying Start programme? OAQ(4)0251(CTP)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:01	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> In 2013-14, we supported 31,322 children and their families across Wales through the Flying Start programme. We are on course to meet our commitment to reach 36,000 children by the end of this Assembly term in 2016.	Yn 2013-14, cefnogwyd 31,322 o blant a'u teuluoedd ledled Cymru gennym drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad i gyrraedd 36,000 o blant erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn yn 2016.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:01	<b>David Rees</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you for that answer, Minister. I would also like to congratulate the Welsh Government on ensuring that the funding for the Flying Start programme is continued and is in the budget. However, I, like many other Assembly Members I am sure, have constituents who come to me to express the difficulties they face in accessing Flying Start, particularly when they live in Communities First and other Welsh index of multiple deprivation areas identified by the Welsh Government, but their postcode is the wrong postcode. As such, they are missing out on the facilities that would allow their children to get an educational start and also allow the families who are struggling to continue working. Will you be looking at the way in which the allocation is made so that these people in these communities are able to benefit from such a wonderful scheme?	Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Hoffwn hefyd longyfarch Llywodraeth Cymru ar sicrhau bod y cyllid ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg yn parhau a'i fod yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae gennyf i, fel llawer o Aelodau eraill y Cynulliad rwy'n siŵr, etholwyr yn dod ataf i sôn am yr anawsterau a wynebant i gael gwasanaeth Dechrau'n Deg, yn enwedig pan fyddant yn byw mewn Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd eraill y mynegai amddifadedd lluosog yng Nghymru a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond bod eu cod post yn anghywir. Fel y cyfryw, maent yn colli allan ar y cyfleusterau a fyddai'n caniatáu i'w plant gael dechrau addysgol a hefyd yn galluogi teuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd i barhau i weithio. A wnewch chi edrych ar y modd y dyrennir y ddarpariaeth er mwyn i bobl yn y cymunedau hyn allu elwa ar gynllun mor wych?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:02	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you. Unfortunately, the way the scheme is set up, there will always be people who just miss out. I have heard about a street where children on one side get it and children on the other side do not, but, with the geographical element of the scheme, that will always happen. Local authorities do have some flexibility since the redesign of the Flying Start programme, but I think what is important is that we look at this as we go forward.	Diolch. Yn anffodus, oherwydd y ffordd y mae'r cynllun wedi cael ei lunio, bydd rhai pobl bob amser yn colli allan o drwch blewyn. Rwyf wedi clywed am stryd lle mae plant ar un ochr yn ei gael a phlant ar yr ochr arall nad ydynt yn ei gael, ond gydag elfen ddaearyddol y cynllun, bydd hyn bob amser yn digwydd. Mae gan awdurdodau lleol rywffaint o hyblygrwydd ers ailgynllunio rhaglen Dechrau'n Deg, ond rwy'n credu mai'r hyn sy'n bwysig yw ein bod yn edrych ar hyn wrth i ni symud ymlaen.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

15:03	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The Flying Start scheme includes support from the health team, which provides advice on issues with immunisations, nutrition and dental health. Could this programme be enhanced to try to address the recent increase in dental decay in small children?	Mae cynllun Dechrau'n Deg yn cynnwys cymorth gan y tîm iechyd, sy'n darparu cyngor ar faterion imiwneiddio, maeth ac iechyd deintyddol. A ellid gwella'r rhaglen hon er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r cynnydd diweddar yn lefelau pydredd dannedd ymhlith plant bach?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:03	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> The health team obviously plays a huge role in the Flying Start team. Obviously, we have schemes such as Designed to Smile, which are very important. I was at a Flying Start setting in north Wales about a month ago where the health visitor was engaged with a family about healthy gums and the importance of dental care. So, I think that that certainly is being taken forward by health visitors.	Mae'r tîm iechyd yn amlwg yn chwarae rhan enfawr yn nhîm Dechrau'n Deg. Yn amlwg, mae gennym gynlluniau fel Cynllun Gwên, sy'n bwysig iawn. Roeddwn mewn lleoliad Dechrau'n Deg yng ngogledd Cymru tua mis yn ôl lle'r oedd yr ymwelydd iechyd yn siarad â theulu ynglŷn â deintgig iach a phwysigrwydd gofal deintyddol. Felly, credaf fod hynny'n sicr yn cael ei wneud gan ymwelwyr iechyd.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Undebau Credyd</b>		<b>Credit Unions</b>	
15:03	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am undebau credyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0247(CTP)</i>	<i>15. Will the Minister make a statement on credit unions in west Wales? OAQ(4)0247(CTP)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:03	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you. The Welsh Government currently supports Haven, Save Easy and West Wales credit unions through our credit union project. This funding enables the credit unions to work with people who are financially excluded by helping them to manage their money and access affordable finance.	Diolch. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Haven, Save Easy ac undebau credyd gorllewin Cymru drwy ein prosiect undebau credyd. Mae'r cyllid hwn yn galluogi'r undebau credyd i weithio gyda phobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol drwy eu helpu i reoli eu harian a dod o hyd i arian fforddiadwy.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:04	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am grateful to the Minister for mentioning the Haven Credit Union. I recently met with representatives of that particular credit union, which of course has played an important part in the community in Pembrokeshire for almost 20 years. However, sadly, due to financial circumstances, it is now looking to merge with Save Easy Credit Union. This will only happen on the condition that they are able to acquire an injection of additional capital. Given the circumstances, will the Minister look at this specific case and give favourable consideration to providing support to the credit union, given that it plays such an important role in our communities?	Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am grybwyll Undeb Credyd Haven. Cyfarfûm yn ddiweddar â chynrychiolwyr o'r undeb credyd hwnnw, sydd wrth gwrs wedi chwarae rhan bwysig yn y gymuned yn Sir Benfro ers bron i 20 mlynedd. Fodd bynnag, yn anffodus, oherwydd amgylchiadau ariannol, mae bellach yn ystyried uno gydag Undeb Credyd Save Easy. Ni fydd hyn ond yn digwydd ar yr amod eu bod yn gallu cael chwistrelliad o gyfalaf ychwanegol. O ystyried yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog edrych ar yr achos penodol hwn a rhoi ystyriaeth ffafriol i ddarparu cefnogaeth i'r undeb credyd, o gofio ei fod yn chwarae rhan mor bwysig yn ein cymunedau?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:04	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am already looking at this and my officials are in dialogue with Haven and Save Easy credit unions. I think that the last meeting was held on 18 November. It is something I am already looking at.	Rwyf eisoes yn edrych ar hyn ac mae fy swyddogion yn trafod gydag undebau credyd Haven a Save Easy. Credaf fod y cyfarfod diwethaf wedi'i gynnal ar 18 Tachwedd. Mae'n rhywbeth rwyf eisoes yn edrych arno.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
15:05	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you, Minister.	Diolch i chi, Weiniidog.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

15:05	<p><b>Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwylansys</b></p> <p><b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Kirsty Williams to ask the urgent question.</p>	<p><b>Urgent Question: Ambulance Response Times</b></p> <p>Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog 12.66. Rwy'n galw ar Kirsty Williams i ofyn y cwestiwn brys.</p>	<p>Y <a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:05	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>A wnaiff y Gweinidog ddatganiad brys am amseroedd ymateb ambiwlansys ar gyfer mis Hydref sy'n dangos mai dim ond 55.5% o ymatebion brys i alwadau categori A (bygythiad difrifol i fywyd) a gyrhaeddodd y safle o fewn wyth munud? EAQ(4)0524(HSS)</i></p>	<p><i>Will the Minister make an urgent statement on ambulance response times for October which show that just 55.5% of emergency responses to Category A (immediately life-threatening) calls arrived at the scene within eight minutes? EAQ(4)0524(HSS)</i></p>	<p><a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:05	<p><b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health</i></p> <p>Thank you for the question. The latest figures are disappointing and not what the ambulance service, health boards, the public or I would want them to be. Health boards must work closely with the ambulance service to ensure that patients who require an emergency response receive timely access to the best and most appropriate clinical treatment for their needs.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn. Mae'r ffigurau diweddaraf yn siomedig, ac nid yr hyn y byddai'r gwasanaeth ambiwlans, byrddau iechyd, y cyhoedd, na finau'n dymuno iddynt fod. Rhaid i fyrddau iechyd weithio'n agos gyda'r gwasanaeth ambiwlans i sicrhau bod cleifion sydd angen ymateb brys yn cael mynediad amserol at y driniaeth glinigol orau a mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion.</p>	<p><a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:05	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Deputy Minister, if the overall Welsh performance of 55.5% was not bad enough, underlying that are some truly shocking numbers. Seven local authorities have response times below 50%, including Flintshire at 46.9%, Monmouthshire at 46.5%, Caerphilly at 43.6% and Torfaen at 43.3%. While I understand that demand is up on last year, the performance, on October figures of last year, is down by 10%. Given that your Government has new commissioning arrangements, you have given it more money, and you have said that it has recruited more staff, when are you going to stop being disappointed and do something to ensure that the Welsh public has an ambulance response time that meets your targets and ensures its safety?</p>	<p>Ddirprwy Weinidog, pe na bai perfformiad cyffredinol Cymru o 55.5% yn ddigon drwg, yn sail i hynny mae yna ffigurau gwirioneddol frawychus. Mae gan saith awdurdod lleol amseroedd ymateb is na 50%, yn cynnwys Sir y Fflint ar 46.9%, Sir Fynwy ar 46.5%, Caerffili ar 43.6% a Thorfaen ar 43.3%. Er fy mod yn deall bod y galw yn uwch na'r llynedd, mae'r perfformiad, yn ôl ffigurau mis Hydref y llynedd, i lawr 10%. O ystyried bod gan eich Llywodraeth drefniadau comisiynu newydd, eich bod wedi rhoi mwy o arian iddynt a'ch bod wedi dweud eu bod wedi recriwtio mwy o staff, pa bryd rydych chi am roi'r gorau i fod yn siomedig a gwneud rhywbeth i sicrhau bod y cyhoedd yng Nghymru yn cael amseroedd ymateb ambiwlansys sy'n cwrrd â'ch targedau ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel?</p>	<p><a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
15:06	<p><b>Vaughan Gething</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for the follow-up question and the points made. The perspective that I have and that I have made very clear to health boards and to the ambulance trust is that this is a challenge for all of them. It is not simply down to the ambulance trust to deliver an improvement; it is a whole-system requirement. The target is owned by health boards themselves, and I can say that I have made it clear that I expect more from health boards in terms of their adequate and proper engagement with the commissioning arrangements. I do not think that that has taken place to date.</p> <p>However, the really important point is that I want to see a sustained improvement on response times, which has not happened to date. The other point that I would make is that, in assessing the performance of the emergency ambulance service, we need to think about what we are assessing and what value it gives us.</p>	<p>Diolch am y cwestiwn dilynol a'r pwyntiau a wnaed. Y persbectif sydd gennyf a'r hyn rwyf wedi ei wneud yn glir iawn i fyrddau iechyd ac i'r ymddiriedolaeth ambiwlans yw bod hyn yn her i bob un ohonynt. Nid mater i'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn syml yw cyflawni gwelliant; mae'n angen ar gyfer y system gyfan. Mae'r targed yn eiddo i'r byrddau iechyd eu hunain a gallaf ddweud fy mod wedi egluro fy mod yn disgwyl mwy gan y byrddau iechyd o ran eu hymgysylltiad digonol a phriodol â'r trefniadau comisiynu. Nid wyf yn credu bod hynny wedi digwydd hyd yn hyn.</p> <p>Fodd bynnag, y pwynt pwysig mewn gwirionedd yw fy mod am weld gwelliant cyson o ran amseroedd ymateb, nad yw wedi digwydd hyd yma. Y pwynt arall yr hoffwn ei wneud wrth asesu perfformiad y gwasanaeth ambiwlans brys yw bod angen i ni feddwl am yr hyn rydym yn ei asesu a pha werth y mae'n ei gynnig i ni.</p>	<p><a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

The eight-minute target itself is an old target, which we do need to think seriously about. It was introduced in 1974— incidentally, that is the year that I was born. It is not just a debate that we have to have here in Wales about how we effectively measure what the ambulance service does; I know that your party colleague Norman Lamb has also indicated and is on record that he wants the target to change as well. The point that I would make is that, in having a conversation about the ambulance service, that does not mean that we should say, 'We do not expect there to be improvement on response times', but it is the quality of care and the outcomes for patients that I am most concerned about. The variation that you refer to in different parts of Wales is wholly unacceptable. That is the challenge that I have set out. I have been clear in my expectations and I want to have a more sensible conversation with all parties in this Chamber about how we effectively measure and assess the performance of the ambulance service to deliver and to be properly assessed against patient outcomes, because we know that the current eight-minute target does not effectively do that.

Mae'r targed wyth munud ei hun yn hen darged, ac mae angen i ni feddwl o ddirif yn ei glych. Cafodd ei gyflwyno yn 1974—y flwyddyn y cefais fy ngeni, fel y mae'n digwydd. Nid dadl sy'n rhaid i ni ei chael yma yng Nghymru yn unig yw hi ynghylch sut y byddwn yn mesur yn effeithiol beth y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud; gwn fod eich cydweithiwr yn eich plaid, Norman Lamb, hefyd wedi nodi ac wedi cael ei gofnodi'n dweud ei fod am i'r targed newid hefyd. Y pwynt yr hoffwn ei wneud yw hyn: wrth drafod y gwasanaeth ambiwlans, nid yw hynny'n golygu y dylem ddweud, 'Nid ydym yn disgwyl gweld gwelliant yn yr amseroedd ymateb', ond ansawdd y gofal a'r canlyniadau i gleifion yw fy mhryder mwyaf i. Mae'r amrywiadau y cyfeiriwch atynt mewn gwahanol rannau o Gymru yn gwbl annerbyniol. Dyna'r her rwyf wedi'i gosod. Rwyf wedi bod yn glir yn fy nisgwyladau ac rwyf am gael sgwrs fwy synhwyrol gyda phob plaid yn y Siambr hon ynglŷn â sut y byddwn yn mesur ac yn asesu perfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn effeithiol er mwyn iddo gyflawni a chael ei asesu'n briodol yn erbyn canlyniadau i gleifion, oherwydd gwyddom nad yw'r targed wyth munud cyfredol yn gwneud hynny'n effeithiol.

15:08

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would accept, Deputy Minister, that the current eight-minute target should not be the only measure of ambulance performance, and, indeed, it is important that we are able to look at other measures of success. However, the reality is that, yet again, promises have been made to the Welsh public about turning around the performance of the ambulance service and you, as a Welsh Labour Government, have failed to deliver. You have referred to the fact that this is a system-wide issue. Do you accept now that the crisis in unscheduled care across Wales has gone on for far too long and that there is a need for much more concerted action by our Welsh hospitals to address some of the performance issues in emergency departments, which is causing many of the queues that form outside our hospital front doors on far too regular a basis?

Deputy Minister, I make you this offer: I will work with you and any other Member of your Government in order to turn around the performance of the ambulance service. I think it is important that we try to do this on a collaborative, cross-party basis, because none of us can be proud of the performance that we have seen over the past two and a half years. It was April 2013 when the last review of this service was published. It was in July 2013 that the Minister made a statement and gave undertakings that he would turn the situation around and undertake some work to implement the recommendations from that review. We have yet to see the sustained improvement in performance that we need, and I give you the opportunity to work with me and other colleagues on all sides of this Chamber to turn this situation around.

Byddwn yn derbyn, Ddirprwy Weinidog, nad y targed wyth munud cyfredol a ddylai fod yr unig fesur o berfformiad y gwasanaeth ambiwlans, ac yn wir, mae'n bwysig ein bod yn gallu edrych ar fesurau eraill o lwyddiant. Fodd bynnag, y gwir amdani unwaith eto yw bod addewidion wedi cael eu gwneud i'r cyhoedd yng Nghymru ynglŷn â gwella perfformiad y gwasanaeth ambiwlans ac rydych chi, fel Llywodraeth Lafur Cymru, wedi methu â chyflawni. Rydych wedi cyfeirio at y ffaith bod hwn yn fater ar draws y system. A ydych yn derbyn yn awr fod yr argyfwng ym maes gofal heb ei drefnu ym mhob rhan o Gymru wedi parhau'n rhy hir o lawer a bod angen i'n hysbytai yng Nghymru weithredu'n llawer mwy cydunol i fynd i'r afael â rhai o'r problemau o ran perfformiad mewn adrannau achosion brys, sy'n achosi llawer o'r ciwiau sy'n ffurfio y tu allan i ddrysau ein hysbytai yn llawer rhy aml?

Ddirprwy Weinidog, rwy'n cynnig hyn i chi: byddaf yn gweithio gyda chi ac unrhyw Aelod arall o'ch Llywodraeth er mwyn gwella perfformiad y gwasanaeth ambiwlans. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni geisio gwneud hyn ar sail gydweithredol a thrawsbleidiol, oherwydd ni all yr un ohonom fod yn falch o'r perfformiad a welsom dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf. Ym mis Ebrill 2013 y cyhoeddwyd yr adolygiad diwethaf o'r gwasanaeth hwn. Ym mis Gorffennaf 2013 y gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ac ymrwymo i wella'r sefyllfa a gwneud gwaith i weithredu argymhellion yr adolygiad hwnnw. Rydym eto i weld y gwelliant parhaus yn y perfformiad sydd ei angen arnom, ac rwy'n rhoi cyfle i chi weithio gyda mi a chydweithwyr eraill ar bob ochr i'r Siambr hon er mwyn gwella'r sefyllfa.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



15:10

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Darren Miller for his question and the points made. I would not agree with his characterisation of a crisis in unscheduled care. When you look at outcomes for patients, outcomes are positive for patients. When you look, in particular, at the ambulance service, outcomes have improved from the care that paramedics have provided. In particular, for the most time-critical, life-threatening conditions of stroke, heart attack and hip fractures, there has been a significant improvement in the quality of care delivered by paramedics and outcomes for patients.

However, in terms of moving forward and how we have a sensible assessment of performance in the ambulance service, there is work already under way with clinicians on trying to design a more intelligent set of performance measures, and I am expecting to have something more sensible to discuss in the new year. I will be very happy to share that with party spokespeople in the new year as part of what I hope will be a sensible and grown-up way to talk about what the ambulance service does, what is really important to measure, and how we sensibly measure that to understand really what that service does to help to improve patient outcomes and where we need to see improvements made in all parts of Wales and to iron out the regional variation that Kirsty Williams highlighted earlier on.

Diolch i Darren Miller am ei gwestiwn a'r pwyntiau a wnaed. Ni fyddwn yn cytuno â'i ddisgrifiad o argyfwng mewn gofal heb ei drefnu. Pan edrychwch ar ganlyniadau i gleifion, mae'r canlyniadau'n gadarnhaol i gleifion. Pan edrychwch yn benodol ar y gwasanaeth ambiwlans, mae'r canlyniadau wedi gwella o ran y gofal a ddarparwyd gan barafeddygon. Yn benodol, ar gyfer y cyflyrau sy'n dibynnu fwyaf ar ymateb cyflym ac sy'n bygwth bywyd fel strôc, trawiad ar y galon a thorri asgwrn y glun, bu gwelliant sylweddol yn ansawdd y gofal a ddarperir gan barafeddygon a chanlyniadau i gleifion.

Fodd bynnag, o ran symud ymlaen a sut y mae gennym asesiad synhwyrol o berfformiad yn y gwasanaeth ambiwlans, mae gwaith eisoes ar y gweill â chlinigwyr ar geisio dylunio set fwy deallus o fesurau perfformiad, ac rwy'n disgwyl cael rhywbeth mwy synhwyrol i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Byddaf yn barod iawn i rannu hynny â llefarwyr y pleidiau yn y flwyddyn newydd fel rhan o'r hyn a fydd, gobeithio, yn ffordd synhwyrol ac aeddfed o siarad am yr hyn y mae'r gwasanaeth ambiwlans yn ei wneud, yr hyn sy'n wirioneddol bwysig ei fesur, a sut rydym yn ei fesur yn synhwyrol er mwyn deall yn iawn beth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud i helpu i wella canlyniadau i gleifion, a hefyd, lle mae angen i ni weld gwelliannau ym mhob rhan o Gymru er mwyn datrys yr amrywiadau rhanbarthol y tynnodd Kirsty Williams sylw atynt yn gynharach.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:11

**Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I would like to put this month's statistics in the context of three years. In December 2011, 65% of emergency calls were responded to within eight minutes. This month, it is only 55%, as we have heard, and there is definitely a downward trend in performance. Sometimes, it is hinted that that is as a result of increased demand, but, in December 2011, there were just over 14,000 category A calls, and there has been exactly the same number in October 2014, so there is no upward trend over the last three years in demand that accounts for poor performance.

Paramedics I talk to tell me that it is about the length of time that they have to spend on various calls, and that that is where the problem lies. That is connected to A&E departments and access to those departments, but also to the availability of GPs and GPs out of hours in particular. Your Government has spent a lot of time over the last 12 to 18 months discussing issues and addressing issues with the ambulance trust. Do you think that it is time for a radical rethink on the GP out-of-hours service in Wales?

Ddirprwy Weinidog, hoffwn roi ystadegau'r mis hwn yng nghyd-destun tair blynedd. Ym mis Rhagfyr 2011, ymatebwyd i 65% o alwadau brys o fewn wyth munud. Y mis hwn, fel y clywsom, dim ond 55% yw'r gyfradd ac mae tuedd bendant ar i lawr yn y perfformiad. Weithiau, ceir awgrym mai'r rheswm am hyn yw cynnydd yn y galw, ond ym mis Rhagfyr 2011, roedd ychydig dros 14,000 o alwadau categori A, a chafwyd yr un nifer yn union ym mis Hydref 2014, felly ni cheir tuedd ar i fyny yn y galw dros y tair blynedd diwethaf sy'n gyfrifol am berfformiad gwael.

Mae'r parafeddygon y byddaf yn siarad â hwy yn dweud wrthyf ei fod yn ymwneud â faint o amser sydd ganddynt i'w dreulio ar amrywiol alwadau, ac mai dyna lle mae'r broblem. Mae hynny'n gysylltiedig ag adrannau damweiniau ac achosion brys a mynediad i'r adrannau hynny, ond hefyd ag argaeledd meddygon teulu, yn enwedig meddygon teulu y tu allan i oriau. Mae eich Llywodraeth wedi treulio llawer o amser dros y 12 i 18 mis diwethaf yn trafod problemau ac yn mynd i'r afael â thrafferthion gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlans. A ydych chi'n meddwl ei bod yn amser ailfeddwl yn llwyr am y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau yng Nghymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Elin Jones for the comments and the points made. On demand, demand is high and is at a level that is not where we would wish it to be. When thinking about demand, it is part of the challenge that we have to deal with. We have to deal with challenges around handover between the ambulance and the hospital, wherever that person is then being transported to receive additional care. We are thinking about the proper deployment of staff resources—the right staff in the right place at the right time—and we do need to deal with demand in the way that the public use the service and the way that health professionals use the service as well and, in particular, uncoupling what we expect from the patient transport element of the service, which is moving people between care, and the emergency element of providing a clinical service in our emergency vehicles. So, that is part of the challenge that is being actively taken forward in the measures that we have, because we have provided the ambulance trust with additional resource to provide more staff to try to meet demand, but the reality is that, unless we have a different way of using the whole system, that is, by the public and other professionals, and couple that with a sustained improvement in handovers at hospitals, we will have pressures that will be incredibly difficult to manage. We cannot simply expect staff in the ambulance trust to keep on running faster and faster and faster. That is not a sustainable way to deliver an effective clinical service.

The point on GP out-of-our services is that, when I look at this particular issue across different health boards, there are different models that are being provided. If you recall questions a few weeks ago, we talked about a different model that exists on the Isle of Anglesey and some challenges there. However, there are different models that do exist to provide a more effective response, in who delivers it and at what point they deliver it. It is worth looking, for example, at models that could work in different parts of Wales. For example, in Cornwall, there is a model that appears to work in a rural setting that could be transferred into rural settings here in Wales. It delivers a safe and effective service, and requires different health professionals to be part of that. This is very much part of the considerations. It is not about taking ambulances in isolation. It is a whole-system approach that we need to see if we are to see improvement in different parts of the healthcare system, to see ambulance waiting times improve and outcomes, crucially, improved for patients.

Diolch i Elin Jones am y sylwadau a'r pwyntiau a wnaed. Ar fater y galw, mae'r galw yn uchel ac ar lefel uwch na'r hyn y byddem yn dymuno iddo fod. Wrth feddwl am y galw, mae'n rhan o'r her sy'n rhaid i ni ei hwynebu. Mae'n rhaid i ni ddelio â heriau'n ymwneud â throsglwyddo cleifion rhwng yr ambiwlans a'r ysbyty lle bynnag y bydd y cleifion hynny'n cael eu cludo wedyn i gael gofal ychwanegol. Rydym yn meddwl am y defnydd priodol o adnoddau staff y staff iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn-ac mae angen i ni i ddelio â'r galw yn y ffordd y mae'r cyhoedd yn defnyddio'r gwasanaeth a'r ffordd y mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn defnyddio'r gwasanaeth hefyd ac yn arbennig, gwahanu'r hyn rydym yn ei ddisgwyl o elfen cludo cleifion y gwasanaeth, sef symud pobl rhwng gofal, a'r elfen frys sef darparu gwasanaeth clinigol yn ein cerbydau brys. Felly, mae hynny'n rhan o'r her sy'n cael ei datblygu yn ein mesurau, gan ein bod wedi rhoi adnoddau ychwanegol i'r ymddiriedolaeth ambiwlans ar gyfer darparu mwy o staff i geisio ateb y galw, ond y gwir amdani yw hyn: oni fo gennym ffordd wahanol o ddefnyddio'r system gyfan, hynny yw, gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, a chyplysu hynny â gwelliant parhaus o ran y modd y trosglwyddir cleifion yn yr ysbytai, bydd gennym bwysau a fydd yn hynod o anodd ei reoli. Ni allwn ddisgwyl i staff yr ymddiriedolaeth ambiwlans ddal ati i redeg yn gyflymach ac yn gyflymach ac yn gyflymach. Nid yw hynny'n ffordd gynaliadwy o ddarparu gwasanaeth clinigol effeithiol.

Pan edrychaf ar y mater penodol hwn ar draws y gwahanol fyrddau iechyd, y pwynt ynglŷn â gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau yw bod modelau gwahanol yn cael eu darparu. Os cofiwch y cwestiynau ychydig wythnosau yn ôl, buom yn siarad am fodel gwahanol sy'n bodoli ar Ynys Môn a rhai o'r heriau yno. Fodd bynnag, mae gwahanol fodolau yn bodoli i ddarparu ymateb mwy effeithiol, o ran pwy sy'n darparu gwasanaeth ac ar ba bwynt y maent yn ei ddarparu. Mae'n werth edrych, er enghraifft, ar fodolau a allai weithio mewn gwahanol rannau o Gymru. Er enghraifft, yng Nghernyw, ceir model sy'n ymddangos fel pe bai'n gweithio mewn lleoliad gwledig y gellid ei drosglwyddo i leoliadau gwledig yma yng Nghymru. Mae'n darparu gwasanaeth diogel ac effeithiol, ac yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd proffesiynol gwahanol fod yn rhan o hynny. Mae hyn yn sicr yn rhan o'r ystyriaethau. Nid yw'n ymwneud ag ambiwlansys ar eu pen eu hunain. Mae'n ddull system gyfan o weithredu sydd ei angen arnom os ydym am weld gwelliant mewn gwahanol rannau o'r system gofal iechyd, amseroedd aros ambiwlansys yn gwella, ac yn hollbwysig, canlyniadau gwell i gleifion.

15:15

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Deputy Minister, thank you for your responses to various questions today. I most probably have stood up more times on health issues than on any other issue in this Chamber because I was health spokesman for this group before, and very much the same answers come from different Ministers, admittedly. However, one answer sticks in my mind, and that was the answer given to the Chamber on an urgent question in June from the Minister for health himself, who said that there would be improvement within three months. Actually, if you look at the figures today, you will see that they are 10% behind where the figures were 12 months ago. That is a damning indictment indeed, and Members took the Minister at his word. When constituents invariably ask us what the Assembly is going to do about it, rather than what the Government is going to do about it, we relay the answers that Government gives us. Can you give us an indication of what has gone wrong between June and now so that the Minister's prediction of significant improvement in the ambulance response time has not occurred, and in fact a significant deterioration has occurred?

Ddirprwy Weinidog, diolch am eich atebion i amryw o gwestiynau heddiw. Mae'n fwy na thebyg fy mod wedi sefyll ar fy nhraed yn amlach ar faterion iechyd nag ar unrhyw fater arall yn y Siambr gan i mi fod yn llefarydd iechyd ar ran y grŵp hwn o'r blaen, ac mae gwahanol Weinidogion yn rhoi'r un atebion i raddau helaeth, rhaid cyfaddef. Fodd bynnag, mae un ateb yn aros yn y cof, sef yr ateb a roddwyd i'r Siambr ar gwestiwn brys ym mis Mehefin gan y Gweinidog iechyd ei hun, a ddywedodd y byddai gwelliant o fewn tri mis. Mewn gwirionedd, os edrychwch ar y ffigurau heddiw, gwelwch eu bod 10% y tu ôl i lle roedd y ffigurau 12 mis yn ôl. Mae hynny'n gyhuddiad damniol yn wir, a derbyniodd yr Aelodau air y Gweinidog. Pan fydd etholwyr yn ddieithriad yn gofyn i ni beth y mae'r Cynulliad yn mynd i'w wneud am y peth, yn hytrach na'r hyn y mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud am y peth, rydym yn cyfleu'r atebion y mae'r Llywodraeth yn rhoi i ni. A wnewch chi roi syniad o'r hyn sydd wedi mynd o'i le rhwng mis Mehefin a nawr sy'n golygu na wireddwyd proffwydoliaeth y Gweinidog o welliant sylweddol yn amseroedd ymateb ambiwlansys, a bod dirywiad sylweddol wedi digwydd mewn gwirionedd?

15:16

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you for the comments and the question. The three-month period saw an improvement over those three months, and there was then a fall-off. The improvements made were short-term measures that are not sustainable. The important point is how we see a sustainable level of continued improvement.

Diolch i chi am y sylwadau a'r cwestiwn. Mae gwelliant wedi bod dros y cyfnod o dri mis, ac yna cafwyd gwaethygiad. Roedd y gwelliannau a wnaed yn fesurau tymor byr nad ydynt yn gynaliadwy. Y pwynt pwysig yw'r modd y gwelwn lefel gynaliadwy o welliant parhaus.

There is a new leadership within the ambulance trust itself. I am meeting the chief executive of the ambulance trust again next week—it is a scheduled meeting—to understand more of the new perspective that she has on what she can expect to see improve within the service and over what period of time. I know that having a diagnosis of the problem is only part of where you need to be. It is then a matter of what will happen as a result of that, and over what period of time I, as a Minister, can expect to see that improvement take place. That is why I am not going to give an off-the-cuff statement of when I expect to see improvement made, by a certain point in time. [Interruption.] The three-month improvement demonstrated that, to be sustainable, there needs to be a greater level of change within the whole service, and that is what I expect to see. I expect to see health boards properly take up their role in the commissioning and the delivery of all of the system of care, to ensure that we do not keep on coming back to talk about response times and not seeing an improvement made. I do not think that that is contradictory to wanting to see a more sensible conversation around how we assess the performance, and the quality of the performance, of the ambulance trust and in particular in relation to emergency care. Patient outcomes should be what we look for in the whole health service, including the quality of care that is provided by paramedics and colleagues in the ambulance service.

Mae arweinyddiaeth newydd o fewn yr ymddiriedolaeth ambiwlans ei hun. Byddaf yn cyfarfod â phrif weithredwr yr ymddiriedolaeth ambiwlans eto yr wythnos nesaf—mae'n gyfarfod sydd wedi'i drefnu—i ddeall mwy ar y persbectif newydd sydd ganddi ynghylch yr hyn y gall ddisgwyl ei weld yn gwella yn y gwasanaeth a thros ba gyfnod o amser. Rwy'n gwybod mai dim ond rhan o lle mae angen i chi fod yw cael diagnosis o'r broblem. Mae wedyn yn fater o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd o ganlyniad i hynny, a thros ba gyfnod o amser y gallaf i, fel Gweinidog, ddisgwyl gweld y gwelliant hwnnw'n digwydd. Dyna pam nad wyf yn mynd i roi datganiad o'r frest ynglŷn â pha bryd rwy'n disgwyl gweld gwelliannau'n cael eu gwneud, erbyn rhyw bwynt penodol mewn amser. [Torri ar draws.] Dangosodd y gwelliant tri mis fod angen lefel uwch o newid yn y gwasanaeth cyfan iddo fod yn gynaliadwy, a dyna rwy'n disgwyl ei weld. Disgwyliaf weld byrddau iechyd yn ymgymryd â'u swyddogaeth yn briodol o ran y gwaith o gomisiynu a darparu'r holl system ofal, er mwyn sicrhau nad ydym yn dod yn ôl o hyd i siarad am amseroedd ymateb heb weld gwelliant yn cael ei wneud. Nid wyf yn credu bod hynny'n groes i fod eisiau gweld sgwrs fwy synhwyrol ynglŷn â sut rydym yn asesu perfformiad ac ansawdd perfformiad yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac yn arbennig mewn perthynas â gofal brys. Dylai canlyniadau i gleifion fod yr hyn rydym yn chwilio amdano yn y gwasanaeth iechyd cyfan, yn cynnwys ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan barafeddygon a chydweithwyr yn y gwasanaeth ambiwlans.

15:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

There are no other speakers. Thank you, Deputy Minister. We now move to the next item on the agenda.

Nid oes siaradwyr eraill. Diolch, Ddirprwy Weinidog. Symudwn yn awr at yr eitem nesaf ar yr agenda.

## Adroddiad Dilynol y Pwyllgor Menter a Busnes ar Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM)

## The Enterprise and Business Committee's Follow-up Report into Science, Technology, Engineering and Mathematics (STEM) Skills

Y

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Enterprise and Business Committee to move the motion.

Rwy'n galw ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5637 William Graham

Motion NDM5637 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Medi 2014.

Notes the report of the Enterprise and Business Committee on its Inquiry into Science, Technology, Engineering and Mathematics Skills, which was laid in the Table Office on 25 September 2014.

15:18

### William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am delighted to open today's debate on the Enterprise and Business Committee's report into science, technology, engineering and mathematics skills, or STEM skills for short. Nearly four years ago, our predecessor committee reported on the STEM agenda. While much may have happened over that period, our follow-up inquiry revealed that not much has changed. In terms of the take-up of STEM subjects and STEM careers by women, for example, there is still a very long way to go.

Rwy'n falch iawn o agor y ddatl heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, neu sgiliau STEM yn fyr. Bron i bedair blynedd yn ôl, adroddodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd ar yr agenda STEM. Er y gallai llawer fod wedi digwydd dros y cyfnod hwnnw, datgelodd ein hymchwiliad dilynol nad oes llawer wedi newid. O ran nifer y menywod, er enghraifft, sydd wedi dilyn pynciau STEM a chael gyrfaedd STEM, mae ffordd bell i fynd.

What we found is that STEM disciplines are still seen as geeky and male-dominated, and negative STEM stereotypes are regrettably embedded from an early age. What we concluded is that a seismic shift in culture is needed towards positive, gender-neutral perceptions of STEM. Cultural change needs to be happening in schools, families and society as a whole. What we have therefore recommended is a series of early, positive interventions in education, in careers advice, and in experience of the world of work.

Yr hyn a welsom yw bod disgyblaethau STEM yn cael eu gweld o hyd fel rhai 'geeky' gyda llawer mwy o ddynion yn eu dilyn, ac mae stereoteipiau negyddol am STEM yn gwreiddio o oedran cynnar, yn anffodus. Daethom i'r casgliad fod angen newid seismig yn y diwylliant tuag at ganfyddiadau cadarnhaol, niwtral o ran rhyw ynghylch STEM. Mae angen i newid diwylliannol ddigwydd yn yr ysgolion, mewn teuluoedd ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Felly, yr hyn rydym wedi'i argymhell yw cyfres o ymyriadau cynnar, cadarnhaol ym maes addysg, cyngor gyrfaedd, a phrofiadau byd gwaith.

The committee is very grateful to all the people who took the time and effort to contribute to our inquiry. We would like to thank the Minister for Education and Skills, the then Deputy Minister for Skills and Technology, and the Chief Scientific Adviser for Wales for their evidence. In particular, I would like to thank the STEM students who initiated our inquiry by chatting to us online. Their experiences and views on whether enough is being done to encourage the take-up of STEM courses and STEM careers was a great foundation for the rest of our investigations.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r holl bobl a roddodd o'u hamser a'u hymdrech i gyfrannu at ein hymchwiliad. Hoffem ddiolch i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar y pryd, a Phrif Gynghorydd Gwyddonol Cymru am eu tystiolaeth. Yn arbennig, hoffwn ddiolch i'r myfyrwyr STEM a gychwynnodd ein hymchwiliad drwy sgwrsio â ni ar-lein. Roedd eu profiadau a'u barn ynglŷn ag a oes digon yn cael ei wneud i annog pobl ifanc i ddilyn cyrsiau STEM a chael gyrfaedd STEM yn sylfaen wych ar gyfer gweddill ein hymchwiliadau.

15:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am sorry. May I stop you there? Someone has a mobile telephone on, and it is affecting the hearing pieces. Can you make sure your phones are off, please, because it is difficult to hear? Thank you.

Mae'n ddrwg gennyf. A gaf fi eich stopio yn y fan honno? Mae ffôn symudol rhywun ymlaen, ac mae'n effeithio ar yr offer clywed. A wnewch chi'n siŵr bod eich ffonau wedi eu diffodd, os gwelwch yn dda, gan ei bod yn anodd clywed? Diolch.

15:20 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Special thanks also go to the stakeholders who met us at lunchtime today so that we could gauge their reactions to our report and the Welsh Government's response to our recommendations. In our report, we made 14 recommendations to the Welsh Government. I shall summarise them into a six-point plan.

Diolch yn arbennig hefyd i'r rhanddeiliaid a gyfarfu â ni yn ystod amser cinio heddiw er mwyn i ni allu pwyso a mesur eu hymateb i'n hadroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'n hargymhellion. Yn ein hadroddiad, gwnaethom 14 o argymhellion i Lywodraeth Cymru a byddaf yn eu crynhoi'n gynllun chwe phwynt.

The first of these initiatives was to enthuse children in STEM. Girls especially need to start in primary school, and they need to be sustained over a longer term. Those interventions need also to influence parents and teachers, and the committee felt that the revamped National Science Academy could take a strategic lead in this area.

Y cyntaf o'r mentrau hyn oedd ennyn brwdfrydedd plant mewn STEM. Mae angen i ferched yn arbennig ddechrau yn yr ysgol gynradd ac mae angen eu cynnal dros gyfnod hwy. Mae angen i'r ymyriadau hynny ddylanwadu ar rieni ac athrawon hefyd, a theimlai'r pwyllgor y gallai'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol ar ei newydd wedd roi arweiniad strategol yn y maes hwn.

The second is that we want to see changes made to the STEM curriculum, in computing especially, so that the focus is on the qualification needs of individual young people for their chosen career or learning pathway, not what might be more convenient or desirable for the school. This is essential if we are to grow and nurture the scientists and technologists we know Wales will need in the future.

Yr ail yw ein bod am weld newidiadau i'r cwricwlwm STEM, mewn cyfrifiadura yn arbennig, fel bod y ffocws ar anghenion cymwysterau pobl ifanc unigol ar gyfer eu dewis yrfa neu lwybr dysgu, nid yr hyn a allai fod yn fwy cyfleus neu'n ddymunol i'r ysgol. Mae hyn yn hanfodol os ydym am ddatblygu a meithrin y gwyddonwyr a'r technolegwyr y gwyddom y bydd eu hangen ar Gymru yn y dyfodol.

The third is that we would like to see impartial and up-to-date careers advice provided earlier so that pupils can be helped in the transition from years 7 to 9. We are urging the Welsh Government to support schools in playing a more active role in replacing the services previously carried out by Careers Wales, and also in liaising with employers to provide relevant, timely and meaningful STEM work experiences for young people. We also want to see the revised Welsh baccalaureate lead to the development of higher-level STEM work placements, similar to the approach already being taken to the provision of higher and lower-level apprenticeships. A formal skills audit of supply and demand for STEM skills in Wales, and aligning that with the projected future needs of a growing and sustainable Welsh economy, will be important in this regard.

Y trydydd yw y byddem yn hoffi gweld cyngor gyrfaoedd diduedd a chyfredol yn cael ei ddarparu'n gynharach fel y gellid helpu disgyblion i bontio rhwng blynyddoedd 7 a 9. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ysgolion i chwarae rhan fwy gweithredol er mwyn cael gwasanaethau yn lle'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol gan Gyrfa Cymru, a hefyd wrth gysylltu â chyflogwyr i ddarparu profiadau gwaith STEM perthnasol, amserol ac ystyrlon i bobl ifanc. Rydym hefyd am weld bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn arwain at ddatblygu lleoliadau gwaith STEM lefel uwch, yn debyg i'r dull gweithredu sydd eisoes ar waith i ddarparu prentisiaethau lefelau uwch ac is. Bydd archwiliad sgiliau ffurfiol o'r cyflenwad a'r galw am sgiliau STEM yng Nghymru, a chysoni hynny â'r anghenion a ragwelir yn y dyfodol i economi gynaliadwy sy'n tyfu yng Nghymru, yn bwysig yn hyn o beth.

The fourth is that we want to see continuous professional development for teachers and lecturers that can build capacity in delivering the STEM agenda from the foundation phase through to further and higher education. We have recommended the Welsh Government should target CPD where it is most needed, based on accurate data. In particular, the Government should support and monitor Estyn's 2013 recommendations that primary schools should provide more training for teachers who lack science and technology subject knowledge. We also want all STEM teachers and lecturers to have the opportunity to gain relevant experience of working in STEM businesses and industries.

Y pedwerydd yw ein bod am weld datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon a darlithwyr er mwyn meithrin gallu i gyflwyno'r agenda STEM o'r cyfnod sylfaen hyd at addysg bellach ac uwch. Rydym wedi argymhell y dylai Llywodraeth Cymru dargedu DPP lle mae ei angen fwyaf, yn seiliedig ar ddata cywir. Yn arbennig, dylai'r Llywodraeth gefnogi a monitro argymhellion Estyn yn 2013 y dylai ysgolion cynradd ddarparu mwy o hyfforddiant i athrawon sy'n brin o wybodaeth bynciol mewn gwyddoniaeth a thechnoleg. Rydym hefyd am i holl athrawon a darlithwyr STEM gael cyfle i gael profiad perthnasol o weithio mewn busnesau a diwydiannau STEM.

The fifth is that we want to see a cascade of STEM role models, particularly female role models, at all educational levels and at all stages in their careers, not just those at the top of their profession.

The sixth is that we want to see the kinds of excellent initiatives we witnessed during this inquiry happening right across Wales.

I want to dwell for a moment on the issue of STEM and gender, which we identified as a key priority. The underrepresentation of women in some STEM subjects, particularly physics, computing and engineering, in STEM apprenticeships and in STEM careers should be a matter of concern for us all.

We heard of several successful projects, such as the Getting Girls into Physics project, the Institute of Physics' stimulating physics network, STEM Cymru's Girls into Engineering project and the construction industry's Be Fair campaign. However, such initiatives cannot be one-off projects and have to be sustained over the long term if we are to make progress in achieving a gender balance within these disciplines.

We have also recommended that the Government should work more closely with STEM employers on developing flexible and family-friendly working practices and support structures. Ministers need to support the chief scientific adviser in her aim to make progress in this area.

Finally, we want to see a more joined-up approach to mainstreaming the Welsh language in STEM policy. We received evidence that the Welsh language will continue to be marginal to central discussions and treated in a tokenistic manner unless STEM funding is earmarked for promoting skills training through the medium of Welsh. This problem is particularly acute for the HE sector.

To summarise our vision for STEM, I am encouraged by the Minister's opening position, in the Government's response, that the committee's recommendations are, and I quote,

'consistent with our current policy direction.'

I am also encouraged by the new Focus on Science campaign, which was launched on 24 October. I trust that the Government's response to the ICT task and finish group's recommendations, which we are told will happen at the turn of the year, will result in positive action.

Y pumed yw ein bod am weld rhaedru modelau rôl STEM, yn enwedig modelau rôl benywaidd, ar bob lefel addysgol a phob cam o'u gyrfaedd, nid y rhai ar frig eu proffesiwn yn unig.

Y chweched yw ein bod am weld y mathau o fentrau rhagorol a welsom yn ystod yr ymchwiliad hwn yn digwydd ledled Cymru.

Rwyf am oedi am funud ar fater STEM a'r rhywiâu a nodwyd gennym yn flaenoriaeth allweddol. Nid oes digon o ferched yn dilyn rhai pynciau STEM, yn enwedig ffiseg, cyfrifiadura a pheirianeg, mewn prentisiaethau STEM ac mewn gyrfaedd STEM, a dylai hynny fod yn fater o bryder i ni i gyd.

Rydym wedi clywed am nifer o brosiectau llwyddiannus, megis y prosiect Getting Girls into Physics, rhwydwaith ffiseg ysgogol y Sefydliad Ffiseg, prosiect Peirianeg i Ferched STEM Cymru ac ymgyrch y diwydiant adeiladu, Bod yn Deg. Fodd bynnag, ni all mentrau o'r fath fod yn brosiectau untro a rhaid eu cynnal yn y tymor hir os ydym am wneud cynnydd ar gyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiâu yn y disgyblaethau hyn.

Rydym hefyd wedi argymhell y dylai'r Llywodraeth weithio'n agosach gyda chyflogwyr STEM ar ddatblygu arferion gweithio hyblyg sy'n ystyriol o deuluoedd a strwythurau cefnogi. Mae angen i Weinidogion gynorthwyo'r prif gynghorydd gwyddonol yn ei nod o wneud cynnydd yn y maes hwn.

Yn olaf, rydym am weld dull mwy cydgysylltiedig o brif ffrydio'r iaith Gymraeg ym mholsi STEM. Cawsom dystiolaeth y bydd yr iaith Gymraeg yn parhau i fod yn ymylol i drafodaethau canolog a'i thrin mewn modd tocenistaidd oni fo cyllid STEM yn cael ei glustnodi ar gyfer hybu hyfforddiant sgiliau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r broblem yn arbennig o ddifrifol ar gyfer y sector AU.

I grynhoi ein gweledigaeth ar gyfer STEM, rwyf wedi fy nghalonogi gan safbwynt agoriadol y Gweinidog yn ymateb y Llywodraeth, fod argymhellion y pwyllgor, a dyfynnaf,

'yn gyson â'n cyfeiriad polisi cyfredol.'

Rwyf wedi fy nghalonogi hefyd gan yr ymgyrch Ffocws ar Wyddoniaeth newydd, a gafodd ei lansio ar 24 Hydref. Hyderaf fod ymateb y Llywodraeth i argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen TGCh, y dywedir wrthym eu bod yn mynd i ddigwydd ar droad y flwyddyn, yn arwain at weithredu cadarnhaol.



What really concerns the committee about the remainder of the Government's response is that it does not tell us anything we did not already know from the evidence the committee received before and during the inquiry. The new funding of £600,000 we already knew about. The references to other initiatives all pre-date our report. The committee's concern is that nothing will change as a result of our recommendations. The committee is particularly disappointed with the Government's response to our recommendations for redressing the STEM gender imbalance. Perhaps the Minister could respond to these concerns in her reply to this debate.

In relation to our recommendation 4, how exactly will the Welsh Government help to build the capacity of schools to deliver 'careers and the world of work' given the cut in funding for Careers Wales? In relation to recommendation 6, will the Government target interventions from year 7 onwards? In relation to recommendation 7, why is the Government putting the onus for continuous professional development on schools rather than providing strategic direction? In respect of recommendation 8, how exactly will the Government provide a more structured and coherent approach for the higher education sector in delivering the STEM agenda? In respect of recommendation 10, could the Minister please clarify whether the Government will in fact publish a skills audit of supply and demand for STEM skills, and act to align the two? I look forward to hearing Members' views and the Minister's response to the points that we have raised.

Yr hyn sy'n pryderu'r pwyllgor yn fawr am weddill ymateb y Llywodraeth yw nad yw'n dweud dim wrthym na wyddem eisoes o'r dystiolaeth a dderbyniodd y pwyllgor cyn ac yn ystod yr ymchwiliad. Roeddem eisoes yn gwybod am y cyllid newydd o £600,000. Daw'r cyfeiriadau at fentrau eraill i gyd o gyfnod cyn dyddiad ein hadroddiad. Mae'r pwyllgor yn pryderu na fydd dim yn newid o ganlyniad i'n hargymhellion. Mae'r pwyllgor yn arbennig o siomedig ag ymateb y Llywodraeth i'n hargymhellion ar gyfer unioni'r anghydbwysedd rhwng y rhywiâu mewn perthynas â STEM. Efallai y gallai'r Gweinidog ymateb i'r pryderon hyn yn ei hymateb i'r ddatl hon.

Mewn perthynas â'n hargymhelliad 4, sut yn union y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i helpu i feithrin gallu ysgolion i gyflwyno 'gyrfaeodda' a byd gwaith' o ystyried y toriad yn y cyllid ar gyfer Gyrfa Cymru? Mewn perthynas ag argymhelliad 6, a fydd y Llywodraeth yn targedu ymyriadau o flwyddyn 7 ymlaen? Mewn perthynas ag argymhelliad 7, pam y mae'r Llywodraeth yn rhoi'r cyfrifoldeb dros ddatblygiad proffesiynol parhaus ar ysgolion yn hytrach na darparu cyfeiriad strategol? O ran argymhelliad 8, sut yn union y bydd y Llywodraeth yn darparu dull mwy strwythuredig a chydlynol o gyflwyno'r agenda STEM ar gyfer y sector addysg uwch? O ran argymhelliad 10, a allai'r Gweinidog egluro a fydd y Llywodraeth mewn gwirionedd yn cyhoeddi archwiliad sgiliau o'r cyflenwad a'r galw am sgiliau STEM, ac yn gweithredu i gysoni'r ddau? Edrychaf ymlaen at glywed barn yr Aelodau ac ymateb y Gweinidog i'r pwyntiau rydym wedi'u codi.

15:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I call the next speaker, can I just say that that sound has come back again. So, somebody else might have a phone on. Can you make sure that all phones are off, please?

Cyn i mi alw ar y siaradwr nesaf, a gaf fi ddweud fod y sŵn hwnnw wedi dod yn ôl eto. Felly, efallai fod ffôn rhywun arall ymlaen. A allwch chi wneud yn siŵr fod pob ffôn wedi'i ddiffodd, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:26 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am adael i mi siarad heddiw ar bwnc sy'n agos iawn at fy nghalon.

Thank you for allowing me to speak today on a subject that is very close to my heart.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

STEM subjects can be hugely fun, creative and inspiring. However, in May this year, 'The Independent' newspaper reported that STEM subjects are dull and boring for teenagers, but they are vital to our economy. These words, 'dull and boring', unfortunately are the words of the teenagers themselves who were involved in the survey undertaken. These teenagers are the future, and ensuring that these people are engaged and enthused by STEM subjects is paramount. Now, it is clear from the report that many young people are not made aware of the enormous range of roles within the STEM job marketplace. They must be shown the huge range of opportunities that exist in the job market, while also removing any myth about the concept of stereotypical job roles surrounding science, maths and ICT.

Gall pynciau STEM fod yn hwyl, yn greadigol ac yn ysbrydoliaeth go iawn. Fodd bynnag, ym mis Mai eleni, adroddodd papur newydd 'The Independent' bod pynciau STEM yn ddiffas ac yn anniddorol i rai yn eu harddegau, ond maent yn hanfodol i'n heconomi. Geiriau rhai yn eu harddegau a gymerodd ran yn yr arolwg eu hunain oedd 'diffas ac anniddorol', yn anffodus. Y bobl ifanc hyn yw'r dyfodol, ac mae sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ac yn frwdfrydig ynghylch pynciau STEM yn hollbwysig. Yn awr, mae'n amlwg o'r adroddiad nad yw llawer o bobl ifanc yn ymwybodol o'r ystod enfawr o rolau yn y farchnad swyddi STEM. Rhaid dangos iddynt yr amrywiaeth enfawr o gyfleoedd sy'n bodoli yn y farchnad swyddi, a chael gwared ar gysyniadau ystrydebol am rolau swyddi ym maes gwyddoniaeth, mathemateg a TGCh.

STEM qualifications and skills are urgently needed and highly valued in employment. In fact, last week, we saw the announcement of 1,100 plus jobs, many of which require those STEM skills. The report highlights that we must therefore work with teachers, school leaders, employers and parents to ensure that young people are fully informed of the benefits of studying STEM subjects. As stated in recommendation 1 of the report, enhancement and enrichment activities are vital to ensuring this engagement in STEM subjects. These activities could take place both within and alongside the formal curriculum, and can include real-world examples to put the formal curriculum into context. Cross-curricular activities, STEM clubs, the promotion of participation in national and local competitions, meaningful work experience, and informal learning through attendance at museums and other discovery centres—they are important.

My final point is on bringing role models into the school place. It is important that schools are proactive to build a systemic and coherent approach to these activities, ensuring that they are worth while, informative and not simply seen by pupils as a way to get out of the classroom for the day. They are something to enthuse people.

As has already been pointed out by the Chair, gender stereotyping is another barrier to STEM that we must overcome. This again comes back to education and changing the views of young girls and boys from an early age that STEM subjects and jobs are not male dominated, and that women are extremely successful in STEM roles, not just as science or maths teachers. Although I recognise they are important, there is more beyond that.

A survey by Mondelis International showed that girls are put off following a STEM based route through secondary schools, with only 19% saying they would consider a career in engineering compared with 51% of boys. A third of girls stated that they believe careers advice was pushing women not into STEM subjects. However, it has been shown that gender stereotyping starts at an earlier age than that. Recommendation 11 states that we need a targeted intervention at an early age to encourage girls to achieve their full potential. I fully agree with this. To support such an initiative and encourage children from a young age to take hold of science and enjoy it, we need to ensure that we have the gender balance of role models of the highest calibre, to ensure that young girls can aspire to become leaders in STEM fields.

Mae dybryd angen cymwysterau a sgiliau STEM a chânt eu gwerthfawrogi'n fawr ym maes cyflogaeth. Yn wir, yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd bod 1100 o swyddi a mwy yn cael eu creu, a llawer ohonynt yn gofyn am sgiliau STEM. Mae'r adroddiad yn amlygu bod rhaid i ni weithio gydag athrawon, arweinwyr ysgolion, cyflogwyr a rhieni felly i sicrhau bod pobl ifanc yn cael gwybod yn iawn am fanteision astudio pynciau STEM. Fel y nodwyd yn argymhelliad 1 yr adroddiad, mae gweithgareddau gwella a chyfoethogi yn hanfodol i sicrhau'r ymwneud hwn â phynciau STEM. Gallai'r gweithgareddau ddigwydd o fewn cwricwlwm ffurfiol ac ochr yn ochr ag ef, a gall gynnwys enghreifftiau o'r byd go iawn i roi'r cwricwlwm ffurfiol yn ei gyd-destun. Mae gweithgareddau trawsgwricwlaidd, clybiau STEM, hybu cyfranogiad mewn cystadlaethau cenedlaethol a lleol, profiad gwaith ystyrlon a dysgu anffurfiol drwy fynychu amgueddfeydd a chanolfannau darganfod eraill—maent yn bwysig.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â chyflwyno modelau rôl yn yr ysgol. Mae hi'n bwysig fod ysgolion yn mynd ati'n rhagweithiol i adeiladu ymagwedd systematig a chydlynol tuag at y gweithgareddau hyn, gan sicrhau eu bod yn werth chweil, yn llawn gwybodaeth ac na chânt eu gweld gan y disgyblion fel dim ond ffordd allan o'r ystafell ddosbarth am y dydd. Maent yn rhywbeth i ennyn brwdfrydedd pobl.

Fel y nododd y Cadeirydd eisoes, mae stereoteipio ar sail rhyw yn rhwystr arall i STEM sy'n rhaid i ni ei oresgyn. Daw hyn eto yn ôl at addysg a newid barn merched a bechgyn ifanc o oedran cynnar nad meysydd i ddynion yn bennaf yw pynciau a swyddi STEM, a bod menywod yn cael llwyddiant eithriadol mewn swyddi STEM, ac nid fel athrawon gwyddoniaeth neu fathemateg yn unig. Er fy mod yn cydnabod eu bod yn bwysig, mae'n mynd y tu hwnt i hynny.

Dangosodd arolwg gan Mondelis International fod merched yn colli diddordeb mewn dilyn llwybr STEM drwy'r ysgol uwchradd, gyda dim ond 19% yn dweud y byddent yn ystyried gyrfa mewn peirianeg o gymharu â 51% o fechgyn. Dywedodd traean o ferched eu bod yn credu nad oedd cyngor gyrfaoedd yn gwthio menywod i ddilyn pynciau STEM. Fodd bynnag, dangoswyd bod stereoteipio ar sail rhyw yn dechrau yn gynharach na hynny. Mae argymhelliad 11 yn datgan bod angen targedu ymyrraeth yn ifanc i annog merched i wireddu eu potensial llawn. Cytunaf yn llwyr â hyn. I gefnogi menter o'r fath ac annog plant o oedran ifanc i ymddiddori mewn gwyddoniaeth a'i fwynhau, mae angen i ni sicrhau bod gennym gydbwysedd rhwng y rhywiau o fodelau rôl o'r safon uchaf, i sicrhau y gall merched ifanc goleddu uchelgais i ddod yn arweinwyr mewn meysydd STEM.

We see our chief science officer as an obvious role model, but we must go beyond Professor Julie Williams. She is an individual, but we want more, and we want more across all demographic groups and all STEM subject groups. During the last cross-party group on science and technology, we were given a talk by Jessica Leigh Jones, from the Morgan-Botti Lighting Laboratory at Cardiff University. At 18, she was a STEM ambassador, an entrepreneur, and an innovator, and, in 2012, was awarded the Institution of Engineering and Technology young woman engineer of the year for her many achievements. Her enthusiasm and knowledge of her subject was totally visible to those who attended that event. It is more examples like that that we want, to actually go out into the schools and demonstrate what it is, and not just to the secondary schools, but to the primary schools as well.

To conclude my contribution, I refer to recommendation 2, which states that we need to prioritise investment in early interventions and enthuse children in STEM throughout their entire education, starting from primary level. I wrote to the Minister for Education and Skills to see how many primary schools in Wales have a science subject leader who had a degree or an A-level in science, and I asked how many primary school teachers have a science degree or an A-level in the science subjects. Unfortunately, neither the Welsh Government nor the General Teaching Council for Wales hold information on the numbers of primary school teachers with A-levels in science subjects. However, the GTCW does have an indication as to the registered teachers working who have a degree in science or related to science—out of 14,300 registered primary teachers in Wales, only 608 have a known science degree. Next week, I will be chairing a round-table event hosted by the Royal Society of Chemistry, which has launched a campaign to increase that number. It is important that we encourage STEM graduates to go into primary schools as much as into the workplace.

Gwelwn fod ein prif swyddog gwyddonol yn fodel rôl amlwg, ond mae'n rhaid i ni fynd y tu hwnt i'r Athro Julie Williams. Unigolyn yw hi, ond mae arnom eisiau mwy, ac rydym am gael mwy ar draws yr holl grwpiau demograffig a phob un o grwpiau pynciau STEM. Yn ystod y grŵp trawsbleidiol olaf ar wyddoniaeth a thechnoleg, cawsom sgwrs gan Jessica Leigh Jones, o labordy goleuo Morgan-Botti ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn 18 oed, roedd hi'n llysgennad STEM, yn entrepreneur, yn arloeswr, ac yn 2012, enillodd wobwr peiriannydd benywaidd ifanc y flwyddyn y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg yn sgîl ei llwyddiannau niferus. Roedd ei brwdfrydedd a'i gwybodaeth am ei phwnc yn hollol weladwy i'r rhai a fynychodd y digwyddiad hwnnw. Mwy o enghreifftiau fel hyn sydd eu hangen arnom, i fynd allan i'r ysgolion a dangos beth ydyw, ac nid i'r ysgolion uwchradd yn unig, ond i'r ysgolion cynradd hefyd.

I gloi fy nghyfraniad, cyfeiriaf at argymhelliad 2, sy'n nodi bod angen i ni flaenoriaethu buddsoddiad mewn ymyriadau cynnar ac ennyn brwdfrydedd plant mewn STEM drwy gydol eu haddysg gyfan, gan ddechrau o lefel gynradd. Ysgrifennais at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i weld faint o ysgolion cynradd yng Nghymru sydd ag arweinydd pwnc gwyddoniaeth gyda gradd neu lefel A mewn gwyddoniaeth, a gofynnais faint o athrawon ysgolion cynradd oedd â gradd mewn gwyddoniaeth neu A lefel yn y pynciau gwyddonol. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru na Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cadw gwybodaeth am nifer yr athrawon ysgolion cynradd sydd â lefel A mewn pynciau gwyddonol. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor Addysgu Cyffredinol syniad o faint o athrawon cofrestredig sy'n gweithio sydd â gradd mewn gwyddoniaeth neu gysylltiedig â gwyddoniaeth—o'r 14,300 o athrawon cynradd cofrestredig yng Nghymru, dim ond 608 sydd â gradd mewn gwyddoniaeth. Yr wythnos nesaf, byddaf yn cadeirio trafodaeth o amgylch y bwrdd a gynhelir gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, a lansiodd ymgyrch i gynyddu'r nifer hwn. Mae'n bwysig ein bod yn annog graddedigion STEM i mewn i ysgolion cynradd lawn cymaint ag i'r gweithle.

15:31

### **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#)

Presiding Officer, according to Careers Wales, quoting UK labour market intelligent figures, the demand for biology, engineering, mathematics and all other scientific qualifications is increasing. We know all too well that Wales has a long way to go if we are to remain competitive. In fact, for all the energy that the Welsh Government might put in, and we might call for, a lot of our energy will go into running to stand still, so to speak, over the next few years because the need to fulfil those scientific areas in the workplace is going to be so strong and so important over the next few years.

Lywydd, yn ôl Gyrfa Cymru, yn dyfynnu ffigurau gwybodaeth am farchnad lafur y DU, mae'r galw am fioleg, peirianneg, mathemateg a'r holl gymwysterau gwyddonol eraill ar gynnydd. Gwyddom yn rhy dda fod gan Gymru ffordd bell i fynd os ydym i barhau'n gystadleuol. Yn wir, o ran yr holl egni y gallai Llywodraeth Cymru ei gyfrannu, ac y gallem alw amdano, bydd llawer o'n hegni'n mynd tuag at redeg er mwyn aros yn ein hunfan, fel petai, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gan fod yr angen i gyflawni rhai o'r meysydd gwyddonol hyn yn y gweithle yn mynd i fod mor fawr ac mor bwysig dros y blynyddoedd nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I am really pleased that this issue has been revisited today and that the Enterprise and Business Committee has again looked at this. As has been said, a previous inquiry was commissioned in January 2011, which looked at a similar area to this. So, we need to look at what has happened over the last three and a half years. Now, admittedly, there has been some progress. You would have been startled if there had not been, but there clearly has not been enough. I certainly welcome the committee's recommendations that I believe would help STEM skills to improve. I must also agree with the witnesses of the inquiry who commented that there is no magic wand when it comes to dealing with a long-term fix. We need to have much more commitment and to look ahead at a structured way of supporting the education of science in Wales. Is it not terrible that, as David Rees said, these subjects are too often seen as boring—subjects that are key to everyday life and to ensuring that we maintain our standard of life in Wales in the years to come? It is certainly important that that message gets out there, and I know that he is an advocate of that on the cross-party science groups.

The Minister will stand up in response to this debate and say that enough is being done; that there is a route-map to the future, or whatever you might want to call it. Of course, he would say that—we would expect that. However, I must say that when you look at the report, which says that the National Science Academy is identified by the Welsh Government as being the main vehicle for encouraging greater participation in STEM, but you then see that that body has not met with partner hubs since September 2012, with the Welsh Government website saying something different—that they do meet regularly—it is not really a surprise that we are not making more progress in encouraging the take-up of STEM subjects. I really hope that this information is wrong and that regular meetings are taking place. However, I think that we need to have a serious look at this in the Minister's department, with an explanation to the Chamber as to why there is a suspicion that these meetings are not happening in the way that we would like them to.

We often talk about the PISA results in this Chamber, and it is clear that it is not just in STEM that there are problems with educational standards. The skills gap in school leavers raises challenges for those who want to take up STEM later on—challenges that have been endorsed by Wales's relatively poor PISA results.

Professor Niels Jacob, head of the mathematics department at Swansea University, has expressed his concern with the level of the STEM skills of current school leavers too, and he is not alone. So, I am pleased that the Enterprise and Business Committee is urging the Minister to address this issue, and to prioritise the driving up of standards of literacy and numeracy. Yes, we are talking about STEM subjects today, but you cannot see aspects of education in separation—there is a wider problem here that needs to be dealt with.

Rwy'n hynod o falch ein bod yn ailedrych ar y mater hwn heddiw a bod y Pwyllgor Menter a Busnes wedi edrych eto ar hyn. Fel y dywedwyd, comisynwyd ymchwiliad blaenorol ym mis Ionawr 2011 i edrych ar faes tebyg i hwn. Felly, mae angen i ni edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd dros y tair blynedd a hanner diwethaf. Yn awr, rhaid cyfaddef bod peth cynnydd wedi'i wneud. Byddech wedi dychryn pe na bai unrhyw gynnydd, ond mae'n amlwg na fu digon. Rwy'n sicr yn croesawu argymhellion y pwyllgor, a chredaf y byddant yn helpu i wella sgiliau STEM. Rhaid i mi hefyd gytuno â'r tystion i'r ymchwiliad a wnaeth sylwadau nad oes ffon hud ar gael ar gyfer datrys y broblem yn hirdymor. Mae angen i ni gael llawer mwy o ymroddiad ac edrych ymlaen ar ffordd strwythuredig o gefnogi addysg wyddonol yng Nghymru. Onid yw'n ofnadwy, fel y dywedodd David Rees, fod y pynciau hyn yn cael eu gweld yn rhy aml fel pynciau diflas—pynciau sy'n allweddol i fywyd bob dydd ac i sicrhau ein bod yn cynnal ein safon byw yng Nghymru yn y blynyddoedd sydd i ddod? Mae'n sicr yn bwysig i'r neges fynd ar led a gwn ei fod yn hyrwyddo hynny ymhlith y grwpiau gwyddoniaeth trawsbleidiol.

Bydd y Gweinidog yn sefyll ar ei draed mewn ymateb i'r ddadl hon ac yn dweud bod digon yn cael ei wneud; bod y map yno ar gyfer y dyfodol, neu beth bynnag rydych am ei alw. Wrth gwrs, byddai'n dweud hynny—byddem yn disgwyl hynny. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud, pan edrychwch ar yr adroddiad, sy'n dweud bod Llywodraeth Cymru yn nodi mai Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yw'r prif gyfrwng ar gyfer annog mwy o gyfranogiad yn STEM, ond byddwch wedyn yn gweld nad yw'r corff hwnnw wedi cyfarfod â chanolfannau partner ers mis Medi 2012, gyda gwefan Llywodraeth Cymru yn dweud rhywbeth gwahanol—eu bod yn cyfarfod yn rheolaidd—nid yw'n syndod mewn gwirionedd nad ydym yn gwneud mwy o gynnydd o ran annog pobl i ddilyn pynciau STEM. Rwy'n gobeithio'n wirioneddol fod y wybodaeth hon yn anghywir, a bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal. Ond credaf fod angen i ni edrych o ddifrif ar hyn yn adran y Gweinidog, gydag eglurhad i'r Siambr ynglŷn â pham y mae yna amheuaeth nad yw'r cyfarfodydd hyn yn digwydd yn y ffordd y byddem yn hoffi.

Byddwn yn aml yn siarad am ganlyniadau PISA yn y Siambr hon, ac mae'n amlwg nad mewn pynciau STEM yn unig y ceir problemau gyda safonau addysgol. Mae'r bwlch sgiliau mewn rhai sy'n gadael ysgol yn creu heriau ar gyfer y rhai sydd am ddilyn pynciau STEM yn ddiweddarach—heriau a gadarnhawyd gan ganlyniadau PISA cymharol wael Cymru.

Mae'r Athro Niels Jacob, pennaeth yr adran fathemateg ym Mhrifysgol Abertawe, wedi mynegi ei bryder ynghylch lefel sgiliau STEM y rhai sy'n gadael ysgol ar hyn o bryd hefyd, ac nid yw ar ei ben ei hun yn hynny o beth. Felly, rwy'n falch bod y Pwyllgor Menter a Busnes yn annog y Gweinidog i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac i flaenoriaethu'r gwaith o wella safonau llythrennedd a rhifedd. Ydym, rydym yn sôn am bynciau STEM heddiw, ond ni allwch edrych ar agweddau ar addysg ar eu pen eu hunain-mae problem ehangach yma sy'n rhaid rhoi sylw iddi.

Recommendations 7 and 8 of the report call for an improvement in teacher skills—and I think that David Rees touched on this—particularly those with a weaker science background. It is quite extraordinary that one of the statistics in here is that 40% of teachers in Wales teaching physics do not come specifically from a physics background. That is a problem that has, of course, developed over a very long time, but that needs to be dealt with, because, clearly, if you are going to engender enthusiasm among pupils, and engender an enthusiasm and a love for science, then it is important that teachers' skills are up to scratch. I am sure that they themselves would want to be able to access that necessary education so that they can pass on what they have learned.

I will mention David Rees again, because he made some very good points on this. You made the point, David, that you think that you need to encourage children much earlier on to think about following a science background, and I think that you are absolutely right. The same thing was found in the apprenticeship inquiry a couple of years ago. You need to have almost business-dynamo-type models that can go into schools, and can say, 'This is exactly where you are going to use these science subjects in future—whether it be in engineering, science or other areas.'

There are many good points in this report, and I urge Members to read the committee report. Also, I hope that the Government takes action.

Mae argymhellion 7 ac 8 o'r adroddiad yn galw am wella sgiliau athrawon—a chredaf fod David Rees wedi cyffwrdd ar hyn—yn enwedig y rhai y mae eu cefndir gwyddonol yn wannach. Mae'n eithaf rhyfeddol mai un o'r ystadegau yn y fan hon yw nad yw 40% o athrawon Cymru sy'n dysgu ffiseg yn dod o gefndir ffiseg penodol. Mae honno'n broblem sydd wedi datblygu dros gyfnod hir iawn wrth gwrs, ond mae angen rhoi sylw i hyn, oherwydd os ydych yn mynd i ennyn brwdfrydedd ymhlith disgyblion, ac ennyn brwdfrydedd a chariad at wyddoniaeth, yna mae'n amlwg yn bwysig fod sgiliau athrawon yn ddigon da. Rwy'n sicr y byddent hwy eu hunain am allu cael yr addysg angenrheidiol er mwyn gallu trosglwyddo'r hyn y maent wedi ei ddysgu.

Rwyf am sôn am David Rees eto gan iddo wneud rhai pwyntiau da iawn ynglŷn â hyn. Gwnaethoch y pwynt, David, eich bod o'r farn fod angen annog plant yn llawer cynharach i ystyried cefndir gwyddonol ac rwy'n meddwl eich bod yn llygad eich lle. Gwelwyd yr un peth yn yr ymchwiliad i brentisiaethau ychydig o flynyddoedd yn ôl. Mae angen i chi gael modelau o fath dynamo busnes bron, sy'n gallu mynd i mewn i'r ysgolion, a dweud, 'Dyma'n union lle rydych yn mynd i ddefnyddio'r pynciau gwyddonol hyn yn y dyfodol—boed hynny ym maes peirianeg neu wyddoniaeth neu feysydd eraill.'

Mae llawer o bwyntiau da yn yr adroddiad hwn, ac rwy'n annog yr Aelodau i ddarllen adroddiad y pwyllgor. Hefyd, rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn gweithredu.

15:37

## Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae hwn yn adroddiad pwysig iawn. Mae'n adroddiad yr oedd gen i ddiddordeb mawr personol ynddo, oherwydd, er mai gyrfa fel newyddiadurwr wnes i ei dilyn cyn dod i'r fan hon, gwyddoniaeth oedd fy niléit i yn fy mlynnyddoedd ysgol i. Rwy'n cofio prynu fy set gemeg gyntaf i, ac rwy'n cofio mam yn dweud y drefn ar ôl i fi ollwng llond 'test tube' o 'copper sulphate' ar y carped—ac rwy'n addo i chi nad yw 'copper sulphate' yn dod oddi ar garped. Rwy'n cofio'r wefr o ymweld â'r 'launch pad' yn yr Amgueddfa Wyddoniaeth yn Llundain—un o'r canolfannau gwyddoniaeth i blant cyntaf a'r gorau o'i math yn y byd, mae'n siŵr. Mae gennym ni ein hunain yng Nghymru, wrth gwrs, ganolfan debyg ers blynnyddoedd erbyn hyn, sef Techniquet, sydd dafliaid carreg o'r Senedd hon. Rwy'n meddwl bod y ffaith bod Techniquet mor agos at le rwy'n sefyll heddiw yn ein hatgoffa ni mai llwyddiant ein plant ni yw'r allwedd i sicrhau gwyddonwyr y dyfodol. Ac eto, rydym yn dal i weld methiannau amlwg mewn cyrhaeddiad, ac mae'r nifer sy'n astudio gwyddoniaeth i lefel uwch, yn genedlaethol, yn arwydd o fethiant mawr gan gyfres o Lywodraethau yn y fan hon.

This is a very important report, and a report that I personally was very interested in, because, even though I followed a career as a journalist before coming here, my passion during my time at school was science. I remember buying my first chemistry set and I remember my mother telling me off after I had spilt a test tube-full of copper sulphate on the carpet—I can assure you that copper sulphate cannot be removed from a carpet. I well recall the thrill of visiting the launch pad in the London Science Museum, one of the first and best science centres for children in the world. We in Wales have had a similar centre for many years, namely Techniquet, which is a stone's throw from the Senedd. The fact that Techniquet is so close to where I am standing today reminds us that it is the success of our children that will be the key to securing the scientists of the future. Yet, we still see clear failings in attainment, and the numbers of pupils studying these subjects to a higher level is symbolic of the failure of a series of Governments in this place.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Mae Cymru angen gweithlu â sgiliau cryf mewn pynciau STEM, a hynny er lles ein heconomi ni—mae mor syml â hynny. Wrth lunio'r adroddiad hwn, gwelwom y dystiolaeth drosom ein hunain—yr amcangyfrif gan Gyrfa Cymru, er enghraifft, y bydd angen 122% o gynnydd yn nifer graddedigion gwyddorau biolegol yng Nghymru yn yr wyth mlynedd nesaf; 56% mewn peirianeg; 95% yn y gwyddorau mathemategol; ac 80% mewn gwyddorau technoleg. Y cwestiwn yw hyn: beth sydd wedi gwella ers adroddiad y pwyllgor ar bynciau STEM yn 2011 er mwyn ein helpu ni i allu cyflenwi'r gwyddonwyr hynny? Wrth gwrs bod datblygiadau wedi bod, ond canlyniadau'r datblygiadau hynny sy'n bwysig.

Rydym yn gwybod bod astudio pynciau STEM o fudd i bawb a bod eisiau cyflwyno'r sgiliau a chreu brwdfrydedd yn gynnar, ac mae sawl un wedi cyfeirio at hynny. Mae'n rhaid i ni gofio mai dysgu ar ydy'r ffactor pwysicaf mewn gwella perfformiad a chreu diddordeb, ac mae angen i athrawon allu datblygu sgiliau dysgu gwyddoniaeth drwy raglenni datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, mae'n arbennig o bryderus bod diffyg mawr o athrawon sydd wedi arbenigo mewn pynciau gwyddonol fel graddedigion. Mae angen mwy o raddedigion mewn pynciau STEM i fynd yn athrawon.

Mi wnaif ddyfynnu un o'r rhanddeiliaid a fu'n siarad â ni, fel aelodau'r pwyllgor, mewn digwyddiad yn gynharach heddiw. Dywedodd bod mwy o lewod yng Nghymru nag sydd yna o athrawon cynradd sydd wedi eu hyfforddi mewn ffiseg. Mae'n debyg bod naw llew yng Nghymru—ni wn ymhle—a saith athro cynradd sydd wedi derbyn hyfforddiant ffiseg. Ni allaf beidio â chyfeirio yn y man hwn ychwaith at nifer uchel yr ysgolion yng Nghymru nad sydd yn cynnig y tri phwnc gwyddoniaeth ar wahân at safon TGAU. Nid yw hynny'n dderbyniol, ac mae diffyg athrawon yn rhan fawr o'r broblem.

Mae'n rhaid inni bwysleisio'r cyswllt rhwng sgiliau STEM ac anghenion ein heconomi hefyd, wrth gwrs—er enghraifft, y galw cynyddol am arbenigwyr yn y meysydd amgylcheddol a chyfrifiadurol. Mewn gwledydd fel Estonia, er enghraifft, maen nhw wedi gweld gwerth dysgu codio cyfrifiadurol i ddisgyblion o oed ifanc ers tro ac mae eu heconomi ar ei hennill rwan. Mae'n bryd dod â chodio i mewn i'r cwricwlwm ac rwy'n gobeithio y bydd y newidiadau cwricwlwm y mae ymgynghori arnynt rwan yn cynnwys camau breision felly. Hefyd, wrth gwrs, bydd raid inni ddatblygu'r athrawon i ddysgu codio. Clywsom bryderon bod llawer gormod o bwyslais o hyd ar ddysgu pobl ifanc i ddefnyddio technoleg gyfrifiadurol pan mae'n rhaid inni roi llawer mwy o bwyslais ar eu dysgu i greu'r dechnoleg ac ysgrifennu'r feddalwedd. Felly, eto, dyna'r ddadl fawr o blaid dysgu codio.

Fe orffennaf drwy sôn am faes arall y buom yn canolbwyntio'n fawr arno, sef ein methiant yng Nghymru i ddenu merched i astudio pynciau STEM. Dim ond 18% o fyfyrwyr ffiseg lefel uwch yng Nghymru sy'n ferched, er enghraifft. Nid oes angen i mi atgoffa'r Llywodraeth ein bod yn methu merched drwy fethu â'u hybu i gyrraedd eu potensial, ac rydym hefyd yn methu'r economi drwy eithrio bron hanner y boblogaeth o gynnydd eu talentau gwyddonol i'r economi. Mae'r cyfan yn yr adroddiad, ac ni allwn fforddio i bethau aros fel hyn.

Wales needs a workforce with strong STEM skills for the benefit of our economy—it is as simple as that. In drawing up this report, we saw evidence such as the estimates from Careers Wales that we will need a 122% increase in the number of biological science graduates in Wales over the next eight years; a 56% increase in engineering; a 95% increase in mathematical sciences; and an 80% increase in technology. So, the question is this: what has improved since the committee's report on STEM subjects in 2011 that will enable us to supply those scientists of the future. Of course, there have been some developments, but it is the outcomes that are important.

We know that studying STEM subjects benefits everyone, and we need to introduce those skills and generate enthusiasm at an early stage, as many have already mentioned. We must remember that good teaching is the most important aspect in improving performance and in generating interest. Teachers need to develop teaching skills through professional development programmes. However, it is particularly concerning that there is a deficit of teachers who graduated in scientific subjects. We need more graduates in STEM subjects to go into teaching.

I will quote one of the stakeholders who addressed committee members at an event earlier today, who said that there are more lions in Wales than there are primary school teachers trained in physics. Apparently, there are nine lions in Wales—I do not know where they are—while there are seven primary school teachers who have been trained in physics. I cannot let pass the opportunity to refer to the high number of schools in Wales that do not offer the three sciences separately at GCSE level. That is not acceptable, and the shortage of teachers is a large part of the problem.

We must emphasise the link between STEM subjects and the needs of our economy too—for example, the increasing demand for specialists in environmental and IT areas. In nations such as Estonia, for example, they have seen the value of teaching computer coding to pupils at a young age for a long while, and their economy is benefiting as a result. It is time to bring coding into the curriculum, and I hope that curricular changes being consulted upon at the moment will include major steps in that direction. Of course, we will also have to develop the teachers who can teach coding. We heard concerns that there was far too much emphasis on teaching young people to use technology, when we have to place more emphasis on teaching them to create the technology and to write the software. Therefore, once again, that is the strong argument in favour of teaching coding.

I will conclude by talking about another area that we concentrated on, namely our failure in Wales to attract girls to study STEM subjects. Only 18% of A-level physics students are girls, for example. I do not need to remind the Government that we are failing girls by failing to encourage them to reach their potential, and that we are failing the economy by excluding almost half of the population from bringing their scientific talent into the economy. This is all contained within the report, and we cannot afford for things to remain the same.



I grynhoi, felly, tra bod ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad wedi bod yn gadarnhaol—mae'n rhaid dweud hynny—nid yw dweud bod ein hargymhellion ni yn gyson â chyfeiriad polisi'r Llywodraeth yn ddigon ynddo ef ei hun. Efallai ein bod ni i gyd yn edrych i'r un cyfeiriad, ond mae edrych i'r cyfeiriad hwnnw a sefyll yn llonydd yn helpu neb.

While we must acknowledge that the Government's response has been positive, saying that our recommendations are consistent with the direction of Government policy is not adequate in and of itself. We may all be looking in the same direction, but looking in that direction while standing still helps nobody.

15:42

## Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is a pleasure to take part in this debate today, and I want to discuss the issue of bias in science and particularly our recommendations 1, 2 and 7. I had the pleasure of starting my working life at the science centre, Techniquest, and it has been a pleasure to meet again, through this inquiry, some of the brilliant, inspirational women scientists who inspired me and gave me the confidence to build my career. The presence of strong role models such as Anita Shore in Techniquest, Wendy Sadler, the director of science made simple—who actually gave me my first ever training in public speaking—and, of course, the Welsh Government's own science adviser, and the frequency with which they are cited, not only here, but internationally as well, demonstrates not only that women can rise to the top in the sciences, but that when they do they can be a huge inspiration to others.

However, while high-profile role models show us what can be achieved if we shoot for the stars, if you like, sometimes the stars just seem so far away for us mere mortals, and it is also so important, I think, that both boys and girls have appropriate role models throughout their journey through education that reinforces the message that science is exciting, that science is all around us in everything that we do and that science is for everyone.

It is the unconscious bias in the system that concerns me. There is a gender bias and I think that there is also an intellectual bias that begins in our primary schools and becomes more and more entrenched as a child progresses through their educational career. First, in terms of that intellectual bias, there is the widespread belief that science is hard. Estyn has identified low levels of science subject knowledge at primary level as being a huge challenge in terms of being able to deliver on our aspirations for science education. I welcome the review of continuous professional development training modules that is being undertaken at the moment. However, I would ask the Welsh Government to also monitor the take-up of science continuous professional development by our primary schools to ensure that the training that is available is actually being used. We need a body of primary teachers who are all confident enough to teach science—every single one of them—because key stage 1 and key stage 2 sciences are not too hard; I taught it myself in Techniquest.

Mae'n bleser cael bod yn rhan o'r ddadl hon heddiw, ac rwyf am drafod rhagfarn mewn gwyddoniaeth ac yn arbennig ein hargymhellion 1, 2 a 7. Cefais y pleser o ddechrau fy mywyd gwaith yng nghanolfan wyddoniaeth Techniquest, a thrwy'r ymchwiliad hwn, bu'n bleser cyfarfod eto â rhai o'r gwyddonwyr benywaidd rhagorol ac ysbrydoledig a'm hysbrydolodd ac a roddodd hyder i mi ddatblygu fy ngyrfa. Mae presenoldeb modelau rôl cryf megis Anita Shore yn Techniquest, Wendy Sadler, cyfarwyddwr science made simple—a roddodd i mi yr hyfforddiant cyntaf a gefais erioed mewn siarad cyhoeddus—ac wrth gwrs, cynghorydd gwyddonol Llywodraeth Cymru ei hun, a'r modd y cânt eu dyfynnu mor aml yn rhyngwladol yn ogystal ag yn y fan hon, yn dangos nid yn unig y gall merched godi i'r brig yn y gwyddorau, ond hefyd, pan fyddant yn gwneud hynny, eu bod yn gallu bod yn ysbrydoliaeth enfawr i eraill.

Fodd bynnag, er bod modelau rôl proffil uchel yn dangos i ni yr hyn y gellir ei gyflawni os anelwn am y sêr, fel petai, weithiau mae'r sêr i'w gweld mor bell i ffwrdd i ni feidrolion, ac mae mor bwysig hefyd, rwy'n credu, fod modelau rôl priodol ar gyfer bechgyn a merched drwy gydol eu taith drwy addysg sy'n atgyfnerthu'r neges fod gwyddoniaeth yn gyffrous, bod gwyddoniaeth yma o'n cwrmpas ym mhopeth a wnawn, a bod gwyddoniaeth ar gyfer pawb.

Dyma'r rhagfarn anymwybodol yn y system sy'n peri pryder i mi. Mae yna ragfarn ar sail rhyw ac rwy'n meddwl bod yna ragfarn ddeallusol hefyd sy'n dechrau yn ein hysgolion cynradd ac yn gwreiddio fwyfwy wrth i'r plentyn symud ymlaen drwy ei yrfa addysgol. Yn gyntaf, o ran y rhagfarn ddeallusol, mae yna gred gyffredinol fod gwyddoniaeth yn anodd. Mae Estyn wedi nodi lefelau isel o wybodaeth bynciol wyddonol ar lefel gynradd fel her enfawr o ran gallu cyflawni ein dyheadau ar gyfer addysg wyddonol. Croesawaf yr adolygiad o fodiwlau hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Fodd bynnag, hoffwn ofyn hefyd i Lywodraeth Cymru fonitro'r nifer sy'n manteisio ar ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn gwyddoniaeth yn ein hysgolion cynradd i sicrhau bod yr hyfforddiant sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio mewn gwirionedd. Mae arnom angen corff o athrawon cynradd sydd oll yn ddigon hyderus i ddysgu gwyddoniaeth—pob un ohonynt—gan nad yw gwyddorau cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2 yn rhy anodd; bûm yn ei ddysgu fy hun yn Techniquest.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Too often, I am told that primary schools are getting around a lack of confidence in classroom teachers, when it comes to teaching practical science, by arranging for one of the more confident teachers to take these practical lessons in science for the whole school. This ensures, of course, that the children then have an enthusiastic and engaging experience of science, but it always entrenches one negative stereotype and, all too often, two. By taking science out of the hands of the classroom teachers, you send the subliminal message that science is difficult—that science is too hard for my teacher. That is the intellectual bias then being absolutely demonstrated and reinforced in practice. However, as the majority of primary school teachers are women, but science co-ordinators are said to be disproportionately more likely to be men, what you are actually doing is taking science out of the hands of women teachers and giving it to men. So, you are not only reinforcing that intellectual bias, you are proving the gender assumptions right as well. No amount of communications campaigns to encourage girls into science once they get to secondary school are ever going to succeed if those words are so thoroughly undermined by our actions at the most formative stages of our children's lives.

We need to ensure that all of our primary school teachers are confident and enthusiastic about teaching science in their classrooms, and are nurturing that enquiring spirit that grows out of a scientific approach. This is, actually, at the heart of developing that kind of lifelong love of learning that children are born with—it is innate. I have young children, and I tell you: they ask a lot of questions. They must continue to ask questions. It is at the heart of that lifelong love of learning that, as I say, our children will need in the kind of changing and technologically advanced world that we are facing now. I sincerely hope that when the National Science Academy publishes its long-awaited strategy, it will look at nurturing that spirit of scientific enquiry from the very earliest moments and not allow those stereotypes to get a foothold from such an early age, because it is so much harder to unteach a prejudice than it is to demonstrate a positive example in the first place. I believe that we really can get that right here in Wales.

There are some wonderful individual projects running in Wales, but we desperately need that strategic context to ensure that everyone who is working in science education and communication in Wales knows what it is that we are trying to achieve and how they, personally, can help. What became very clear through this inquiry is that, here in Wales, we are blessed with many organisations and individuals who are passionate about science and want to make a difference. I really hope that that strategy will give them the leadership that they need to do exactly that.

Yn rhy aml, dywedir wrthyf fod ysgolion cynradd yn goresgyn diffyg hyder ymhlith athrawon dosbarth o ran dysgu gwyddoniaeth ymarferol drwy drefnu i un o'r athrawon mwy hyderus gyflwyno'r gwersi ymarferol hyn mewn gwyddoniaeth i'r ysgol gyfan. Mae hyn yn sicrhau, wrth gwrs, fod y plant wedyn yn cael profiad brwdfrydig a diddorol o wyddoniaeth, ond mae bob amser yn plannu un stereoteip negyddol, ac yn rhy aml, dau. Drwy gymryd gwyddoniaeth o ddwylo'r athrawon dosbarth, rydych yn anfon neges isganfyddol fod gwyddoniaeth yn anodd—fod gwyddoniaeth yn rhy anodd i fy athro. Dyna'r rhagfarn ddeallusol wedyn yn cael ei harddangos yn agored a'i hatgyfnerthu'n ymarferol. Fodd bynnag, gan fod y rhan fwyaf o athrawon ysgolion cynradd yn fenywod, a chydlynwyr gwyddoniaeth yn fwy tebygol o fod yn ddynion i raddau anghymesur, yr hyn a wnewch mewn gwirionedd yw cymryd gwyddoniaeth o ddwylo athrawon benywaidd a'i rhoi yn nwylo dynion. Felly, byddwch nid yn unig yn atgyfnerthu'r rhagfarn ddeallusol honno, byddwch hefyd yn ategu'r rhagdybiaethau ynghylch rhyw yn ogystal. Ni fydd unrhyw nifer o ymgyrchoedd cyfathrebu i annog merched i astudio gwyddoniaeth ar ôl iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd yn llwyddo os yw'r geiriau hynny'n cael eu tansellio mor drylwyr gan ein gweithredoedd yn ystod y camau mwyaf ffurfiannol ym mywydau ein plant.

Mae angen i ni sicrhau bod ein holl athrawon ysgolion cynradd yn hyderus ac yn frwdfrydig ynghylch dysgu gwyddoniaeth yn eu hystafelloedd dosbarth a'u bod yn meithrin yr ysbryd ymchwilgar hwnnw sy'n tyfu o ymagwedd wyddonol. Mewn gwirionedd, mae hyn yn ganolog i ddatblygu'r math o gariad gydol oes tuag at ddysgu y caiff plant eu geni ag ef—mae'n gynhenid. Mae gen i blant ifanc, ac rwy'n dweud wrthyf: maent yn gofyn llawer o gwestiynau. Rhaid iddynt barhau i ofyn cwestiynau. Mae'n ganolog i'r cariad gydol oes hwnnw tuag at ddysgu y bydd ei angen ar ein plant, fel y dywedais, yn y byd cyfnewidiol a thechnolegol rydym yn ei wynebu'n awr. Rwy'n mawr obeithio, pan fydd yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn cyhoeddi ei strategaeth hirddisgwyliedig, y bydd yn edrych ar feithrin yr ysbryd hwnnw o ymholi gwyddonol o'r eiliadau cynharaf ac na fydd yn caniatáu i stereoteipiau wreiddio o oedran mor gynnar, gan ei bod yn llawer anos dad-ddysgu rhagfarn nag yw hi i ddangos esiampl gadarnhaol yn y lle cyntaf. Rwy'n credu o ddifrif y gallwn gael hynny yma yng Nghymru.

Mae rhai prosiectau unigol gwych ar waith yng Nghymru, ond mae gwir angen y cyd-destun strategol hwnnw i sicrhau bod pawb sy'n gweithio ym maes addysg gwyddoniaeth a chyfathrebu yng Nghymru yn gwybod beth rydym yn ceisio ei gyflawni a sut y gallant hwy helpu'n bersonol. Yr hyn a ddaeth yn amlwg iawn drwy'r ymchwiliad hwn oedd y ffaith ein bod, yma yng Nghymru, wedi ein bendithio gan lawer o sefydliadau ac unigolion sy'n frwd dros wyddoniaeth ac yn awyddus i wneud gwahaniaeth. Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y strategaeth yn rhoi'r arweiniad sydd ei angen arnynt i wneud yn union hynny.

15:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call the Deputy Minister for Skills and Technology to speak on behalf of the Government—Julie James.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i siarad ar ran y Llywodraeth—Julie James.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I very much welcome the Enterprise and Business Committee's report on STEM skills, and I am really grateful for the intensive and detailed work that the committee has undertaken in this important area, which has included scrutiny of submissions of evidence from a wide range of stakeholders with a strong interest in the STEM agenda. I know how intensive and detailed that work was, because, of course, I was involved directly in the review as a member of the committee before taking up my present role as Deputy Minister for Skills and Technology. I think that I can also claim to be one of the people who most supported the need for the review into STEM, because, as many Members in the Chamber will know, in my previous life, and in my previous role before I was a Deputy Minister, one of the many platforms that I constantly banged on about to those who were unfortunate enough to be trapped by me in a place that they could not escape from was the need to have more STEM education in schools and, in particular, the need to have more women in STEM subjects. I have to tell you that my response to that has not changed since taking on this portfolio.

I hope that our response to the committee's report demonstrates clearly my own commitment, and the Government's commitment, to supporting fully an increased focus on promoting and developing the study of STEM subjects. We have already taken forward a number of positive actions in all of the key areas highlighted. However, I am going to disappoint Nick Ramsay and not say that I think that enough is being done; there is a lot more that we need to do. A large number of those things are trialled in our response to the committee, and a number of the others are in train as we speak. A number of suggestions have also been made to me by the committee separate to the report, which I will also be looking into the feasibility of following through.

Rwy'n croesawu adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar sgiliau STEM yn fawr iawn, ac rwy'n wirioneddol ddiolchgar am y gwaith trylwyr a manwl y mae'r pwyllgor wedi ei wneud yn y maes pwysig hwn, yn cynnwys craffu ar gyflwyniadau o dystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb cryf yn yr agenda STEM. Rwy'n gwybod pa mor drylwyr a manwl oedd y gwaith hwnnw am fy mod wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r adolygiad fel aelod o'r pwyllgor, wrth gwrs, cyn dechrau ar fy swydd bresennol fel Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Credaf y gallaf hefyd hawlio fy mod yn un o'r bobl a roddodd fwyaf o gefnogaeth i'r angen am yr adolygiad i STEM, oherwydd, fel y bydd llawer o Aelodau yn y Siambr yn gwybod, yn fy mywyd blaenorol ac yn fy rôl flaenorol cyn i mi ddod yn Ddirprwy Weinidog, un o'r nifer o bynciau y byddwn yn paldaruo amdano'n gyson wrth y rhai hynny a oedd yn ddigon anffodus i gael eu dal gen i mewn lle na allent ddianc ohono oedd yr angen i gael mwy o addysg STEM yn yr ysgolion ac yn benodol, yr angen i gael mwy o fenywod i ddilyn pynciau STEM. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthy ch nad yw fy ymateb i hynny wedi newid ers i mi ymgymryd â'r portffolio hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd ein hymateb i adroddiad y pwyllgor yn dangos fy ymrwymiad fy hun yn glir, ac ymrwymiad y Llywodraeth, i lwyr gefnogi mwy o bwyslais ar ddatblygu a hyrwyddo astudio pynciau STEM. Rydym eisoes wedi datblygu nifer o gamau cadarnhaol ym mhob un o'r meysydd allweddol a amlygwyd. Fodd bynnag, rwyf am siomi Nick Ramsay a pheidio â dweud fy mod yn credu bod digon yn cael ei wneud; mae llawer mwy y mae angen i ni ei wneud. Mae nifer fawr o'r pethau hynny'n cael eu treialu yn ein hymateb i'r pwyllgor ac mae nifer o'r lleill ar y gweill yr eiliad hon. Rwyf i hefyd wedi derbyn nifer o awgrymiadau gan y pwyllgor ar wahân i'r adroddiad, a byddaf hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu'r rhain.

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnech chi ildio?

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly.

Gwnaf, yn sicr.

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. I am very pleased, on this occasion, to be disappointed, Julie, and I hope that far more progress is made over the next few years.

Diolch i chi am ildio. Rwy'n falch iawn, ar yr achlysur hwn, o gael fy siomi, Julie, ac rwy'n gobeithio y bydd llawer mwy o gynydd yn cael ei wneud dros y blynyddoedd nesaf.

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is always nice to disappoint you, Nick.

Mae bob amser yn braf eich siomi chi, Nick.

Anyway, the report sets out 14 specific recommendations, and although some of them are only accepted in principle, they are only accepted in principle because we want to give more consideration exactly to how we are responding. So, I want to make clear that we accept each of the recommendations; it is only how we are going to respond to them that we are saying has resulted in an acceptance in principle.

Beth bynnag, mae'r adroddiad yn nodi 14 o argymhellion penodol ac er bod rhai ohonynt yn cael eu derbyn mewn egwyddor yn unig, gwnawn hynny oherwydd ein bod am roi mwy o ystyriaeth i sut yn union rydym am ymateb. Felly, rwyf am ei gwneud yn glir ein bod yn derbyn pob un o'r argymhellion; nid ydym ond yn dweud ein bod yn derbyn mewn egwyddor oherwydd ein bod am ddweud sut rydym am ymateb iddynt.

The value that we attach to the study of science subjects is demonstrated clearly through our Qualified for Life—Focus on Science campaign launched last month, for example. This campaign reinforces the importance of science study, and links directly with our Qualified for Life plan. Over the year ahead, the Focus on Science campaign will enhance support to primary and secondary schools, pupils and parents, providing more bilingual resources and promoting awareness of science, and interest in it, through competitions, awards and events, taking on many of the concerns that have just been voiced in the Chamber and many places outside.

Many of you will recall the extensive press coverage gained from the Focus on Science launch on 24 October. That clearly highlighted the importance that we are putting on gender equality in STEM. As everybody today has mentioned, we have a real problem with girls' progression to A-level in physics, with only 18% of that group of learners being girls at the moment. That figure has remained stubbornly low for the best part of 40 years. So, we are talking about a serious culturally embedded problem that we have here.

This is not just an issue for Wales, but a commonplace experience across the western developed world. I want to say that I think that some Members can do some things immediately through their personal actions that might change that. All of you will go out to buy Christmas presents or seasonal presents this year; many of you will therefore go to a toy shop. I hope that you will be as appalled as I have been in visiting the toy shop to find the gender segregation that is present in toys today. It is far worse than it was when my children were young, only 15 years ago. I hope that you will make representations every time you come across that about toys being toys, not being pink or blue, or being labelled 'good for a boy' or 'good for a girl'; that they should not show a hammer in blue and a kitchen in pink; that there should not be cultural stereotyping to the point where no child has any option but to be channelled down a path that inevitably leads to the kind of bias that we see in the world of work at the other end of that pipeline. So, while we as a Government will do everything we can to challenge that gender stereotyping, I would say to all of you as individuals, especially those of you with young children, that you should make sure that your choice of toy is not reinforcing that without any thought. Challenge it every time you see it in the stores and with your friends, and perhaps we really will make some cultural inroads. I could go on at great length about that, but I suspect that the Presiding Officer will stop me from doing so.

Mae'r gwerth rydym yn ei roi ar astudio pynciau gwyddonol yn cael ei ddangos yn glir drwy ein hymgyrch Cymwys am Oes—Ffocws ar Wyddoniaeth a lansiwyd y mis diwethaf, er enghraifft. Mae'r ymgyrch hon yn atgyfnerthu pwysigrwydd astudio gwyddoniaeth ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'n cynllun Cymwys am Oes. Dros y flwyddyn i ddod, bydd yr ymgyrch Ffocws ar Wyddoniaeth yn gwella'r gefnogaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd, disgyblion a rhieni, gan ddarparu mwy o adnoddau dwyieithog a hyrwyddo ymwybyddiaeth o wyddoniaeth, a diddordeb ynddi, drwy gystadlaethau, gwobrau a digwyddiadau, gan fynd i'r afael â llawer o'r pryderon sydd newydd gael eu lleisio yn y Siambr a llawer o leoedd y tu allan.

Bydd llawer ohonoch yn cofio'r sylw helaeth a gafodd lansiad Ffocws ar Wyddoniaeth yn y wasg ar 24 Hydref. Dangosodd hynny'n eglur y pwys a roddwn ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn STEM. Fel y mae pawb wedi crybwyll heddiw, mae gennym broblem wirioneddol o ran merched yn camu ymlaen i wneud lefel A mewn ffiseg, gyda dim ond 18% o'r grŵp hwnnw'n ferched ar hyn o bryd. Mae'r ffigur hwnnw wedi aros yn ystyfnig o isel ers bron i 40 mlynedd. Felly, rydym yn sôn am broblem ddifrifol sydd wedi gwreiddio'n ddiwylliannol yma.

Nid mater i Gymru'n unig yw hyn, mae'n brofiad cyffredin ar draws y byd gorllewinol datblygedig. Hoffwn ddweud fy mod yn credu y gall rhai Aelodau wneud rhai pethau'n syth drwy eu gweithredoedd personol a allai newid hynny. Bydd pob un ohonoch yn mynd allan i brynu anrhegion Nadolig neu anrhegion tymhorol eleni; bydd llawer ohonoch, felly, yn mynd i siop deganau. Rwy'n gobeithio y byddwch wedi eich cythruddo lawn cymaint â minnau wrth ymweld â siop deganau a gweld y gwahanu ar sail rhyw sydd i'w weld gyda theganau heddiw. Mae'n llawer gwaeth na'r hyn oedd pan oedd fy mhiant yn ifanc, gwta 15 mlynedd yn ôl. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gwneud y sylw bob tro y dowch ar draws hynny mai tegan yw tegan, nid peth pinc neu las, neu wedi'i labelu fel 'tegan i fachgen' neu 'degan i ferch'; na ddylent ddangos morthwyl glas a chegin binc; na ddylai fod stereoteipio diwylliannol i'r pwynt lle nad oes gan blentyn ddewis ond cael ei sianelu ar hyd llwybr sy'n anochel yn arwain at y math o ragfarn a welwn ym myd gwaith ar ben arall y llwybr hwnnw. Felly, er y byddwn ni fel Llywodraeth yn gwneud popeth yn ein gallu i herio'r stereoteipio ar sail rhyw, hoffwn ddweud wrthyhych i gyd fel unigolion, yn enwedig y rhai ohonoch sydd â phlant ifanc, y dylech wneud yn siŵr nad yw eich dewis o deganau yn atgyfnerthu hynny'n ddifeddwl. Heriwch y peth bob tro y byddwch yn ei weld yn y siopau a gyda'ch ffrindiau, ac efallai y gallwn ennill rywffaint o dir diwylliannol. Gallwn drafod hyn ymhellach, ond rwy'n amau y bydd y Llywydd yn fy rhwystro rhag gwneud hynny.

So, we cannot afford to ignore half of our population because of these historical trends. We absolutely must have a sustained effort, as the committee Chair said. We know that many worthwhile efforts have been made to address the issue of girls in STEM over the years, and we have made some progress in some areas, but what we need to do most of all, as the chief scientific adviser has often said, is to learn from what we know works and we need to implement it more sustainably and specifically right across the piece. So, I was particularly pleased to note that the Minister for Education and Skills, when setting out our £1.755 million programme for funding to Techniquest and Techniquest Glyndŵr from 1 April this year, included the specific requirement that all of their delivery was to have gender balance as a specific objective. Within that, funding should be set aside to support a twin-track pilot project, providing enrichment activities for girls in physics at key stage 4, alongside teacher mentoring support through the Institute of Physics Stimulating Physics Network programme. During the inquiry, the committee learned about the Stimulating Physics Network and how it is achieving greater girls' progression in physics in England. So, I am delighted that these opportunities are now being delivered in Wales, through a partnership between two of our key stakeholders, and I can assure Members that we will be tracking the impact of this pilot project with great interest.

The National Science Academy support plays a key role in this area, promoting, communicating and better co-ordinating STEM outreach and engagement across Wales at all levels via STEM-enrichment activities, which it funds. I will digress slightly and say that I hope that some of you have had a chance to see some of the lab in a lorry-type events that have gone on, and the really good work that we have been doing with the social enterprise Raspberry Pi to bring simple computing and coding into schools as part of a pilot project. If you have not tried it, I recommend that you do, because it is not only very instructive, but also huge fun. I got very good at Snake.

In addition to the funding already outlined, and in support of our work on the STEM agenda, we have provided the £600,000 already mentioned by the committee Chair over the next two years to support the teaching and learning of science in schools. This includes teacher development and the production of learning materials designed to improve scientific literacy skills and overall knowledge specifically. For example, we are also supporting a science advisory function based within the four education consortia with a specific secondary school focus. We have consulted our science teachers and listened to what they have said, and we have responded swiftly to it. However, I take the point made by Eluned Parrott about the unconscious messages that we also send. The Minister for Education and Skills and I have had several conversations about this, and we will be addressing that specific point—both the way in which science is addressed and the people who teach it—so that those specific unconscious bias points will be addressed alongside the specific points about knowledge and aptitude.

Felly, ni allwn fforddio anwybyddu hanner ein poblogaeth oherwydd y tueddiadau hanesyddol hyn. Mae gwirioneddol raid i ni gynnal yr ymdrech, fel y dywedodd Cadeirydd y pwyllgor. Gwyddom fod llawer o ymdrechion gwerth chweil wedi cael eu gwneud i fynd i'r afael â mater merched a STEM dros y blynyddoedd ac rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd mewn rhai meysydd, ond yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn fwy na dim, fel y mae'r prif gynghorydd gwyddonol wedi dweud droeon, yw dysgu o'r hyn y gwyddom sy'n gweithio ac mae angen i ni weithredu hynny'n fwy cynaliadwy ac yn fwy penodol ym mhob dim. Felly, roeddwn yn arbennig o falch o nodi bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wrth gyflwyno ein rhaglen £1.755 miliwn o gyllid i Techniquest a Techniquest Glyndŵr o 1 Ebrill eleni, yn cynnwys y gofyniad penodol y dylai eu holl ddarpariaeth sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau fel amcan penodol. O fewn hynny, dylid neilltuo cyllid ar gyfer cefnogi cynllun peilot dau drac, i ddarparu gweithgareddau cyfoethogi ar gyfer merched mewn ffiseg yng nghyfnod allweddol 4, ochr yn ochr â chymorth mentora gan athro drwy raglen Rhwydwaith Ysgogi Ffiseg y Sefydliad Ffiseg. Yn ystod yr ymchwiliad, dysgodd y pwyllgor am y Rhwydwaith Ysgogi Ffiseg a sut y mae'n sicrhau bod mwy o ferched yn camu ymlaen mewn ffiseg yn Lloegr. Felly, rwyf wrth fy modd fod y cyfleoedd hyn bellach yn cael eu darparu yng Nghymru, drwy bartneriaeth rhwng dau o'n rhanddeiliaid allweddol, a gallaf sicrhau'r Aelodau y byddwn yn olrhain effaith y prosiect peilot gyda diddordeb mawr.

Mae cefnogaeth yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol yn chwarae rhan allweddol yn y maes hwn, yn hyrwyddo, yn cyfathrebu ac yn cydlynu allgymorth ac ymgysylltiad STEM yn well ledled Cymru ar bob lefel drwy weithgareddau cyfoethogi STEM, sy'n cael eu hariannu ganddi. Rwyf am grwydro rhywfaint a dweud fy mod yn gobeithio y bydd rhai ohonoch wedi cael cyfle i weld ychydig o'r labordy mewn digwyddiadau lori sydd wedi cael eu cynnal, a'r gwaith da iawn rydym wedi bod yn ei wneud gyda'r fenter gymdeithasol Raspberry Pi i gyflwyno cyfrifiadura a chodio syml i ysgolion fel rhan o brosiect peilot. Os nad ydych wedi rhoi cynnig arno, rwy'n argymhell eich bod yn gwneud hynny, nid yn unig am ei fod yn addysgiadol iawn, ond am ei fod hefyd yn hwyl. Roeddwn i wedi dod yn dda iawn ar Snake.

Yn ogystal â'r cyllid a amlinellwyd eisoes, ac i gefnogi ein gwaith ar yr agenda STEM, rydym wedi darparu'r £600,000 a grybwyllwyd eisoes gan Gadeirydd y pwyllgor dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi addysgu a dysgu gwyddoniaeth mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys datblygu athrawon a chynhyrchu deunyddiau dysgu a luniwyd i wella sgiliau llythrennedd gwyddonol a gwybodaeth gyffredinol yn benodol. Er enghraifft, rydym hefyd yn cefnogi swyddogaeth gynghori ar wyddoniaeth i weithredu o fewn y pedwar consortiwm addysg gyda ffocys ar ysgolion uwchradd yn benodol. Rydym wedi ymgynghori â'n hathrawon gwyddoniaeth ac wedi gwrandao ar yr hyn y maent wedi'i ddweud, ac rydym wedi ymateb yn gyflym i hynny. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y pwynt a wnaed gan Eluned Parrott am y negeseuon anymwybodol rydym hefyd yn eu cyfleu. Rwyf wedi cael nifer o sgysiau ynglŷn â hyn gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, a byddwn yn mynd i'r afael â'r pwynt penodol hwnnw-y modd yr eir i'r afael â gwyddoniaeth a'r bobl sy'n ei addysgu-fel bod y pwyntiau penodol hynny ynghylch rhagfarn anymwybodol yn cael sylw ochr yn ochr â'r pwyntiau penodol am wybodaeth a dawn.

In addition to our work on science, we are also looking to further support attainment in mathematics. Last week, the Minister for Education and Skills announced the detail of the national conference for secondary mathematics practitioners on 28 January, and we will shortly be establishing a new mathematics task and finish group. This is not just about major structural reform. We have introduced a more fit for purpose mathematics curriculum and a suite of qualifications that are fit for the future.

Building on excellent practice already evident in Wales, this group of experts will be charged with establishing what constitutes effective mathematics teaching and learning, and to develop realistic proposals on how we can support teachers better in bringing about the improvements that we all wish to see in this critical area. The group will be asked to consider girls' progression specifically and support the more able and talented programme as two of its key themes.

We are also funding the further mathematics support programme for Wales. Although our colleague Keith Davies is unable to be here today, he has gone on at great length about the need for further mathematics, which we should acknowledge. This programme widens access to further mathematics at GCSE, AS and A2 level, and has been shown through recent evaluation work to provide very effective support for students interested in that area.

I am aware that I am running out of time. We are developing careers advice in our Qualified for Life plan, in our youth engagement framework, which we discussed in the committee this morning, and in our strategic reassignment of the careers system in Wales. We are working with the chief scientific adviser to look at more innovative ways to deliver careers advice in STEM subject areas. I can see that the Presiding Officer is going to cut me off at the pass, so I will say that we are absolutely committed to developing this work, and we will work in harmony with the committee to develop it further in the future.

Yn ychwanegol at ein gwaith ar wyddoniaeth, rydym hefyd yn ystyried rhoi cefnogaeth bellach i gyrhaeddiad mathemategol. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau fanylion y gynhadledd genedlaethol ar gyfer addysgwyr mathemateg uwchradd ar 28 Ionawr, a byddwn yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen mathemateg newydd yn fuan. Nid ymwneud â diwygio strwythurol mawr yn unig y mae hyn. Rydym wedi cyflwyno cwricwlwm mathemateg mwy addas at y diben a chyfres o gymwysterau sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Gan adeiladu ar arferion rhagorol sydd eisoes yn amlwg yng Nghymru, bydd y grŵp hwn o arbenigwyr yn gyfrifol am bennu'r hyn y mae addysgu a dysgu mathemateg effeithiol yn ei olygu ac yn datblygu argymhellion realistig ar sut y gallwn gefnogi athrawon yn well i geisio cyflawni'r gwelliannau rydym i gyd am eu gweld yn y maes allweddol hwn. Bydd gofyn i'r grŵp ystyried datblygiad merched yn benodol a chefnogi'r rhaglen fwy galluog a thalentog fel dwy o'i themâu allweddol.

Rydym hefyd yn ariannu'r rhaglen gymorth mathemateg bellach ar gyfer Cymru. Er nad yw ein cydweithiwr Keith Davies yn gallu bod yma heddiw, mae wedi sôn yn fanwl am yr angen am fathemateg bellach, a dylem gydnabod hynny. Mae'r rhaglen yn ehangu mynediad at fathemateg bellach ar lefel TGAU, AS ac A2, ac mae gwaith gwerthuso diweddar wedi dangos ei fod yn darparu cymorth effeithiol iawn i fyfyrwyr sydd â diddordeb yn y maes.

Rwy'n ymwybodol fy mod yn brin o amser. Rydym yn datblygu cyngor gyrfaoedd yn ein cynllun Cymwys am Oes, yn ein fframwaith ymgysylltu â phobl ifanc, a gafodd ei drafod gennym yn y pwyllgor y bore yma, ac yn ein newidiadau strategol i'r system yrfaedd yng Nghymru. Rydym yn gweithio gyda'r prif gynghorydd gwyddonol i edrych ar ffyrdd mwy arloesol o ddarparu cyngor gyrfaoedd mewn meysydd STEM. Gallaf weld bod y Llywydd yn mynd i dorri ar fy nhraws, felly dywedaf ein bod yn gwbl ymrwymedig i ddatblygu'r gwaith hwn, a byddwn yn gweithio mewn cytgor â'r pwyllgor i'w ddatblygu ymhellach yn y dyfodol.

15:56

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call the Chair of the Enterprise and Business Committee to reply to the debate—William Graham.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i ymateb i'r ddadl—William Graham.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



I thank you all for your contributions to the debate. What was clear from every speaker was that Members completely acknowledge the reason for the committee's report, and that the recommendations find acceptance right across the Chamber. David Rees made a very good point that science subjects are generally perceived as being dull and boring. We have highlighted how it is for new teachers to gain the experience and for all teachers to engage in CPD so that they can change that round, so that engagement happens as early as possible. Mention was also made of meaningful work experience, which came across greatly when we were talking to students trying to find a job, and they could not do so because they did not have that work experience. You pointed out about role models, which is covered in the report. If I may just add, all of the stakeholders that joined us at lunchtime today were all women, so there is hope for the future in that way.

Nick Ramsay reminded us that it had been three and a half years and that we were now making some progress at least, which reinforced exactly what our witnesses said that there should be more commitment and structure. There was also a very timely reminder about the PISA results and the equal need for literacy and numeracy, not just for STEM subjects.

Rhun ap Iorwerth reminded us of the indelible effects of CuSO<sub>4</sub>, which was similar to his experience of science. He rightly made the point that we can look hopefully to the Minister for education to remind all those practitioners that there is great evidence to say that the separation of the science subjects is well worthwhile. He also referred to the specialist environmental projects of other countries, which I would have thought would have found great resonance with what we have already said. I am sure that the Minister will have also heard your suggestion on computer coding.

Eluned Parrott reminded us of her time at Techniquet, and we were very grateful for the evidence that was given by that institution during our inquiry. It must also be said that the gender bias is certainly there, and we must do a great deal to try to overcome that. Engendering an early interest will hopefully combat that, and there is no reason for teachers to believe that the science subjects are too hard. The inquiring spirit does grow out of a scientific experiment, and that must remain a real strategic concept.

Diolch i chi i gyd am eich cyfraniadau i'r ddatl. Yr hyn a oedd yn glir gan bob siaradwr oedd bod yr Aelodau'n cydnabod y rheswm dros adroddiad y pwyllgor yn llwyr, a'r argymhellion yn cael eu derbyn ar draws y Siambr. Gwnaeth David Rees bwynt da iawn fod pynciau gwyddonol yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn ddiffas ac anniddorol. Rydym wedi amlygu sut beth yw hi i athrawon newydd ennill y profiad ac i'r holl athrawon ymgymryd â DPP er mwyn gallu sicrhau newid, fel bod ymgylltad yn digwydd cyn gynted ag y bo modd. Soniwyd hefyd am brofiad gwaith ystyrlon, a amlygwyd yn fawr pan oeddem yn siarad â myfyrwyr a oedd yn ceisio dod o hyd i swydd, ac ni allent wneud hynny oherwydd nad oedd ganddynt brofiad gwaith o'r fath. Rydych wedi tynnu sylw at fodolau rôl, sy'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad. Os caf ychwanegu, roedd pob un o'r rhanddeiliaid a ymunodd â ni yn ystod amser cinio heddiw yn fenywod, felly mae gobaith ar gyfer y dyfodol yn y ffordd honno.

Atgoffodd Nick Ramsay ni fod tair blynedd a hanner wedi bod a'n bod yn awr yn gwneud rhywfaint o gynnydd o leiaf, a oedd yn atgyfnerthu'n union yr hyn a ddywedodd ein tystion sef y dylid cael mwy o ymroddiad a strwythur. Roedd yna hefyd nodyn atgoffa amserol iawn am ganlyniadau PISA a'r angen cyfartal am lythrenedd a rhifedd, nid yn unig ar gyfer pynciau STEM.

Atgoffodd Rhun ap Iorwerth ni am effeithiau annleadwy CuSO<sub>4</sub>, a oedd yn debyg i'w brofiad ef o wyddoniaeth. Roedd yn iawn i wneud y pwynt ein bod yn gallu edrych yn obeithiol at y Gweinidog addysg i atgoffa'r holl addysgwyr fod tystiolaeth swmpus sy'n dweud bod gwahanu'r pynciau gwyddonol yn beth da. Cyfeiriodd hefyd at brosiectau amgylcheddol arbenigol mewn gwledydd eraill, a buaswn wedi meddwl y buasai hyn yn cyd-asio â'r hyn rydym wedi'i ddweud eisoes. Rwy'n sicr y bydd y Gweinidog hefyd wedi clywed eich awgrym ynghylch codio cyfrifiadurol.

Cawsom ein hatgoffa gan Eluned Parrott am ei hamser yn Techniquet ac roeddem yn ddiolchgar iawn am y dystiolaeth a roddwyd gan y sefydliad hwnnw yn ystod ein hymchwiliad. Rhaid dweud hefyd fod gwahanu ar sail rhyw yn bendant yn bodoli ac mae'n rhaid i ni wneud llawer i geisio goresgyn hynny. Rwy'n gobeithio y bydd meithrin diddordeb cynnar yn cael gwared ar hynny, ac nid oes unrhyw reswm i athrawon gredu bod y pynciau gwyddonol yn rhy anodd. Mae'r ysbryd ymchwilgar yn tyfu o arbrwf gwyddonol, a rhaid i hynny barhau i fod yn gysyniad strategol go iawn.

We come now to the touchstone of the Government response from the Deputy Minister, and we are grateful to her. It is a tribute to the way in which the committee has worked, and we are also grateful to our stakeholders who gave such excellent evidence. The Deputy Minister's particular views are well known and they were reiterated to the committee to great acceptance. Clearly, we know that there is much more to do. However, sadly, the touchstone of the Government response is the section for each recommendation that is headed 'financial implications'. The heart does sink, Deputy Minister, when you read the word 'none'. We must ask you to come forward, if you could possibly do so, with a reasonable action plan. You have suggested ways in which you will carry these recommendations forward, but the committee will wish to see an action plan that we can scrutinise again to know exactly what is going on particularly in key stage 4, as you said. So, we must have STEM skills to underpin Wales's knowledge-based economy. Improvements must happen right across the STEM pipeline—from the curriculum and qualifications offered in primary and secondary schools, in colleges and universities, through careers advice and work experience, in the continuous professional development for education professionals, and in the working practices of STEM employers. I urge the Government to study our report once again, and the recommendations particularly. I am sure that we do not wish to carry out a third inquiry into this subject in the fifth Assembly.

Down yn awr at faen prawf ymateb y Llywodraeth gan y Dirprwy Weinidog, ac rydym yn ddiolchgar iddi. Mae'n deyrnged i'r ffordd y mae'r pwyllgor wedi gweithio, ac rydym hefyd yn ddiolchgar i'n rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth mor wych. Mae safbwyntiau penodol y Dirprwy Weinidog yn gyfarwydd ac fe'u hailadroddwyd wrth y pwyllgor a chawsant dderbyniad cadarn. Yn amlwg, rydym yn gwybod bod llawer mwy i'w wneud. Ond yn anffodus, y maen prawf ar gyfer ymateb y Llywodraeth yw'r adran ym mhob argymhelliad o dan y pennawd 'goblygiadau ariannol'. Mae'r galon yn suddo, Ddirprwy Weinidog, wrth ddarllen y gair 'dim'. Os yw'n bosibl i chi wneud hynny, rhaid i ni ofyn i chi i gynnig cynllun gweithredu rhesymol. Rydych wedi awgrymu ffyrdd y byddwch yn datblygu'r argymhellion hyn, ond bydd y pwyllgor yn dymuno gweld cynllun gweithredu y gallwn graffu arno eto i wybod yn union beth sy'n digwydd yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4, fel y dywedaso. Felly, rhaid i ni gael sgiliau STEM i gynnal economi Cymru sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae'n rhaid i welliannau ddigwydd ar draws y llwybr STEM—o'r cwricwlwm a'r cymwysterau a gynigir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mewn colegau a phrifysgolion, i gyngor gyrfaoedd a phrofiad gwaith, mewn datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol, ac yn arferion gwaith cyflogwyr STEM. Rwy'n annog y Llywodraeth i astudio ein hadroddiad unwaith eto, a'r argymhellion yn arbennig. Rwy'n sicr nad ydym yn dymuno cynnal trydydd ymchwiliad i'r pwnc hwn yn y pumed Cynulliad.

16:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The proposal is to note the Enterprise and Business Committee's report. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diolch. Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth Peter Black i'r Gadair am 16:00.*

*Peter Black took the Chair at 16:00.*

16:01 **Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)**

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Bethan Jenkins to move the motion.

Cynnig NDM5628 Bethan Jenkins

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)

**Stage 1 Debate on the Financial Education and Inclusion (Wales) Bill**

Galwaf ar Bethan Jenkins i gynnig y cynnig.

Motion NDM5628 Bethan Jenkins

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Agrees to the general principles of the Financial Education and Inclusion (Wales) Bill.

16:01 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move the motion.

I would like to start this debate with a short film. It is supposed to come on shortly.

Cynigiau y cynnig.

Hoffwn ddechrau ddadl hon gyda ffilm fer. Mae'n i fod i ddod ar cyn bo hir.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Dangoswyd DVD. Mae'r trawsgrifiad mewn dyfynodau isod yn drawsgriafiad o'r cyfraniadau llafar ar y DVD. Mae'r cyflwyniad ar gael drwy ddilyn y linc hon:*

[Cyflwyniad DVD.](#)

'I wasn't given any lessons in managing money.'

'I left school with no idea what to do or how to manage money.'

'I didn't have any lessons about managing money.'

'Ches i erioed yn yr ysgol unrhyw wersi am arian neu am wario arian.'

'My school not really thinking that I had the skills to manage my own money.'

'I did have a couple of lessons in regards to manage money, especially myself why I took business studies.'

'I left school, I had to go into a job to feel that I didn't have those skills'

'Not confident that I had the skills to know how money works.'

'Sai'n meddwl o gwbl ro'n i'n hyderus ynglŷn â'r gallu i ymddelio ag arian mewn ffordd synhwyrol ar ôl gadael yr ysgol.'

'I had to sort of go and learn from the mistakes of others more than just learning what to do straight off.'

'I think it affected my ability to look after my own money.'

'It's made me feel like I don't really see the importance of saving.'

'It's definitely given me a boost because it's something that everyone needs to be made aware of, because it's an important skill within life.'

'If I had to take out a loan or a mortgage, I wouldn't know where to start.'

'I wouldn't be able to do it independently by myself.'

'I would not have the skills to take out a loan or arrange anything like that.'

'I wouldn't be able to cope financially if I had an unexpected problem.'

*A DVD was shown. The transcription in quotation marks below is a transcription of the oral contributions on the DVD. The presentation can be accessed by following this link:*

[DVD presentation.](#)

'Ni chefais i'r un wers ar reoli arian.'

'Gadewais yr ysgol heb unrhyw syniad beth i'w wneud na gwybod sut i reoli arian.'

'Ni chefais unrhyw wersi ar reoli arian.'

I never had any lessons in school about money or spending money.

'Nid oedd fy ysgol yn wir yn meddwl fod gennyf y sgiliau i reoli fy arian fy hun.'

'Cefais un neu ddwy wers mewn perthynas â rheoli arian, yn enwedig gan fy mod wedi cymryd astudiaethau busnes.'

'Gadewais yr ysgol, bu'n rhaid i mi fynd i mewn i swydd i deimlo nad oedd gennyf y sgiliau hynny'

'Nid oeddwn yn hyderus fod gennyf y sgiliau i wybod sut mae arian yn gweithio.'

I don't think that I was at all confident about the ability to deal with money in a sensible way after leaving school.

'Roedd fel petai'n rhaid i mi fynd i ddysgu o gamgymeriadau pobl eraill yn fwy na dim ond dysgu beth i'w wneud yn syth.'

'Rwy'n credu i hyn heffeithio ar fy ngallu i ofalu am fy arian fy hun.'

'Mae wedi gwneud i mi deimlo fel na bawn yn wir yn gweld pwysigrwydd cynilo.'

'Yn bendant, mae wedi rhoi hwb i mi oherwydd ei fod yn rhywbeth y mae angen i bawb fod yn ymwybodol ohono, am ei fod yn un o sgiliau pwysig bywyd.'

'Pe bai'n rhaid i mi gymryd benthyciad neu forgais, fyddwn i ddim yn gwybod ble i ddechrau.'

'Fyddwn i ddim yn gallu ei wneud yn annibynnol ar fy mhen fy hun.'

'Ni fyddai gennyf y sgiliau i gymryd benthyciad neu drefnu unrhyw beth fel yna.'

'Fyddwn i ddim yn gallu ymdopi yn ariannol pe cawn i broblem annisgwyl.'

'If I was faced with an unexpected problem, I would be in a panic and I wouldn't know what to do.'

'Pe byddwn yn wynebu problem annisgwyl, byddwn mewn panig ac ni fyddwn yn gwybod beth i'w wneud.'

'Things like when you're renting houses for the first time, you don't know things about the letting agency fees and you have to put down deposits.'

'Er enghraifft, pan fyddwch yn rhentu tŷ am y tro cyntaf, nid ydych yn gwybod pethau am ffioedd yr asiantaeth gosod tai ac mae'n rhaid i chi dalu ernes.'

'If I didn't have the financial funds I would always know where to go, where to take out a loan, how to take it out, and when to pay the interest back on it.'

'Pe na bai gennyf ddigon o arian, byddwn bob amser yn gwybod ble i fynd, ble i gael benthyciad, sut i dynnu'r arian allan, a phryd i dalu'r llog yn ôl arno.'

'Nid ydw i'n credu bod gen i'r sgiliau na'r ymwybyddiaeth er mwyn gwneud pethau fel cymryd morgais allan.'

I do not think that I have the skills or the knowledge in order to do things like taking out a mortgage.

'I think it would be a great tool if I had, like, actual financial education in school.'

'Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol iawn pe byddem yn cael addysg ariannol go iawn yn yr ysgol.'

'Proper financial education would be very beneficial to me.'

'Byddai addysg ariannol briodol yn fuddiol iawn i mi.'

'It includes a lot of people—a wide variety of aspects of people's lives.'

'Mae'n cynnwys llawer o bobl—amrywiaeth eang o agweddau ar fywydau pobl.'

'It would have benefited me and made me prioritise things like saving.'

'Byddai wedi bod o fudd i mi ac yn gwneud i mi flaenoriaethu pethau fel cynilo.'

'Byddai gwersi mewn, nid arian fel y cyfryw, ond ffyrdd o wario arian yn synhwyrol, a sut i drefnu a strwythuro gwariant ac yn y blaen—byddai hynny'n fuddiol iawn.'

Lessons in, not money as such, but ways of spending money sensibly, and how to arrange and structure expenditure and so on—that would be very beneficial.

'It would be a great benefit long term, not only for myself, but for people who are actually grown up.'

'Byddai o fudd mawr yn y tymor hir, nid yn unig i mi fy hun, ond i bobl sydd, mewn gwirionedd, yn oedolion.'

16:03

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the young people who contributed to that film. Obviously, they all spoke from their own experiences. The theme for my contribution today is necessity, and I think it is good to start with these views—those of our very first devolution generation. The eldest in the video had just started primary school when this Assembly came into being. They are products of the education system that this institution and this Welsh Government are responsible for. I hope that you heard them loud and clear. Those that received financial education are confidently moving ahead with their lives. Those who did not—most of them—have quickly come up against many obstacles. Their experiences are reflected in recent research carried out by this Assembly.

Hoffwn ddiolch i'r bobl ifanc a gyfrannodd at y ffilm. Yn amlwg, maent i gyd yn siarad o'u profiadau eu hunain. Y thema ar gyfer fy nghyfraniad heddiw yw rheidrwydd, a chredaf mai da yw dechrau gyda'r safbwyntiau hyn— sy'n perthyn i'n cenhedlaeth ddatganoli gyntaf un. Roedd yr hynaf yn y fideo newydd ddechrau yn yr ysgol gynradd pan ddaeth y Cynulliad hwn i fod. Maent yn gynnyrch y system addysg y mae'r sefydliad hwn a'r Llywodraeth hon yng Nghymru yn gyfrifol amdani. Gobeithiaf i chi eu clywed yn glir. Mae'r rhai a dderbyniodd addysg ariannol yn symud ymlaen yn hyderus gyda'u bywydau. Mae'r rhai na wnaeth—y mwyafrif ohonynt—yn ddigon buan wedi wynebu llawer o rwystrau. Adlewyrchir eu profiadau yn yr ymchwil ddiweddar a gynhaliwyd gan y Cynulliad hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Outreach teams surveyed over 1,100 young people across Wales about the curriculum, assessment and qualifications. When asked, a full school year after the introduction of the literacy and numeracy framework, if there was anything that should be taught in schools that is not at present, financial literacy, management and life skills was placed highest of 20 subjects by a huge amount. Some 395 of 964 young people chose that option, almost 250 more than the next subject. When asked whether what is currently being taught in schools prepares young people for later life, the survey reported that financial literacy was cited as the biggest skill respondents felt was lacking when answering and that respondents would have liked to learn more about mortgages, savings, investments and how to open a simple bank account. Their experiences bear out what I firmly believe: financial education is not simply a subject—it is a core life skill. It belongs in the basic curriculum where it can be delivered flexibly, including through national curriculum subjects, taught as teachers believe is best for their pupils, where it cannot be removed because of the vogueish concerns of the day.

Bydd Aelodau wedi gweld y nodyn anfonais i atyn nhw ar ddydd Gwener. Fe fyddwch wedi gweld cymaint y byddai ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi, yn ogystal â'n pobl, yn elwa o gael gwell gallu ariannol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y fframwaith llythrennedd a rhifedd, y TGAU newydd ac adolygiad yr Athro Donaldson fel tystiolaeth ei bod yn gweithio yn y maes, ac rwy'n croesawu'r camau hynny. Mae'n bwysig i mi fod y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn gweithio. Mae fy memorandwm esboniadol yn ei gwneud yn eglur fod hyn yn ddull o ddelifro'r Bil, ond pan fydd darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn dweud nad ydynt wedi cael unrhyw adnoddau ychwanegol na chyfeiriad na chydlynu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, rwy'n dechrau pryderu a fydd hyn yn gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth dameidiog yn y maes hwn. Roedd hon yn broblem a gafodd ei hamlygu gan fy ngwaith ymchwil, ac mae'r Gweinidog wedi cydnabod ei bod yn broblem sy'n bodoli. Rhybuddiais fod yr ymchwil hwn fel petai'n dangos bod y ddarpariaeth yn waeth mewn ardaloedd difreintiedig. O ystyried bod y Gweinidog wedi gwneud tado tloidi trwy addysg yn brif flaenoriaeth, rwy wedi cynnig rhannu'r canfyddiadau drachefn gyda Llywodraeth Cymru.

The Welsh Government's 2009 financial inclusion strategy encourages local authorities to produce their own local strategies. A Communities and Culture Committee report in 2010 expressed concern about patchy local authority provision. There is little evidence that anything has improved in the past five years. The committee's report findings reflected this concern. The Constitutional and Legislative Affairs Committee report into my Bill notes that the committee believed that,

'it is perfectly legitimate for a Bill to be brought forward that creates new duties because existing discretionary powers are not being used or exercised.'

Cynhaliodd timau allgymorth arolygon gyda thros 1,100 o bobl ifanc ledled Cymru ar y cwricwlwm, ar asesu ac ar gymwysterau. Flwyddyn ysgol gyfan ar ôl cyflwyno'r fframwaith llythrennedd a rhifedd, pan ofynnwyd a oedd unrhyw beth y dylid ei addysgu mewn ysgolion a oedd yn absennol ar hyn o bryd, rheolaeth a llythrennedd ariannol a sgiliau bywyd oedd yr uchaf o 20 o bynciau gan lawer iawn. Dewisodd 395 o 964 o bobl ifanc yr opsiwn hwnnw, bron 250 yn fwy na'r pwnc nesaf. Pan ofynnwyd a yw'r hyn sy'n cael ei addysgu mewn ysgolion ar hyn o bryd yn paratopi pobl ifanc ar gyfer bywyd fel oedolion, adroddodd yr arolwg mai llythrennedd ariannol a nodwyd gan ymatebwyr yn eu hatebion fel y sgil mwyaf diffygiol ac y byddai ymatebwyr wedi hoffi dysgu mwy am forgeisi, cynilion, buddsoddiadau a sut i agor cyfrif banc syml. Mae eu profiadau'n brawf o'r hyn a gredaf yn gryf: nid pwnc syml yw addysg ariannol—mae'n un o sgiliau craidd bywyd. Mae iddo le yn y cwricwlwm sylfaenol lle gellir ei ddarparu'n hyblyg, gan gynnwys drwy bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, wedi'i addysgu fel y gwél athrawon yn dda ar gyfer eu disgyblion, ac na ellir ei ddileu yn sgil daliadau ffasiynol yr oes.

Members will have seen the note that I sent round on Friday. You will have seen how much our public services and our economy, as well as our people, would benefit from having better financial education. The Welsh Government refers to the literacy and numeracy framework, the new GCSE and the Donaldson review as evidence that it is taking action in this area, and I welcome those steps. It is important for me that the LNF does work. My explanatory memorandum makes clear that this is one method of delivering the Bill, but when initial training providers for teachers tell us that they have had no additional resources or direction or co-ordination from the Welsh Government for the implementation of the literacy and numeracy framework, I start to grow concerned whether this will do anything to tackle the patchy provision in this area. This was a problem highlighted by my own research work, and the Minister has acknowledged that it is a problem that still exists. I warned that this research seemed to demonstrate that the provision was worse in deprived areas. Given that the Minister has made tackling poverty through education a main priority, I have offered to share my conclusions with the Welsh Government.

Mae strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru 2009 yn annog awdurdodau lleol i lunio eu strategaethau lleol eu hunain. Mynegodd adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn 2010 bryder ynghylch darpariaeth anghyson awdurdodau lleol. Nid oes llawer o dystiolaeth bod unrhyw beth wedi gwella yn y pum mlynedd diwethaf. Roedd canfyddiadau adroddiad y pwyllgor yn adlewyrchu'r pryder hwn. Yn ôl adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer nodiadau fy Mil, ym marn y pwyllgor,

'mae'n gwbl gyfreithlon i Fil gael ei ddwyn ymlaen pan fo'n creu dyletswyddau newydd gan nad yw pwerau dewisol sydd eisoes yn bodoli yn cael eu defnyddio neu eu harfer.'

This is something that the Welsh Government subscribes to. Its own Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill obliges local authorities to produce domestic abuse strategies, although there is nothing in existing legislation stopping authorities producing such strategies now. They could use wellbeing powers in the Local Government Act 2000.

Asked by the Constitutional and Legislative Affairs Committee on 29 September why those powers would not deal with the intentions of the domestic violence Bill, the Minister for Public Services replied:

'The wellbeing responsibility is a fairly broadly drawn one... What is important is that we ensure that we have a real focus on these issues, and this gives us the power to compel that to happen.'

Well, I see my Bill and their proposals in exactly the same way in terms of financial inclusion.

Gan edrych ar y ffigurau, mae'r Llywodraeth wedi gwario £3.6 miliwn dros ddwy flynedd ar y TGAU newydd iaith Gymraeg, iaith Saesneg a mathemateg a rhifedd, ac ar gyflwyno rhaglen llythrennedd wyddonol. Mae Rheolau Sefydlog yn dweud bod yn rhaid rhoi amcangyfrif gros o'r costau gweinyddol, y costau cydymffurfio a'r costau eraill sy'n deillio o'r Bil, ac y mae'n rhaid i ni gymharu costau presennol â'r costau ar ôl i'r Bil ddod i rym. Gan na dderbynias unrhyw wybodaeth gan y Llywodraeth am y costau presennol, roedd yn amhosibl gwybod beth fydd angen ei newid i ddarparu addysg ariannol unwaith y bydd y Bil ac unrhyw ganllawiau yn eu lle. Mae'r amcangyfrif yn y memorandwm esboniadol ar y pegwn uchel ac fe wnaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru gydnabod hynny yn ei thystiolaeth, gan ddweud y byddai'r costau yn debygol o fod yn is na'r hyn sydd wedi ei amcangyfrif.

Rwy'n annog Aelodau i wrando ar ein cenhedlaeth ddatganoli gyntaf. Gadewch i ni wneud y pwnc hwn mor bwysig yn y Siambr hon ag y mae ymysg pobl ifanc. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor a'r Cadeirydd, Ann Jones, am yr adroddiad y maen nhw wedi rhoi gerbron ar fy Mil i. Hoffwn hefyd ddiolch i dim rhagorol o staff y Comisiwn a fy staff i sydd wedi cefnogi'r Bil hwn trwy gydol ei ddatblygiad. Gobeithiaf yn fawr y gwelwn ni ddatblygiad yn y maes hwn yn y dyfodol.

16:10 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Chair of the Children, Young People and Education Committee, Ann Jones.

Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag ef. Mae Bil Trais ar sail Rhywedd, Trais Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru ei hun yn rhoi gorfodaeth ar awdurdodau lleol i gynhyrchu strategaethau ar gam-drin domestig, er nad oes dim yn y ddeddfwriaeth yn atal awdurdodau rhag cynhyrchu strategaethau o'r fath eisoes. Gallent ddefnyddio pwerau lles Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Pan ofynnodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Ddeddfwriaethol ar 29 Medi pam na fyddai'r pwerau hynny yn mynd i'r afael â bwriadau'r Bil trais yn y cartref, atebodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus:

'Mae'r cyfrifoldeb am les yn un gweddol eang ... Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn sicrhau bod gennym ffocws go iawn ar y materion hyn, ac mae hyn yn rhoi'r pŵer i ni orfodi hynny i ddigwydd.'

Wel, ystyriaif fod fy Mil innau a'u cynigion yr un fath yn union o safbwynt cynhwysiant ariannol.

Looking at the figures, the Government has spent £3.6 million over two years on the new GCSE for Welsh language, English, mathematics and numeracy, and on introducing a scientific literacy programme. Standing Orders say that we must give a gross estimate of the administrative costs, the compliance costs and the other costs that emerge from the Bill, and that we must compare current costs with the costs once the Bill comes into force. As I did not receive any information on current costs from the Government, it was impossible to know what would need to be changed to provide financial education once the Bill and any guidance were in place. The estimate in the explanatory memorandum is at the higher end and the Association of Directors of Education in Wales acknowledges this in its evidence, saying that the costs were likely to be less than what is estimated.

I encourage Members to listen to our first generation of devolved children. Let us make this subject as important in this Chamber as it is for young people. I would like to thank the committee and the committee Chair, Ann Jones, for the report that they have put forward on my Bill. I would also like to thank the excellent team of Commission staff and my own staff who have supported this Bill throughout its development. I very much hope that we will see development in this area in future.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ann Jones.

16:10 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I rise to contribute to this Stage 1 debate to outline the main conclusions and recommendations of the Children, Young People and Education Committee. From the outset of the Stage 1 consideration of this Member-proposed Bill, the committee agreed its terms of reference, which included consideration of the general principles of the Bill and whether there was a need for legislation to deliver the Bill's stated policy objectives.

Rwy'n codi i gyfrannu at y ddatl Cyfnod 1 hon er mwyn amlinellu prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. O'r cychwyn cyntaf wrth ystyried Cyfnod 1 y Bil hwn a gynigwyd gan Aelod, cytunodd y pwyllgor ar ei gylch gorchwyl, a oedd yn cynnwys ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil ac a oedd angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodwyd yn y Bil.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



The committee was extremely grateful to Bethan Jenkins for bringing forward this Bill, which has highlighted an issue that is important across a range of settings and with people of all ages. The committee has been clear in its view that it supported the primary policy objectives set out in the Bill. It is hugely important that people are equipped with the necessary knowledge and capability that they need to manage their financial circumstances effectively, and Bethan's short video to start her speech proves that. This is a view that was echoed in the evidence that we received. However, the weight of that evidence also suggested that substantial work was already being undertaken in this area, and that legislation was already in place that would enable much of the Bill's policy objectives to be met.

Therefore, on the basis of that evidence, the committee's overarching conclusion is that while it agrees with the policy objectives of the Bill, legislation is not required to deliver those stated objectives. The committee's report reflects this main conclusion, but it also recognises that should the Bill proceed to Stage 2, there needs to be considerable thought given to specific provisions within the Bill to help ensure that the legislation best achieves the policy objectives. The committee's report therefore contains specific recommendations in this respect.

One of those recommendations is the consistency of teaching. We received a lot of evidence that suggested that, while financial education is being delivered in schools, the teaching of it is inconsistent across Wales. The committee therefore recommends that the Minister for Education and Skills should ensure that measures are put in place to ensure consistent teaching of financial education in schools.

On cross-curricular teaching, the intention in the Bill is that financial education should be part of the basic curriculum, such as personal and social education, with a non-statutory framework and that it should not be delivered as a standalone subject. This is something with which the committee again agreed, and this was also supported in the evidence received. Therefore, the committee recommends that, should the Bill continue to Stage 2, the Minister ensures that financial education be part of the basic curriculum, with cross-curriculum teaching and not a standalone subject.

Provision of financial education at a younger age is another of our recommendations. The Bill makes provision for financial education for all registered pupils during key stages 2, 3 and 4. However, evidence that we received suggested that financial education should begin earlier than at key stage 2. Bethan herself agreed in committee that these provisions could relate to children at an earlier age, but that the Bill had been drafted to try to strike a balance, as evidence that she had received had shown no clear consensus on the age at which financial education should begin. Therefore, on the basis of the evidence that we received, the committee believes that provisions relating to financial education should begin for pupils from the foundation phase onwards, and we would recommend that the Bill be amended accordingly.

Roedd y pwyllgor yn hynod ddiolchgar i Bethan Jenkins am ddod â'r Bil hwn gerbron, sydd wedi tynnu sylw at fater sy'n bwysig mewn amrywiaeth o leoliadau a chyda phobl o bob oed. Mae'r pwyllgor wedi bod yn glir yn ei farn ei fod yn cefnogi'r amcanion polisi sylfaenol a nodir yn y Bil. Mae'n bwysig iawn bod pobl yn meddu ar y wybodaeth a'r gallu sydd eu hangen arnynt i reoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol, a dangosodd fideo byr Bethan ar ddechrau ei haraith fod hynny'n wir. Dyma farn a gafodd ei hadleisio yn y dystiolaeth a gawsom. Fodd bynnag, mae pwysau'r dystiolaeth honno hefyd yn awgrymu bod gwaith sylweddol eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn, a bod deddfwriaeth eisoes ar waith a fyddai'n galluogi i lawer o amcanion polisi'r Bil gael eu cyflawni.

Felly, ar sail y dystiolaeth honno, daeth y pwyllgor i'r casgliad cyffredinol eu bod yn cytuno ag amcanion polisi'r Bil, nid oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion hynny a nodwyd. Mae adroddiad y pwyllgor yn adlewyrchu'r prif gasgliad hwn, ond mae hefyd yn cydnabod y dylai'r Bil fynd yn ei flaen i Gyfnod 2, mae angen cryn feddwl wrth baratoi'r darpariaethau penodol yn y Bil er mwyn helpu i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cyflawni'r amcanion polisi yn y ffordd orau. Mae adroddiad y pwyllgor, felly, yn cynnwys argymhellion penodol yn hyn o beth.

Un o'r argymhellion hynny yw cysondeb yr addysgu. Cawsom lawer o dystiolaeth a oedd yn awgrymu, er bod addysg ariannol yn cael ei chyflwyno mewn ysgolion, anghyson yw'r addysgu ar draws Cymru. Mae'r pwyllgor felly'n argymhell y dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sicrhau y rhoddir mesurau ar waith i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei addysgu'n gyson mewn ysgolion.

O ran addysgu trawsgwricwlaidd, y bwriad yn y Bil yw y dylai addysg ariannol fod yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, fel y mae addysg bersonol a chymdeithasol, gyda fframwaith anstatudol ac na ddylid ei gyflwyno fel pwnc annibynnol. Mae hyn yn rhywbeth y cytunodd y pwyllgor yn ei gylch hefyd, a gwelwyd hyn hefyd yn y dystiolaeth a dderbyniwyd. Felly, mae'r pwyllgor yn argymhell, os bydd y Bil yn parhau i Gyfnod 2, y dylai'r Gweinidog sicrhau bod addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, gyda'r addysgu ar draws y cwricwlwm ac nid fel pwnc annibynnol.

Gwnaethom argymhell hefyd y dylid darparu addysg ariannol i ddisgyblion iau. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer addysg ariannol i bob disgybl cofrestredig yn ystod cyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Fodd bynnag, cawsom dystiolaeth yn awgrymu y dylai addysg ariannol ddechrau yn gynharach na chyfnod allweddol 2. Cytunodd Bethan ei hun yn y pwyllgor y gallai'r darpariaethau hyn ymwneud â phlant sy'n iau, ond bod y Bil wedi'i ddrafftio gan geisio sicrhau cydbwysedd, gan nad oedd tystiolaeth a dderbyniodd hi wedi dangos unrhyw gonsensws clir ynglŷn â'r oedran y dylai addysg ariannol ddechrau. Felly, ar sail y dystiolaeth a gawsom, mae'r pwyllgor yn credu y dylai darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg ariannol ddechrau ar gyfer disgyblion o'r cyfnod sylfaen ymlaen, a byddem yn argymhell bod y Bil yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

The Bill as drafted would require Welsh Ministers to lay an annual report before the Assembly on the progress of financial education in schools. However, evidence received questioned whether an annual report would show significant progress over the previous years. While the committee agrees with the objective to include reporting provisions within the Bill, we recommend that such arrangements should be less frequent than the annual reporting cycle currently proposed on the face of the Bill. Evidence also suggested that the reporting provisions should be more prescriptive, and include, for example, the monitoring of behaviours and skills. The committee accepts this and has made a recommendation accordingly.

On the financial inclusion strategies, the Bill would place a duty on a local authority to prepare and publish a financial inclusion strategy, and specifies what the contents of such a strategy must include. As I have already outlined, the committee's overarching conclusion is that legislation is not required to meet the policy objectives set out in this area. However, specific matters were raised during Stage 1 that need to be considered should the Bill progress to Stage 2 and beyond. Evidence received clearly showed that there are already frameworks in place that enable local authorities to address financial inclusion. As outlined by the Minister for Communities and Tackling Poverty, local authorities can use existing powers to produce a financial inclusion strategy. The committee was, however, concerned that, although provisions may already be in place, there was inconsistency across local authorities in how financial inclusion strategies are approached and managed. The committee therefore recommends that the Welsh Government should take action at a national level to facilitate financial inclusion, such as through updating its national financial inclusion strategy. The committee also recommends that the Welsh Government should work to address the strategic promotion of financial inclusion by local authorities.

Finally, I would like to thank all those who gave evidence to the committee, members of the committee, and the clerking team, headed by Gareth Rogers and Marc Jones, for their usual hard work and dedication in providing excellent support to the committee. The committee would wish me to thank Bethan Jenkins for all her hard work in producing this and for being so accommodating with regard to the additional information that the committee required. It is not an easy task to stand before your peers and take a Bill through—I say that, because I know. I think that it is no reflection on the amount of hard work that Bethan did, but the committee's overarching conclusion is that the Bill is not necessary at this stage.

16:16

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Byddai'r Bil fel y'i drafftiiwyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad ar y cynnydd ym maes addysg ariannol mewn ysgolion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth a dderbyniwyd yn amau a fyddai adroddiad blynyddol yn dangos cynnydd sylweddol yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Er bod y pwyllgor yn cytuno â'r amcan i gynnwys darpariaethau adrodd yn y Bil, rydym yn argymhell y dylai trefniadau o'r fath fod yn llai aml na'r cylch adrodd blynyddol arfaethedig ar wyneb y Bil ar hyn o bryd. Awgrymodd tystiolaeth hefyd y dylai'r darpariaethau adrodd fod yn fwy rhagnodol, a chynnwys, er enghraifft, gwaith monitro ar ymddygiad a sgiliau. Mae'r pwyllgor yn derbyn hyn ac wedi gwneud argymhelliad yn unol â hynny.

O ran y strategaethau cynhwysiant ariannol, byddai'r Bil yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol, ac yn pennu'r hyn y mae'n rhaid i strategaeth o'r fath ei gynnwys. Fel yr amlinellais eisoes, casgliad cyffredinol y pwyllgor yw nad oes angen deddfwriaeth i gwrdd ag amcanion polisi a nodir yn y maes hwn. Fodd bynnag, codwyd materion penodol yn ystod Cyfnod 1 y mae angen eu hystyried pe bai'r Bil yn mynd ymlaen i Gyfnod 2 a thu hwnt. Mae tystiolaeth a dderbyniwyd yn dangos yn glir bod fframweithiau ar waith eisoes sy'n galluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol. Fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau presennol i lunio strategaeth ar gynhwysiant ariannol. Roedd y pwyllgor, fodd bynnag, yn pryderu, er y gallai darpariaethau fod eisoes yn eu lle, fod anghysondeb ymhlith awdurdodau lleol o ran sut y mae strategaethau cynhwysiant ariannol yn cael eu defnyddio a'u rheoli. Felly, mae'r pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar lefel genedlaethol i hwyluso cynhwysiant ariannol, megis drwy ddiweddarau ei strategaeth genedlaethol ar gynhwysiant ariannol. Mae'r pwyllgor hefyd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio i fynd i'r afael ag ymdrechion awdurdodau lleol i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn strategol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, i aelodau'r pwyllgor, ac i'r tîm clerico, dan arweiniad Gareth Rogers a Marc Jones, am eu gwaith caled a'u hymroddiad arferol o ran darparu cefnogaeth ragorol i'r pwyllgor. Byddai'r pwyllgor yn dymuno i mi ddiolch i Bethan Jenkins am ei holl waith caled wrth gynhyrchu hyn ac am fod mor hyblyg o ran y wybodaeth ychwanegol y gofynnodd y pwyllgor amdano. Nid yw sefyll o flaen eich cyd-aelodau i gyflwyno Bil yn dasg hawdd—fel y gwn yn dda. Credaf, er nad yw'n adlewyrchiad ar yr holl waith caled a wnaeth Bethan, mai casgliad cyffredinol y pwyllgor yw nad yw'r Bil yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Thank you, Chair. The committee reported on this Bill, in line with our remit, on 14 November 2014. As part of our scrutiny of all Bills, we consider issues surrounding legislative competence. The Minister told us that section 12 may be outside of the Assembly's competence because it provides information about sources of financial advice. However, we were satisfied by the evidence from the Member in charge on this point, although we did suggest that she consider an amendment to clarify the provision in section 12.

There is one issue that I would like to highlight on legislative competence, and this is an issue that has arisen before when we have reported on Members' Bills, namely that there is a lack of clarity on the mechanism for how backbench Members should seek the views of the UK Government on matters of competence. Indeed, this is something that the committee is considering as part of its inquiry into making laws, because we believe that it is an issue that needs further investigation.

I will now make some observations on the Bill. It was clear that there was a difference of view between the Minister and the Member in charge regarding the need for this legislation. We noted the views of the Minister that the aims of the Bill could be delivered through existing legislation and even, it was mentioned, through the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which is currently going through the Assembly. However, we considered that the aim of this Bill would not be fully addressed through other legislation. This brings me on to a general point of principle that I would like to raise, particularly as it has arisen before when we have considered Members' Bills. It is perfectly legitimate for a Bill to be introduced that will create new duties even if there are existing powers residing with the Welsh Government that are not currently being used or not exercised fully, and I thought that the Member in charge made some very pertinent observations on the Government's practice in these areas of making powers duties. If I may use a colloquial phrase, what is sauce for the goose is sauce for the gander, one would have thought.

I now want to address two issues concerning the commencement provisions specific to this Bill. A common theme of our scrutiny of Bills is that, while we accept that there is no procedure for commencement Orders, we strongly believe that commencement Orders that contain transitional, transitory, saving or incidental provisions should be subject to scrutiny and the negative procedure. We believe it to be good practice to scrutinise commencement Orders that do not simply name the date of commencement. It is a simple principle. This Bill is the first to contain a procedure for commencement Orders, and we commend the Member in charge for adopting this approach.

Diolch, Gadeirydd. Adroddodd y pwyllgor ar y Bil hwn, yn unol â'n cylch gwaith, ar 14 Tachwedd 2014. Fel rhan o'n gwaith craffu ar bob Bil, rydym yn ystyried materion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol. Dywedodd y Gweinidog wrthym y gallai adran 12 fod y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad oherwydd ei fod yn darparu gwybodaeth am ffynonellau o gyngor ariannol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yr Aelod cyfrifol wedi ein bodloni ar y pwynt hwnnw, er ein bod yn awgrymu ei bod yn ystyried diwygiad er mwyn egluro'r ddarpariaeth yn adran 12.

Mae un mater yr hoffwn dynnu sylw ato ar gymhwysedd deddfwriaethol. Dyma fater sydd wedi codi o'r blaen wrth i ni adrodd ar Ffiliau Aelodau, sef bod diffyg eglurder ynghylch y mecanwaith ar gyfer sut y dylai Aelodau meinciau cefn geisio barn Llywodraeth y DU ar faterion cymhwysedd. Yn wir, mae hyn yn rhywbeth y mae'r pwyllgor yn ei ystyried fel rhan o'i ymchwiliad i wneud cyfreithiau, oherwydd ein bod yn credu ei fod yn fater y mae angen ymchwilio ymhellach iddo.

Byddaf yn awr yn gwneud rhai sylwadau ar y Bil. Roedd yn amlwg bod gwahaniaeth barn rhwng y Gweinidog a'r Aelod cyfrifol ynghylch yr angen am y ddeddfwriaeth hon. Nodwyd gennym farn y Gweinidog y gellid cyflawni amcanion y Bil trwy ddeddfwriaeth bresennol, ac yn ôl y sôn hyd yn oed trwy Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roeddem o'r farn na fyddai nod y Bil hwn yn cael ei wireddu'n llawn trwy ddeddfwriaeth arall. Mae hyn yn dod â mi at bwynt cyffredinol o egwyddor yr hoffwn ei godi, yn enwedig gan ei fod wedi codi o'r blaen wrth i ni ystyried Biliau Aelodau. Mae'n hollol ddilys cyflwyno Bil a fydd yn creu dyletswyddau newydd hyd yn oed os oes pwerau presennol yn bodoli gan Lywodraeth Cymru nad ydynt yn cael eu defnyddio neu eu defnyddio'n llawn ar hyn o bryd, a chredais fod yr Aelod sydd â gofal wedi gwneud rhai sylwadau perthnasol iawn ar ymarfer y Llywodraeth yn y meysydd hyn o wneud dyletswyddau pwerau. Os caf ddefnyddio ymadrodd llafar, os yw'n iawn i'r wydd mae'n iawn i'r clacwydd, byddai rhywun wedi meddwl.

Yn awr, rwy'n awyddus i fynd i'r afael â dau fater yn ymwneud â darpariaethau cychwyn sy'n benodol i'r Bil hwn. Tra ein bod yn derbyn nad oes gweithdrefn ar gyfer Gorchymnion cychwyn, thema gyffredin wrth i ni graffu ar Ffiliau yw y credwn yn gryf y dylai Gorchymnion cychwyn sy'n cynnwys darpariaethau trosiannol, darfodol, arbed neu gysylltiedig fod yn destun craffu a'r weithdrefn negyddol. Credwn fod craffu ar Orchymnion cychwyn nad ydynt yn enwi dyddiad cychwyn yn arfer da. Mae'n egwyddor syml. Y Bil hwn yw'r cyntaf i gynnwys gweithdrefn ar gyfer Gorchymnion cychwyn, ac rydym yn cymeradwyo'r Aelod cyfrifol am fabwysiadu'r dull hwn.

Finally, the provision for a sunrise clause is a new approach that the Member in charge has chosen to take and we want to note this innovation. In our view, this will help to ensure that the intentions and provisions in the Bill are enacted within a reasonable time, should it get to the statute book, and not remain dormant on the Welsh statute book. We are therefore very content with the approach that the Member has chosen to take.

Yn olaf, mae'r ddarpariaeth ar gyfer cymal codiad haul yn ddull newydd y mae'r Aelod cyfrifol wedi dewis ei gymryd ac rydym am nodi'r arloesed hwn. Yn ein barn ni, bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y bwriadau a'r darpariaethau yn y Bil os digwydd iddo gyrraedd y llyfr statud, yn cael eu deddfu o fewn amser rhesymol, ac nid aros yn anweithredol ar y llyfr statud i Gymru. Felly, rydym yn fodlon iawn â'r dull a gymerodd yr Aelod.

16:20 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Lesley Griffiths.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Chair. I want to start by saying that I understand and support the sentiments underpinning this Bill. The Welsh Government has always been supportive of financial inclusion, but we oppose the general principles of the Bill because we do not believe that legislation is required to deliver the aims of the Bill. However, today, I am pleased to set out how this could be further achieved.

Diolch, Gadeirydd. Rwyf am ddechrau drwy ddweud fy mod yn deall ac yn cefnogi'r teimladau sy'n sail i'r Bil hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol i gynhwysiant ariannol, ond rydym yn gwrthwynebu egwyddorion cyffredinol y Bil, oherwydd nid ydym yn credu bod angen deddfwriaeth i gyflawni amcanion y Bil. Fodd bynnag, heddiw, mae'n bleser gennyf nodi sut y gellid cyflawni hyn ymhellach.

Early in the new year, I would like to ask Bethan Jenkins to nominate a representative to participate in taking forward the Donaldson review, ensuring that financial education is given an important place. In the summer term, we will re-examine provision within the literacy and numeracy framework, the national support programme, within regional education consortia and in schools, looking specifically at financial education with a view to ensuring that it is properly delivered in schools. We will request a thematic review and, as was stressed in the meeting that I held with Bethan, discuss with Estyn the best way to structure the review and how the findings will be disseminated, using its expertise and subject knowledge. We rely heavily on its judgment and advice as to the best way to undertake thematic reviews.

Yn gynnar yn y flwyddyn newydd, hoffwn ofyn i Bethan Jenkins enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan yn y gwaith o hyrwyddo adolygiad Donaldson, gan sicrhau y rhoddir lle pwysig i addysg ariannol. Yn ystod tymor yr haf, byddwn yn ail-edrych ar y ddarpariaeth o fewn y fframwaith llythrennedd a rhifedd, y rhaglen gymorth genedlaethol, o fewn consortia addysg rhanbarthol ac ysgolion, gan edrych yn benodol ar addysg ariannol gyda'r bwriad o sicrhau y caiff ei chyflwyno'n briodol mewn ysgolion. Byddwn yn gofyn am adolygiad thematig ac fel y pwysleiswyd yn y cyfarfod a gefais gyda Bethan, byddwn yn trafod gydag Estyn y ffordd orau i strwythuro'r adolygiad a sut i ledaenu canfyddiadau, gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth bynciau Estyn. Rydym yn dibynnu'n fawr ar eu barn a'u cyngor ynghylch y ffordd orau o gynnal adolygiadau thematig.

Estyn's thematic reports often, if not always, include recommendations for action on the part of schools, local authorities and the Welsh Government. We will, of course, consider what further steps are needed to support financial education in the light of their findings.

Mae adroddiadau thematig Estyn yn aml, os nad bob amser, yn cynnwys argymhellion ar gyfer gweithredu ar ran ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru. Byddwn, wrth gwrs, yn ystyried pa gamau pellach sydd eu hangen i gefnogi addysg ariannol yng ngoleuni eu canfyddiadau.

I have also asked Bethan to nominate a representative to sit on the working group that will refresh the financial inclusion strategy and develop the action plan. We will ensure that financial inclusion is considered as part of the assessment of local wellbeing that informs the wellbeing plan provided for in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill.

Rwyf hefyd wedi gofyn i Bethan enwebu cynrychiolydd i eistedd ar y gweithgor a fydd yn adnewyddu'r strategaeth cynhwysiant ariannol ac yn datblygu'r cynllun gweithredu. Byddwn yn sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad o lesiant lleol sy'n llywio'r cynllun lles y darperir ar ei gyfer ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Alongside these commitments, work will also continue on our review of advice services and to improve the quality of advice services. We are continually seeking to develop and improve our front-line services in this area. This Government continues to support front-line advice services, credit unions and financial inclusion champions to embed financial inclusion in local authorities and housing associations. We also support the Money Made Clear Wales website, run in Wales by the Wales Co-operative Centre, which provides online advice and support on money matters.

Financial education has been part of the school curriculum in Wales since 2008 and, through the managing money strand, has been a statutory requirement in the new national literacy and numeracy framework from the foundation phase since September 2013.

Regarding looked-after children, the codes of practice arising from the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 will make clear the duties of local authorities in providing practical financial advice. This will include the role of personal advisers in assisting young people in opening bank accounts and managing their budgets, such as prioritising paying rent and bills.

I note, from the explanatory memorandum, that the rough costs of implementing the curriculum requirements as a result of this Bill are estimated at £4.5 million per annum after year 1. I have listened to what the Member in charge has said on this matter and we have already committed to supporting the implementation of the LNF, which includes financial education and, in a time of extremely tight budgets, we note that there are significant costs associated with this Bill.

I would also like to thank the Children, Young People and Education Committee for its general recommendations to the Welsh Government on this Bill. Regarding the recommendation to update the financial inclusion strategy, I am pleased to say that this will begin next year. In relation to the recommendation that the Welsh Government should work to address the strategic promotion of financial inclusion by local authorities, as I have set out, the public services department is working to ensure that financial inclusion is considered as part of the assessment of local wellbeing provided for in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. This will be developed in the guidance for public service boards.

On measures to enhance the teaching and consistency of provision of financial education in schools, these are provided within the national support programme for implementing the LNF, the implementation of support for the revised mathematics areas of learning and programmes of study, and the support package for the revised mathematics GCSEs. These programmes are subject to evaluation and review.

Ochr yn ochr â'r ymrwymadau hyn, bydd gwaith hefyd yn parhau ar ein hadolygiad o wasanaethau cynghori ac i wella ansawdd y gwasanaethau cynghori. Rydym yn barhaol yn ceisio datblygu a gwella ein gwasanaethau rheng flaen yn y maes hwn. Mae'r Llywodraeth hon yn parhau i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen, undebau credyd a hyrwyddwyr cynhwysiant ariannol er mwyn rhoi cynhwysiant ariannol wrth wraidd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Rydym hefyd yn cefnogi gwefan Money Made Clear Wales, sy'n cael ei rhedeg gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, sy'n darparu cyngor a chymorth ar-lein ar faterion ariannol.

Mae addysg ariannol wedi bod yn rhan o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru ers 2008 a thrwy'r elfen rheoli arian, mae wedi bod yn ofyniad statudol yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol newydd o'r cyfnod sylfaen ers mis Medi 2013.

O ran plant sy'n derbyn gofal, bydd y codau ymarfer sy'n deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn egluro dyletswyddau'r awdurdodau lleol o ran darparu cyngor ariannol ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys rôl cynghorwyr personol yn cynorthwyo pobl ifanc i agor cyfrifon banc a rheoli eu cyllidebau, megis blaenoriaethu talu rhent a biliau.

Nodaf, o'r memorandwm esboniadol, fod y costau bras o weithredu gofynion y cwricwlwm o ganlyniad i'r Bil hwn yn cael eu hamcangyfrif yn £4.4 miliwn y flwyddyn ar ôl blwyddyn 1. Rwyf wedi gwrandao ar yr hyn a ddywedodd yr Aelod cyfrifol am y mater hwn ac rydym eisoes wedi ymrwymo i gefnogi gweithrediad y FfLIRh, sy'n cynnwys addysg ariannol ac, ar adeg pan fo cyllidebau'n dynn iawn, rydym yn nodi bod costau sylweddol yn gysylltiedig â'r Bil hwn.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ei argymhellion cyffredinol i Lywodraeth Cymru ar y Bil hwn. O ran yr argymhelliad i ddiweddarau'r strategaeth cynhwysiant ariannol, rwy'n falch o ddweud y bydd hyn yn cychwyn y flwyddyn nesaf. Mewn perthynas â'r argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru weithio i hybu hyrwyddiant strategol cynhwysiant ariannol gan awdurdodau lleol, fel y nodais, mae'r adran gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio i sicrhau bod cynhwysiant ariannol yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad o lesiant lleol y darperir ar ei gyfer ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn y canllawiau i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

O ran mesurau i wella addysgu a chysondeb y ddarpariaeth addysg ariannol mewn ysgolion, mae'r rhain yn cael eu darparu o fewn y rhaglen gymorth genedlaethol ar gyfer gweithredu'r FfLIRh, gweithredu cefnogaeth ar gyfer y meysydd mathemateg diwygiedig o raglenni astudio a dysgu, a'r pecyn cymorth ar gyfer y TGAU mathemateg ddiwygiedig. Mae'r rhaglenni hyn yn destun gwerthuso ac adolygu.

Finally, on the recommendation that financial education should be part of the basic curriculum and should be taught as a cross-curricular requirement, the content of the basic curriculum is part of Professor Donaldson's independent review, which is due to report in the new year, and Professor Donaldson is aware of the committee's recommendation. The cross-curricular requirement for teaching is secured within the statutory LNF. Support for this is provided through regional consortia and the associated national support programme.

The whole area of financial inclusion and education is an important one and I do welcome the debate. The Welsh Government will continue to provide support through a range of resources, with a clear focus on delivery.

16:25 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call Suzy Davies.

16:25 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd dros dro.

The core premise of this Bill is that financial education and financial inclusion would benefit the people of Wales. I do not think a single witness has offered evidence to the contrary. So, my first question was obviously: is legislation necessary for the success of that core premise?

The Children, Young People and Education Committee concluded that the evidence was not there to support the assertion of a need for legislation, but the same committee also accepted that there was evidence to show that the Government's alternatives to date were not producing a consistent quality benefit. As we have heard—and I do not think you can say it too often—the Constitutional and Legislative Affairs Committee, despite other reservations about the Bill, concluded that it was perfectly legitimate to introduce primary legislation on the basis that existing non-legislative mechanisms are not as effective as everyone hoped.

So, I think it is right that Bethan Jenkins has had the opportunity to show that her Bill could be a better way of achieving a meaningful level of financial education and inclusion across Wales, rather than current strategies. I say 'could' because, at the moment, I do not think the Bill is the finished article. However, I will stick with 'could' because I have obviously heard what the Minister has had to say as well. I would like to see how Bethan Jenkins would have responded to the various opportunities for amendments to her Bill, but I recognise that the Minister has put forward a very tempting collection of offers today.

Yn olaf, ynglŷn â'r argymhelliad y dylai addysg ariannol fod yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ac y dylid ei addysgu fel gofyniad trawsgwricwlaidd, mae cynnwys y cwricwlwm sylfaenol yn rhan o adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson, sydd i fod i adrodd yn y flwyddyn newydd, ac mae'r Athro Donaldson yn ymwybodol o argymhelliad y pwyllgor. Mae'r gofyniad trawsgwricwlaidd ar gyfer addysgu yn cael ei sicrhau o fewn y FFLRh statudol. Darperir cefnogaeth ar gyfer hyn drwy gonsortia rhanbarthol a'r rhaglen gymorth genedlaethol gysylltiedig.

Mae cynhwysiant ariannol ac addysg yn faes pwysig ac rwy'n croesawu'r ddadl. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cefnogaeth drwy amrywiaeth o adnoddau, gyda ffocws clir ar gyflawni.

Diolch i chi, Weinidog. Galwaf ar Suzy Davies.

Thank you very much, acting Deputy Presiding Officer.

Cynsail craidd y Bil hwn yw y byddai addysg ariannol a chynhwysiant ariannol o fudd i bobl Cymru. Ni chredaf y cafwyd tystiolaeth i'r gwrthwyneb gan yr un tyst. Felly, fy nghwestiwn cyntaf yn amlwg oedd: a oes angen deddfwriaeth er mwyn llwyddiant y cynsail craidd hwnnw?

Daeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r casgliad nad oedd tystiolaeth yn bodoli i gefnogi'r honiad bod angen deddfwriaeth, ond derbyniodd yr un pwyllgor hefyd fod tystiolaeth yn dangos nad oedd dulliau amgen y Llywodraeth hyd yn hyn yn cynhyrchu budd o ansawdd cyson. Fel y clywsom—ac nid wyf yn meddwl y gallwch chi ddweud hyn yn rhy aml—er gwaethaf amheuan eraill am y Bil, daeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i'r casgliad bod cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn gwbl gyfreithlon ar y sail nad yw mecanweithiau anneddfwriaethol presennol mor effeithiol ag yr oedd pawb wedi gobeithio.

Felly, credaf ei bod yn iawn i Bethan Jenkins fod wedi cael y cyfle i ddangos y gallai ei Bil fod yn ffordd well o sicrhau lefel ystyrion o sicrhau addysg ariannol a chynhwysiant ar draws Cymru, yn hytrach na strategaethau cyfredol. Dywedaf 'gallai' oherwydd, ar hyn o bryd, ni chredaf fod y Bil fel y mae yn waith gorffenedig. Fodd bynnag, rwyf am lynu wrth 'gallai' am fy mod yn amlwg wedi clywed yr hyn oedd gan y Gweinidog i'w ddweud hefyd. Hoffwn weld sut y byddai Bethan Jenkins wedi ymateb i'r amrywiol gyfleoedd ar gyfer diwygiadau i'w Bil, ond rwy'n cydnabod bod y Gweinidog wedi cyflwyno casgliad deniadol iawn o ngnigion heddiw.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



Personally, I see this Bill as two parts. I do not have any major issues with the financial education part of this Bill, subject to Bethan's willingness to consider changes on reporting and the age at which financial education could be introduced into the basic curriculum today. So, I would still like to hear from her, and potentially the Minister, I suppose, about some of my concerns about intrinsic problems with the first part of the legislation, because I felt that it could do with some provision for secondary legislation on benchmarking to assist schools, local authorities and even Estyn to know that they are complying with the law by reaching any required standards, for example. So, this question of benchmarking is still out there, whoever is actually going to be dealing with this ultimately.

The sections relating to looked-after children raised some questions at committee stage, on the basis that the Bill itself meant that such children would receive financial education anyway through school. I am very interested to know how section 7, and possibly section 11, might work to help a child who may have been educated for periods outside Wales, perhaps more than once, during their school days. Also, would the Bill need a power or duty in secondary legislation for Welsh Government to provide guidance on how social services might meet any new requirement? These are matters that, perhaps, the Minister herself might want to consider along with Bethan Jenkins.

The Bill does very well on not ditching primary policy development into secondary legislation, and I really commend Bethan Jenkins for that. However, the education part of the Bill does not have the equivalent of a section 9, for example, where minimum requirements are set out for local authorities to follow when designing a financial inclusion strategy.

Now, the second half of the Bill gave me more problems anyway, as Ministers could not agree on whether the Well-being of Future Generations (Wales) Bill would sweep up some of the policy intentions regarding financial inclusion strategies. Then, the Government's own evidence against this part of the Bill was pretty unconvincing. I am still intrigued to hear, with the offers that the Minister has put forward today, how much of what she is offering might be tied into the future generations Bill. If a lot of it is, then I would suspect that I would be unimpressed by the opportunity to support that as an alternative.

Yn bersonol, gwelaf ddwy ran i'r Bil. Nid oes gennyf unrhyw broblemau mawr gyda rhan addysg ariannol y Bil hwn, yn amodol ar barodrwydd Bethan i ystyried newidiadau ar adrodd a'r oed y gellid cyflwyno addysg ariannol i mewn i'r cwricwlwm sylfaenol heddiw. Felly, byddwn yn dal i hoffi clywed oddi wrthi, ac o bosibl gan y Gweinidog, mae'n debyg, am rai o'm pryderon am broblemau cynhenid gyda rhan gyntaf y ddeddfwriaeth, am fy mod yn teimlo y gallai wneud gyda rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer is-ddeddfwriaeth ar feincodi er mwyn cynorthwyo ysgolion, awdurdodau lleol a hyd yn oed Estyn i wybod eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith drwy gyrraedd unrhyw safonau gofynnol, er enghraifft. Felly, mae'r cwestiwn hwn am feincodi yn dal i fod heb ei ateb, pwy mewn gwirionedd sy'n mynd i fod yn ymdrin â hyn yn y pen draw.

Cododd yr adrannau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal rai cwestiynau yn ystod y cam pwyllgor, ar y sail bod y Bil ei hun yn golygu y byddai plant o'r fath yn cael addysg ariannol beth bynnag drwy'r ysgol. Mae gennyf ddiddordeb mawr i wybod sut y gallai adran 7, ac o bosibl adran 11, o bosibl weithio i helpu plentyn a allai fod wedi cael ei addysgu am gyfnodau y tu allan i Gymru, fwy nag unwaith efallai, yn ystod eu dyddiau ysgol. Hefyd, a fyddai angen i'r Bil gael pŵer neu ddyletswydd mewn is-ddeddfwriaeth i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sut y gallai gwasanaethau cymdeithasol fodloni unrhyw ofyniad newydd? Mae'r rhain yn faterion y byddai'r Gweinidog ei hun, o bosibl, am eu hystyried ynghyd â Bethan Jenkins.

Mae'r Bil yn llwyddo i beidio â throï'r gwaith o ddatblygu polisi sylfaenol yn is-ddeddfwriaeth, ac rwy'n wir yn canmol Bethan Jenkins am hynny. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan addysg o'r Bil ran sy'n cyfateb i adran 9, er enghraifft, lle mae gofynion sylfaenol wedi'u nodi i awdurdodau lleol eu dilyn wrth lunio strategaeth cynhwysiant ariannol.

Yn awr, rhoddodd ail hanner y Bil fwy o broblemau i mi beth bynnag, gan na allai Gweinidogion gytuno ar a fyddai Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn crynhoi rhai o'r bwriadau polisi ynghylch strategaethau cynhwysiant ariannol. Wedyn, nid oedd tystiolaeth y Llywodraeth ei hun yn erbyn y rhan hon o'r Bil yn fy argyhoeddi. Mae'n parhau'n ddirgelwch i mi, o ran y cynigion a gyflwynodd y Gweinidog heddiw, faint o'r hyn y mae'n ei gynnig y gellid eu clymu i mewn i Fil Cenedlaethau'r Dyfodol. Os oes llawer, wedyn rwy'n amau na chawn fy mherswadio i gan y cyfle i gefnogi hynny fel dewis amgen.

We already have the Money Advice Service and other civil society advisory services doing the kind of work set out in section 9 already, so my second question, and this remains a question, is: if those civil society bodies are not currently reaching those who need them, then what is the problem and why would local authority overview or control of that answer the problem? That, I think, might now be a question for you as well, Minister, because, surely, if the capacity of these services is there but underused, it is a simple matter to ask a local authority to take on signposting requirements, along the lines of section 12(1), and then for Government to monitor, via Communities First, the WCVA, or its own departments, the success of delivery. If the essential problem is lack of capacity in these existing services, then section 12(2) becomes a real problem, as it points towards councils attempting to fill a gap in services. I do not think that that was addressed in the Minister's offer either.

I share the concern that the Bill as drafted might allow councils to stray into the sphere of undeveloped regulated financial activity. That could happen. I recognise that a new explanatory memorandum and amendments would change that, but I look forward to the Member answering those questions at the end of this debate.

Eisoes, mae gennym y Gwasanaeth Cyngtori Ariannol a gwasanaethau cyngtori cymdeithas sifil eraill yn gwneud y math o waith a nodir yn adran 9 yn barod, felly, dyma fy ail gwestiwn, ac mae hyn yn parhau yn gwestiwn: os nad yw'r cyrff cymdeithas sifil hynny ar hyn o bryd yn cyrraedd y rhai sydd eu hangen, beth yw'r broblem, a pham y byddai trosolwg neu reolaeth awdurdod lleol ar hynny yn ateb y broblem? Credaf y gallai hynny fod yn gwestiwn i chi hefyd, Weinidog, oherwydd, yn sicr, os oes capasiti ar gael gan y gwasanaethau hyn ond nad oes digon yn eu defnyddio, mater syml o ofyn i awdurdod lleol i ysgwyddo gofynion o ran cyfeirio sydd ei angen, fel yr amlinellir yn adran 12(1), ac yna i'r Llywodraeth fonitro llwyddiant darpariaeth CGGC, trwy gyfrwng Cymunedau yn Gyntaf, neu ei hadrannau ei hun. Os mai'r broblem hanfodol yw diffyg capasiti yn y gwasanaethau presennol hyn, wedyn mae adran 12(2) yn dod yn broblem go iawn, gan ei bod yn tynnu sylw at gynghorau'n ceisio llenwi bwch yn y gwasanaethau. Ni chredaf i hynny gael sylw yng nghynnig y Gweinidog chwaith.

Rwy'n rhannu'r pryder y gallai'r Bil fel y cafodd ei ddrafftio ganiatáu i gynghorau grwydro i mewn i faes gweithgarwch ariannol a reoleiddir sydd heb eu datganoli. Gallai hynny ddigwydd. Rwy'n cydnabod y byddai memorandwm esboniadol a diwygiadau newydd yn newid hynny, ond edrychaf ymlaen am atebion yr Aelod i'r cwestiynau hynny ar ddiwedd y ddadl hon.

16:30

## **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydym ni hefyd yn gefnogol iawn o'r syniad y tu ôl i'r ddeddfwriaeth hon. Dylem i gyd ddiolch i Bethan Jenkins, fel un o'r Aelodau meinciau cefn, am dynnu sylw at y ffaith bod y sefyllfa bresennol ddim yn dderbyniol. Rwy'n meddwl hefyd fod gweld ffilm, i ryw raddau, hwyrach, yn fwy grymus nag unrhyw eiriau sy'n cael eu dweud gan unrhyw Aelod yma y prynhawn yma. Felly, rydym yn derbyn rhai o'r pryderon a nodwyd gan y pwyllgor ynglŷn â'r ddeddfwriaeth, ond rydym wedi dod i'r casgliad bod modd ateb y pryderon hynny drwy welliannau i'r Bil wrth iddo fynd yn ei flaen.

Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod arolwg diweddar wedi dweud bod 77% o'r bobl ifanc a wnaeth ymateb i'r arolwg yn dweud y gallwn sôn am fframweithiau a strategaethau a phob peth gan y Llywodraeth, ond yn y pen draw, beth sy'n gweithio a beth sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad sydd o bwys. Roedd 77% o'r bobl ifanc a wnaeth ymateb i'r arolwg yn dweud nad oedd beth oedd yn digwydd o fewn eu hysgolion nhw yn gwneud dim o ran addysg ariannol. Rwy'n cofio sefyllfa pan oedd gennyf swyddfa ryw dri drws i lawr o un o'r cwmnïau yma sy'n rhoi arian am log uchel iawn yn y stryd fawr—ac ni wnaf ei enwi, rhag ofn iddo fy ngwneud i am enllib neu beth bynnag. Roedd gweld nifer y bobl ifanc mewn ciw bob bore dydd Llun yn dorcalonnus, a dweud y gwir. Rwy'n siŵr bod y sefyllfa honno yn waeth rŵan na phan oeddwn i'n gweithio yn ardal Wrecsam.

We also support the idea behind this legislation. We should all thank Bethan Jenkins, as a backbench Member, for drawing attention to the fact that the current situation is not acceptable. I also think that seeing a film, to some extent, is perhaps more powerful than any words that can be said by any Member here this afternoon. So, we accept some of the concerns that were aired by the committee about the legislation, but we have come to the conclusion that those concerns could perhaps be addressed by amendments to the Bill, as it progresses.

It is worth drawing attention to the fact that a recent survey showed that 77% of young people who responded to the survey said that we can talk about frameworks and strategies and all sorts from the Government, but ultimately, what works and what is done on the ground is what is important. Evidently, 77% of the young people who responded to the survey said that what was happening within their schools was doing nothing for their financial education. I remember when I had an office about three doors down from one of these high-street companies that lend money at very high interest rates—and I will not name it, in case it does me for libel or whatever. Seeing the number of young people queuing up on a Monday morning was heartbreaking, to tell you the truth. I'm sure that that situation is worse now than it was when I was working in the Wrexham area.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rydym yn deall bod y pwyllgor wedi dod i ddarganfyddiad ynglŷn â phum pwynt o'r dystiolaeth a gafwyd. Rydym hefyd, fel pwyllgor, wedi gwneud saith argymhelliad, fel bod modd gwella'r Bil. Ond, rwy'n croesawu'r ffaith bod datganiad y Gweinidog y prynhawn yma yn llawer iawn mwy positif na'r dystiolaeth a gafwyd gan y Gweinidogion o flaen y pwyllgor. Erbyn hyn, maent yn derbyn bod mwy o waith i'w wneud. Mae'r ffaith eu bod yn dweud eu bod yn barod i dderbyn enwebiad gan Aelod meinciau cefn ynglŷn â'r sefyllfa a'r ffordd ymlaen o ran adolygiad Donaldson yn dangos bod, hwyrach, mwy o waith i'w wneud. Rwy'n cofio Bethan yn dod o flaen y pwyllgor ac yn dweud bod canllawiau Donaldson yn ansicr o ran rôl addysg ariannol o fewn yr adolygiad hwnnw. Hefyd, roedd dystiolaeth Estyn yn dangos ei fod yn awgrymu y dylid cael rhyw fath o adolygiad o themâu fel ffordd ymlaen.

Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd y pwyllgor yn llawer iawn llai beirniadol o'r Bil na'r dystiolaeth a gafwyd o flaen y pwyllgor. Beth sydd yn hollol sicr yw nad yw safbwynt a sefyllfa addysg ariannol yng Nghymru yn destun clod i ni fel sefydliad, ar ôl rhyw 15 mlynedd, a'r ffaith nad ydym yn symud ymlaen fel gwlad. Rhaid inni, felly, ddwyn y Llywodraeth i gyfrif a dweud wrthi, 'Gwrandewch, rydych yn dweud eich bod yn mynd i newid y cwricwlwm, yn mynd i ailedrych ar fframwaith llythrennedd a rhifedd, a'ch bod yn mynd i ofyn i Estyn wneud mwy o waith i weld beth sy'n digwydd o fewn ysgolion unigol', ond rhaid i'r Llywodraeth dderbyn, os nad yw'r sefyllfa'n gwella dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, bydd Aelod arall yn dod ymlaen ac yn dweud, 'Gwrandewch, os ydych chi'n ceisio dweud wrthym fod y sefyllfa yn gwella, a'ch bod yn gwneud yr hyn a'r llall, heblaw bod y sefyllfa'n gwella yn yr ysgolion y mae gennym ni i gyd plant neu wyrion ynddynt, byddwn yn dod yn ôl ac yn dweud'.

Pam, er enghraifft, mae'r dystiolaeth yn dweud mai ond dau gyngor sir sy'n gweithredu strategaethau cynhwysiant ariannol o ddydd i ddydd? Mae'n rhaid i rywun ofyn y cwestiwn: ble mae'r Llywodraeth, o ddydd i ddydd, yn gwneud yn siŵr bod strategaethau cenedlaethol yn cael eu gweithredu ar lawr gwlad? Felly, rydym yn credu, fel Rhyddfrydwyr, ei bod i'fyny i'r unigolion i wneud penderfyniadau o ran eu harian eu hunain, ond, yn y pen draw, os nad oes ganddynt y wybodaeth i wneud hynny, mae'n rhaid i ni, fel Senedd, weithredu.

We understand that the committee came to certain conclusions about five points from the evidence received. We also, as a committee, have made seven recommendations, so that the Bill can be improved. However, I welcome the fact that the Minister's statement this afternoon was much more positive than the evidence that we had from the Ministers that appeared before the Committee. By now, they accept that there is more work to be done. The fact that they say that they are prepared to accept the nomination from a backbench Member about the situation and the way forward with the Donaldson review shows that perhaps there is more work to be done. I remember Bethan coming before the committee saying that the Donaldson guidance was not clear on the role of financial education as part of that review. The evidence from Estyn also suggested that there be some kind of thematic review as a way forward.

The written evidence received by the committee was far less critical of the Bill itself than the evidence given to the committee. What is absolutely certain is that the position of financial education in Wales does us as an organisation no favours, after 15 years, and the fact that we are not moving forward as a country. We must, therefore, hold the Government to account and tell it, 'Listen, you say that you are going to change the curriculum, are going to look again at the literacy and numeracy framework, and that you are going to ask Estyn to do more work to see what is happening within individual schools', but the Government has to accept that, if the situation does not improve over the next two or three years, another Member will come forward and say, 'Listen, if you are trying to tell us that the situation is improving, and that you are doing this, that and the other, unless the situation improves in the schools that we all have children or grandchildren in, we will come back and say that'.

Why, for example, does the evidence say that only two county councils are operating financial inclusion strategies from day to day? Someone has to ask the question: where is the Government, from day to day, ensuring that the national strategies are being implemented on the ground? Therefore, we believe, as Liberals, that it is up to individuals to make decisions about their own money, but, ultimately, if they do not have the information to enable them to do so, we, as a Senedd, have to act.

16:35

## Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to categorically state my 100% support and also pay tribute to Bethan Jenkins AM for bringing this Bill here today. I know the amount of work that she has put into this, and I think she knows that she has my support. Clearly, it is okay now to say, 'Well, we can put strategies together, with measures and guidance', but it is not happening. It is not happening out there. I have to tell you that this is an issue that affects people of all ages. I have known businesspeople commit suicide through not having the basic fundamentals and finding themselves in quite difficult circumstances, through just not having that ability to be able to plan, to be able to run their businesses. Also, I have also seen young people very frustrated, and I have seen students over the years.

Hoffwn ddatgan yn bendant fy nghefnogaeth 100% a thalu teyrnged hefyd i Bethan Jenkins AC am ddod â'r Bil hwn gerbron heddiw. Gwn am yr holl waith a gyflawnwyd ganddi ar gyfer hyn, a chredaf ei bod yn gwybod bod ganddi fy nghefnogaeth. Yn amlwg, erbyn hyn mae'n iawn i ddweud, 'Wel, gallwn roi strategaethau at ei gilydd, gyda mesurau a chyfarwyddyd', ond nid yw'n digwydd. Nid yw'n digwydd ar lawr gwlad. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthyfod fod hwn yn fater sy'n effeithio ar bobl o bob oedran. Gan am bobl fusnes a gyflawnodd hunanladdiad am nad oedd ganddynt yr hanfodion sylfaenol a chael eu hunain mewn amgylchiadau eithaf anodd, am nad oedd ganddynt y gallu hwnnw i allu cynllunio, i allu rhedeg eu busnesau. Hefyd, gwelais bobl ifanc rhwystredig iawn, ac rwyf wedi gweld myfyrwyr ar hyd y blynyddoedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I go back to the days when I was in primary school, and, in those days, you were able to buy National Savings stamps, so you chose then whether you bought National Savings stamps or sweets. I used to do a bit of both. The point was that I learned from a very early age. My parents encouraged me. Not everybody has that opportunity, and we are in the here and now. The fact that you have got so far with this—I am a bit naïve, and I actually genuinely believed, as a Member of the Assembly, that backbenchers could bring forward legislation and that it would not be squashed at the first hurdle.

I took part in a Money for Life seminar, where I actually saw some pretty hard and realistic circumstances of where people of all ages just do not always have—and it is not a class thing. It is not necessarily people in deprivation. I have seen some people who you would not believe just do not have that genuine financial nous that you need to possess to be able to know, in this day and age, about austerity, the challenges of employment and various other things. I just genuinely believe that we need to embed this, certainly in our younger people coming through, so that they do not find themselves, in any part of their lives, not really knowing the fundamental basics of how to make their money go as far they need it to go.

Earlier this year, the debt charity StepChange reported a significant year-on-year increase in the number of Welsh people falling into arrears on household bills and taking out pay-day loans. This issue is of particular importance as well in my own constituency, in Conway, because the average debt level for Conway is way above the national average. Between 2010 and 2013, StepChange recorded a 50% increase in the proportion of home-owning clients struggling with mortgage arrears in Conway. Look at the responses: 27 organisations have responded. On the number of engagement meetings, between 2010 and 2013, there was a 27% increase in demand for debt advice in Conway. Sixteen per cent of the population in Wales is now over-indebted, and this is said to be linked very strongly with financial exclusion. Forty-four per cent said that they do not know what debt solutions are available, and only 17% accessed advice.

I strongly believe that, by improving the financial literacy skills of our young people and the financial capability of the Welsh population in general, this Bill will help to enable the lowering of the statistics that I have just mentioned. I mean, 96%—it does not get much better than that—of respondents to an Assembly outreach survey felt that financial education at school would better prepare them to make good financial decisions in later life. This Bill will not undo what is already in place, because I do not think that any of us knows what is in place. Instead, it will strengthen the status of financial education, giving it a strong legislative foundation—and that is what we are supposed to be doing here. We have devolution. Let us show again that we can lead here in Wales, and let us get behind Bethan.

Af yn ôl i'r adeg pan oeddwn yn yr ysgol gynradd, ac, yn y dyddiau hynny, gallech brynu stampiau Cynilion Cenedlaethol, felly gallech ddewis prynu stampiau Cynilion Cenedlaethol neu losin. Roeddwn i'n arfer gwneud ychydig o'r ddau. Y pwynt oedd fy mod wedi dysgu o oedran cynnar iawn. Roedd fy rhieni yn fy annog. Nid yw pawb yn cael y cyfle hwnnw, a dyma ni yn yr awr a'r lle. Mae'r ffaith eich bod wedi mynd mor bell â hyn—rwyf braidd yn naif, ac roeddwn i'n credu yn wirioneddol, fel Aelod o'r Cynulliad, y gallai aelodau meinciau cefn gyflwyno deddfwriaeth ac na fyddai'n cael ei threchgu ar y cyfle cyntaf.

Cymerais ran mewn seminar Arian am Oes, lle gwelais mewn gwirionedd amgylchiadau reit galed a realistig lle nad oes gan bobl o bob oedran—ac nid rhywbeth sy'n ymwneud â dosbarth ydyw, nid pobl sydd o reidrwydd mewn amddifadedd, rwyf wedi gweld rhai pobl na fydddech yn credu nad oes ganddynt y crebwyll ariannol gwirioneddol sydd arnoch ei angen i allu gwybod, yn yr oes sydd ohoni, am galedi, heriau cyflogaeth ac amryw bethau eraill. Credaf yn wir fod angen i ni blannu hyn, yn sicr yn ein pobl ifanc sydd are eu prifant, er mwyn iddynt beidio â chael eu hunain, ar unrhyw adeg o'u bywydau, yn anwybodus am bethau cwbl sylfaenol a fyddai'n gwneud i'w harian fynd mor bell ag y maent angen iddo fynd.

Yn gynharach eleni adroddodd StepChange, yr elusen ar gyfer dyled, gynnydd sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n mynd i ddyled ar filiau'r cartref ac sy'n cymryd benthyciadau diwrnod cyflog. Mae'r mater hwn yn arbennig o bwysig hefyd yn fy etholaeth i, yng Nghonwy, gan fod y lefel dyledion cyfartalog ar gyfer Conwy yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Rhwng 2010 a 2013, cofnododd StepChange gynnydd 50% yn y gyfran o gleientiaid sy'n berchen ar eu cartref sydd mewn dyled ar eu morgais yng Nghonwy. Edrychwch ar yr ymatebion: mae 27 o sefydliadau wedi ymateb. Ar gyfer cyfarfodydd ymgysylltu rhwng 2010 a 2013, bu cynnydd o 27% yn y galw am gyngor ar ddyledion yng Nghonwy. Bellach, mae un ar bymtheg y cant o'r boblogaeth yng Nghymru mewn gorddyledion, ac mae hyn yn cael ei gysylltu i raddau helaeth ag allgau ariannol yn ôl y sôn. Dywedodd pedwar deg pedwar y cant nad ydynt yn gwybod pa atebion dyled sydd ar gael, a dim ond 17% sydd wedi chwilio am gyngor.

Credaf yn gryf y bydd y Bil hwn, trwy wella sgiliau llythrennedd ariannol ein pobl ifanc a gallu ariannol poblogaeth Cymru yn gyffredinol, yn helpu i alluogi gostwng yr ystadegau yr wyf newydd eu crybwyll. Hynny yw, teimlai 96% o ymatebwyr—ac anodd fyddai gwella ar hynny—i arolwg allgymorth y Cynulliad y byddai addysg ariannol yn yr ysgol yn eu paratoi'n well i wneud penderfyniadau ariannol da yn hwyrach mewn bywyd. Ni fydd y Bil hwn yn dadwneud yr hyn sydd eisoes ar waith, oherwydd ni chredaf fod yr un ohonom yn gwybod beth sydd ar waith. Yn hytrach, bydd yn cryfhau statws addysg ariannol, gan roi iddi sylfaen ddeddfwriaethol grefa dyna'r ydym i fod i'w wneud yma. Mae datganoli wedi digwydd. Gadewch i ni ddangos unwaith eto ein bod yn gallu arwain yma yng Nghymru, a gadewch inni gefnogi Bethan.

This Bill plans to place obligations on schools, obligations to deliver financial education, to give statutory status to financial education's place in the curriculum, and to impose a requirement that financial education be reported on to monitor progress. The Welsh Government must not—and nobody, really, here today should—stand in the way of this Bill. Aled Roberts was correct when he said that we can actually shape it as it goes through the various stages. We have passed other Bills in this way. Look at the Agricultural Sector (Wales) Bill: passed in a hurry. Look at the Social Services and Well-being (Wales) Bill, and the number of amendments that came in and the hours that we spent on that. This is what we are about and this is what we should do. You have my 100% support.

Mae'r Bil hwn yn bwriadu gosod rhwymedigaethau ar ysgolion, rhwymedigaethau i ddarparu addysg ariannol, i roi statws statudol i le addysg ariannol yn y cwricwlwm, a'i gwneud yn ofynnol i adrodd ar addysg ariannol er mwyn monitro cynnydd. Ni ddylai Llywodraeth Cymru—ac yn wir ni ddylai neb yma heddiw—lesteirio'r Bil hwn. Roedd Aled Roberts yn gywir pan ddywedodd ein bod mewn gwirionedd yn gallu ei lunio wrth iddo fynd drwy'r camau amrywiol. Rydym wedi pasio Biliau eraill felly. Edrychwch ar y Bil Sector Amaethyddol (Cymru): pasiwyd ar frys. Edrychwch ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a nifer y diwygiadau a ddaeth i mewn a'r oriau a dreuliodd ar hynny. Dyma yw ein gwaith a dyma y dylem ei wneud. Mae gennych fy nghefnogaeth 100%.

16:41 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Bethan Jenkins to reply to the debate.

Galwaf ar Bethan Jenkins i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:41 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank both committee Chairs for their contributions to the debate. As Ann has said, she has had a wealth of experience herself, so she knows how hard I have worked, and other backbenchers, on our respective Bills. I also give my thanks to David Melding for his kind words. I would like to thank Suzy for her comments, but I think that I may have to look at the Record to see all the questions that she raised. Obviously, some of the issues that you raised are ones that you have raised previously, around competence in some of the sections, and questions with regard to strategies. Yes, the local authorities are at the coalface of what is happening, and I would hope that, in progressing the situation and in looking at that, they would be a fundamental part of the process.

Hoffwn ddiolch i'r ddau Gadeirydd pwyllgor am eu cyfraniadau i'r ddadl. Fel y dywedodd Ann, mae hi wedi cael cyfoeth o brofiad ei hun, felly mae hi'n gwybod pa mor galed rwyf wedi gweithio, ac aelodau eraill y meinciau cefn, ar ein Biliau perthnasol. Hoffwn hefyd estyn fy niolch i David Melding am ei eiriau caredig. Hoffwn ddiolch i Suzy am ei sylwadau, ond credaf y bydd yn rhaid imi edrych ar y Cofnod i weld yr holl gwestiynau a godwyd ganddi. Yn amlwg, mae rhai o'r materion a godwyd gennych yn rhai yr ydych wedi'u codi o'r blaen, ynghylch cymhwysedd mewn rhai o'r adrannau, a chwestiynau mewn perthynas â strategaethau. Ie, yr awdurdodau lleol sydd yn y rheng flaen o ran yr hyn sy'n digwydd, a byddwn yn gobeithio, wrth symud y sefyllfa yn ei blaen ac edrych ar hynny, y byddent yn rhan sylfaenol o'r broses.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Aled, you said that the film was effective, but I think that you put my arguments forward possibly more effectively than I did today. It is really important in terms of Estyn that we have traction, that we make sure that it is not a one-off thing, and that we see that it will be sustainable for the future. The whole rationale for the Bill was to make sure that it is not just at the whim of one Government to decide what is important in this realm, because we need to make sure that every young person leaves school with those particular skills. It is the same issue with the local strategies, which I hope a review of the inclusion strategies will deliver. It cannot be a good situation where only two are delivering on it, albeit in an effective way. We need much more investment from other local authorities in this area. Yes, you are right about the change of perspective, and I am very glad that we have had a change in perspective from the Welsh Government.

Aled, bu i chi ddweud bod y ffilm yn effeithiol, ond credaf i chi gyflwyno fy nadleuon o bosibl yn fwy effeithiol nag a wneuthum innau heddiw. Mae'n wirioneddol bwysig o ran Estyn fod gennym afael, ein bod yn gwneud yn siŵr nad rhywbeth untro ydyw, a'n bod yn gweld y bydd yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Y sail resymegol ar gyfer y Bil oedd gwneud yn siŵr nad ar fympwy un Llywodraeth yn unig yw penderfynu beth sy'n bwysig yn y maes hwn, oherwydd mae angen sicrhau bod pob person ifanc yn gadael yr ysgol gyda'r sgiliau penodol hynny. Yr un yw'r mater gyda'r strategaethau lleol, a gobeithiaf y bydd adolygiad o'r strategaethau cynhwysiant yn ei gyflawni. Ni all fod yn sefyllfa dda pan mai dim ond dau sy'n cyflawni ar hyn, er mewn ffordd effeithiol. Mae angen llawer mwy o fuddsoddiad gan awdurdodau lleol eraill yn y maes hwn. Ydych, rydych yn iawn am y newid persbectif, ac rwy'n hynod falch ein bod wedi cael newid mewn persbectif gan Llywodraeth Cymru.

With regard to Janet, you have been 100% supportive of the Bill from the start, and I hope that that will emanate through to your other Conservative Members. I would be very happy to work with you in whatever position I can, in terms of hearing your ideas for the future. I agree that it is not just about deprivation, but about people of all ages from all walks of life who may just find themselves in difficulties or may not be able to manage their money. That is exactly why I am passionate about this issue.

O ran Janet, rydych chi wedi bod 100% o blaid y Bil o'r dechrau, a gobeithiaf y bydd hynny'n treiddio ymhlith eich Aelodau Ceidwadol eraill. Byddwn yn hapus iawn i gydweithio â chi ym mha bynnag sefyllfa y gallaf, o ran clywed eich syniadau ar gyfer y dyfodol. Cytunaf nad dim ond mater o amddifadedd yw hyn, mae'n cynnwys pobl o bob oed o bob cefndir a allai eu cael eu hunain mewn anawsterau neu efallai'n methu â rheoli eu harian. Dyna'n union pam rwyf mor frwd o blaid y mater hwn.

With regard to what I have heard today from the Minister, it is something that I firmly believe we can work on. I know that it is important for me to see this sustained for the future, and I am glad that there is a renewed focus on financial education in what you were saying, Minister. I would like to reiterate something. You said that you would request that Estyn look at this particular issue, but I would like to see that happen as a cyclical thing, because obviously it will not just be once that we need to look at financial education. So, I would be grateful for the opportunity to influence that at a further stage.

O ran yr hyn a glywais heddiw gan y Gweinidog, mae'n rhywbeth y credaf yn gryf y gallwn weithio arno. Gwn ei bod yn bwysig i mi weld hyn yn parhau yn y dyfodol, ac rwy'n falch bod ffocws newydd ar addysg ariannol yn yr hyn yr oeddech yn ei ddweud, Weinidog. Hoffwn ailadrodd rhywbeth. Bu i chi ddweud y byddech yn gofyn i Estyn edrych ar y mater penodol hwn, ond hoffwn weld hynny'n digwydd yn gylchol, oherwydd yn amlwg nid dim ond unwaith y bydd angen inni edrych ar addysg ariannol. Felly, byddwn yn ddiolchgar am y cyfle i ddylanwadu ar hynny maes o law.

16:44 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We have never previously asked Estyn to do it on a three-year rolling cycle. I think that probably the best way forward, which is something I have stressed with you, is to have a look at the structure of that, going forward.

Nid ydym erioed wedi gofyn o'r blaen i Estyn wneud hynny ar gylch treigl tair blynedd. Credaf, yn ôl pob tebyg, mai'r ffordd orau ymlaen, sy'n rhywbeth a bwysleisiais wrthy ch chi, yw y dylem gael golwg ar strwythur hynny, wrth symud ymlaen.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:44 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Okay, thank you very much. I welcome the intervention.

lawn, diolch yn fawr iawn. Rwyf yn croesawu'r ymyriad.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I am also grateful for the opportunity to influence the financial inclusion strategies. I have heard many people tell me how they would like to change it, from the evidence that I have had. Many wanted to go further because they were looking at the example of Swansea council—I am sure that Mike Hedges will know of this—which wanted to look at how many betting shops were on the streets. We could not go that far, just as we could not go further with no-cold-calling zones. However, there is an opportunity now to look at those strategies to see what exactly they deliver.

Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y cyfle i ddylanwadu ar y strategaethau cynhwysiant ariannol. Clywais lawer o bobl yn dweud wrthyf sut yr hoffent ei newid, o'r dystiolaeth a gefais. Roedd llawer am fynd ymhellach oherwydd eu bod yn edrych ar enghraifft cyngor Abertawe—rwy'n siŵr y bydd Mike Hedges yn gwybod am hyn—a oedd am edrych ar faint o siopau betio oedd ar y strydoedd. Ni allem fynd mor bell â hynny, yn union yr un fath â pharthau dim galw diwahoddiad. Fodd bynnag, mae cyfle yn awr i edrych ar y strategaethau hynny i weld beth yn union maent yn eu darparu.

So, I look forward to making this a key part of the Welsh Government's agenda, albeit recognising that you are taking steps forward now. I recognise that people are passionate about this issue, not just me, and that it is not a party political issue. We have seen people discuss this on social media; Martin Lewis of MoneySavingExpert.com is passionate about this issue too. So, moving forward, regardless of the fact that things may change in a minute, I hope that we can all make sure that this agenda is put forward for the future. At this stage, I wish to withdraw the motion and work with the Welsh Government on the proposals that the Minister has set out today, because I believe that we can work together positively. Hopefully, we will see a huge difference to the lives of not only young people in Wales, but of every person who lives in Wales.

Felly, edrychaf ymlaen at wneud hyn yn rhan allweddol o agenda Llywodraeth Cymru, er fy mod yn cydnabod eich bod yn cymryd camau ymlaen yn awr. Rwy'n cydnabod bod pobl yn teimlo'n frwd ynghylch y mater hwn, nid dim ond fi, ac nad yw'n fater gwleidyddol pleidiol. Rydym wedi gweld pobl yn trafod hyn ar y cyfryngau cymdeithasol; mae Martin Lewis o MoneySavingExpert.com yn hynod frwd ynghylch y mater hwn hefyd. Felly, gan symud ymlaen, er gwaethaf y ffaith y gall pethau newid mewn munud, gobeithio y gallwn ni i gyd wneud yn siŵr bod yr agenda hon yn cael ei chyflwyno ar gyfer y dyfodol. Yn y cyfnod hwn, dymunaf dynnu'n ôl y cynnig a chydweithio â Llywodraeth Cymru ar y cynigion a nododd y Gweinidog heddiw, gan y credaf y gallwn weithio gyda'n gilydd mewn modd cadarnhaol. Gobeithio y gwelwn wahaniaeth enfawr ym mywydau nid yn unig pobl ifanc Cymru, ond ym mywydau pawb sy'n byw yng Nghymru.

16:46 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Bethan Jenkins has indicated that she wishes to withdraw the motion. Does any Member object to the motion being withdrawn? There are no objections. The motion is therefore withdrawn in accordance with Standing Order 12.27.

Mae Bethan Jenkins wedi dweud ei bod yn dymuno tynnu ei chynnig yn ôl. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i'r cynnig gael ei dynnu'n ôl? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Caiff y cynnig ei dynnu'n ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12.27.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Tynnwyd y cynnig yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12. 27.*

*Tynnwyd y Cynnig yn ôl yn unol â Rheol Sefydlog 12. 27.*



## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Adeiladau Crefyddol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn Aled Roberts a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

## Welsh Conservatives Debate: Religious Buildings

*Detholwyd y Gwelliannau canlynol: Gwelliant 1 yn enw Aled Roberts Gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

16:47

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Suzy Davies to move the motion.

Cynnig NDM5638 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol Cymru i dreftadaeth genedlaethol Cymru.
2. Yn croesawu'r Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Ffydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a'r gydnabyddiaeth bod gan adeiladau crefyddol rôl o ran denu ymwelwyr i Gymru.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill i greu cofrestr o adeiladau crefyddol pwysig Cymru fel y gallant gael eu diogelu'n briodol ar gyfer y dyfodol.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:47.*

16:47

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Once again, the Welsh Conservatives are pleased to offer this Chamber the chance to debate our heritage and tourism offer, and so I formally move the motion.

Heritage and tourism are inextricably linked, but highlighting religious buildings and locations remind us that our heritage, built or otherwise, has a value way beyond what it brings to the tourism offer.

We will be supporting the amendments as they, and points 1 and 3 of the motion, invite focus on faith heritage.

Religious buildings, of course, still have a very relevant role in the lives of those who worship in them. It always impresses me that the spiritual purpose of our very popular heritage cathedrals, churches, chapels and other places of worship does not disappear beneath the feet of the visitor. I do not just mean centres such as St Peter's in Rome or Hagia Sophia in Istanbul, but the more modest buildings where the celebrant and the visitor can share quiet contemplation.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Suzy Davies i gyflwyno'r cynnig.

Motion NDM5638 Paul Davies

To propose the National Assembly for Wales:

1. Recognises the importance of Wales' religious buildings to Welsh national heritage.
2. Welcomes the publication of the Welsh Government's Faith Tourism Action Plan and its acknowledgement of the role of religious buildings in attracting visitors to Wales.
3. Calls upon the Welsh Government to work with faith communities and other stakeholders to develop a register of Wales's most important religious buildings in order that they can receive appropriate protections for the future.

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:47.*

Unwaith eto, mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn falch o gynnig y cyfle i'r Siambr drafod ein cynnig ar dreftadaeth a thwristiaeth, ac felly cyflwynaf y cynnig yn ffurfiol.

Mae cyswllt anorfod rhwng treftadaeth a thwristiaeth, ond wrth dynnu sylw at adeiladau a lleoliadau crefyddol gwelwn fod i'n treftadaeth, adeiledig neu fel arall, werth ymhell y tu hwnt i'r hyn a gynnigir gan dwristiaeth.

Byddwn yn cefnogi'r gwelliannau, a phwyntiau 1 a 3 o'r cynnig, gan eu bod yn gyfle i ganolbwyntio ar dreftadaeth ffydd.

Mae adeiladau crefyddol, wrth gwrs, yn dal i fod â rôl berthnasol iawn ym mywydau y rhai sy'n addoli ynddynt. Mae bob amser yn creu argraff arnaf nad yw diben ysbrydol ein heglwysi cadeiriol treftadaeth poblogaidd iawn, ein heglwysi, ein capeli a manau addoli eraill yn diflannu dan draed yr ymwelydd. Nid dim ond sôn yr ydwyf am ganolfannau fel San Pedr yn Rhufain neu Hagia Sophia yn Istanbul, ond yr adeiladau mwy cymedrol lle gall y gweinydd a'r ymwelydd rannu myfyrdod tawel.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In modern Wales, where we have lost enthusiasm for more traditional forms of Christian worship at least, a local church or chapel can still be cherished by its community. For many, baptisms, marriages and funerals are ceremonial rather than rooted in belief, so it may seem curious that so many still choose a religious building and a Christian ceremony to mark major life events. How many of us, in marking Remembrance Day and in commemorating the centenary of the beginning of world war one, found ourselves in church or chapel? We may have lost the worship element of collective worship, but people still look to our religious buildings when they feel the need to gather, whether that is in joy or solemnity. These buildings represent part of a collective identity, a collective past, and it is a collective sadness when we lose one as recently happened in Cwmbwrla in my region.

When we talk of religious buildings contributing to a sense of place for visitors, let us not overlook their part in our sense of shared identity, which, after all, is the ultimate expression of heritage, is it not? It is a heritage that survives change. In my previous life, I acted in the sale and purchase of a number of chapels to be converted into homes. Not everyone wants to be responsible for the upkeep of a graveyard in their back garden or to take on an obligation to feed the minister four times a year, but that is part of a building's story. Better the story continue than simply become history. I am thinking of St Theodore's church in Kenfig Hill in my region, which has plans to adapt the old church as a space for community activities, as well as inviting the congregation of a neighbouring church in, now that that church has closed.

However, not all religious buildings can be confident of a future story, and when we talk as we do in our motion of a register of important religious buildings, we must not assume that 'important' simply means 'grand'. One of the areas of policy development under the heritage Bill, if I understand it correctly, Deputy Minister, is consideration of the listing and protection of buildings of local importance, buildings which contribute to a sense of place. I hope that the Bill will ensure that religious buildings of local importance do not fall between two stools here. I am thinking, in particular, of Morryston Methodist church, again in my region. It was built in the 1930s, and overshadowed, perhaps, in terms of glamour, by the great Tabernacl, but, in common with later post-war Swansea buildings, it is not necessarily pretty, but it is an increasingly rare example of a type of architecture. Just as Victorian design was despised and destroyed—now to much regret—we need to have an eye open to the protection of more recent religious architecture, often more flimsily built and therefore more vulnerable. I would like the heritage Bill, or certainly this register of important religious buildings to look forward to the protection of buildings like the Church of the Blessed Sacrament in Gorseinon, again in my region, but every bit as important as our Norwegian Church.

Yn y Gymru fodern, lle'r ydym wedi colli brwdfrydedd am ffurfiau mwy traddodiadol o addoliad Cristnogol o leiaf, gall eglwys neu gapel lleol barhau i gael eu gwerthfawrogi gan y gymuned. I lawer, mae bedyddiadau, priodasau ac angladdau yn seremonïol yn hytrach na'u bod wedi'u gwreiddio mewn cred, felly gall ymddangos yn rhyfedd fod cynifer yn dal i ddewis adeilad crefyddol a seremoni Gristnogol i nodi digwyddiadau bywyd pwysig. Faint ohonom, wrth goffau Dydd y Cofio a chanmlwyddiant y rhyfel mawr, a gafodd ein hunain mewn eglwys neu gapel? Efallai ein bod wedi colli'r elfen addoli sy'n perthyn i addoli ar y cyd, ond mae pobl yn dal i droi at ein hadeiladau crefyddol pan fyddant yn teimlo bod angen ymgynnull, boed hynny mewn llawenydd neu ddirifoldeb. Mae'r adeiladau hyn yn cynrychioli rhan o gydhunaniaeth, a chydorffennol, ac mae'r tristwch yn gyd-dristwch pan fyddwn yn colli rhywun, fel y gwelwyd yn ddiweddar yng Nghwmbwrla yn fy rhanbarth i.

Wrth ddweud bod adeiladau crefyddol yn cyfrannu at ymdeimlad o le i ymwelwyr, gadewch inni beidio ag anghofio eu rhan yn ein synnwyr o gydhunaniaeth, sydd, wedi'r cyfan yn fynegiant eithaf o dreftadaeth, onid e? Mae'n dreftadaeth sy'n goroesi newid. Yn fy mywyd blaenorol, bu i mi ymwneud â gwerthu a phrynu nifer o gapeli er mwyn eu troi yn gartrefi. Nid yw pawb eisiau bod yn gyfrifol am gynnal a chadw'r fynwent yn eu gardd gefn neu fod yn gyfrifol am fwydo'r gweinidog bedair gwaith y flwyddyn, ond mae hynny'n rhan o stori adeilad. Gwell yw i'r stori barhau na dim ond dod yn rhan o hanes. Rwy'n sôn am eglwys Sant Theodore ym Mynydd Cynffig yn fy rhanbarth i, sydd â chynlluniau i addasu'r hen eglwys yn lle ar gyfer gweithgareddau cymunedol, yn ogystal â gwahoddo cynulleidfia o eglwys gyfagos i mewn, gan fod yr eglwys honno bellach wedi cau.

Fodd bynnag, ni all pob adeilad crefyddol fod yn hyderus o stori yn y dyfodol, a phan fyddwn yn siarad wrth i ni wneud yn ein cynnig am gofrestr o adeiladau crefyddol pwysig, rhaid i ni beidio cymryd yn ganiataol bod 'pwysig' yn gyfystyr â 'mawreddog'. Un o'r meysydd datblygu polisi o dan y Bil treftadaeth, os wyf yn ei ddeall yn iawn, Ddirprwy Weinidog, yw ystyriaeth o restriad a chadwraeth adeiladau o bwysigrwydd lleol, adeiladau sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le. Gobeithiaf y bydd y Bil yn sicrhau nad yw adeiladau crefyddol o bwysigrwydd lleol yn disgyn rhwng dwy stôl yn hyn o beth. Rwy'n sôn yn benodol am eglwys y Methodistiaid yn Nhreforys, sydd unwaith eto yn fy rhanbarth i. Fe'i hadeiladwyd yn yr 1930au, ac er ei bod, efallai, o ran ysblander wedi'i chysgodi gan wychder y Tabernacl, ond, yn debyg i adeiladau diweddarach Abertawe a godwyd ar ôl y rhyfel, nid yw o reidrwydd yn hardd, ond mae'n enghraifft fwyfwy prin o arddull bensaernïol. Yn union fel y dirmygwyd ac y dinistriwyd cynlluniau Fictoriaidd—sy'n edifar i lawer erbyn hyn—mae angen i ni gadw llygad agored i ddiogelu pensaernïaeth crefyddol fwy diweddar, sy'n aml yn fwy bregus yn sgil yr adeiladwaith disylwedd. Hoffwn i'r Bil treftadaeth, neu'n sicr i'r gofrestr hon o adeiladau crefyddol pwysig edrych ymlaen at warchod adeiladau megis Eglwys y Sacrament Bendigaid yng Ngorseinon, unwaith eto yn fy rhanbarth i, ond yr un mor bwysig â'n Heglwys Norwyaidd.

That brings me to the second point of the motion. The Welsh Conservatives welcomed the Government's faith tourism action plan, and the Cardiff Norwegian Church is mentioned in that. It was well timed to be incorporated into the action plan supporting the new tourism strategy and well timed to fit in with Cadw's Open Doors scheme. Perhaps, Deputy Minister, you can tell us how many religious buildings, excluding those for which Cadw is responsible, took part in Open Doors and what kind of feedback you had. The scheme had the potential not just to acquaint local people with their churches and chapels, but to attract visitors in the same way as the open gardens scheme. More generally, both the tourism strategy and faith action plan accepted that faith tourism was underexploited in Wales. I think that the value of £12 million identified in the action plan is not much more than an educated guess, and I think that there is much more potential in this sector.

Perhaps the lacklustre performance against the plan comes from an uncertainty about priorities. We have Cadw working on the legacy of the Celtic saints, which is a unique selling point for Wales, but failing to get that anywhere near Visit Wales's marketing message. Compare that with the north-east of England's use of Lindisfarne as a hook for visitors as part of a wider sell. Religious heritage is completely absent from the Visit Wales 2014 brochure, bar one aside about Bardsey island. We found out all about Saturnalia and stone skimming celebrations in that brochure, but nothing about our cathedrals. On the Visit Wales website, click 'things to do', click 'heritage', and you are guided towards castles and food festivals—great. On VisitBritain's website, click 'things to do', click 'heritage', and you are led straight to a British cathedrals page, which includes St David's. You are also led to a page about Dame Judy Dench, admittedly, and I wonder if she knows that she is heritage these days, but there you go.

I would agree that, for the generalist tourist, a visit to a church, chapel or other religious building is likely to be just part of a broader itinerary—a contributor to the sense of place I mentioned earlier and which, in fairness, Deputy Minister, is reflected in the action plan. If you dig deep enough into the Visit Wales website, you will find pictures and a few words about particular abbeys, and even local churches, on pages suggesting walking routes, but, believe me, you really, really have to look for them. Even a specific search for Neath abbey—yes, in my region and still awaiting love and attention from Cadw—required the perseverance of Joseph and the patience of Job.

Mae hynny'n dod â mi at ail bwynt y cynnig. Croesawodd y Ceidwadwyr Cymreig gynllun gweithredu twristiaeth ffydd y Llywodraeth, a sonnir ynddo am Eglwys Norwyaidd Caerdydd. Cafodd ei amseru'n dda i gael ei ymgorffori yn y cynllun gweithredu sy'n cefnogi'r strategaeth dwristiaeth newydd a'i amseru'n dda i gyd-fynd â chynllun Drysau Agored Cadw. Efallai, Ddirprwy Weinidog, y gallwch ddweud wrthym faint o adeiladau crefyddol, ac eithrio'r rhai y mae Cadw yn gyfrifol amdanynt, a gymrodd ran yng nghynllun Drysau Agored a pha fath o adborth a gawsoch. Roedd gan y cynllun y potensial nid yn unig i ailgysylltu pobl leol â'u heglwysi a'u capeli, ond i ddenu ymwelwyr yn yr un ffordd â'r cynllun gerddi agored. Yn fwy cyffredinol, derbyniodd y strategaeth dwristiaeth a'r cynllun gweithredu ffydd nad oedd twristiaeth ffydd yn cael ei hyrwyddo i'r eithaf yng Nghymru. Credaf mai rhyw fras amcan yw'r gwerth o £12 miliwn a nodwyd yn y cynllun gweithredu, a chredaf fod llawer mwy o botensial yn y sector hwn.

Efallai fod perfformiad diffiach y cynllun yn deillio o ansicrwydd ynghylch blaenoriaethau. Mae Cadw yn gweithio ar etifeddiaeth y saint Celtaidd, sydd yn bwynt gwerthu unigryw i Gymru, ond yn methu â chael Croeso Cymru i gynnwys hynny o gwbl yn eu neges farchnata. Cymharwch hynny â defnydd gogledd-ddwyrain Lloegr o Lindisfarne fel abwyd i ymwelwyr fel rhan o farchnata ehangach. Mae treftadaeth grefyddol yn gwbl absennol o lyfryn Croeso Cymru 2014, ac eithrio un sylw am Ynys Enlli. Roedd y llyfryn yn llawn gwybodaeth am Saturnalia a chystadlaethau cerrig sgimio, ond dim byd am ein heglwysi cadeiriol. Ar wefan Croeso Cymru, cliciwch ar 'bethau i'w gwneud', cliciwch ar 'treftadaeth', a chewch eich arwain at gestyll a gwyliau bwyd—iawn. Ar wefan VisitBritain, cliciwch ar 'bethau i'w gwneud', cliciwch ar 'treftadaeth', a chewch eich arwain yn syth i dudalen eglwysi cadeiriol Prydeinig, sy'n cynnwys Tyddewi. Cewch eich arwain hefyd at dudalen am y Fonesig Judy Dench, rhaid cyfaddef, ys gwn i a yw hi'n sylweddoli ei bod hi'n rhan o dreftadaeth erbyn hyn, ond dyna ni.

Byddwn yn cytuno, o ran yr ymwelydd cyffredin, fod ymweld ag eglwysi, capeli neu adeiladau crefyddol eraill yn debygol o fod yn rhan o lwybr teithio ehangach—yn cyfrannu at yr ymdeimlad o le y soniais yn gynharach ac sydd, er tegwch, Ddirprwy Weinidog, yn cael ei adlewyrchu yn y cynllun gweithredu. Os bydd i chi gloddio'n ddigon dwfn i mewn i wefan Croeso Cymru, fe welwch luniau ac ychydig o eiriau am abatai penodol, a hyd yn oed am eglwysi lleol, ar dudalennau sy'n awgrymu llwybrau cerdded, ond, credwch fi, mae'n rhaid i chi chwilio'n ddyfal i ddod o hyd iddynt. Hyd yn oed wrth wneud chwiliad penodol am abat Castell-nedd—ie, yn fy rhanbarth i ac sy'n dal i aros am sylw a gofal gan Cadw—roedd rhaid cael dyfalbarhad Joseph ac amynedd Job.

Deputy Minister, we may not have a Rosslyn chapel to attract the telly tourists, but every 'Doctor Who' fan worth their salt will ask why Brecon cathedral is missing from the Visit Wales sell on film locations. 'Doctor Who' has a huge US audience, and the US also has a Welsh diaspora and a Welsh personal heritage market. When my distant relatives visited from Ohio and Utah, they did not want to spend three days in Cardiff as Visit Wales suggested—even the Mormon ones wanted to check out the graveyard at Brynteg in Gorseinon, which is sadly now for sale.

When Mitt Romney's missus's visit to Wales was all over CNN, it was not because of the coastal path or Cardiff castle. She came to Llangynwyd to track down the story of her grandfather, a Nantyllyon miner who left Wales in the 1920s. Llangynwyd, again in my region, is home to a sixth century Celtic church rebuilt in the thirteenth century. It is the location of the legend of the maid of Cefn Ydfa, the scene of Baptist persecutions in the seventeenth century, it still celebrates calennig, with the possibly pagan Mari Lwyd despite the revival, and, incidentally, it is home to Europe's biggest private cemetery. Christine Chapman, I hope it is on your must-see list. The village also has an 850-year-old pub, and I am sure that the name of the Lord might have been invoked more than once in there.

None of Visit Wales's sell suggests that we value this part of our heritage, so closely linked with an expression of faith over many centuries. That worries me, not just because we are missing out on the US dollar, and not just because other small countries like Portugal, Greece and even Poland are outstripping us on this, but because we are missing out on a sort of fellowship across the world, sharing and sometimes separated by the common religious experience of our past. I have mentioned my region a lot today, but the points I make apply across Wales. So, Deputy Minister, I look forward to you breathing some life into the faith tourism action plan. Thank you.

Ddirprwy Weinidog, efallai nad oes gennym gapel Rosslyn i ddenu'r twristiaid teledu, ond bydd pob dilynwr 'Doctor Who' gwerth ei halen yn gofyn pam nad yw eglwys gadeiriol Aberhonddu'n ymddangos ar wybodaeth Croeso Cymru am leoliadau ffilm. Mae gan 'Doctor Who' gynulleidfa enfawr yn yr Unol Daleithiau, ac mae gan yr Unol Daleithiau Gymry alltud a marchnad dreftadaeth bersonol Gymreig. Pan ddaeth perthnasau i aros gyda ni o Ohio ac Utah, doedden nhw ddim am dreulio tri diwrnod yng Nghaerdydd fel yr awgrymai Croeso Cymru—roedd y Mormoniaid, hyd yn oed, yn awyddus i fynd i weld y fynwent ym Mrynteg yng Ngorseinon, sydd yn anffodus yn awr ar werth.

Pan roddwyd sylw mawr ar CNN i ymweliad gwraig Mitt Romney â Chymru, nid oherwydd llwybr yr arfordir neu gastell Caerdydd oedd testun y sylw. Daeth i Llangynwyd i olrhain hanes ei thad-cu, glöwr yn Nantyllyon a adawodd Gymru yn y 1920au. Mae Llangynwyd, sydd unwaith eto yn fy rhanbarth i, yn gartref i eglwys Geltaidd o'r chweched ganrif a ailadeiladwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg. Dyma leoliad chwedl y ferch o Gefn Ydfa, yn ogystal ag erledigaethau'r Bedyddwyr yn yr ail ganrif ar bymtheg, mae'n dal i ddathlu Calennig, gyda'r Fari Lwyd baganaidd, o bosibl, er gwaethaf y diwygiad, a, gyda llaw, dyma gartref y fynwent breifat fwyaf yn Ewrop. Christine Chapman, rwy'n gobeithio bod y lle hwn ar eich rhestr o fannau sy'n rhaid eu gweld. Mae gan y pentref dafarn 850 mlwydd oed, ac rwy'n siŵr y gallai enw'r Arglwydd fod wedi'i grybwyll fwy nag unwaith o'i fewn.

Nid oes dim o waith marchnata Croeso Cymru yn awgrymu ein bod yn gwerthfawrogi'r rhan hon o'n treftadaeth, sydd wedi'i gysylltu mor agos â mynegiant o ffydd dros y canrifoedd. Mae hynny'n fy mhoeni, nid yn unig oherwydd ein bod yn colli cyfle i ennill doleri'r UDA, ac nid yn unig oherwydd bod gwledydd bychain eraill fel Portiwgal, Gwlad Groeg a hyd yn oed Gwlad Pwyl yn drech na ni ar hyn, ond oherwydd ein bod yn colli cyfle ar ryw fath o gymdeithas ar draws y byd, trwy rannu a chael ein gwahanu gan brofiad crefyddol cyffredin o'n gorffennol. Rwyf wedi sôn llawer am fy rhanbarth heddiw, ond mae'r pwyntiau'n berthnasol i Gymru gyfan. Felly, Ddirprwy Weinidog, edrychaf ymlaen at eich gweld yn anadlu rhywfaint o fywyd yng nghynllun gweithredu ar dwristiaeth ffydd. Diolch.

16:55

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the two amendments to the motion. I call on William Powell to move amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i lunio a gweithredu strategaeth integredig i hyrwyddo llwybrau twristiaeth ffydd megis y Ffordd Sistersaidd a denu mwy o ymwelwyr i fannau addoli yng Nghymru.*

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Rwy'n galw ar William Powell i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Insert a new point 2 and renumber accordingly:*

*Calls on the Welsh Government to draw up and implement an integrated strategy to promote faith tourism paths such as the Cistercian Way and attract more visitors to Wales's places of worship.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:55

## **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. I rise to move amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Diolch fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n codi i gynnig gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I warmly welcome this debate today. As a party, the Welsh Liberal Democrats remain committed to supporting Wales's numerous historic buildings, which continue to be at the very heart of our national heritage. Whether they are religious or secular in character, we have consistently been at the centre of campaigns within local communities to save such buildings. For example, we need look no further than the work undertaken by my colleague Eluned Parrott and her colleagues to help to save the Vulcan pub here in Cardiff. Such buildings have huge cultural significance and deserve to be protected, but rarely is this more true than with religious buildings. Be they on the scale of historic abbeys and cathedrals or smaller rural chapels or, indeed, city mosques, religious buildings endure at the very core of so many Welsh communities. As such, it is incumbent upon us to ensure that we both recognise their significance and safeguard their future. That is why we have warmly welcomed the faith tourism action plan and its stated aims to help to publicise and promote the value that faith tourism offers to us here in Wales. To do so, we must look at what we do elsewhere. That is why listing is so important. In order to plan, we need to fully understand what our assets are and where they are located. The value of such buildings to local economies can be seen in examples such as Coleg Trefeca in the Brecon Beacons National Park. The college is still regularly used for training, conferences, spiritual refreshment and retreat. It also retains—and Suzy Davies referred to the Welsh diaspora in the United States and elsewhere—its iconic status for thousands of Methodists in the United States, associated forever with Hywel Harris, the founding father of Welsh Methodism.

Given their importance, dedicated organisations have also come up to protect churches and chapels, especially those that have been deconsecrated. I would like to put on the record my thanks to Friends of Friendless Churches, for instance, which campaigns tirelessly to rescue redundant historic churches across the length and breadth of England and Wales and those threatened by demolition and decay. By now, they own more than 40 former places of worship in England and Wales—half of them are in Wales. Without it, many of these buildings would no longer be available for the public to enjoy. Maintaining and repairing the churches is a considerable financial challenge, and it relies a great deal on the generosity of members and the willingness of groups to sponsor and become local friends as a focus of fundraising. One such church in the custodianship of Friends of Friendless Churches is Llanelieu church near Talgarth, near my own home. It boasts a rood screen and a remarkable ancient yew tree in its grounds, which is also known as the Llanelieu whipping tree. It was used as a place of punishment in the dark ages and is still a location of interest for niche tourism and also for those with an interest in the penal code of a bygone age. Examples of such sacred buildings in Wales now serving their communities are, as I referred to earlier in Plenary today, the community hub at St Mary's church in Brecon and, of course, the Bargoed library, which is hosted in a chapel and which enjoys great support in that community.

Croesawaf yn fawr y ddaidl hon heddiw. Fel plaid, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i ymrwymo'n llwyr i gefnogi adeiladau hanesyddol niferus Cymru, sy'n parhau i fod wrth galon ein treftadaeth genedlaethol. Waeth a ydynt yn grefyddol neu'n seciwlar o ran cymeriad, rydym wedi bod yn gyson wrth galon ymgyrchoedd mewn cymunedau lleol i achub adeiladau o'r fath. Er enghraifft, mae angen edrych ymhellach na'r gwaith a wnaed gan fy nghyd-aelod Eluned Parrott a'i chydweithwyr i helpu i achub tafarn y Vulcan yma yng Nghaerdydd. Mae gan adeiladau o'r fath arwyddocâd diwylliannol enfawr ac maent yn haeddu cael eu cadw, ond prin y bydd hyn yn fwy gwir na chydag adeiladau crefyddol. Boed ar raddfa abatai hanesyddol ac eglwysi cadeiriol neu gapeli gwledig llai, neu, yn wir, mosgiau dinas, mae adeiladau crefyddol yn parhau wrth wraidd cymaint o gymunedau yng Nghymru. Fel y cyfryw, mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn cydnabod eu harwyddocâd yn ogystal â diogelu eu dyfodol. Dyna pam y bu i ni groesawu'n gynnes y cynllun gweithredu twristiaeth ffydd a'i nodau datganedig i helpu i roi cyhoeddusrwydd a hyrwyddo gwerth twristiaeth ffydd i ni yma yng Nghymru. I wneud hynny, rhaid i ni edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud mewn manau eraill. Dyna pam y mae rhestru mor bwysig. Er mwyn cynllunio, mae angen i ni ddeall yn iawn beth yw ein hasedau a ble maent wedi'u lleoli. Gellir gweld gwerth adeiladau o'r fath i economïau lleol gydag enghreifftiau fel Coleg Trefeca ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r coleg yn parhau i gael ei ddefnyddio'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant, cynadleddau, adferiad ysbrydol ac encil. Mae hefyd yn cadw—a chyfeiriodd Suzy Davies at Gymry alltud yr Unol Daleithiau ac mewn manau eraill—ei statws eiconig i filoedd o Fethodistiaid yn yr Unol Daleithiau, yn fythol gysylltiedig â Hywel Harris, sefydlwr Methodistaeth Gymreig.

O ystyried eu pwysigrwydd, daeth cyrff penodedig hefyd i'r adwy i ddiogelu eglwysi a chapeli, yn enwedig y rhai sydd wedi'u dadgysegru. Hoffwn roi ar gofnod fy niolch i Gyfeillion Eglwysi Digiyaill, er enghraifft, sy'n ymgyrchu'n ddiflino i achub eglwysi hanesyddol segur ar hyd a lled Cymru a Lloegr a'r rhai dan fygythiad dadfeilio a'u dymchwel. Erbyn hyn, maent yn berchen ar fwy na 40 o gyn-addoldai yng Nghymru a Lloegr—hanner ohonynt yng Nghymru. Hebddynt, ni fyddai llawer o'r adeiladau hyn bellach ar gael i'r cyhoedd eu mwynhau. Mae cynnal a chadw ac atgyweirio'r eglwysi yn her ariannol sylweddol, ac mae'n dibynnu llawer iawn ar haelioni aelodau a pharodrwydd grwpiau i noddi a dod yn ffrindiau lleol fel ffocws ar gyfer codi arian. Un eglwys o'r fath yng ngwarchodaeth Cyfeillion Eglwysi Digiyaill yw eglwys Llanellyw ger Talgarth, ger fy nghartref i. Mae ganddi groglan ac ywen hynafol nodedig ar dir yr eglwys, sy'n cael ei hadnabod hefyd fel coeden chwipio Llanellyw. Fe'i defnyddiwyd fel lle cosb yn yr oesoedd tywyll ac mae'n dal i fod yn lleoliad o ddiddordeb ar gyfer twristiaeth arbenigol a hefyd ar gyfer y rhai sydd â diddordeb yn nulliau cosbi'r oes a fu. Dyma enghreifftiau pellach o adeiladau sanctaidd o'r fath yng Nghymru sy'n gwasanaethu eu cymunedau, fel y soniais yn gynharach yn y Cyfarfod Llawn heddiw, canolfan gymunedol eglwys y Santes Fair yn Aberhonddu ac, wrth gwrs, llyfrgell Bargoed, sydd wedi'i lleoli mewn chapel ac sy'n mwynhau cefnogaeth ragorol yn y gymuned honno.

Turning now to our amendment, I remind the Chamber that, earlier this year, the Minister for Economy, Science and Transport established a working group to look at the Cistercian Way. It is due to produce an action plan for such heritage sites. I would be grateful for an update today from the Minister as to what progress there has been to date in terms of this endeavour. Improving the Cistercian Way would bring many more enthusiastic walkers to Wales who will undoubtedly serve to improve the understanding of tourism in this country and provide the valuable cash injection that that brings to our economy. However, the Cistercian Way is more than just a path; it is a major part of Wales's heritage and should be promoted more as a main example of our nation's offer.

In simple terms, it is easy to see the massive potential that we have to attract more tourists here in Wales, while safeguarding these precious, historic structures, which constitute such a major part of our collective history as a nation. As such, we strongly support today's motion and I would urge Members to support our amendment.

Gan droi yn awr at ein gwelliant, rwy'n atgoffa'r Siambur, yn gynharach eleni, y bu i'r Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth sefydlu gweithgor i edrych ar y Llwybr Sistersaidd. Ei orchwyl yw llunio cynllun gweithredu ar gyfer safleoedd treftadaeth o'r fath. Byddwn yn ddiolchgar am y newyddion diweddaraf heddiw gan y Gweinidog ynghylch y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran yr ymdrech hon. Byddai gwella'r Llwybr Sistersaidd yn dod â llawer mwy o gerddwyr brwdfrydig i Gymru a fydd yn ddi-os yn fodd i wella dealltwriaeth y wlad hon o dwristiaeth ac yn darparu'r hwb ariannol gwerthfawr a ddaw yn ei sgil i'n heconomi. Fodd bynnag, mae'r Llwybr Sistersaidd yn fwy na dim ond taith; mae'n rhan bwysig o dreftadaeth Cymru a dylid ei hyrwyddo yn fwy fel prif enghraifft o'r hyn sydd gan ein cenedl i'w gynni.

Yn syml, mae'n hawdd gweld y potensial enfawr sydd gennym i ddenu mwy o dwristiaid yma yng Nghymru, gan ddiogelu'r henebion gwerthfawr, hanesyddol, sy'n ffurfio rhan mor bwysig o'n hanes cyfunol fel cenedl. Fel y cyfryw, rydym yn cefnogi'r cynnig heddiw yn gryf a byddwn yn annog Aelodau i gefnogi ein gwelliant.

17:00

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Bethan Jenkins to move amendment 2 tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pwysigrwydd adeiladau crefyddol yn cael ei ymgorffori o fewn y Bil Treftadaeth.*

Galwaf ar Bethan Jenkins i gynni gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Amendment 2—Elin Jones*

*Add as new point 3 and renumber accordingly:*

*Calls on the Welsh Government to ensure that the importance of religious buildings is enshrined within the Heritage Bill.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:00

## **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2 in the name of Elin Jones.

We will support all of the amendments put forward today tabled in the name of Aled Roberts and Paul Davies. Religious buildings and sites are an important part of Welsh history and identity and Plaid Cymru hopes that their importance will be enshrined in the forthcoming heritage Bill.

The heritage Bill seeks to protect Wales's historic environment, which supports more than 30,000 jobs and contributes over £840 million to Wales's economy each year—a major contribution made by historic buildings and sites in the tourism industry. Wales is well known for its castles, but religious buildings also play an important part. St David's cathedral was the eighth most popular free attraction in Wales in 2013, with 250,000 visitors. Since 2009, free-to-enter attractions have seen bigger increases in visitor numbers than paid attractions.

However, they could make even more of a contribution. We welcome the Welsh Government's faith tourism action plan, but would like more information on what work the Government has been doing with the sector to develop its strategic plans.

Rwy'n cynni gwelliant 2 yn enw Elin Jones.

Byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd heddiw yn enw Aled Roberts a Paul Davies. Mae adeiladau a safleoedd crefyddol yn rhan bwysig o hanes a hunaniaeth Cymru a gobaith Plaid Cymru yw y bydd eu pwysigrwydd yn cael ei ymgorffori yn y Bil treftadaeth arfaethedig.

Mae'r Bil treftadaeth yn ceisio gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n cefnogi mwy na 30,000 o swyddi ac yn cyfrannu dros £840 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn—cyfraniad sylweddol a wneir gan adeiladau a safleoedd hanesyddol yn y diwydiant twristiaeth. Mae Cymru'n enwog am ei chestyll, ond mae adeiladau crefyddol hefyd yn chwarae rhan bwysig. Eglwys Gadeiriol Tyddewi oedd yr wythfed atyniad rhad ac am ddim mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn 2013, a ddenodd 250,000 o ymwelwyr. Ers 2009, mae atyniadau gyda mynediad rhad ac am ddim wedi gweld mwy o gynnydd yn nifer yr ymwelwyr na'r atyniadau lle mae'n rhaid talu.

Fodd bynnag, gallent wneud hyd yn oed mwy o gyfraniad. Rydym yn croesawu cynllun gweithredu twristiaeth ffydd Llywodraeth Cymru, ond hoffem gael rhagor o wybodaeth am y gwaith y mae'r Llywodraeth wedi ei wneud gyda'r sector i ddatblygu ei gynlluniau strategol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



Wales's chapels are closing down on a weekly basis. The Royal Commission on Ancient and Historical Monuments of Wales has put together a register of more than 6,600 nineteenth and twentieth century chapels. The BBC reported in December 2013 that more than half had shut. These chapels are an important part of Wales's unique religious heritage, but are also valued for their history and architecture. More could be done to promote Wales's historical buildings and sites, including its chapels, pre-Christian sites and buildings from other faiths and denominations. However, before we open their doors to tourists, we need to prevent them from being demolished or developed in a way that does not protect their architectural and other characteristics.

Many such buildings may have significance to local communities and I welcome the fact that, according to the White Paper, the heritage Bill will improve protection by ensuring that what is significant to the people of Wales is identified, understood, appreciated and sustained. I hope that the Bill will strengthen communities' roles in determining what buildings are important to their local heritage and secure protection for those buildings. This is true of buildings that are important to our industrial heritage, as well as to our religious heritage.

We cannot expect all of those buildings to be conserved for their original purposes, but we can make sure that any development is sensitive to their design and architecture and is there for the benefit of local communities.

Finally, conserving religious buildings will not, in itself, secure their heritage for future generations. There is also a role for education in this and an opportunity in the ongoing review of the national curriculum to ensure that Welsh history, heritage and culture form a central part of the curriculum. This would include our religious heritage—a key part of our history—and our industrial heritage.

I know that in previous conversations with the Deputy Minister, I have mentioned the skills agenda in all of this too. While I am talking about the wider historic building area, I do believe that we should be taking a serious look at the skills that are leaving the sector due to retirement and so forth, and having those skills built into the system at an earlier stage. So, I would hope that if that cannot be put into the heritage Bill, the Minister could look to work on that agenda much more so in the near future.

17:04

## **Paul Davies** [Bywgraffiad Biography](#)

Rwy'n falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma ar adeiladau crefyddol yng Nghymru a'r rôl y gallent chwarae yn economi Cymru. Rwy'n ffodus iawn, wrth gwrs, fod Eglwys gadeiriol Tyddewi, abaty Llandudoch, capel Santes Non a'r ffynnon sanctaidd yn fy etholaeth i. Mae'r rhain yn adeiladau eithriadol o hardd gyda hanes enfawr sy'n denu miloedd o ymwelwyr i sir Benfro bob blwyddyn. Os nad ydych wedi ymweld â nhw o'r blaen, rwy'n eich annog i wneud hynny. Mae'n gwbl hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i warchod a hybu adeiladau fel hyn er mwyn bod ymwelwyr o ar draws y Deyrnas Unedig a thu hwnt yn gallu eu mwynhau.

Bob wythnos, mae capeli yng Nghymru yn cau am y tro olaf. Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi llunio cofrestr o fwy na 6,600 o gapeli o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed. Adroddodd y BBC yn Rhagfyr 2013 fod mwy na hanner wedi cau. Mae'r capeli hyn yn rhan bwysig o dreftadaeth grefyddol unigryw Cymru, ond maent hefyd yn cael eu gwerthfawrogi am eu hanes a'u pensaerniaeth. Gellid gwneud mwy i hyrwyddo adeiladau a safleoedd hanesyddol Cymru, gan gynnwys ei chapeli, safleoedd cyn-Gristnogol ac adeiladau o grefyddau ac enwadau eraill. Fodd bynnag, cyn i ni agor eu drysau i dwristiaid, rhaid i ni atal eu dymchwel neu eu datblygu mewn ffordd nad yw'n amddiffyn eu nodweddion pensaernïol a'u nodweddion eraill.

Gall fod arwyddocâd i lawer o adeiladau o'r fath i gymunedau lleol a chroesawaf y ffaith, yn ôl y Papur Gwyn, y bydd y Bil treftadaeth yn gwella cadwraeth trwy sicrhau bod yr hyn sy'n bwysig i bobl Cymru yn cael ei nodi, ei ddeall, ei werthfawrogi a'i gadw. Gobeithiaf y bydd y Bil yn cryfhau rôl cymunedau wrth benderfynu pa adeiladau sy'n bwysig i'w treftadaeth leol gan sicrhau bod yr adeiladau hynny'n cael eu cadw. Mae hyn yn wir am adeiladau sy'n bwysig i'n treftadaeth ddiwydiannol, yn ogystal â'n treftadaeth grefyddol.

Ni allwn ddisgwyl cadw'r holl adeiladau hynny at eu dibenion gwreiddiol, ond gallwn wneud yn siŵr bod unrhyw ddatblygiad yn sensitif i'w dyluniad a'u pensaerniaeth a'u bod yn parhau er budd cymunedau lleol.

Yn olaf, ni fydd cadw adeiladau crefyddol, ynddo'i hun, yn sicrhau eu treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae rôl i addysg yn hyn o beth a chyfle yn yr adolygiad parhaus o'r cwricwlwm cenedlaethol i sicrhau bod hanes, treftadaeth a diwylliant Cymru yn rhan ganolog o'r cwricwlwm hefyd. Byddai hyn yn cynnwys ein treftadaeth grefyddol—rhan allweddol o'n hanes—a'n treftadaeth ddiwydiannol.

Gwn, mewn sgrysiâu blaenorol gyda'r Dirprwy Weinidog, y bu i mi sôn am yr agenda sgiliau yn hyn oll hefyd. Tra fy mod i'n sôn am y maes adeiladau hanesyddol ehangach, credaf y dylem fod yn edrych o ddifrif ar y sgiliau sy'n gadael y sector o ganlyniad i ymdeoliad ac yn y blaen, ac adeiladu'r sgiliau hynny i mewn i'r system yn gynharach. Felly, byddwn yn gobeithio, os na ellir ei roi i mewn i'r Bil treftadaeth, a all y Gweinidog geisio gweithio fwyfwy ar agenda honno yn y dyfodol agos.

I am pleased to have the opportunity to participate in this debate this afternoon on religious buildings in Wales and the role that they can play in the Welsh economy. I am very fortunate, of course, that St David's cathedral, St Dogmaels abbey, St Non's chapel and holy well are in my constituency. These are exceptionally beautiful buildings with great history that attract thousands of visitors to Pembrokeshire every year. If you have not visited in the past, I encourage you to do so. It is crucially important that the Welsh Government does everything that it can to protect and promote these buildings so that visitors from across the UK and beyond can enjoy them.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Fel y dywedodd Bethan Jenkins, denodd eglwys gadeiriol Tyddewi dros 250,000 o bobl y flwyddyn diwethaf, sydd yn dangos pa mor boblogaidd yw'r eglwys gadeiriol. Felly rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun gweithredu twristiaeth ffydd i helpu i nodi ffyrdd o gefnogi lleoedd hynafol o addoli ac i ddenu mwy o ymwelwyr i'r adeiladau hyn.

Rwy'n siŵr y bydd Aelodau'n cytuno mai un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu adeiladau crefyddol hynafol yw'r gallu i gynhyrchu digon o arian i gefnogi eu hanghenion cynnal a chadw. Er bod awdurdodau lleol a sefydliadau fel Cadw yn gwneud eu gorau i helpu i gefnogi ein hadeiladau crefyddol, gall costau cynnal a chadw barhau i fod yn her i lawer o safleoedd. Er enghraifft, mae angen rhyw £2,000 y dydd ar gyfer cynnal a chadw eglwys gadeiriol Tyddewi, sy'n rhoi syniad i ni faint o broblem yw edrych ar ôl y fath adeiladau. Yn yr achos arbennig hwn, nid yw'r eglwys gadeiriol yn derbyn unrhyw gymorth uniongyrchol oddi wrth y wladwriaeth ac ni chodir tâl mynediad. Felly, dibynnir yn llwyr ar garedigrwydd y cyhoedd. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r bobl ynghlwm ag adeiladau crefyddol i'w helpu, rhoi cyngor ar y grantiau a chyllid sydd ar gael iddynt a hefyd i helpu i ffeindio atebion ariannu arloesol ar gyfer cynnal a chadw'r adeiladau.

Ni allwn bwysleisio digon pa mor bwysig yw adeiladau fel hyn i economi Cymru. Roedd y Parchedig Geoffrey Marshall, deon eglwys gadeiriol Aberhonddu yn llygad ei le pan dynnodd sylw at bwysigrwydd adeiladau crefyddol i economi Cymru pan ddywedodd:

Gall pobl sydd ar daith o eglwys i eglwys brynu canhwyllau a chylchgronau yn yr eglwysi, yn ogystal â gadael rhoddion hael, ond maent hefyd yn gwario arian mewn tafarndai lleol, tai bwyta, siopau a hyd yn oed gwestai, safleoedd gwerysyla a gwely a brecwast.

Fodd bynnag, mae angen darlun cliriach o sut mae twristiaeth ffydd o fudd i economi Cymru, ac rwy'n gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog, yn ei ymateb i'r ddatl hon, yn fodlon ymrwymo i gyhoeddi mwy o ddata economaidd o amgylch twristiaeth ffydd. Mae eglwysi ac eglwysi cadeiriol ledled Cymru yn awr yn darparu cyfleusterau ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau sy'n ennyn diddordeb y gymuned leol ac yn denu ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal leol. Efallai bydd rhai Aelodau wedi cael y ffrind o fynychu cyngerdd yn eglwys gadeiriol Tyddewi, ac rwy'n siŵr eu bod yn cytuno bod yr acwsteg yn arbennig o drawiadol. Yn Abaty Llandudoch, maent hefyd yn rhedeg nifer o ddigwyddiadau fel arddangosfeydd celf a marchnadoedd ffermwyr, a defnyddir y tir o amgylch yr abaty ar gyfer amrywiaeth o bethau. Mae'n hanfodol bod adeiladau crefyddol yn defnyddio cymaint o'u potensial ag y bo modd, gan annog cynnal gweithgareddau ehangach ynddynt a bod Llywodraeth Cymru yn helpu i gefnogi manau addoli i wneud hyn.

As Bethan Jenkins said, St David's cathedral attracted more than 250,000 people last year, which proves how popular the cathedral is. Therefore, I am pleased that the Welsh Government has developed a faith tourism action plan to help mark ways of supporting ancient places of worship and of attracting more visitors to these buildings.

I am sure that Members will agree that one of the greatest problems facing ancient religious buildings is the ability to generate enough funds to support their maintenance. Although local authorities and organisations such as Cadw do their best to support the maintenance of our religious buildings, the maintenance costs can still be very challenging for many sites. For example, some £2,000 a day is needed for the maintenance of St David's cathedral, which gives us an idea of how much of a problem it is to maintain such buildings. In this particular case, the cathedral receives no direct support from the state and admission is free. Therefore, it is entirely reliant on the generosity of the public. It is crucially important that the Welsh Government works with the people involved with religious buildings to help them, to give advice on the grants and funding available to them and also to help to find innovative funding solutions for their maintenance.

We cannot overemphasise how important these buildings are to the Welsh economy. Reverend Geoffrey Marshall, dean of Brecon cathedral was right in drawing attention to the importance of religious buildings to the Welsh economy when he said:

'People on a tour of churches may buy candles, magazines and souvenirs in the churches, as well as leave generous donations, but they also spend money in local pubs, restaurants, shops and even hotels, campsites and B&Bs.'

However, we do need a clearer picture of how faith tourism benefits the Welsh economy, and I hope that the Deputy Minister, in his response to this debate, is willing to commit to publishing more economic data around faith tourism. Churches and cathedrals throughout Wales now provide facilities for a range of activities and events that attract the local community and visitors from outside the local area. Some Members may have had the privilege of attending a concert at St David's cathedral, and I am sure that they would agree that the acoustics are exceptional. At St Dogmaels Abbey, they also run a number of events such as art exhibitions and farmers' markets, and use the land around the abbey for a variety of events. It is crucially important that religious buildings make the most of their potential, encouraging their use for a wider range of activities, and that the Welsh Government helps to support religious sites to this end.

Nodaf o gynllun gweithredu twristiaeth ffydd Llywodraeth Cymru bod amcan 3, cynyddu'r buddion i fannau addoliad Cymru oddi wrth ymwelwyr, yn ymrwmo i ddatblygu mwy o lwybrau pererindod, gan adeiladu ar lwybrau cerdded sydd eisoes yn bodoli. O dan yr amcan hwn, mae ymrwymiad i sefydlu llwybr cerdded i bererinion ar draws de Cymru i Dyddewi. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n ei groesawu'n fawr iawn, gan y bydd o fudd i economi sir Benfro, oherwydd bydd yr ymwelwyr hyn yn defnyddio cyfleusterau lleol yn yr ardal. Dan yr amgylchiadau, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Dirprwy Weinidog, yn ei ymateb, roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am gynnydd y llwybr hwn.

Mae ein treftadaeth grefyddol yn rhywbeth y dylem i gyd fod yn falch ohoni, ac er fy mod yn ffodus i gynrychioli ardal gyda chyfoeth o adeiladau crefyddol, nid yw fy etholaeth i ar ei phen ei hun. Felly, wrth gloi, Ddirprwy Lywydd, rwy'n gobeithio, o ganlyniad i'r ddatl hon, y byddwn yn gweld mwy o ddata economaidd yn cael eu cyhoeddi mewn perthynas â thwristiaeth ffydd fel y gallwn gael darlun cliriach o sut mae economi Cymru yn elwa.

I note from the Welsh Government's faith tourism action plan that objective 3, increase the yield from visitors to Wales's places of worship, seeks to develop more pilgrim routes, building on those already in existence. Under this objective, there is a commitment to establishing a pathway for pilgrims across south Wales to St David's. This is something that I warmly welcome, as it will benefit the economy of Pembrokeshire, because these visitors will use local facilities in the area. Under the circumstances, I would be grateful if the Deputy Minister, in his response, could provide us with an update on the progress of this route.

Our religious heritage is something that we should all be proud of, and while I am fortunate to represent an area with a wealth of religious buildings, my constituency is not unique. So, in conclusion, Deputy Presiding Officer, I hope that, as a result of this debate, we will see more economic data published in relation to faith tourism so that we can get a clearer picture of how the Welsh economy benefits.

17:09

## Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to welcome this debate today. I think that the importance of chapels to Welsh society cannot be overestimated. I believe that it is the William Morgan Bible and the Welsh-medium chapels of the late nineteenth and twentieth centuries that ensured the continuation of the Welsh language when other languages, like Kernowek and Gaelic, went into almost terminal decline.

This debate today is occurring at a time of crisis for many chapels in Wales. In recent decades, we have seen a gradual and continual decline in what can be referred to as the two great traditions of the late nineteenth and early twentieth-century Welsh society; that being the tradition of attending the local chapel and local public house. Although there still remains some support and interest in supporting the local pub, the tradition of visiting the local chapel has seen a serious decline. It was only in the late nineteenth century and the first decade of the twentieth century that we saw the larger, ornate nonconformist chapel buildings being built on a regular basis to cater for the ever-growing demand of congregations and local communities. Many of us—myself included—will recall our local chapels being packed with members of the congregation, and not only for a concert. They were once undoubtedly the beating heart of communities, and the question remains as to just how this great Welsh tradition has fallen into such decline over the past half-century. More importantly, what is to become of these extraordinary buildings—landmark buildings in many cases, like Tabernacle and New Siloh in my own constituency—that still dominate towns and villages throughout Wales?

Rwyf am groesawu'r ddatl hon heddiw. Credaf na ellir gorbwysleisio pwysigrwydd capeli i'r gymdeithas yng Nghymru. Credaf mai Beibl William Morgan a chapeli cyfrwng Cymraeg diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif sicrhaodd barhad yr iaith Gymraeg pan welodd ieithoedd eraill, fel Cernyweg a Gaeleg, ddirywiad oedd bron yn angheuol.

Mae'r ddatl hon heddiw yn digwydd ar adeg o argyfwng i lawer o gapeli yng Nghymru. Yn ystod y degawdau diwethaf, gwelsom ddirywiad graddol a pharhaus yn yr hyn y gellir cyfeirio atynt fel dau draddodiad mawr y gymdeithas Gymreig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif; sef y traddodiad o fynychu'r capel lleol a'r dafarn leol. Er bod rhywfaint o gefnogaeth a diddordeb yn parhau o ran cefnogi'r dafarn leol, mae'r traddodiad o ymweld â'r capel lleol wedi gweld dirywiad difrifol. Ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif oedd yr adeg pan welwyd adeiladau capeli anghydfurfiol mwy o faint ac addurnedig yn cael eu hadeiladu yn rheolaidd i ddarparu ar gyfer y twf cynyddol yn y cynulleidfaoedd a'r cymunedau lleol. Mae llawer ohonom—â minnau'n eu plith—yn cofio ein capeli lleol yn orlawn o aelodau'r gynulleidfa, ac nid dim ond ar gyfer cyngerdd. Unwaith, yn ddi-os, dyma oedd calon y gymuned, ac mae'r cwestiwn yn aros, sut yn union y bu i'r traddodiad rhagorol hwn yng Nghymru ddirywio i'r fath raddau yn ystod yr hanner canrif diwethaf. Yn bwysicach fyth, pa beth a ddaw o'r adeiladau arbennig hyn—adeiladau trawiadol yn aml iawn fel Tabernacl a Seilo newydd yn fy etholaeth i—sy'n dal i dra-arglwyddiaethu ar drefi a phentrefi ledled Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

These days, the upkeep of these remarkable buildings has fallen onto the shoulders of the remaining members of the congregation. One deacon said to me, 'We inherited this chapel from our parents, but our children do not want to inherit it from us'. Wales's ecclesiastical heritage is a very significant part of the nation's built and cultural heritage. Many who do not attend the chapels of Wales attach a huge significance to their architectural merit and the status that they carry within the local community. As you look around Wales, it is obvious that, in this day and age, Wales has far in excess of the number of chapels required for its current religious needs.

In my constituency, there are two chapels, Siloh Newydd and Tabernacl—originally built as Libanus Newydd—that hold over 1,000 people. They were built because the original Siloh and Libanus, which only held 400 or 500 people, were far too small for the congregations that they were getting. Today, in Siloh Newydd, the number of people attending the congregation is around 10 to 20 on a good day. It is close to closure. It is a large and ornate building that is in danger of being left empty. When the congregation falls too small to support a chapel, it inevitably becomes redundant. Regrettably, these redundant and unused chapel buildings fall into severe decline over the years, and some have actually fallen down. Some are burned down, as Suzy Davies mentioned earlier. This has led to either the destruction of the buildings, or when they have listed status through Cadw, they remain in a state of decline and become an upsetting eyesore in the local communities.

In my opinion, what is preferable is for chapels to remain places of worship or, failing that, converted into facilities that are available for local communities to use. I believe that keeping these historical buildings in some familiar shape or form is better than the alternative of losing them altogether. I can show you piles of bricks in Morryston that used to be chapels.

In the past, Welsh chapels could rely on community and congregation donations to help fund any maintenance or running costs. That is no longer an option. We have seen some great financial assistance and support given to chapels in need, thanks to Government-sponsored schemes, listed places of worship schemes, and the community facilities programme, along with the help from organisations—

Y dyddiau hyn, mae cynnal a chadw'r adeiladau nodedig hyn wedi disgyn ar ysgwyddau'r aelodau sy'n weddill o'r gynulleidfa. Dywedodd un diacon wrthyf, 'Rydym wedi etifeddu'r capel hwn gan ein rhieni, ond nid yw ein plant yn dymuno ei etifeddu oddi wrthym ni'. Mae treftadaeth eglwysig Cymru yn rhan arwyddocaol iawn o dreftadaeth adeiledig a diwylliannol y genedl. Mae llawer nad ydynt yn mynychu capeli Cymru yn rhoi cryn bwys ar eu rhinweddau pensaernïol a'u statws yn y gymuned leol. Wrth i chi edrych o gwmpas Cymru, mae'n amlwg, yn yr oes sydd ohoni, fod gan Gymru lawer mwy na'r angen o gapeli ar gyfer ei hanghenion crefyddol cyfredol.

Yn fy etholaeth i, mae dau gapel, Seilo Newydd a'r Tabernacl—a adeiladwyd yn wreiddiol fel Libanus Newydd—sy'n dal dros 1,000 o bobl. Cawsant eu hadeiladu oherwydd bod y Siloh a'r Libanus gwreiddiol, a oedd ond yn dal 400 neu 500 o bobl, yn llawer rhy fach ar gyfer y cynulleidfaoedd a oedd yn mynychu. Heddiw, yn Siloh Newydd, nifer y bobl sy'n mynychu'r gwasanaethau yw tua 10 i 20 ar ddiwrnod da. Mae'n agos at gau. Mae'n adeilad mawr ac addurnedig sydd mewn perygl o gael ei adael yn wag. Pan fydd y gynulleidfa'n mynd yn rhy brin i gynnal y capel, mae'n anochel y bydd yn adeilad segur. Yn anffodus, mae'r capeli segur a gwag hyn yn dirywio'n ddifrifol dros y blynyddoedd, ac mae rhai mewn gwirionedd wedi dymchwel. Mae rhai yn cael eu rhoi ar dân, fel y soniodd Suzy Davies yn gynharach. Mae hyn wedi arwain at naill ai ddirywio'r adeiladau, neu os ydynt wedi'u rhestru gan Cadw, maent yn parhau yn adfeilion ac yn ofid a dolur i'r llygad yn y cymunedau lleol.

Yn fy marn i, byddai'n well i'r capeli barhau yn fannau addoli neu, yn niffyg hynny, gellid eu troi yn gyfleusterau i gymunedau lleol eu defnyddio. Credaf fod cadw'r adeiladau hanesyddol hyn mewn rhyw fodd cyfarwydd neu'i gilydd yn well na'r dewis arall o'u colli yn gyfan gwbl. Gallaf ddangos i chi bentyrrau o frics yn Nhreforys a arferai fod yn gapeli.

Yn y gorffennol, gallai capeli Cymraeg ddibynnu ar roddion cymunedol a chan y gynulleidfa i helpu i ariannu unrhyw gostau rhedeg a chynnal a chadw. Nid yw hynny'n opsiwn bellach. Gwelsom ryw faint o gymorth ariannol mawr a chefnogaeth yn cael ei rhoi i gapeli mewn angen, diolch i gynlluniau a noddur gan y Llywodraeth, cynlluniau manau addoli rhestredig, a'r rhaglen cyfleusterau cymunedol, ynghyd â'r cymorth gan sefydliadau—

17:13 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:13 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Certainly.

Yn sicr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:13

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to you for taking the intervention. I could not agree more with your point about greater community use. I am thinking of the chapel in Treoes in my own regional area, which has tried to adapt to more community use to keep the chapel going, but sadly there does not seem to be an overall strategy adopted with public money to support such worthy causes to change the use and complement the main core principle of being a place of faith.

Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn yr ymyriad. Cytunaf yn llwyr â'ch pwynt am fwy o ddefnydd cymunedol. Wrth feddwl am y capel yn Nhreoes yn fy ardal ranbarthol fy hun, maent wedi ceisio addasu i gael mwy o ddefnydd gan y gymuned er mwyn cadw'r capel i fynd, ond yn anffodus ymddengys nad oes strategaeth gyffredinol wedi'i mabwysiadu gydag arian cyhoeddus i gefnogi'r achosion hynod deilwng i newid defnydd ac ategu'r brif egwyddor graidd o fod yn lle o ffydd.

17:13

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

I was actually coming to that, Andrew Davies. There is such importance— There is Cadw and the Big Lottery as well.

Roeddwn mewn gwirionedd yn dod at hynny, Andrew Davies. Mae cymaint o bwys—. Mae Cadw a'r Loteri Fawr hefyd.

However, the level of demand for financial assistance, along with the stringent eligibility criteria, has meant that not all chapels have been successful in their applications. It is also worth saying that with public finances facing challenging times, support by the Welsh Government and by public organisations is, alas, limited. There are calls upon the Welsh Government to work with faith communities and other stakeholders to develop and register Wales's most important religious buildings in order that they can receive appropriate protection for the future. We have thousands of listed buildings, and it is not possible to protect them all. A difficult choice has to be made; if it is not done there is a serious danger of money being spread too thinly. As Andrew R.T. Davies just mentioned, we need a strategy. We need to pick out our key 100 buildings or so; we need to know what we are going to do with them. At times, there appears to be almost piecemeal decision-making. Sometimes, if someone puts a good application in—. We really do need to know what we desperately want to keep for the future.

Fodd bynnag, mae lefel y galw am gymorth ariannol, ynghyd â'r meini prawf cymhwyster llym, wedi golygu nad yw pob capel wedi bod yn llwyddiannus yn eu ceisiadau. Mae hefyd yn werth dweud, gyda chyllid cyhoeddus yn wynebu cyfnod heriol, fod cymorth gan Lywodraeth Cymru a chan gyrff cyhoeddus, gwaetha'r modd, yn gyfyngedig. Mae galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu a chofrestru adeiladau crefyddol pwysicaf Cymru er mwyn iddynt allu cael eu gwarchod yn briodol ar gyfer y dyfodol. Mae gennym filoedd o adeiladau rhestredig, ac nid oes modd eu gwarchod i gyd. Mae'n rhaid gwneud dewis anodd; os na wneir y dewis iawn mae perygl difrifol y bydd arian yn cael ei daenu'n rhy denau. Fel y soniodd Andrew RT Davies, mae arnom angen strategaeth. Mae angen i ni ddewis tua 100 o adeiladau allweddol; mae angen i ni wybod beth ydym yn mynd i'w wneud â nhw. Ar adegau, ymddengys fod y broses o wneud penderfyniadau bron yn dameidiog. Weithiau, os bydd rhywun yn rhoi cais da i mewn—. Mae gwir angen i ni wybod beth ydym yn daer am ei gadw ar gyfer y dyfodol.

Finally, I also realise, along with others, that we will be disappointed when buildings that we consider vital are not on a list of 100. Currently, thousands of buildings are listed but they cannot all be preserved. We need to take action and it needs to be taken before it is too late and some of the great buildings are lost.

Yn olaf, rwyf hefyd yn sylweddoli, ynghyd ag eraill, y byddwn yn siomedig pan nad yw adeiladau yr ydym yn eu hystyried yn hanfodol ar y rhestr o 100. Ar hyn o bryd, mae miloedd o adeiladau wedi eu rhestru ond ni allwn eu cadw i gyd. Mae angen i ni gymryd camau ac mae angen eu cymryd cyn y bydd hi'n rhy hwyr ac y bydd rhai o'r adeiladau'n mynd â'u pen iddynt.

17:15

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Tourism is of vital importance to the economy of Wales. It contributed over £3 billion to Welsh gross domestic product in 2013 and directly employed 114,000 people in jobs in this sector. There are many reasons why tourists choose Wales as their holiday destination. Some are attracted by our countryside, our mountains and our beaches. Others wish to enjoy our cultural festivals, music and arts. However, the main attraction remains our historic heritage, our castles, industrial heritage sites and stately homes.

Mae twristiaeth yn hanfodol bwysig i economi Cymru. Cyfrannodd dros £3 biliwn i gynnyrch mewnwladol crynswth Cymru yn 2013 a chyflogi 114,000 o bobl yn uniongyrchol mewn swyddi yn y sector hwn. Mae llawer o resymau pam mae twristiaid yn dewis Cymru fel eu cyrchfan gwyliau. Mae rhai yn cael eu denu gan ein cefn gwlad, ein mynyddoedd a'n traethau. Mae eraill yn dymuno mwynhau ein gwyliau diwylliannol, cerddoriaeth a'r celfyddydau. Fodd bynnag, y prif atyniad o hyd yw ein treftadaeth hanesyddol, ein cestyll, safleoedd treftadaeth ddiwydiannol a phlastai.

A key component of our historic heritage should be our religious buildings. Wales has a rich religious heritage with many buildings dating back many hundreds of years. In the diocese of Monmouth, in my region, there are nearly 200 churches. Many of these buildings are listed on architectural merit. Some are, of course, impressive ruins. Foremost among them is Tintern abbey, made famous, of course, by the poet William Wordsworth. Dating back to the twelfth century, Tintern was only the second Cistercian abbey in Britain and the first in Wales. It remains the best-preserved medieval abbey in Wales, set in an area of outstanding natural beauty. Last year, it attracted 67,000 visitors, making it the fourth most visited place of worship in Wales. It is not alone. At Llanthony, there is an Augustinian priory, and Runston is a roofless chapel. Both these buildings were founded in the twelfth century. The point is that faith tourism is now considered one of the fastest-growing parts of the tourism sector, and we in Wales should be able to reap the benefits of this. With the assets we have, the Welsh Government should recognise the potential of this sector and make it a priority.

Over a year ago, the Welsh Government launched its faith tourism strategy. The faith action plan was launched at St Asaph cathedral and was the first faith strategy in the United Kingdom. It contained a number of key short and medium-term actions. However, they do not appear to have been implemented yet, neither has there been any update from the Welsh Government. Earlier this year, I spoke in the Chamber about my concern that the Welsh Government fails to recognise the enormous potential for growth that exists in tourism in Wales.

The Wales Tourist Board, which this Government abolished, had a marketing budget of £50 million in 2006. Half of that budget, £25 million, came from the Welsh Government. Last year, the Wales Tourist Board's successor, Visit Wales, spent only £7 million on marketing Wales. It is not surprising, therefore, that there has been a decline in the number of tourists coming to Wales. Wales is a tourist destination that needs to be marketed at home and abroad, and we need to play to our strengths. Wales's religious buildings are a unique part of our history and culture. With faith tourism making up a growing part of the tourism industry, we are well placed to take full advantage of this. The Welsh Government must review its faith action plan as a matter of urgency.

In Wales, we have not only the churches, but the oldest mosque in Cardiff, which is only a few hundred metres away. That was built over 150 years ago by African and Yemeni seamen. That mosque is still there. The oldest synagogue is virtually on Risca Road Newport, and not many people know about it. The building is hundreds of years old and it is still open there. There is one Buddhist monastery, which is in the Skanda Vale, Carmarthen, where they very famously never slaughtered the bullock when there was the foot and mouth problem. However, that monastery can still be used for the people of that faith to come and visit. That has made a big impact on religious society in this country. Religions must be provided with resources and clear targets, and guidelines should be set aside.

Dylai ein hadeiladau crefyddol fod yn elfen allweddol o'n treftadaeth hanesyddol. Mae gan Gymru dreftadaeth grefyddol gyfoethog gyda llawer o adeiladau yn dyddio'n ôl gannoedd o flynyddoedd. Yn esgobaeth Mynwy, yn fy rhanbarth i, mae bron 200 o eglwysi. Mae llawer o'r adeiladau hyn wedi eu rhestru ar sail teilyngdod pensaernïol. Mae rhai, wrth gwrs, yn adfeilion trawiadol. Yr amlycaf yn eu plith yw Abaty Tyndyrn, a wnaed yn enwog, wrth gwrs, gan y bardd William Wordsworth. Mae'n dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif, a Thyndyrn oedd yr ail abaty Sistersaidd ym Mhrydain a'r cyntaf yng Nghymru. Yr abaty canoloesol hwn yw'r un sydd yn y cyflwr gorau yng Nghymru, ac mae'n sefyll mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol. Y llynedd, denodd 67,000 o ymwelwyr, gan ei wneud y pedwerydd man addoli mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Nid y war ei ben ei hun. Yn Llanddewi Nant Hodni, mae priordy Awstinaidd, ac mae Runston yn gapel heb do. Codwyd y ddau adeilad yn y ddeuddegfed ganrif. Yr hyn sy'n bwysig yw yr ystyrir twristiaeth ffydd bellach yn un o'r elfennau sy'n tyfu gyflymaf yn y sector twristiaeth, a dylem yng Nghymru allu elwa ar y manteision hyn. Gyda'r asedau sydd gennym, dylai Llywodraeth Cymru gydnabod potensial y sector hwn a'i wneud yn flaenoriaeth.

Dros flwyddyn yn ôl, lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth dwristiaeth ffydd. Lanswyd y cynllun gweithredu ffydd yn eglwys gadeiriol Llanelwy a dyma oedd y strategaeth ffydd gyntaf yn y Deyrnas Unedig. Roedd yn cynnwys nifer o gamau allweddol tymor canolig byr. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos eu bod wedi cael eu rhoi ar waith eto, ac ni chafwyd unrhyw ddiweddariad gan Lywodraeth Cymru. Yn gynharach eleni, bu i mi gyflwynu y Siambr fy mhryder am ddiffyg Llywodraeth Cymru o ran cydnabod y potensial enfawr ar gyfer twf sy'n bodoli ym maes twristiaeth yng Nghymru.

Roedd gan Fwrdd Croeso Cymru, a ddiddymodd y Llywodraeth hon, gyllideb farchnata gwerth £50 miliwn yn 2006. Daeth hanner y gyllideb honno, £25 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Y llynedd, bu i olynydd Bwrdd Croeso Cymru, Croeso Cymru, wario £7 miliwn yn unig ar farchnata Cymru. Nid yw'n syndod, felly, y bu gostyngiad yn nifer y twristiaid sy'n dod i Gymru. Mae Cymru yn gyrchfan i dwristiaid y mae angen ei marchnata gartref a thramor, ac mae angen i ni fanteisio ar ein cryfderau. Mae adeiladau crefyddol Cymru yn rhan unigryw o'n hanes a'n diwylliant. Gyda thwristiaeth ffydd yn rhan gynyddol o'r diwydiant twristiaeth, rydym mewn sefyllfa dda i fanteisio'n llawn ar hyn. Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei chynllun gweithredu ffydd fel mater o frys.

Yng Nghymru, nid dim ond eglwysi sydd gennym, ond y mosg hynaf yng Nghaerdydd, sydd ond ychydig gannoedd o fetrau oddi yma. Fe'i hadeiladwyd dros 150 mlynedd yn ôl gan forwyr Affricanaidd a Yemeni. Mae'r mosg hwnnw'n dal yno. Mae'r synagog hynaf yn agos iawn i Heol Rhisga, Casnewydd, ac nid oes llawer o bobl yn gwybod amdani. Mae'r adeilad yn gannoedd o flynyddoedd oed ac mae'r synagog yn dal i fod ar agor. Mae un fynachlog Fwdhaidd, sef Skanda Vale, Caerfyrddin, sy'n enwog iawn am beidio â lladd bustach yn ystod problemau clwy'r traed a'r genau. Fodd bynnag, mae modd defnyddio'r fynachlog honno o hyd ar gyfer ymweliadau gan bobl y ffydd honno. Mae hynny wedi cael effaith fawr ar y gymdeithas grefyddol yn wlad hon. Rhaid darparu adnoddau i grefyddau a thargedau clir, a dylai canllawiau gael eu gosod o'r neilltu.



**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome this debate today, but as an aside, I wonder what consideration has been given to the specific role of graveyards and cemeteries as a focus for faith tourism, and indeed secular tourism. We know that this is not a new practice. Pilgrimages were made to see saints' relics many centuries ago and, more recently, we had the Victorian tendency of a trip to a cemetery being regarded as a good day out. Across the modern world, a growing number of people similarly enjoy visiting famous graves, often travelling great distances. There are a number of websites and books devoted to the activity.

There is a name for this, apparently, which I have discovered, and I am one of them—a 'taphophile'. I carefully looked this up. A taphophile is perhaps more colloquially known as a tombstone tourist, a cemetery enthusiast or a graver. Believe you me; there are a lot of us out there—this feels like a confessional today; I have come clean on my hidden passion that I have had for many years—as I have discovered in my many visits. I think that we should maximise that in terms of tourism. Can I say that my late mother was a taphophile as well, so I think that she introduced me to this?

First and foremost, cemetery tourism offers economic opportunities to our communities. Many of the famous cemeteries across the world are really built up and promoted as tourist destinations. Maps and guidebooks are produced to show visitors their way around and to point out the significant local graves. There are some really good examples of this. A few years ago, I was delighted to spend a small part of my holiday in Paris—well, actually, it was my twenty-fifth wedding anniversary—searching out the grave of a heroine of mine, French feminist Simone de Beauvoir, lying alongside one of her lovers, Jean-Paul Sartre, in Montparnasse. If you visit the other huge Parisian cemetery, Père Lachaise, there are many famous names there like Oscar Wilde, Édith Piaf and Jim Morrison—there are loads of people there.

Croesawaf y ddadl hon heddiw, ond wrth fynd heibio, pa ystyriaeth a roddwyd tybed i rôl benodol mynwentydd fel ffocws ar gyfer twristiaeth ffydd, ac, yn wir ar gyfer twristiaeth seciwlar. Gwyddom nad yw hyn yn ddiddordeb newydd. Roedd pobl yn pererindota i weld creiriau'r seintiau ganrifoedd yn ôl, ac, yn fwy diweddar, yn oes Fictoria, cawsom yr arfer o gael diwrnod i'r brenin wrth ymweld â'r fynwent. Ar draws y byd modern, mae mwy a mwy o bobl yn yr un modd yn mwynhau ymweld â beddau enwogion, yn aml yn teithio pellteroedd mawr. Mae nifer o wefannau a llyfrau neilltuol ar gyfer y gweithgaredd.

Rwyf wedi dod o hyd i enw am hyn, mae'n debyg, ac rwyf i yn un ohonynt—sef taphophile. Rwyf wedi ymchwilio'n ofalus i hyn. Enw mwy cyfarwydd ar taphophile o bosibl yw ymwelydd beddfeini, teithiwr mynwentydd neu edmygwr cerrig beddi. Credwch chi fi; mae llawer ohonom yn bodoli—rwy'n teimlo fel petawn i mewn cyffsgell heddiw; rwyf wedi datgelu obsesiwn sydd wedi bod gennyf ers llawer o flynyddoedd—fel y bu i mi ddarganfod yn ystod fy ymweliadau niferus. Credaf y dylem fanteisio ar hynny o ran twristiaeth. Roedd fy niweddar fam yn taphophile hefyd, felly mae'n debyg mai hi wnaeth fy nghyflwyno i hyn?

Yn bennaf oll, mae twristiaeth mynwentydd yn cynnig cyfleoedd economaidd i'n cymunedau. Mae llawer o'r mynwentydd enwog ar draws y byd mewn gwirionedd yn cael eu datblygu a'u hyrwyddo fel cyrchfannau i dwristiaid. Cynhyrchir mapiau ac arweinyfrau i ddangos i ymwelwyr eu ffordd o gwmpas ac i dynnu sylw at y beddau lleol arwyddocaol. Mae rhai enghreifftiau da iawn o hyn. Ychydig flynyddoedd yn ôl, cefais y pleser o dreulio rhan fach o fy ngwyliau ym Mharis—wel, mewn gwirionedd, yr oeddwn yn dathlu pumed pen blwydd ar hugain ein priodas—yn chwilio am fedd arwres i mi, y ffeminist o Ffrances, Simone de Beauvoir, yn gorwedd ochr yn ochr â un o'i chariadon, Jean-Paul Sartre, ym Montparnasse. Os ewch chi i'r fynwent enfawr arall ym Mharis, Père Lachaise, mae llawer o enwau adnabyddus yno fel Oscar Wilde, Edith Piaf a Jim Morrison—mae llawer iawn o bobl yno.

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member may be aware that the Lennon and McCartney classic, 'Eleanor Rigby', was based on a gravestone. So, you are in very good company in your love of gravestones and visiting cemeteries.

Hwyrach y gŵyr yr Aelod am glasur Lennon a McCartney, 'Eleanor Rigby', yn seiliedig ar garreg fedd. Felly, rydych chi mewn cwmni da iawn yn eich hoffter o gerrig beddau a theithiau i fynwentydd.

**Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, I think that we need to talk a lot more about this. [Laughter.]

Yn wir, efallai fod angen i ni siarad llawer mwy am hyn. [Chwerthin.]

In Westwood Village Memorial Park cemetery in Los Angeles, you can visit the graves of Marilyn Monroe, Jack Lemmon, and many other Hollywood stars, as Suzy mentioned, for people who are interested in films as I am. If you see the Jack Lemmon grave, the headstone is very apt because it reads, 'Jack Lemmon in' and that is it. Of course, he is lying alongside Billy Wilder, the director and actor who was in the wonderful film, 'Some Like it Hot'. So, again, a delight. As I said, what I saw there were many fellow taphophiles, clutching their maps and helping each other search out the graves. A real community. [Laughter.] It is true. If any of you would like to see my photograph album, please call into the office, because I have a rather large album.

I am aware that all of this may sound a bit weird and gloomy. [Laughter.] But, on a serious note, I believe that cemeteries and graveyards offer opportunities for quiet reflection. Indeed, this can be a real antidote to the busyness and noise of daily life. This activity also lends itself to better exploring social history, one example being the changing phenomenon of burial practices. Finally, this is a really important way of emphasising and better understanding many aspects of local history, which we all know is a further increasing interest.

In my constituency of Cynon Valley we have the graves of Caradog, conductor of the 'Côr Mawr', and cyclist Arthur Linton, the Bradley Wiggins of his day—those are in Aberdare. In Aberffwd, Mountain Ash, we have industrialist and politician, Henry Bruce, and, in St Gwynno's church, we have the grave of Guto Nyth Brân. Of course, a wreath is placed on the grave of Guto before the commencement of each annual 'Nos Galan' race, and that brings a huge amount of tourism and income to the Cynon Valley and Mountain Ash on new year's eve. As someone who was born in the Rhondda, many of my family are buried in Trealaw cemetery—a huge cemetery that I visit quite often. There, among others, you will see the grave of boxer Tommy Farr, the Tonypandy Terror, who lost on points to Joe Louis in the Yankee stadium in New York in 1937. The match was hugely important in the lives of many Rhondda people, and there was a great sense of community pride. I have talked to members of my own family about this, and they can remember this event.

Ym mynwent Parc Coffa Westwood Village yn Los Angeles, gallwch ymweld â beddau Marilyn Monroe, Jack Lemmon, a llawer o sêr eraill Hollywood, fel y soniodd Suzy, i bobl sydd â diddordeb mewn ffilmiau fel fi. Os gwelwch fedd Jack Lemmon, mae'r garreg fedd yn addas iawn gyda'r geiriau, 'Jack Lemmon in' a dyna'r cyfan. Wrth gwrs, mae'n gorwedd wrth ochr Billy Wilder, y cyfarwyddwr a'r actor a oedd yn y ffilm wych, 'Some Like it Hot'. Felly, unwaith eto, roedd yn bleser. Fel y dywedais, yno gwelais lawer o taphophiles eraill, yn gafael yn eu mapiau ac yn helpu ei gilydd i chwilio am feddau. Dyma gymuned go iawn. [Chwerthin.] Mae'n wir. Os hoffai unrhyw un ohonoch weld fy albwm ffotograffau, galwch heibio fy swyddfa, gan fod gen i albwm eithaf mawr.

Gwn y gallai hyn i gyd swnio braidd yn rhyfedd a thywyll. [Chwerthin.] Ond, ar nodyn difrifol, credaf fod mynwentydd a chladdfeydd yn rhoi cyfle i fyfyrion dawel. Yn wir, gall hyn fod yn eli i'r enaid rhag prysurdeb a swm bywyd bob dydd. Mae'r gweithgaredd hwn hefyd yn rhoi cyfle gwell i archwilio hanes cymdeithasol, un enghraifft yw'r cyfle i edrych ar y newid mewn arferion claddu. Yn olaf, mae hyn yn ffordd bwysig iawn o bwysleisio a chael gwell dealltwriaeth o lawer o agweddau ar hanes lleol, sydd hefyd yn ennyn llawer o ddiddordeb y dyddiau hyn hefyd.

Yng Nghwm Cynon, fy etholaeth i, mae gennym feddau'r teulu Caradog, arweinydd y 'Côr Mawr', a'r beiciwr Arthur Linton, Bradley Wiggins ei ddydd—maent hwy yn Aberdâr. Yn Aberffwd, Aberpennar, mae gennym y diwydiannwr a'r gwleidydd, Henry Bruce, ac, yn Eglwys Sant Gwynno, mae bedd Guto Nyth Brân. Wrth gwrs, rhoddir torch ar fedd Guto cyn dechrau ras flynyddol Nos Galan, sy'n dod â llawer iawn o dwristiaeth ac incwm I Gwm Cynon ac Aberpennar ar nos calan. Fel rhywun a gafodd ei eni yng Nghwm Rhondda, cleddir llawer o'm teulu ym mynwent Trealaw—mynwent enfawr y byddaf yn ymweld â hi'n aml. Yno, ymhlith eraill, gwelwch fedd y bocsiwr Tommy Farr, y Tonypandy Terror, a gollodd ar bwyntiau I Joe Louis yn stadiwm Yankee yn Efrog Newydd ym 1937. Roedd yr ornest yn hynod o bwysig ym mywydau llawer o bobl y Rhondda, ac roedd ymdeimlad mawr o falchder cymunedol. Rwyf wedi siarad ag aelodau o'm teulu fy hun am hyn, ac meant yn cofio'r digwyddiad hwn.

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:26 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This was the first major sporting event to be broadcast on the radio, and it captured the imagination of people across Wales.

Hwn oedd y digwyddiad chwaraeon mawr cyntaf i gael ei ddarlledu ar y radio, ac roedd wedi dal dychymyg pobl ledled Cymru.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

17:26 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call Russell George.

Galwaf ar Russell George.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I really enjoyed that last contribution from Christine Chapman. I am a little bit weird, like Christine, because I also enjoy walking around cemeteries looking at gravestones. [Laughter.] I spent a whole birthday, as it happens, doing that on one occasion, looking for the gravestones of my great-great-grandparents. I also have a photo album, like her, full of gravestones. So, I am also a bit weird as well.

I would like to focus my contribution on faith tourism to attract visitors to Wales, and mid Wales, perhaps, in particular. I will talk about the importance of preserving our religious and historic buildings for the benefit of future generations. In Montgomeryshire alone there are over 50 churches that are classed as historic, on the basis that the church or its predecessor was in existence in 1800. A couple of churches are even mentioned in the Domesday Book—one in Churchstoke on the English-Welsh border. So, there is a really rich spiritual history in Montgomeryshire. Prehistoric hill forts, Roman encampments and ruined castles make Powys a place to visit for those who are interested in exploring Wales's history, with its wonderful religious buildings and architectural heritage. I am sounding a bit like an advert for mid Wales now, but I am not ashamed of that.

Faith-based tourism is nothing new, of course. The Bible speaks of pilgrims to harvest festivals. Likewise, the Vatican welcomes millions of Catholics on pilgrimages every year. However, religious tourism has now taken on a whole new spectacular form, reaching beyond the principal holy sites—it is a rapidly expanding sector that has become an all-year-round industry for the faithful and those of no faith at all. This provides Wales, I would say, with a unique opportunity, given Wales's real cultural heritage and sheer quantity of religious buildings and landmarks—an opportunity that I do not think that we can afford to miss.

The United States market represents a huge opportunity for Wales, so I would encourage the Welsh Government and Visit Wales to do more with US-based organisations, such as the National Tour Association, to promote Wales as a destination for faith tourism and encourage the industry's development in Wales. A tour operator in my own constituency will be hosting a group of academics from Bryn Mawr College in Pennsylvania next June. Bryn Mawr College was founded by the Quakers, and, in addition to visiting the Senedd, they are also going to be visiting Bryn Mawr and the area around Dolgellau to visit sites of special cultural and religious significance, to learn about their roots and forefathers. I am rather hoping that Dafydd Elis-Thomas will act as a tour guide for them when they come here. [Laughter.] I have woken him up now; I am not sure whether he was listening. A group of academics will be visiting the area around his constituency—the second most wonderful constituency for scenery in Wales, of course.

Fe wnes i wir fwynhau'r cyfraniad diwethaf gan Christine Chapman. Rwyf finnau, fel Christine, braidd yn rhyfedd am fy mod hefyd yn mwynhau cerdded o gwmpas mynwentydd yn edrych ar gerrig beddau. [Chwerthin.] Treuliais ben blwydd cyfan, fel y mae'n digwydd, yn gwneud hynny ar un achlysur, yn chwilio am gerrig beddi fy hen-hen-neiniau a theidiau. Mae gennyf innau hefyd albwm o luniau, fel Christine, yn llawn o gerrig beddi. Felly, rwyf finnau hefyd braidd yn rhyfedd.

Hoffwn ganolbwyntio fy nghyfraniad ar dwristiaeth ffydd i ddenu ymwelwyr i Gymru, a chanolbarth Cymru, efallai, ar bennig. Byddaf yn siarad am bwysigrwydd cadw ein hadeiladau crefyddol a hanesyddol er budd cenedlaethau'r dyfodol. Yn Sir Drefaldwyn yn unig mae dros 50 o eglwysi sy'n cael eu hystyried yn hanesyddol, ar y sail bod yr eglwys neu ei rhagflaenydd yn bodoli yn 1800. Mae ambell eglwys yn cael ei henwi yn Llyfr Stent Lloegr—un yn yr Ystog ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Felly, mae hanes ysbrydol cyfoethog iawn yn Sir Drefaldwyn. Mae bryngaerau cynhanesyddol, gwersylloedd Rhufeinig a chestyll adfeiliedig yn gwneud Powys yn gyrchfan ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn archwilio hanes Cymru, gyda'i adeiladau crefyddol gwych a threftadaeth bensaernïol. Rwyf yn swnio ychydig fel hysbyseb ar gyfer canolbarth Cymru bellach, ond nid oes gennyf gywilydd o hynny.

Nid yw twristiaeth sy'n seiliedig ar ffydd yn ddim byd newydd, wrth gwrs. Mae'r Beibl yn sôn am bererinion i wyliau cynhaeaf. Yn yr un modd, mae'r Fatican yn croesawu miliynau o Gatholigion ar bererindodau bob blwyddyn. Fodd bynnag, mae twristiaeth grefyddol bellach wedi datblygu ffurf ysblennydd newydd sbon, sy'n estyn y tu hwnt i'r prif safleoedd sanctaidd—mae'n sector sy'n ehangu'n gyflym ac sydd wedi datblygu'n ddiwydiant gydol y flwyddyn ar gyfer y ffyddloniaid a phobl sydd heb ffydd o gwbl. Mae hyn yn gyfle unigryw i Gymru, yn fy marn i, o ystyried treftadaeth wirioneddol ddiwylliannol Cymru a'r nifer fawr o adeiladau a thirnodau crefyddol—cyfle, mi gredaf, na allwn fforddio ei golli.

Mae marchnad yr Unol Daleithiau yn gyfle enfawr i Gymru, felly byddwn yn annog Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru i wneud mwy gyda sefydliadau yn UDA, megis y National Tour Association, er mwyn hyrwyddo Cymru fel gyrchfan ar gyfer twristiaeth ffydd ac annog y datblygiad y diwydiant yng Nghymru. Bydd trefnydd teithiau yn fy etholaeth yn cynnal grŵp o academyddion o Goleg Bryn Mawr yn Pennsylvania yn ystod mis Mehefin y flwyddyn nesaf. Sefydlwyd Coleg Bryn Mawr gan y Crynwyr, ac yn ogystal ag ymweld â'r Senedd, maent hefyd yn mynd i fod yn ymweld â Bryn Mawr a'r ardal o gwmpas Dolgellau i weld safleoedd o arwyddocâd diwylliannol a chrefyddol arbennig, i ddysgu am eu gwreiddiau a'u cyndadau. Fy ngobaith yw y bydd Dafydd Elis-Thomas yn gweithredu fel arweinydd taith ar eu cyfer pan fyddant yn dod yma. [Chwerthin.] Rwyf wedi ei ddeffro yn awr; wn i ddim a oedd yn gwrando. Bydd grŵp o academyddion yn ymweld â'r ardal o amgylch ei etholaeth—yr ail etholaeth fwyaf ysblennydd o ran golygfeydd yng Nghymru, wrth gwrs.

In addition to promoting faith tourism, we also need to be vigilant to prevent our historic buildings from falling into a state of disrepair. There is more need to support, financially and in other ways, those people and voluntary organisations keen to regenerate religious and historic buildings for the benefit of their community. In 2006, St David's church in Newtown closed after 159 years, amid fears that it was unsafe, and, in 2010, a £1 million project was approved to regenerate and convert St David's into a play barn or children's activity centre. However, for the last four years, the gentleman who bought the church has not been able to move the project forward. He has planning permission and he has money to put towards it, but he does not have the funds to bridge the gap to make the building one that is used again and to regenerate the whole building, as the community would like.

To close, Deputy Presiding Officer, it is clear to me that we need to be a lot more proactive in promoting Wales as a destination for faith tourism and, when our historic buildings fall into disrepair, to provide adequate support to local people who want to make these buildings accessible to all.

Yn ogystal â hyrwyddo twristiaeth ffydd, mae angen bod yn wiliadwrus hefyd er mwyn atal ein hadeiladau hanesyddol rhag dirywio. Mae mwy o angen cefnogi, yn ariannol ac mewn ffyrdd eraill, y bobl hynny a'r sefydliadau gwirfoddol sy'n awyddus i adfywio adeiladau crefyddol a hanesyddol er budd eu cymuned. Yn 2006, caewyd Eglwys Dewi Sant yn y Drenewydd ar ôl 159 o flynyddoedd, yn sgîl ofnau ei bod yn beryglus, ac yn 2010, cymeradwywyd prosiect gwerth £1 miliwn i adfywio ac addasu Dewi Sant yn ysgubor chwarae neu'n ganolfan weithgareddau i blant. Fodd bynnag, am y pedair blynedd diwethaf, nid yw'r gŵr a brynodd yr eglwys wedi llwyddo i symud y prosiect yn ei flaen. Mae ganddo ganiatâd cynllunio ac mae ganddo arian i'w gyfrannu at y prosiect, ond nid oes ganddo arian i bontio'r bwlch i wneud yr adeilad yn un sy'n cael ei ddefnyddio unwaith eto ac i adfywio'r adeilad cyfan, fel y byddai'r gymuned yn ei ddymuno.

I gloi, Ddirprwy Lywydd, mae'n amlwg i mi fod angen i ni fod yn llawer mwy rhagweithiol wrth hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer twristiaeth ffydd a phan fydd ein hadeiladau hanesyddol yn dadfeilio, dylem ddarparu cymorth digonol i bobl leol sydd eisiau gwneud yr adeiladau hyn yn hygyrch i bawb.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Ken Skates.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:31 **Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism*

I thank the Members who have contributed to this debate for their valuable contributions. I am pleased to respond, and I am happy to accept the motion. As an individual, I recognise the incredible value of religious buildings—especially as I live in one—and, as a Government, we recognise the importance of religious buildings. They have a symbolic, spiritual and social value. Chapels in particular are a unique feature of Wales and, in response to Suzy Davies, when I took on ownership of a chapel, I committed to feeding a Minister 365 days there.

Diolchaf i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddatl hon am eu cyfraniadau gwerthfawr. Mae'n bleser gennyf ymateb, ac rwy'n hapus i dderbyn y cynnig. Fel unigolyn, rwy'n cydnabod gwerth anhygoel adeiladau crefyddol—yn enwedig gan fy mod yn byw mewn adeilad o'r fath—ac, fel Llywodraeth, rydym yn cydnabod pwysigrwydd adeiladau crefyddol. Mae ganddynt werth symbolaidd, ysbrydol a chymdeithasol. Mae capeli yn arbennig yn nodwedd unigryw yng Nghymru ac, mewn ymateb i Suzy Davies, pan gymerais berchnogaeth ar gapel, bu i mi ymrwymo i fwydo Gweinidog am 365 diwrnod yno.

Christine Chapman, you are not alone in your interests. My parents, like many other adults, have been intrigued by graveyards, and I spent many happy weekends in my youth exploring the graveyards of Clwyd.

Christine Chapman, nid ydych ar eich pen eich hun yn dilyn eich diddordebau. Mae fy rhieni, fel llawer o oedolion eraill, wedi ymddiddori llawer mewn mynwentydd, a threuliais lawer penwythnos hapus yn fy ieuenctid yn archwilio mynwentydd Clwyd.

There are over 200 places of worship listed as grade I in Wales, and over 500 listed at grade II\*. Around 15% of places of worship are at risk or in a vulnerable condition. The latest data from the all-Wales condition survey of listed buildings indicate that levels of maintenance of some places of worship have increased as a result of congregation consolidation, but, at the same time, maintenance levels of others have fallen. This group of buildings faces significant pressure in the short to medium term.

Mae dros 200 o fannau addoli rhestredig gradd I yng Nghymru, a thros 500 yn rhestredig ar radd II\*. Mae tua 15% o fannau addoli mewn perygl neu mewn cyflwr bregus. Mae'r data diweddaraf o arolwg Cymru gyfan o gyflwr adeiladau rhestredig yn dangos bod lefelau cynnal a chadw rhai mannau addoli wedi cynyddu o ganlyniad i gyfuno cynulleidfaoedd, ond, ar yr un pryd, mae lefelau cynnal a chadw lleoedd eraill wedi gostwng. Mae'r grŵp hwn o adeiladau yn wynebu pwysau sylweddol yn y tymor byr i'r tymor canol.

We know that visitors to Wales are increasingly interested in visiting historic attractions. In response to Mohammad Asghar's comments, in terms of visitor numbers, we achieved the best ever in 2014. Indeed, growth in visitor figures is far outstripping the UK average and spending in Wales is up in comparison to the UK, where the average is down.

Russell George made a very valuable contribution and identified the importance of the US market. Indeed, he identified the reasons why the US is one of our target markets in the tourism strategy. Our tourism strategy focuses on Wales's heritage as an outstanding area of competitive advantage, and some of Wales's places of worship are among the most visited attractions in Wales. St David's cathedral alone attracts over 200,000 visitors a year, making it one of the top 10 most visited free attractions in Wales.

The faith tourism action plan was launched last year, and its purpose is to make the faith tourism product a greater part of the visitor experience, through strengthening the marketing and promotion of the faith tourism product, through improving the experiences of visitors to Wales's places of worship, and through raising awareness of the opportunities presented by faith tourism among tourism operators.

Since the launch of the strategy, we have taken a number of steps to develop and support faith tourism in Wales. We have set up a faith tourism working group to prioritise the action plan and agree key actions that can be delivered in the short term. This group is meeting next Tuesday to continue to take this work forward. We have also completed an audit to identify the most significant religious sites and sacred places to visit in Wales, which will be used to inform our promotional work, as well as being available to local authorities for use in their tourism promotional work. We have also developed a new section for faith tourism on our website, which includes articles identifying the top 10 sacred places to visit in each of the four regions of Wales. More articles and initiatives will appear over the coming months, and in 2015 Visit Wales' main brochure 'Wales View' will include faith tourism. There will also be an accompanying online video.

We are already engaging with faith communities and other stakeholders on the protection of these important religious buildings through our work on the strategic action plan for places of worship. Progress on the action plan is progressing well, and we are working to publish it by the end of March.

The most important religious buildings—

Gwyddom fod gan ymwelwyr â Chymru ddi-ddordeb cynyddol mewn ymweld ag atyniadau hanesyddol. Mewn ymateb i sylwadau Mohammad Asghar, o ran niferoedd ymwelwyr, llwyddwyd i gael y niferoedd gorau erioed yn 2014. Yn wir, mae twf yn nifer yr ymwelwyr yn llawer uwch na chyfartaledd y DU a'r gwariant yng Nghymru wedi cynyddu o gymharu â'r DU, lle mae'r cyfartaledd wedi gostwng.

Cafwyd cyfraniad gwerthfawr iawn gan Russell George yn nodi pwysigrwydd marchnad yr Unol Daleithiau. Yn wir, nododd y rhesymau pam yr Unol Daleithiau yn un o'n marchnadoedd targed yn y strategaeth dwristiaeth. Mae ein strategaeth dwristiaeth yn canolbwyntio ar dreftadaeth Cymru fel ardal eithriadol o fantais gystadleuol, ac mae rhai o fannau addoli Cymru ymhlith yr atyniadau mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Mae eglwys gadeiriol Tyddewi ar ei phen ei hun yn denu dros 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn, sy'n ei gwneud yn un o'r 10 uchaf o leoliadau rhad ac am ddim yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru.

Lansiwyd y cynllun gweithredu twristiaeth ffydd y llynedd, a'i bwrpas yw rhoi mwy o ran i'r cynnyrch twristiaeth ffydd o ran profiad yr ymwelydd, trwy gryfhau'r gwaith marchnata a hyrwyddo'r cynnyrch twristiaeth ffydd, drwy wella profiadau ymwelwyr i fannau addoli yng Nghymru, a thrwy godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd a gynigir gan dwristiaeth ffydd ymysg gweithredwyr twristiaeth.

Ers lansio'r strategaeth, rydym wedi cymryd nifer o gamau i ddatblygu a chefnogi twristiaeth ffydd yng Nghymru. Rydym wedi sefydlu gweithgor twristiaeth ffydd i flaenoriaethu'r cynllun gweithredu a chytuno ar gamau allweddol y gellir eu cyflawni yn y tymor byr. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod ddydd Mawrth nesaf er mwyn parhau i ddatblygu'r gwaith hwn. Rydym hefyd wedi cwblhau archwiliad i ganfod y safleoedd crefyddol a'r manau cysegredig mwyaf arwyddocaol yr ymwelwyd â hwy yng Nghymru, a byddwn yn eu defnyddio i lywio ein gwaith hyrwyddo, yn ogystal â bod ar gael i awdurdodau lleol eu defnyddio yn eu gwaith i hyrwyddo twristiaeth. Rydym hefyd wedi datblygu adran newydd ar gyfer twristiaeth ffydd ar ein gwefan, sy'n cynnwys erthyglau yn nodi'r 10 lle sanctaidd gorau i'w hymweld ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru. Bydd rhagor o erthyglau a mentrau yn ymddangos dros y misoedd nesaf, ac yn 2015 bydd prif lyfryn Croeso Cymru, Wales View, yn cynnwys twristiaeth ffydd. Bydd fideo cysylltiedig ar gael ar-lein hefyd.

Rydym eisoes yn ymgysylltu â chymunedau ffydd a rhanddeiliaid eraill ar warchod yr adeiladau crefyddol pwysig hyn drwy ein gwaith ar y cynllun gweithredu strategol ar gyfer manau addoli. Mae'r gwaith ar y cynllun gweithredu yn mynd rhagddo yn dda, ac rydym yn gweithio i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth.

Yr adeiladau crefyddol pwysicaf—

**Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for giving way. William Powell in his contribution mentioned the invaluable work of the Friends of Friendless Churches, and I think it has around 40 churches in Wales. Will you work with it, because it plays a very important part in looking after those buildings, which other organisations may not have the money to do?

Diolch i chi am iddio. Soniodd William Powell yn ei gyfraniad am waith amhrisiadwy y Cyfeillion Eglwysi Digyfaill, a chredaf fod ganddynt tua 40 o eglwysi yng Nghymru. A fyddwch yn cydweithio â hwy, oherwydd eu bod yn chwarae rhan bwysig iawn wrth ofalu am yr adeiladau hynny, tra bod y sefydliadau eraill o bosibl heb yr arian i wneud hynny?

**Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Absolutely; I think that Nick Ramsay and William Powell make a very good point and I am committed to working with that organisation.

Yn hollol; credaf fod Nick Ramsay a William Powell yn gwneud pwynt da iawn, ac rwyf wedi ymrwymo i gydweithio â'r sefydliad hwnnw.

The most important religious buildings in Wales have already been identified through our audit and also through the listing process, with grades providing an indication of relative value, but places of worship may also have a value to people that goes beyond their architectural and historic interest, as Suzy Davies and others have already identified. Furthermore, irrespective of listing grade, buildings will vary in their capacity for change. So, the aim of the plan is to support a process of managing change that is responsive to the many different values that buildings may have, and that allows a full range of options to be considered in identifying appropriate arrangements for future use and care.

Mae'r adeiladau crefyddol pwysicaf yng Nghymru eisoes wedi eu nodi drwy ein harchwiliad, a hefyd drwy'r broses restru, gyda graddau'n rhoi syniad o werth cymharol, ond gall mannau addoli fod â gwerth i bobl sy'n mynd y tu hwnt i'w diddordeb pensaernïol a hanesyddol hefyd, fel y nododd Suzy Davies ac eraill eisoes. Ar ben hynny, heb ystyried gradd rhestru, bydd adeiladau yn amrywio o ran eu gallu i newid. Felly, nod y cynllun yw cefnogi proses o reoli newid sy'n ymateb i'r holl werthoedd gwahanol y gall adeiladau eu cael, ac sy'n caniatáu i ystod lawn o opsiynau gael eu hystyried wrth nodi trefniadau priodol ar gyfer eu defnyddio a gofal amdanynt yn y dyfodol.

The purpose of the plan is to strengthen support for conservation and encourage positive action to secure sustainable futures for cherished buildings. We will be establishing a steering group to oversee the continued development and implementation of the plan, which will bring together all relevant stakeholders.

Pwrpas y cynllun yw cryfhau'r gefnogaeth i gadwraeth ac annog camau cadarnhaol er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy ar gyfer adeiladau gwerthfawr. Byddwn yn sefydlu grŵp llywio i oruchwylio'r gwaith datblygu parhaus a gweithrediad y cynllun, a fydd yn dwyn ynghyd yr holl randdeiliaid perthnasol.

Another important element in promoting Wales's natural heritage and religious buildings is to attract visitors to Wales and ensure that the right tourism infrastructure, such as tourist traffic signs, is in place. We have published guidance to make the application for tourist destination traffic signs simpler and more transparent, and we are working with local authorities to improve signage, for example, at St Asaph in Denbighshire.

Elfen bwysig arall wrth hyrwyddo treftadaeth naturiol Cymru ac adeiladau crefyddol yw denu ymwelwyr i Gymru a sicrhau bod y seilwaith dwristiaeth gywir, megis arwyddion traffig i dwristiaid, yn eu lle. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau i wneud ymgeisio am arwyddion traffig i gyrchfan twristiaid yn symlach ac yn fwy tryloyw, ac rydym yn cydweithio ag awdurdodau lleol i wella arwyddion, er enghraifft, yn Llanelwy yn Sir Ddinbych.

Turning to the amendments, I am pleased to be able to accept both amendments that have been tabled. In terms of amendment 1, work is already under way on developing and promoting pilgrimage trails in Wales. Following the successful launch of the North Wales Pilgrim's Way, the faith tourism working group is also looking at the potential to develop pilgrimage trails in other parts of Wales. We have funded initial mapping work and route consultation on a pilgrim's trail in south Wales, and we have allocated funding to the Churches Tourism Network Wales to relocate the Cistercian Way website on to another platform, and to carry out improvements.

Gan droi at y gwelliannau, rwy'n falch o allu derbyn y ddau welliant a gyflwynwyd. O ran gwelliant 1, mae gwaith eisoes ar y gweill ar ddatblygu a hyrwyddo llwybrau pererindod yng Nghymru. Yn dilyn lansiad llwyddiannus Ffordd y Pererinion Gogledd Cymru, mae'r gweithgor twristiaeth ffydd hefyd yn edrych ar y potensial o ddatblygu llwybrau pererindod mewn rhannau eraill o Gymru. Rydym wedi ariannu gwaith mapio cychwynnol ac ymgynghori ar lwybrau ar gyfer llwybr pererinion yn ne Cymru, ac rydym wedi dyrannu cyllid i Rwydwaith Twristiaeth Eglwysi Cymru i adleoli gwefan y Llwybr Sistersaidd ymlaen i blatfform arall, ac i wneud gwelliannau.



On amendment 2, religious buildings will benefit from the general measures proposed in the heritage Bill for the improved protection and management of all buildings with special architectural or historic interest. The Bill will make important improvements to the existing systems for the protection and sustainable management of the Welsh historic environment. This will be enhanced by complementary policy advice and guidance, such as a strategic action plan for places of worship.

I hope that these measures assure Members of the commitment of the Welsh Government to preserving and promoting our fantastic places of worship, and of our determination to deliver on the potential that Members have spoken about today.

O ran gwelliant 2, bydd adeiladau crefyddol yn elwa ar y mesurau cyffredinol a gynigir yn y Bil treftadaeth ar gyfer gwarchodaeth a rheolaeth well ar bob adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Bydd y Bil yn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer diogelu a rheolaeth gynaliadwy ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Ategir hyn gan gyngor ac arweiniad polisi cyflenwol, megis cynllun gweithredu strategol ar gyfer manau addoli.

Gobeithiaf fod y mesurau hyn yn rhoi sicrwydd i Aelodau o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r gwaith o gadw a hyrwyddo ein manau addoli gwych, ac am ein bod yn benderfynol o wireddu'r potensial y mae'r Aelodau wedi sôn amdanynt heddiw.

17:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to reply.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:38 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I take this opportunity to thank the Deputy Minister for his generous response, and, indeed, all the Members who have contributed to what I think has been an excellent debate. I do think that we have the genesis of a Welsh taphophile society in the Chamber, because I too am very often found visiting graveyards in order to see the graves of important people of note, particularly to non-conformity in Wales. I have hunted down all sorts of people over the years, and I have to say it is a fascinating process just doing a bit of research on each one. I think we underestimate the importance not just of religious buildings, but of the churchyards and graveyards that we have in Wales and the opportunity that they present for genealogy tourism, and other forms of tourism as well. We must not forget the great attraction that the Highgate cemetery in London, for example, is to many visitors who come from all over the world simply to see the grave of Karl Marx, for example, who is buried there. So, I think that there is an opportunity there, which has perhaps been understated in the past, and we do need to consider it a little bit more.

There is no doubt of the Deputy Minister's personal commitment to our religious heritage and religious buildings. I welcome that very much and certainly welcome his commitment to taking on this part of his portfolio. There is no doubting either the commitment of the Welsh Government in the development of the faith tourism action plan. However, I do think that there needs to be an injection of adrenalin into the actions being delivered. There has been perhaps a slow start out of the blocks—I think that everybody accepts that—and I think that this debate gives us an opportunity just to highlight some of those actions that now need to take place.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ymateb hael, ac, yn wir, i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu at yr hyn a gredaf fu'n ddatl ardderchog. Credaf fod gennym egin o gymdeithas taphophile Gymraeg yn y Siambr, oherwydd byddwch yn fy ngweld innau hefyd yn aml iawn yn ymweld â mynwentydd er mwyn gweld beddau pobl nodedig o bwys, yn enwedig ym maes Anghydfurfiaeth yng Nghymru. Rwyf wedi hel hanes pobl o bob math dros y blynyddoedd, ac mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn broses hynod ddiddorol i ddim ond gwneud ychydig o waith ymchwil ar bob un. Credaf ein bod yn tanbriso pwysigrwydd nid yr adeiladau crefyddol yn unig, ond y mynwentydd a'r claddfeydd sydd gennym yng Nghymru a'r cyfle a ddaw yn eu sgîl ar gyfer twristiaeth hel achau, a mathau eraill o dwristiaeth hefyd. Rhaid i ni beidio ag anghofio cymaint o atyniad mawr yw mynwent Highgate yn Llundain, er enghraifft, gydag ymwelwyr niferus yn dod o bob cwr o'r byd dim ond i weld bedd Karl Marx, er enghraifft, sydd wedi ei gladdu yno. Felly, credaf fod hyn yn gyfle, sydd o bosibl heb gael sylw dyladwy yn y gorffennol, ac mae angen i ni ei ystyried yn llawnach.

Ni ellir amau ymrwymiad personol y Dirprwy Weinidog i'n treftadaeth grefyddol a'n hadeiladau crefyddol. Croesawaf hynny'n fawr iawn a chroesawaf yn sicr ei ymrwymiad i'r gwaith sy'n ymwneud â'r rhan hon o'i bortffolio. Ni ellir amau chwaith ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu twristiaeth ffydd. Fodd bynnag, credaf fod angen chwistrelliad o adrenalin i mewn i'r camau sy'n cael eu cyflawni. Bu'r camau cychwynnol o bosibl yn araf—credaf fod pawb yn derbyn hynny—a chredaf fod y ddatl hon yn rhoi cyfle i ni ddim ond tynnu sylw at rai o'r camau hynny sydd angen eu gweithredu yn awr.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am very pleased that a number of Members have referred to the north American tourist market as a huge opportunity for Wales, and I think that it is worth dwelling on the opportunities that might be presented in marketing the presence of Welsh sites in places like London and in Manchester, where many of the north American tourists start their journey in the UK. It is disappointing sometimes to see other parts of Britain represented on advertisements and brochures in those sorts of places, and yet Wales, sometimes, is all too absent. We have some tremendous religious buildings across Wales—some tremendous facets to our religious heritage—many people have referred to many of them, but, surprisingly, Holywell has not been referred to, which, of course, is the prime site of pilgrimage in north Wales, in Sandy Mewies's constituency. It is a tremendous site, which has seen pilgrims, for over 1,000 years, visiting the site, of course, where Saint Winifred had her experience in being beheaded and then raised from the dead, effectively, by her uncle, who was, of course, Saint Beuno. Saint Winifred has a connection with my own constituency in that her remains were interred in Gwytherin, in my constituency, before they were stolen by the monks of Shrewsbury, who wanted to make Shrewsbury a site a site of great pilgrimage in medieval Britain.

That said, I think that there are many more sites across the whole country that we need to maximise in terms of their potential for visitors. St David's cathedral has been mentioned on a number of occasions, but some of the pilgrim routes, I think, should be just as competitive as the pilgrimage routes to Santiago de Compostela. The North Wales Pilgrim's Way, which was launched about 18 months ago, has seen great success in attracting new visitors into north Wales and across north Wales, stopping off at the various sites along that route. I have no doubt that the Cistercian Way also will be an increasingly important route for tourists in the future.

Rwy'n falch iawn bod nifer o Aelodau wedi cyfeirio at farchnad ymwelwyr gogledd America fel cyfle enfawr i Gymru, a chredaf ei bod yn werth myfyrio ar y cyfleoedd a allai gael eu cyflwyno trwy farchnata presenoldeb safleoedd Gymraeg mewn lleoedd fel Llundain ac ym Manceinion, lle mae llawer o ymwelwyr gogledd America yn cychwyn eu taith yn y DU. Ar brydiau, mae'n siom gweld rhannau eraill o Brydain yn cael eu cynrychioli ar hysbysebion a llyfrynnau mewn lleoedd o'r fath, ac eto mae Cymru, weithiau, yn gwbl absennol. Mae gennym rai adeiladau crefyddol rhyfeddol ledled Cymru—rhai agweddau eithriadol ar ein treftadaeth grefyddol—mae llawer wedi cyfeirio at lawer ohonynt, ond, er syndod, ni chyfeiriodd neb at Dreffynnon, sydd, wrth gwrs, yn brif safle i bererinion yng ngogledd Cymru, yn etholaeth Sandy Mewies. Mae'n safle eithriadol, sydd wedi denu pererinion ers dros 1,000 o flynyddoedd, i ymweld â'r safle, wrth gwrs, lle y bu i'r Santes Gwenffrewi gael ei dienyddio ac yna ei hatgyfodi, yn llwyddiannus, gan ei hewythr Sant Beuno wrth gwrs. Mae gan y Santes Gwenffrewi gysylltiad â'm hetholaeth i fy hun gan fod ei gweddillion wedi'u claddu yng Ngwytherin, yn fy etholaeth i, cyn iddynt gael eu dwyn gan fynachod Amwythig, a oedd am wneud Amwythig yn safle o bwys i bererinion ym Mhrydain yn yr Oesoedd Canol.

Wedi dweud hynny, credaf fod llawer mwy o safleoedd ledled y wlad i gyd y dylem fanteisio arnynt o ran eu potensial ar gyfer ymwelwyr. Soniwyd am eglwys gadeiriol Tyddewi ar sawl achlysur, ond dylai rhai o lwybrau'r pererinion, yn fy marn i, fod yr un mor gystadleuol â llwybrau'r pererinion i Santiago de Compostela. Lanswyd Taith Pererin Gogledd Cymru tua 18 mis yn ôl, ac mae wedi gweld llwyddiant mawr o ran denu ymwelwyr newydd i mewn i Ogledd Cymru ac ar draws y Gogledd, ac maent yn galw heibio i wahanol safleoedd ar hyd y llwybr hwnnw. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd y llwybr Sistersaidd hefyd yn llwybr fwyfwy pwysig i dwristiaid yn y dyfodol.

If I may just mention a few of the other issues, I think, William Powell, you made mention of the need to identify these key sites, and that is the third point in our motion, of course: making sure that we can identify the very important sites. As Mike Hedges said, we have limited resources and limited capacity as a nation to be able to protect all of the sites that are out there. There are over 3,000 places of worship in Wales—about 800 of those are Welsh chapels and some of them in a state of terrible disrepair. The most important ones are the ones that ought to have our attention, and I think that the work that the Welsh Government is doing in terms of the audit is important, but, as Bethan Jenkins said during her contribution to the debate, it is important also that communities contribute to that discussion and that it is not just drawn up by people who perhaps are not engaged with the communities that could be active in supporting the buildings that are actually in them. Let us not forget that, very often, religious buildings are the only public building in many communities, particularly in parts of rural Wales, so their protection is not just necessary from a tourism and attraction point of view, but also from a community use point of view as well. We have a unique opportunity, with the heritage Bill upon us, and I do hope that we will seize that opportunity, on a cross-party basis, to make sure that it affords the protection that we need for our religious heritage—not just for Christian sites of worship, but also, as Mohammad Asghar and others have said, for those synagogues, mosques, temples and other places, which are important in terms of telling the story of Wales.

One final point that I would make is that some of the Members here will have been present at the recent cross-party group on faith meeting, at which we discussed opportunities presented by religious buildings, and Huw Edwards, the broadcaster, was there, reminding us of the fact that there are important sites for Welsh culture and Welsh history that are outside of Wales, and yet still important for us to protect because nobody else will, because they are of less importance to those places. Jewin Presbyterian church in London is the centre of a campaign in which Huw Edwards is involved. There is also the Toxteth cathedral, which has very important heritage, up in Liverpool. We must not overlook the importance of engaging with those places, too, especially when they are in large population centres that attract lots of visitors, because they can be a draw to bring people into Wales, to enjoy the tremendous hospitality of the Welsh people when they visit our nation. Thank you. I urge Members to support the motion.

Hoffwn sôn ychydig am rai o'r materion eraill a godwyd gan, William Powell, rwy'n meddwl, gwnaethoch sôn am yr angen i nodi'r safleoedd allweddol hyn, a dyna yw'r trydydd pwynt yn ein cynnig, wrth gwrs: sicrhau ein bod yn gallu nodi'r safleoedd pwysig iawn. Fel y dywedodd Mike Hedges, mae ein hadnoddau a'n gallu fel cenedl wedi'u cyfyngu i allu gwarchod yr holl safleoedd sydd yn bodoli. Mae dros 3,000 o fannau addoli yng Nghymru—mae tua 800 ohonynt yn gapeli Cymreig ac mae rhai ohonynt mewn cyflwr gwael ofnadwy. Y rhai pwysicaf yw'r adeiladau a ddylai gael ein sylw, a chredaf fod y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran yr archwiliad yn bwysig, ond, fel y dywedodd Bethan Jenkins yn ystod ei chyfraniad i'r ddatl, mae'n bwysig hefyd fod cymunedau'n cyfrannu at y drafodaeth honno ac nad yw'n cael ei llunio gan bobl nad ydynt o bosibl yn ymwneud â'r cymunedau a allai fod yn gweithio i gefnogi'r adeiladau sydd mewn gwirionedd yn y cymunedau hynny. Gadewch inni beidio ag anghofio mai adeiladau crefyddol yn aml iawn yw'r unig adeilad cyhoeddus mewn llawer o gymunedau, yn enwedig mewn rhannau o'r Gymru wledig, felly mae eu gwarchod nid yn unig yn angenrheidiol o safbwynt denu ymwelwyr a thwristiaeth, ond hefyd o safbwynt defnydd cymunedol. Mae gennym gyfle unigryw, gyda'r Bil treftadaeth ar droed, a gobeithiaf y byddwn yn achub ar y cyfle hwnnw, yn drawsbleidiol, i wneud yn siŵr ei fod yn rhoi'r diogelwch sydd ei angen arnom ar gyfer ein treftadaeth—nid dim ond ar gyfer safleoedd addoli Cristnogol, ond hefyd, fel y dywedodd Mohammad Asghar ac eraill, ar gyfer y synagogau, y mosgiau, y temlau a'r manau eraill hynny sy'n bwysig o ran adrodd hanes Cymru.

Un pwynt olaf yr hoffwn ei wneud yw y bydd rhai o'r Aelodau sy'n bresennol wedi bod yn y grŵp trawsbleidiol diweddar ar gyfarfod ffydd, lle y bu inni drafod cyfleoedd a gynigir gan adeiladau crefyddol, ac roedd Huw Edwards, y darlledwr, yno yn ein hatgoffa o'r ffaith bod safleoedd pwysig i ddiwylliant Cymreig a hanes Cymru y tu allan i Gymru, ac eto'n dal yn bwysig i ni eu gwarchod gan nad oes neb arall yn bwriadu gwneud, oherwydd eu bod yn llai pwysig i'r parthau hynny. Eglwys Bresbyteraidd Jewin yn Llundain yw ffocws ymgyrch y mae Huw Edwards yn rhan ohoni. Mae gan eglwys gadeiriol Toxteth hefyd dreftadaeth bwysig iawn, i fyny yn Lerpwl. Rhaid i ni beidio ag anghofio pa mor bwysig yw ymgyssylltu â'r lleoedd hynny, hefyd, yn enwedig pan fyddant mewn canolfannau gyda phoblogaeth fawr sy'n denu llawer o ymwelwyr, oherwydd gallant fod yn gatalydd i ddenu pobl i mewn i Gymru, i fwynhau croeso arbennig y Cymry pan fyddant yn ymweld â'n gwlad. Diolch. Anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig.

17:45

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection. I will defer voting until voting time. Voting time now follows.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

Y cynnig yn awr yw ein bod yn cytuno â'r cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio. Mae'r cyfnod pleidleisio yn dilyn yn awr.

*Voting deferred until voting time.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

17:45

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

**Y** [Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will vote on the Welsh Conservatives' debate.

Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes neb, felly byddwn yn pleidleisio ar ddaol y Ceidwadwyr Cymreig.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5638.](#)

[Result of the vote on motion NDM5638.](#)

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 48, Yn erbyn 4, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 48, Against 4, Abstain 0.*

17:46

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Will those Members who are going to leave the Chamber please do so quickly and quietly?

A wnaiff yr Aelodau hynny sy'n mynd i adael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel os gwelwch yn dda?

*Daeth Rhodri Glyn Thomas i'r Gadair am 17:47.*

*Rhodri Glyn Thomas took the Chair at 17:47.*

17:47

### Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Os gwelwch yn dda, os ydych yn gadael, a wneuch chi hynny yn gyflym?

If you are leaving the room, will you please do so quickly?

17:47

## Dadl Fer: Cŵn Tywys Cymru: Rhyddid i Symud i Bobl Ddall a Rhannol Ddall yng Nghymru

## Short Debate: Guide Dogs Cymru: Freedom of Movement for Blind and Partially Sighted People in Wales

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

### Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Nick Ramsay i gyflwyno y ddaol y mae wedi'i dewis.

I call Nick Ramsay to speak on the topic he has chosen.

17:47

### Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch. I have agreed to speaking requests from Kirsty Williams and Mark Isherwood. I am pleased to have the opportunity today to bring the amazing work that Guide Dogs Cymru does for blind and partially sighted Welsh people to this Chamber for debate. Before I start, I would like to place on record my thanks to Guide Dogs Cymru for the assistance I have had in putting this debate together today.

Diolch. Cytunais i geisiadau i siarad oddi wrth Kirsty Williams a Mark Isherwood. Rwy'n falch o gael y cyfle heddiw i ddod â'r gwaith anhygoel y mae Cŵn Tywys Cymru yn ei wneud i bobl ddall a rhannol ddall Cymru i'r Siambr hon ar gyfer dadl. Cyn i mi ddechrau, hoffwn gofnodi fy niolch i Cŵn Tywys Cymru am y cymorth a gefais wrth roi'r ddaol hon at ei gilydd heddiw.

The aims for the debate this afternoon are, first, to raise awareness of the challenges facing blind and partially sighted people, secondly, to outline the services and campaigns run by Guide Dogs Cymru, and thirdly, to call on the Welsh Government to consider doing more to support the organisation and people in Wales who experience sight loss. I have chosen this topic because an event held in the Oriel on 7 October this year gave me a great opportunity to learn more about the difficulties and dangers that blind and partially sighted people face when negotiating barriers in our streets. I was impressed to hear the personal experience and stories of guide dog owners, how much support they receive from Guide Dogs Cymru, and how having a guide dog had changed their lives in a positive way, offering them more independence and the chance of a closer-to-normal life.

Amcanion y ddaol y prynhawn yma, yn gyntaf, yw codi ymwybyddiaeth o'r heriau sy'n wynebu pobl ddall a rhannol ddall, yn ail, amlinellu'r gwasanaethau a'r ymgyrchoedd sy'n cael eu rhedeg gan Cŵn Tywys Cymru, ac yn drydydd, galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried gwneud mwy i gefnogi'r sefydliad a'r bobl yng Nghymru sy'n cael y profiad o golli eu golwg. Rwyf wedi dewis y pwnc hwn oherwydd bod digwyddiad a gynhaliwyd yn yr Oriel ar 7 Hydref eleni wedi rhoi cyfle gwych i mi ddysgu rhagor am yr anawsterau a'r peryglon y mae pobl ddall a rhannol ddall yn eu hwynebu wrth drafod rhwystrau ar ein strydoedd. Roeddwn yn llawn edmygedd wrth glywed profiad personol a straeon am berchnogion ci tywys, faint o gefnogaeth a gânt gan Cŵn Tywys Cymru, a sut yr oedd cael ci tywys wedi newid eu bywydau mewn ffordd gadarnhaol, gan gynnig mwy o annibyniaeth iddynt a chyfle i gael bywyd sy'n debycach i'r norm.

The Royal National Institute of Blind People's chief executive, Lesley-Anne Alexander said that, every 15 minutes, someone in the UK starts to lose their sight, but people do not always get even basic emotional and practical support at this critical time. No-one should have to face the prospect alone or without the support they need to help them through the situation. There are around 100,000 people in Wales living with sight loss who need our attention, and over the next 25 years the number of people with sight loss is expected to double. This means that we all have constituents who struggle with sight loss, and we cannot ignore them or fail them.

The guide dogs' story in Wales began in the mid-1930s, when blinded war veteran Thomas ap Rhys from Bangor became the first Welsh guide dog owner. It is particularly poignant this month that Thomas was blinded by mustard gas in the first world war, in 1917. Thomas was provided with five guide dogs during his lifetime. There have been great changes since Thomas was being guided regularly along Bangor pier in those early pioneering days. Today, there are more than 250 guide dog owners in Wales and nearly 4,700 guide dog owners in the wider UK. If you are blind or partially sighted, a guide dog could change your life. Losing sight can happen at any age and, in its attempt to offer support to all people who suffer from part or total sight loss, Guide Dogs Cymru extended its activity and is now able to work with children and young people under the age of 16.

You do not need to have lost all of your sight. Most people who own a guide dog still have some vision. Guide Dogs Cymru provides all the essential equipment, and, if more support is needed, it covers food and veterinary costs to make sure that the guide dog owner does not feel that their companion is a burden.

The guide dog service requires no Government funding and depends entirely on public support. It costs £5 per day to support each working guide dog partnership. The lifetime cost of a guide dog is around £50,000. It may be a high cost, but it is one that has an incalculable payback.

Since Thomas first took to the streets of Bangor in the 1930s, Guide Dogs has trained and partnered over 30,000 guide dogs. Other people require different support and help, and Guide Dogs Cymru continues to develop other services for those for whom a guide dog is not the answer.

My Guide is one of the programmes that matches a person who is blind or partly sighted with a trained volunteer. The volunteer guides the person who is blind or partly blind, so that they can reach their mobility goals—from a visit to the doctor to a walk in the park. Guide Dogs Cymru's My Guide volunteers are specially trained to help people to get out and about with confidence. They work with local organisations, businesses, community groups and members of the public, equipping them with the skills and understanding to become effective sighted guides.

Dyweddod Lesley-Anne Alexander, Prif Weithredwr Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, fod rhywun yn y DU yn dechrau colli eu golwg bob 15 munud, ond nad yw pobl bob amser yn cael cefnogaeth emosïynol ac ymarferol sylfaenol hyd yn oed yn y cyfnod allweddol hwn. Ni ddylai neb orfod wynebu'r posibilrwydd ar ei ben ei hun neu heb y gefnogaeth sydd ei angen arno i'w helpu drwy'r sefyllfa. Mae tua 100,000 o bobl yng Nghymru'n byw gyda'r cyflwr o fod wedi colli eu golwg ac maent angen ein sylw, a thros y 25 mlynedd nesaf rhagwelir y bydd nifer y bobl sydd wedi colli eu golwg yn dyblu. Mae hyn yn golygu bod gan bob un ohonom etholwyr sy'n dioddef yn sgîl colli golwg, ac ni allwn eu hanwybyddu neu eu siomi.

Mae hanes cŵn tywys yng Nghymru yn dechrau yng nghanol y 1930au, pan ddaeth Thomas ap Rhys o Fangor, cyn-filwr a gafodd ei ddallu yn y rhyfel, yn berchennog cyntaf ar gi tywys yng Nghymru. Mae'n hynod o arwyddocaol y mis hwn i Thomas gael ei ddallu gan nwy mwstard yn y rhyfel byd cyntaf, yn 1917. Cafodd Thomas wasanaeth pum ci tywys yn ystod ei oes. Bu newid mawr ers i Thomas gael ei arwain yn rheolaidd ar hyd pier Bangor yn y dyddiau arloesol cynnar hynny. Heddiw, mae mwy na 250 o berchnogion ci tywys yng Nghymru a bron 4,700 o berchnogion ci tywys yn y DU gyfan. Os ydych chi'n ddall neu'n rhannol ddall, gallai ci tywys newid eich bywyd. Gall rhywun golli ei olwg ar unrhyw adeg mewn bywyd, ac yn eu hymgais i gynnig cymorth i bawb sy'n dioddef, pobl ddall a rhannol ddall, mae Cŵn Tywys Cymru wedi ymestyn eu gweithgarwch ac maent bellach yn gallu gweithio gyda phlant a phobl ifanc o dan 16 oed.

Nid oes angen i chi fod wedi colli eich golwg i gyd. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n berchen ar gi tywys yn dal i alw gweld rhywfaint. Mae Cŵn Tywys Cymru yn darparu'r holl offer angenrheidiol, a phan fo angen mwy o gymorth, mae'n talu am gynnwys costau bwyd a chost milfeddyg i wneud yn siŵr nad yw'r perchennog ci tywys yn teimlo bod eu cydymaith yn faich.

Nid yw'r gwasanaeth ci tywys yn gofyn am unrhyw arian gan y Llywodraeth, ond mae'n dibynnu'n gyfan gwbl ar gefnogaeth y cyhoedd. Mae'n costio £5 y dydd i gefnogi pob partneriaeth ci tywys wrth ei waith. Cost ci tywys ar hyd ei oes yw tua £50,000. Efallai fod y gost yn uchel, ond ni ellir mesur ei werth.

Ers i Thomas gamu i strydoedd Bangor yn y 1930au, mae Cŵn Tywys wedi hyfforddi a pharu dros 30,000 o gŵn tywys. Bydd angen cefnogaeth a chymorth gwahanol ar eraill, ac mae Cŵn Tywys Cymru yn parhau i ddatblygu gwasanaethau eraill ar gyfer y sawl y mae ci tywys yn anaddas ar eu cyfer.

Mae My Guide yn un o'r rhaglenni sy'n paru person dall neu rannol ddall â gwirfoddolwr hyfforddedig. Mae'r gwirfoddolwr yn arwain y person dall neu rannol ddall, er mwyn iddynt gyflawni eu nodau symudedd—o ymweld â'r meddyg i fynd am dro i'r parc. Mae gwirfoddolwyr My Guide Cŵn Tywys Cymru yn cael eu hyfforddi'n arbennig i helpu pobl i fynd allan yn hyderus. Maent yn gweithio gyda sefydliadau lleol, busnesau, grwpiau cymunedol ac aelodau o'r cyhoedd, gan eu harfogi â'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i ddod yn dywyswyr dall effeithiol.

Guide Dogs Cymru works with people to understand what they need to do and will match them with a volunteer who can help them to go out regularly. My Guide is available to anyone over 18 who is blind or partially sighted and who wants to get out and about, whether or not they want to have a guide dog. It can also support guide dog owners at times when their dogs are unable to work. In Wales this year, 30 My Guide partnerships have been created.

Blind Children UK, which was formerly the National Blind Children's Society, is now part of the Guide Dogs group, which gave Guide Dogs Cymru unprecedented opportunities to expand its services and enable children with sight loss to learn the skills of independent mobility and to reach their potential as adults who can play an active role in society. During 2013, across the UK as a whole, they supported 1,210 children and young people and their families. It is early days in Wales, but Guide Dogs Cymru has already recruited four full-time staff to take forward a range of children's services, including providing practical and emotional support to blind and partly sighted children and their families.

The buddy dog service was launched in full in January 2012 and matches specially selected dogs and places them with a school, organisation or family environment for the benefit of children and young people who are blind or partly sighted. Buddy dogs started their lives as potential guide dogs, but they proved themselves better at improving the quality of life of blind and partly sighted people, enhancing their confidence and self-esteem and improving their communication and mobility skills, rather than being mobility assistance dogs. Buddy dogs can also help a young person to counter the isolation and depression that is associated with sight loss. In 2014, three buddy dogs have been placed in Wales.

I am pleased to say that Guide Dogs is not resting on its laurels. Earlier this month, it launched a new project, Cities Unlocked, a partnership between Microsoft, Guide Dogs and Future Cities catapult, which uses new technology to assist getting around in towns and cities. All of these services give people the tools to be mobile, which alleviates social isolation and promotes wellbeing. Guide Dogs Cymru welcomes the publication of the Wales eye care delivery plan in 2013, but it knows how important it is that there is no slippage in the continued provision of statutory intervention for both rehabilitation and habilitation, particularly for young children. Protecting levels of this support means that people with sight loss can gain independence, which will reduce pressure on care and services.

Alongside direct service delivery, Guide Dogs Cymru campaigns passionately on issues that affect the independence and mobility of people with sight loss. I am thinking of campaigns such as the dangerous dogs campaign.

Mae Cŵn Tywys Cymru yn gweithio gyda phobl i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud a byddant yn eu paru â gwirfoddolwr sy'n gallu eu helpu i fynd allan yn rheolaidd. Mae My Guide ar gael i unrhyw un dros 18 oed sy'n ddall neu'n rhannol ddall ac sydd am fynd allan, waeth a ydynt am gael ci tywys ai peidio. Gall hefyd gefnogi perchnogion ci tywys ar adegau pan na fydd eu cŵn yn gallu gweithio. Yng Nghymru eleni, mae 30 o bartneriaethau My Guide wedi cael eu creu.

Erbyn hyn mae Blind Children UK, neu'r hen Gymdeithas Genedlaethol i Blant Dall, yn rhan o'r grŵp Guide Dogs, a rhoesant gyfleoedd heb eu tebyg i Cŵn Tywys Cymru ehangu eu gwasanaethau gan alluogi plant sydd wedi colli eu golwg i ddysgu sgiliau symudedd annibynnol a chyrraedd eu potensial fel oedolion sy'n gallu cymryd rhan weithredol mewn cymdeithas. Yn ystod 2013, ar draws y DU yn gyffredinol, maent wedi cefnogi 1,210 o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'n ddyddiau cynnar yng Nghymru, ond mae Cŵn Tywys Cymru eisoes wedi recriwtio pedwar aelod staff llawn amser i fwrw ymlaen ag ystod o wasanaethau plant, gan gynnwys darparu cefnogaeth ymarferol ac emosïynol i blant dall a rhannol ddall a'u teuluoedd.

Lansiwyd y gwasanaeth buddy dog yn llawn ym mis Ionawr 2012 ac mae'n paru cŵn a ddewiswyd yn arbennig a'u gosod gydag ysgol, sefydliad neu amgylchedd teuluol er lles plant a phobl ifanc sy'n ddall neu'n rhannol ddall. Dechreuodd buddy dogs eu bywydau fel darpar gŵn tywys, ond maent wedi dangos eu bod yn well am wella ansawdd bywyd pobl ddall a rhannol ddall, gan wella eu hyder a'u hunan-barch a gwella'u sgiliau cyfathrebu a symudedd, yn hytrach na bod yn gŵn sy'n helpu pobl i fynd o gwmpas. Gall buddy dogs hefyd helpu person ifanc i wrthsefyll teimladau o unigrwydd ac iselder sy'n gysylltiedig â cholli golwg. Yn 2014, parwyd tri buddy dog yng Nghymru.

Rwy'n falch o ddweud nad yw Cŵn Tywys yn gorffwys ar eu rhwyfau. Yn gynharach y mis hwn, lansiwyd prosiect newydd ganddynt, sef Datgloi Dinasoedd, partneriaeth rhwng Microsoft, Cŵn Tywys a chatapwlt Dinasoedd y Dyfodol, sy'n defnyddio technoleg newydd i hyrwyddo symudedd mewn trefi a dinasoedd. Mae pob un o'r gwasanaethau hyn yn rhoi offer i bobl i fod yn symudol, sy'n lleddfu unigedd cymdeithasol ac yn hyrwyddo lles. Mae Cŵn Tywys Cymru yn croesawu cyhoeddi cynllun darparu gofal llygaid Cymru yn 2013, ond gŵyr pa mor bwysig yw sicrhau nad oes llithriad yn narpariaeth barhaus ymyrraeth statudol ar gyfer adsefydlu a gwasanaethau sefydlu, yn enwedig ar gyfer plant ifanc. Trwy ddiogelu'r lefelau cymorth hyn, gall pobl sy'n colli eu golwg ennill annibyniaeth, a fydd yn lleihau'r pwysau ar ofal a gwasanaethau.

Ochr yn ochr â chyflenwi gwasanaethau uniongyrchol, mae Cŵn Tywys Cymru'n ymgyrchu'n angerddol ar faterion sy'n effeithio ar annibyniaeth a symudedd pobl sydd wedi colli'u golwg. Rwy'n meddwl am ymgyrchoedd fel yr ymgyrch cŵn pergyllus.



Guide Dogs Cymru wants to ensure that public transport in Wales enables blind and partly sighted people to get around in the way that they want to. It is lobbying for legislation that will oblige buses to announce the next stop and final destination—something that would be a huge benefit for blind and partially sighted people, the elderly and anyone, in fact, who is on an unfamiliar route. Following much lobbying, a number of bus operators in Wales, including Newport Transport, Cardiff Bus and Arriva Buses Wales, have introduced audio announcements. I call on the Minister to support the improvements that will make public transport more accessible to Welsh people who are suffering from partial or total loss of sight.

Guide Dogs Cymru also wants improvements to town and street design that would give blind and partially sighted people the same access as everyone else. It works with local councils and street designers and encourages everyone to make the streets inclusive for all. It has recently been dealing with problems with Ceredigion and Newport councils on the design of their new bus stations. It is also working very hard to ensure that the new active travel design guidance is clear, unambiguous and achievable in relation to the advice that it contains about protecting vulnerable pedestrians from the dangers posed by shared-space schemes.

I know that the Minister for Natural Resources is also aware that Guide Dogs Cymru and many other Welsh charities that support disabled people are deeply worried about the proposal in the Planning (Wales) Bill to remove the mandatory requirement for design and access statements. I have no doubt that members of the Environment and Sustainability Committee who are currently scrutinising the planning Bill will be mindful that there should be no unintended consequences likely to arise as a result of that Bill.

Another big challenge that blind or partly sighted people face is cars parked on pavements. This creates real dangers for blind and partly sighted people. Guide Dogs Cymru has called for a new UK-wide law on pavement parking in a response to a UK Government consultation. Guide Dogs Cymru wants to bring Wales into line with Greater London, where pavement parking is prohibited except in areas where it is expressly permitted. Parking on pavements can result in blind people injuring themselves by walking into a car. It may also force them to walk out into the road, which is very dangerous, as they are unable to see oncoming traffic, or if the return to the kerb is obstructed by a line of cars. It is not just car parking, as even A-boards put outside shops can have unintended consequences, so we need to be mindful of those unintended consequences for blind and partly sighted people.

Mae Cŵn Tywys Cymru eisiau sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn galluogi pobl ddall a rhannol ddall i fynd o gwmpas yn y ffordd y maent yn ei ddymino. Mae'n lobio am ddeddfwriaeth a fydd yn gorfodi bysiau i gyhoeddi'r arhosfan nesaf a'r cyrchfan olaf—rhywbeth a fyddai o fudd enfawr i bobl ddall a rhannol ddall, i'r henoed ac i unrhyw un, mewn gwirionedd, sydd ar lwybr anghyfarwydd. Yn dilyn llawer o lobio, mae nifer o weithredwyr bysiau yng Nghymru, gan gynnwys Trafnidiaeth Casnewydd, Bws Caerdydd a Bysiau Arriva Cymru, wedi cyflwyno cyhoeddiadau sain. Galwaf ar y Gweinidog i gefnogi'r gwelliannau a fydd yn gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl yng Nghymru sy'n dioddef o golli eu golwg yn rhannol neu'n gyfan gwbl.

Mae Cŵn Tywys Cymru hefyd am weld gwelliannau yng nghynllun trefi a strydoedd er mwyn rhoi'r un mynediad i bobl ddall a rhannol ddall â phawb arall. Maent yn cydweithio â chynghorau lleol a chynllunwyr strydoedd ac yn annog pawb i wneud y strydoedd yn gynhwysol i bawb. Maent wedi bod yn ymdrin yn ddiweddar â phroblemau gyda chynghorau Ceredigion a Chasnewydd ar gynllun eu gorsafoddd bysiau newydd. Maent hefyd yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod y canllawiau cynllunio teithio byw newydd yn glir, yn ddiamwys ac yn gyraeddadwy o ran y cyngor sydd ynddynt am amddiffyn cerddwyr sy'n agored i niwed rhag y peryglon a achosir gan gynlluniau rhannu-gofod.

Gwn fod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol hefyd yn ymwybodol bod Cŵn Tywys Cymru a nifer o elusennau eraill yng Nghymru sy'n cefnogi pobl anabl yn poeni'n fawr am y cynnig ym Mil Cynllunio (Cymru) i ddileu'r gofyniad gorffodol ar gyfer datganiadau cynllunio a mynediad. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd aelodau'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd sydd ar hyn o bryd yn craffu ar y Bil cynllunio'n cadw mewn cof na ddylai fod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o godi yn sgîl y Bil hwnnw.

Her fawr arall y mae pobl ddall neu rannol ddall yn ei hwynebu yw ceir sydd wedi'u parcio ar balmentydd. Mae hyn yn creu peryglon gwirioneddol i bobl ddall a rhannol ddall. Mae Cŵn Tywys Cymru wedi galw am gyfraith newydd ar draws y DU ar barcio ar balmentydd mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU. Mae Cŵn Tywys Cymru am i Gymru fod yr un fath â Llundain Fwyaf, lle mae parcio ar balmant wedi'i wahardd ac eithrio yn yr ardaloedd lle rhoddir caniatâd penodol. Gall parcio ar balmentydd arwain at bobl ddall yn anafu eu hunain trwy gerdded i mewn i gar. Gall hefyd eu gorfodi i gerdded ar yr heol, sy'n beryglus iawn, gan na allant weld y traffig sy'n dod tuag atynt, neu os nad oes modd dychwelyd at ymyl y palmant am fod rhes o geir yn eu rhwystro. Nid dim ond parcio ceir sy'n broblem, oherwydd gall A-fyrddau y tu allan i siopau gael canlyniadau anfwriadol, felly mae angen bod yn ymwybodol o'r canlyniadau anfwriadol hynny i bobl ddall a rhannol ddall.

If I may, I will finish by acknowledging what a wonderful job volunteers and dogs do as part of Guide Dogs Cymru's work. They truly support blind and partly sighted people in every constituency in Wales, and they could not achieve all of their positive outcomes if there had not been help from the local community. I, you and everyone in the Chamber can help Guide Dogs Cymru do far more, to reach far more people and genuinely to change their lives. I hope that the Welsh Government will consider whether there is any additional support that it can offer to Guide Dogs Cymru and the people of Wales with sight loss. I would be happy to see all of us, as representatives of our constituencies, get involved and help blind and partly sighted people to have a normal life.

Os caf, rwyf am orffen trwy gydnabod y gwaith gwych y mae gwirfoddolwyr a chŵn yn ei wneud fel rhan o waith Cŵn Tywys Cymru. Maent yn wir yn cefnogi pobl ddall a rhannol ddall ym mhob etholaeth yng Nghymru, ac ni allent gyflawni eu holl ganlyniadau cadarnhaol pe na bai'r gymuned leol wedi eu helpu. Gallaf i, gallwch chi a phawb yn y Siambr helpu Cŵn Tywys Cymru i wneud llawer mwy, i gyrraedd llawer mwy o bobl a gwirioneddol newid eu bywydau. Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes unrhyw gymorth ychwanegol y gall ei gynnig i Cŵn Tywys Cymru a phobl Cymru sydd wedi colli'u golwg. Byddwn yn falch o weld pawb ohonom, fel cynrychiolwyr ein hetholaethau, yn cymryd rhan ac yn helpu pobl ddall a rhannol ddall i gael bywyd normal.

17:57

### **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I congratulate Nick Ramsay on bringing forward this important debate this afternoon? I particularly wanted to press the Government on what more could be done around issues of accessibility, particularly of public transport, including buses. The Talking Buses campaign has long been run by the Guide Dogs organisation, and we have made some progress, but I would be grateful to learn what the Deputy Minister feels he can do further, with his colleague, the Minister for transport, to improve the number of such buses, especially where companies are perhaps running services in rural areas and do not have the level of investment that some in our cities do.

A gaf fi longyfarch Nick Ramsay ar gyflwyno'r ddadl bwysig hon y prynhawn yma? Rwy'n hynod o awyddus i bwysio ar y Llywodraeth ynglŷn â'r pethau ychwanegol y gellid eu gwneud ynghylch materion hygyrchedd, yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys bysiau. Mae'r ymgyrch Talking Buses wedi ei chynnal ers tro gan y sefydliad Cŵn Tywys, ac rydym wedi gwneud rhywfaint o gynydd, ond byddwn yn ddiolchgar i glywed beth y mae'r Dirprwy Weinidog yn ei deimlo y gall ei wneud ymhellach, gyda'i gydweithiwr, y Gweinidog trafnidiaeth, i wella nifer y cyfryw fysiau, yn enwedig lle mae cwmnïau o bosibl yn rhedeg gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig ac nad oes ganddynt lefelau buddsoddi fel sydd yn ein dinasoedd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Secondly, there is the issue of talking cashpoints as well. Again, it is a small thing, but it can hugely promote someone's independence if they are able to have access to their financial resources in a way that those without sight loss or sight problems takes for granted. What discussions can the Welsh Government have to encourage the banking industry, much of which is hugely subsidised by British and Welsh taxpayers, to improve the accessibility of some of its services?

Yr ail fater yw'r cais am beiriannau arian sy'n siarad. Unwaith eto, peth bychan ydyw, ond gall hybu annibyniaeth rhywun yn fawr os ydynt yn gallu defnyddio'u hadnoddau ariannol mewn modd y mae pobl sydd heb broblemau llygaid neu golli golwg yn cymryd yn ganiataol. Pa drafodaethau all Llywodraeth Cymru eu cael i annog y diwydiant bancio, sydd i raddau helaeth yn cael cymhorthdal enfawr gan drethdalwyr Prydain a Chymru, i wella hygyrchedd rhai o'i wasanaethau?

17:58

### **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The cross-party groups on disability, neurological conditions and autism, all of which I chair, are committed to the implementation of the social model of disability and the right to independent living, emphasising that we must work together to tackle the barriers to access and inclusion for all. Everyone must be allowed independence, choice, voice and control.

Mae'r grwpiau trawsbleidiol ar anabledd, ar gyflyrau niwrolegol ac ar awtistiaeth, yr wyf yn gadeirydd arnynt i gyd, yn ymrwymo i weithrediad y model cymdeithasol o anabledd a'r hawl i fyw'n annibynnol ar waith, gan bwysleisio bod yn rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynediad a chynhwysiant i bawb. Rhaid caniatáu annibyniaeth, dewis, llais a rheolaeth i bawb.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

When I went out with Guide Dogs some years ago in Caernarfon, after the shared-surface issue had arisen, I was blindfolded and given a stick, and I encountered for myself the barriers caused by poor design, because there had been a failure to pre-consult with the Arfon access group. Remedies have been progressively implemented since because of retrospective engagement, but that should not have happened.

Wrth fynd allan gyda Chŵn Tywys rai blynyddoedd yn ôl yng Nghaernarfon, pan roddwyd sylw i faterion rhannu arwynebau, rhoddwyd mwgwd am fy llygaid a ffon yn fy llaw, a bu i mi brofi dros fy hun y rhwystrau a achosir gan gynlluniau gwael, a hynny am na chafwyd ymgynghori â grŵp mynediad Arfon. Mae'r problemau wedi'u datrys ers hynny trwy ymgysylltiad ôl-weithredol, ond ni ddylai hyn fod wedi digwydd.

When I spoke, in April, at the north Wales Lend Me Your Ears conference for individuals and families living with hearing loss, great concern was raised about the continuing absence of deaf awareness within key public service providers: health, social services and education. We need action, not words, to ensure that disability awareness in all its manifestations is delivered by people with an understanding of disability because they are disabled themselves. I would urge the Minister to turn those words into action, because we have been talking about this for as long as I have been in the Assembly.

Pan siaradais, ym mis Ebrill, yn y gogledd yng nghynhadledd Lend Me Your Ears ar gyfer unigolion a theuluoedd sy'n byw gyda phobl sydd wedi colli'u clyw, lleisiwyd pryder mawr am ddiffygion parhaus o ran ymwybyddiaeth o fyddardod ymhlith darparwyr allweddol gwasanaethau cyhoeddus: iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Mae angen gweithredu, nid geiriau, er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth o bob gwedd ar anabledd yn cael ei gyflwyno gan bobl sydd â dealltwriaeth o anabledd oherwydd eu bod yn anabl eu hunain. Byddwn yn annog y Gweinidog i droi'r geiriau hynny yn weithred, gan ein bod wedi bod yn siarad am hyn gydol fy nghyfnod yn y Cynulliad.

18:00 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd, Vaughan Gething, i ymateb i'r ddadl.

I call on the Deputy Minister for Health, Vaughan Gething, to reply to the debate.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:00 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

I thank Nick Ramsay for bringing this important debate to the Chamber and, in particular, for raising issues that have come from the Guide Dogs Cymru My Guide campaign in particular.

Diolch i Nick Ramsay am ddod â'r ddadl bwysig i'r Siambr ac, yn arbennig, am godi'r materion sydd wedi codi o ymgyrch My Guide Cŵn Tywys Cymru yn arbennig.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We know that Guide Dogs Cymru has been providing services to visually impaired people for over 80 years, and I welcome its continued support and assistance in taking forward eye health services in Wales. The Welsh Government and Guide Dogs work together, alongside many other third sector organisations in progressing the policy challenges and integration of services for visually impaired people in Wales.

Gwyddom fod Cŵn Tywys Cymru wedi bod yn darparu gwasanaethau i bobl â nam ar eu golwg ers dros 80 mlynedd, a chroesawaf eu cefnogaeth a'u cymorth parhaus o ran hyrwyddo gwasanaethau iechyd llygaid yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru a'r Cŵn Tywys yn gweithio gyda'i gilydd, ochr yn ochr â nifer o sefydliadau eraill yn y trydydd sector i ddatblygu'r heriau o ran polisi ac i integreiddio gwasanaethau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg yng Nghymru.

Our plan for primary care services in Wales, launched in November, has five key themes. To meet the provision of these services, they are best planned locally so that they can be most responsive to the needs of local communities. This includes eye care services. The primary care plan therefore underpins the eye health care delivery plan. When we launched the eye care delivery plan last year, there were clear priorities for all stakeholders, including third sector organisations, which play a key role in helping to reach our objectives. We value their input and professionalism on our advisory groups, and it is through that partnership that the eye health care delivery plan is progressing well and to schedule. By 2018, our aims are to provide high-quality, efficient, accessible and integrated services that are patient-focused. We look to achieve this by collaboration with service users and carers involved in the design of services, and we are actively seeking people's views on services to help to maintain continuous improvement. The Low Vision Service Wales is a good example of how this can be achieved. Wales Eye Care Services is recognised as leading the way in its provision of primary eye care services.

Mae pum thema allweddol i'n cynllun ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru, a lanswyd ym mis Tachwedd. Er mwyn darparu'r gwasanaethau hyn, gorau oll os cânt eu cynllunio'n lleol er mwyn gallu ymateb yn well i anghenion cymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gofal llygaid. Mae'r cynllun gofal sylfaenol felly yn sail i'r cynllun darparu gofal iechyd llygaid. Pan lanswyd y cynllun darparu gofal llygaid y llynedd, roedd blaenoriaethau clir ar gyfer yr holl randdeiliaid, gan gynnwys mudiadau'r trydydd sector, sy'n chwarae rhan allweddol wrth helpu i gyflawni'n hamcanion. Rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u proffesiynoldeb ar ein grwpiau cynghori, a thrwy'r bartneriaeth honno y mae'r cynllun darparu gofal iechyd llygaid yn mynd rhagddo'n dda a phrydlon. Erbyn 2018, ein nod yw darparu gwasanaethau o safon uchel, effeithlon, hygyrch ac integredig sy'n canolbwyntio ar y claf. Ein gobaith yw cyflawni hyn drwy gydweithio â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n ymwneud â dylunio gwasanaethau, ac rydym wrthi'n gofyn am farn pobl am wasanaethau er mwyn helpu i gynnal gwelliant parhaus. Mae Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn enghraifft dda o sut y gellir cyflawni hyn. Mae Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru yn cael ei gydnabod fel un sy'n arwain y ffordd yn ei ddarpariaeth o wasanaethau gofal llygaid sylfaenol.

It is important to maintain a partnership approach with the third sector in improving access to co-ordinated services across primary, secondary and social care, and in improving transport services as well to achieve significant improvements in the health and wellbeing of patients living with eye problems. We must continue to develop partnership working to provide even better services for patients that enable us to meet the additional challenges of increased demand due to a growing elderly population. A steering group is already working with key partners to raise public awareness of eye health care. A workshop involving a range of players was held in May to develop a plan, which should be ready for final sign-off by that steering group involving third sector partners in February 2015. This is one of the key components of our eye care work in ensuring that we raise public awareness of the importance of eye health care.

Our sight is precious and it is essential that everyone is aware of the importance of a regular sight test—something that I know myself, not just as a glasses wearer but from a particular health problem in my later teenage years when I was potentially at risk of having permanent sight damage. Early diagnosis and treatment for patients will help to support the commitment made by the Welsh Government to reduce levels of avoidable sight loss. Working with the third sector, we will continue to help signpost patients to the appropriate social care support and wellbeing services. We will also develop specialist rehabilitation services to aid mobility, communication and daily living skills.

Mae'n bwysig cynnal dull partneriaeth gyda'r trydydd sector wrth wella mynediad i wasanaethau cydgyssylltiedig ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a chymdeithasol, ac wrth wella gwasanaethau trafndiaeth yn ogystal i sicrhau gwelliannau sylweddol o ran iechyd a lles y cleifion sy'n byw gyda phroblemau llygaid. Mae'n rhaid i ni barhau i ddatblygu gwaith partneriaeth i ddarparu gwasanaethau sydd hyd yn oed yn well i gleifion sy'n ein galluogi i gwrdd â heriau ychwanegol oherwydd y cynnydd yn y galw yn sgîl poblogaeth sy'n heneiddio. Mae grŵp llywio eisoes yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofal iechyd y llygaid. Cynhaliwyd gweithdy gydag amrywiol randdeiliaid ym mis Mai i ddatblygu cynllun, a ddylai fod yn barod i'w gymeradwyo'n derfynol gan y grŵp llywio sy'n cynnwys partneriaid yn y trydydd sector ym mis Chwefror 2015. Dyma un o elfennau allweddol ein gwaith gofal llygaid i sicrhau ein bod yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd gofal iechyd y llygaid.

Mae ein gallu i weld yn rhywbeth gwerthfawr ac mae'n hanfodol bod pawb yn ymwybodol o bwysigrwydd prawf llygaid rheolaidd—rhywbeth y gwn fy hun amdano, nid dim ond am fod gen i sbectol ond yn sgîl problem iechyd benodol yn fy arddegau hwyr pan oeddwn mewn perygl o gael niwed golwg parhaol. Bydd diagnosis cynnar a thriniaeth i gleifion yn helpu i gefnogi'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i leihau lefelau y gellir eu hosgoi o golli golwg. Gan weithio gyda'r trydydd sector, byddwn yn parhau i helpu i gyfeirio cleifion i'r gefnogaeth gofal cymdeithasol a gwasanaethau lles priodol. Byddwn hefyd yn datblygu gwasanaethau adsefydlu arbenigol i gynorthwyo sgiliau symudedd, cyfathrebu a bywyd bob dydd.

Picking up one of the points directly made by Nick Ramsay, we want to ensure that those using public transport are aware of the support services available, and to help to provide the full range of third sector support available. We will achieve this by continued understanding of public sector providers to bring equity to all visually impaired people in Wales. We are already working closely with key partners to develop plans to modernise patient care services and the provision of non-emergency patient transport. The aim is to put in place a commissioning framework to provide improved service planning and delivery that involves a range of providers. This should mean that patients will have greater certainty about their transport arrangements to and from appointments. The Welsh Government has put in place health and transport access groups. These bring together partners from the ambulance service, health boards and local authorities, as well as bus services and community transport providers, to help improve transport provision. The access groups have prepared action plans setting out a range of measures that will be taken forward by the Welsh Government health and transport service reconfiguration division. I am aware of the Talking Buses campaign, which was also mentioned by Kirsty Williams and Nick Ramsay. It is a UK-wide initiative, as has been said, to announce the next stop and final destination. I am pleased that other Members have recognised that progress has been made here in Wales, particularly by Newport Bus and Cardiff Bus in introducing audio-visual announcements. I recognise the desire to go further and to have a more consistent service, so I am happy to take up and discuss these issues with the Minister for Economy, Science and Transport, and to also raise with her the cashpoint issue that Kirsty Williams referred to.

Joint working between transport and health to develop plans to make improvements to town and street design will also help to improve accessibility for all people. I recognise the points that were made, particularly about recognising the difficulties that street furniture can cause for people with a visual impairment and also with what I will be polite and call inconsiderate parking, which can also cause significant problems. We encourage working relationships with local councils and the third sector to make their streets inclusive for all. Members should be aware that the Minister for Natural Resources recently issued a consultation paper on a range of proposals to assist all new developments to meet the objectives of good design and inclusive access. That consultation runs until 16 January next year, and the Welsh Government will continue to consult with all stakeholders, including Guide Dogs Cymru, to ensure that buildings and environments are welcoming to everyone in the future. I would encourage all Members with an interest to encourage their local groups and contacts to take part in that consultation.

I would like to thank all of our partners in Wales, including Guide Dogs Cymru, for their commitment and hard work over the years in supporting visually impaired people. I look forward to working with them and a wide range of third sector partners to further develop services for all the citizens of Wales.

Hoffwn godi un o'r pwyntiau a wnaed yn uniongyrchol gan Nick Ramsay, rydym am sicrhau bod y rhai sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael, ac i helpu i ddarparu'r ystod lawn o gefnogaeth y trydydd sector sydd ar gael. Byddwn yn cyflawni hyn trwy ddealltwriaeth barhaus o ddarparwyr y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau tegwch i'r holl bobl â nam ar eu golwg yng Nghymru. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i ddatblygu cynlluniau i foderneiddio gwasanaethau gofal cleifion a darparu cludiant i gleifion nad ydynt yn achosion brys. Y nod yw rhoi ar waith fframwaith comisiynu i ddarparu gweli ystod o gynlluniau a darpariaethau gwasanaethau sy'n cynnwys amrywiaeth o ddarparwyr. Dylai hyn olygu y bydd cleifion yn cael mwy o sicrwydd ynghylch eu trefniadau cludiant i ac o apwyntiadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ar waith grwpiau mynediad i iechyd a chludiant. Mae'r rhain yn dwyn ynghyd bartneriaid o'r gwasanaeth ambiwlans, y byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn ogystal â gwasanaethau bysiau a darparwyr cludiant cymunedol, i helpu i wella'r cludiant a ddarperir. Mae'r grwpiau mynediad wedi paratoi cynlluniau gweithredu sy'n nodi ystod o fesurau a fydd yn cael eu datblygu gan yr isadran ad-drefnu gwasanaethau iechyd a thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Rwy'n ymwybodol o'r ymgyrch Talking Buses, a grybwyllwyd hefyd gan Kirsty Williams a Nick Ramsay. Mae'n fenter ar draws y DU, fel y dywedwyd, i gyhoeddi'r arhosfan nesaf a'r cyrchfan terfynol. Rwy'n falch bod Aelodau eraill wedi cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud yma yng Nghymru, yn enwedig y cyhoeddiadau clyweledol ar Fysiau Casnewydd a Bws Caerdydd. Rwy'n cydnabod yr awydd i fynd ymhellach ac i gael gwasanaeth mwy cyson, felly rwy'n hapus i dderbyn a thrafod y materion hyn gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a hefyd i drafod materion peirannau arian gyda hi fel y soniodd Kirsty Williams.

Bydd cydweithio rhwng adrannau trafndiaeth ac iechyd i ddatblygu cynlluniau i wneud gwelliannau i'r dref ac i gynlluniau'r strydoedd hefyd yn helpu i wella hygyrchedd i bawb. Rwy'n cydnabod y pwyntiau a godwyd, yn enwedig ynghylch cydnabod yr anawsterau y gall dodrefn stryd eu hachosi i bobl â nam ar eu golwg a hefyd, ddefnyddio geiriau cwrtais, y parcio anystyriol, sydd hefyd yn gallu achosi problemau sylweddol. Rydym yn annog perthynas waith gyda chynghorau lleol a'r trydydd sector i wneud eu strydoedd yn gynhwysol i bawb. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol fod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi cyhoeddi papur ymgynghori yn ddiweddar ar ystod o gynigion i gynorthwyo pob datblygiad newydd i gwrdd ag amcanion cynllunio da a mynediad cynhwysol. Mae'r ymgynghoriad ar waith tan 16 Ionawr y flwyddyn nesaf, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgynghori â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys Cŵn Tywys Cymru, er mwyn sicrhau bod adeiladau ac amgylcheddau yn groesawgar i bawb yn y dyfodol. Byddwn yn annog pob Aelod sydd â diddordeb i annog eu grwpiau a'u cysylltiadau lleol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwnnw.

Hoffwn ddiolch i bob un o'n partneriaid yng Nghymru, gan gynnwys Cŵn Tywys Cymru, am eu hymroddiad a'u gwaith caled dros y blynyddoedd o ran cefnogi pobl â nam ar eu golwg. Edrychaf ymlaen at weithio gyda nhw a chydag ystod eang o bartneriaid trydydd sector i ddatblygu gwasanaethau ymhellach ar gyfer holl ddinasyddion Cymru.

18:06 **Dadl Fer—Gohiriwyd o 19 Tachwedd 2014: Pobl Hŷn a Gwaith: Cydnabod Cyfraniad Pobl Hŷn yn y Gweithlu Ledled Cymru**

**Short Debate—Postponed from 19 November 2014: Older People and Work: Recognising the Contribution of Older People in the Workplace across Wales**

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Darren Millar i siarad am y testun y mae ef wedi'i ddeewis.

I call on Darren Millar to speak on the topic that he has chosen.

18:07 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. It is a pleasure to be able to open this debate on older people and work, and I have agreed to give Mike Hedges, Aled Roberts and Janet Finch-Saunders a minute each of my time to contribute to the discussion.

Diolch. Mae'n bleser i allu agor y ddatl hon ar bobl hŷn a gwaith, ac rwyf wedi cytuno i roi munud yr un o fy amser i Mike Hedges, Aled Roberts a Janet Finch-Saunders gyfrannu at y drafodaeth.

According to the office of the Commissioner for Older People in Wales, over a quarter of the Welsh population, almost 800,000 people, are aged 60 or over, and, within the next two decades, this population looks set to increase to more than 1 million people. In fact, we have more people of pensionable age and over 80 in Wales as a proportion of our population than any other part of the UK. However, far from being a burden on Welsh society, as some have suggested, I believe that these statistics and our older people should be celebrated.

Yn ôl swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru, mae dros chwarter poblogaeth Cymru, bron 800,000 o bobl, yn 60 oed neu'n hŷn, ac, ymheng y ddau ddegawd nesaf, rhagwelir y bydd y boblogaeth hon yn cynyddu i fwy nag 1 miliwn o bobl. Yn wir, mae gennym fwy o bobl oedran pensiwn a thros 80 yng Nghymru fel cyfran o'n poblogaeth nag unrhyw ran arall o'r DU. Fodd bynnag, ymhell o fod yn faich ar gymdeithas Cymru, fel y mae rhai wedi awgrymu, credaf y dylem ddathlu'r ystadegau hyn a dathlu ein pobl hŷn.

The Royal Voluntary Service's 'Gold Age Pensioners' report in 2011 suggested that, by 2030, older people will benefit the UK economy by around £291 billion, compared with projected welfare costs of £216 billion. It has been estimated that even after taking into account the costs of healthcare, welfare and state pensions, older people contribute a net £1 billion annually to the Welsh economy, or almost £3 million for each and every day of the year.

Mae Gold Age Pensioners, sef adroddiad 2011 y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, yn awgrymu erbyn 2030, y bydd pobl hŷn o fudd gwerth £291 biliwn i economi'r DU o gymharu â chostau lles rhagamcanol o £216 biliwn. Yn ôl yr amcangyfrifon, hyd yn oed ar ôl ystyried costau gofal iechyd, lles a phensiwn y wladwriaeth, mae pobl hŷn yn cyfrannu £1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru, neu bron £3 miliwn bob dydd o'r flwyddyn.

Older people contribute to society in many ways, but it is perhaps the value of older people in the workplace that is most often overlooked. Working is good for most people's physical and mental wellbeing, and the spending power of older workers has been an important spur to the UK's economic recovery. A 2011 article from 'The Economist' on this very subject concluded, and I quote:

Mae pobl hŷn yn cyfrannu at gymdeithas mewn sawl ffordd, ond mae'n bosibl mai gwerth pobl hŷn yn y gweithle sy'n cael ei anwybyddu gan amlaf. Mae gweithio yn dda i les corfforol a meddyliol y rhan fwyaf o bobl, ac mae grym gwario gweithwyr hŷn wedi bod yn sbardun pwysig i adferiad economaidd y DU. Yn ôl erthygl yn 2011 o 'The Economist' ar yr union bwnc hwn, death i'r casgliad, ac rwy'n dyfynnu:

'The idea that society can become more prosperous by paying more of its citizens to be idle is clearly nonsensical.'

'Mae'r syniad y gall cymdeithas fod yn fwy ffyniannus drwy dalu i ragor o'i dinasyddion fod yn segur yn amlwg yn hurt.'

I wholeheartedly agree with that.

Cytunaf yn llwyr â hynny.

More people are working for longer than ever before. Figures from Saga suggest that over 30% of people employed now in Wales are over 50, and this proportion looks set only to increase.

Mae mwy o bobl yn gweithio'n hirach nag erioed o'r blaen. Mae ffigurau gan Saga yn awgrymu bod dros 30% o bobl a gyflogir yn awr yng Nghymru dros 50 oed, ac mae'n debygol bod y gyfran hon yn mynd i gynyddu.



For some older people, working is a choice, while for others it is a financial imperative. The abolition of the default retirement age by the UK Government has been a godsend to many older people who could have found themselves without employment just because they had reached their sixty-fifth birthday. However, in spite of being illegal under the Equality Act 2010, age discrimination by employers is still rife and older workers still face barriers in accessing work and training.

While the UK now enjoys record levels of employment, the unemployment rate among older people has actually been falling at a much slower rate than for younger people, where Welsh and UK Government support seems to be much more readily available. People over 50 tend to be unemployed for longer than those under 50, with more than four in 10 current jobseeker's allowance claimants over 50 having been out of work for 12 months or more. The reasons for this can be very complex, but the reality is that ageism among employers, out-dated qualifications, a lack of familiarity with modern IT systems and declining self-confidence are all taking their toll. In spite of the fact that older people have a wealth of knowledge and experience that they can bring to the workplace, all too often, they face discrimination and prejudice simply because of their age. This has got to stop. Research by Age Cymru in 2010 found that one in five people aged between 50 and 64 felt that they had been personally discriminated against in employment as a result of their age.

Many of us will have heard the argument that longer working lives prevent younger people from securing jobs and progressing their careers. But, nothing could be further from the truth. It was this very argument that was used by the opponents to the UK Government's abolition of the default retirement age back in 2011. Known to economists as the 'lump of labour fallacy', the view that older workers block the employment chances of younger people is based on the false assumption that there are a fixed number of jobs in the economy. This assumption was once used to argue against the entry of women into the labour market, but there is absolutely no evidence to support this view.

I rai pobl hŷn, mae gweithio yn ddewis, tra i eraill, mae'n rheidrwydd ariannol. Mae dileu'r oedran ymddeol awtomatig gan Lywodraeth y DU wedi bod yn fendith i lawer o bobl hŷn a allai fod wedi eu cael eu hun heb waith dim ond am eu bod wedi cyrraedd eu pump a thrigain oed. Fodd bynnag, er gwaethaf bod hynny'n anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gwahaniaethu ar sail oed gan gyflogwyr yn dal i fod yn rhemp ac mae gweithwyr hŷn yn dal i wynebu rhwystrau o ran cael mynediad i waith a hyfforddiant.

Er bod lefelau cyflogaeth y DU bellach yn uchel, mae'r gyfradd diweithdra ymhlith pobl hŷn mewn gwirionedd wedi bod yn gostwng ar raddfa llawer arafach na chyfradd pobl iau, ac ymddengys fod cefnogaeth ar gael yn llawer haws gan Lywodraeth Cymru a'r DU i'r to iau. Mae pobl dros 50 yn tueddu bod yn ddi-waith am gyfnod hwy na'r rhai dan 50, gyda mwy na phedwar o bob 10 sy'n hawlio lwfans ceisio gwaith ar hyn o bryd dros 50 ar ôl bod allan o waith am 12 mis neu fwy. Gall y rhesymau am hyn fod yn gymhleth iawn, ond y realiti yw bod rhagfarn ar sail oed ymhlith cyflogwyr, cymwysterau sydd wedi dyddio, sgiliau diffygiol ar gyfer systemau TG modern a dirywiad yn eu hunanhyder i gyd yn effeithio ar y sefyllfa. Er gwaethaf y ffaith bod gan bobl hŷn gyfoeth o wybodaeth a phrofiad y gallant ei gynnig i'r gweithle, yn rhy aml o lawer, maent yn wynebu gwahaniaethu a rhagfarn ar sail eu hoed yn unig. Mae'n rhaid rhoi terfyn ar hyn. Canfu ymchwil gan Age Cymru yn 2010 fod un o bob pump o bobl rhwng 50 a 64 oed yn teimlo eu bod wedi cael profiad o wahaniaethu personol yn eu herbyn mewn cyflogaeth yn sgil eu hoedran.

Bydd llawer ohonom wedi clywed y ddadl bod bywyd gwaith hirach yn atal pobl iau rhag cael swyddi a symud ymlaen yn eu gyrfaedd. Ond, ni allai dim fod ymhellach o'r gwir. Yr union ddadl hon a ddefnyddiwyd gan y gwrthwynebwyr wrth i Lywodraeth y DU ddiddymu'r oed ymddeol awtomatig yn ôl yn 2011. Yn ôl economegwyr, dyma oedd y lump of labour fallacy, y farn bod gweithwyr hŷn yn atal cyfleoedd cyflogaeth pobl ifanc sy'n seiliedig ar y dybiaeth ffug fod nifer penodol o swyddi yn yr economi. Defnyddiwyd y dybiaeth unwaith i ddadlau yn erbyn lle'r ferch yn y farchnad lafur, ond nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r farn hon.

Saga published 'The Saga Generations' report in June of this year. It focused on this very issue. The report concluded that instead of pushing younger people out of the workplace, older workers actually help to create more jobs. The report demonstrated that the over-50s, through their spending power, supported over 5.7 million full-time jobs in the UK as a whole in 2013, approximately 300,000 of which are in Wales. In addition to this, analysis by the Centre for Economics and Business Research shows that the spending patterns of older workers is generally much more effective at creating jobs than spending by any other age group, due to lower levels of personal debt and other fixed expenditure. The CEBR also concluded that spending by older people is more effective at creating youth employment than the spending of other age groups. This is because they have a higher disposable income than other age groups and spend more of their earnings on services that employ younger workers. So, far from stopping younger people getting jobs, the reality is that older workers generate greater consumer spending power and economic activity, which, in turn, creates more jobs in the economy as a whole, particularly for young people.

It is also worth noting that older and younger job seekers rarely compete for the same jobs. It is for these reasons that I support Age Cymru's campaign for the Welsh Government to consider widening the access that older workers have to employment support programmes. I believe that there is scope to provide further targeted support and assistance to ensure that the vast skills and experiences of Wales's older people are not lost to our economy. I am not suggesting for one moment that we should turn our backs on trying to address the problem of youth unemployment in Wales. What I am suggesting is that we look at doing more to support these older people who want to get back into the workplace.

Of course, older people's contribution to society is not simply confined to employment. The work that many older people do is often unpaid and a great help to wider society. Their work as volunteers makes a significant contribution in unpaid hours to the Welsh economy. The Royal Voluntary Service has suggested that older volunteers are providing a staggering annual average of almost 105 hours of informal and 55 hours of formal volunteering effort per person in Wales aged over 65. The older people's commissioner has suggested that the value of this contribution, when taken together with their services in terms of childcare for friends and family, can be estimated at around £750 million annually.

Older people also make important financial contributions to society through a variety of other means, including gifts, donations and bequests to charities, savings for their grandchildren, and the transfer of financial assets to family members. Older people who are carers also provide considerable economic value to Wales. The Office for National Statistics showed that, in 2011, 50 to 64-year-olds were providing the most care, estimated at 41% of the population. In Wales, approximately 14,300 of these people worked full time while providing 50 hours or more of unpaid care per week.

Cyhoeddodd Saga adroddiad The Saga Generations ym mis Mehefin eleni. Roedd yn canolbwyntio ar yr union fater hwn. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad, yn hytrach na gwthio pobl iau o'r gweithle, mae gweithwyr hŷn mewn gwirionedd yn helpu i greu mwy o swyddi. Dangosodd yr adroddiad fod y bobl dros 50 oed, trwy eu grym gwario, yn cefnogi dros 5.7 miliwn o swyddi llawn-amser yn y DU gyfan yn 2013, gydag oddeutu 300,000 ohonynt yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, mae dadansoddiad gan y Ganolfan Economeg ac Ymchwil Busnes (CEBR) yn dangos bod patrymau gwario gweithwyr hŷn yn gyffredinol yn llawer mwy effeithiol o ran creu swyddi na gwariant unrhyw grŵp oedran arall, o ganlyniad i lefelau is o ddyled bersonol a gwariant sefydlog arall. Daeth CEBR hefyd i'r casgliad fod gwariant gan bobl hŷn yn fwy effeithiol o ran creu cyflogaeth ieuencid na gwariant grwpiau oedran eraill. Mae hyn oherwydd bod ganddynt incwm gwario uwch na grwpiau oedran eraill ac am eu bod yn gwario mwy o'u henillion ar wasanaethau sy'n cyflogi gweithwyr iau. Felly, ymhell o fod yn atal pobl ifanc i gael swyddi, mewn gwirionedd mae gweithwyr hŷn yn cynhyrchu mwy o bŵer gwariant i ddefnyddwyr a gweithgarwch economaidd, sydd, yn ei dro, yn creu mwy o swyddi yn yr economi yn ei chyfanrwydd, yn enwedig i bobl ifanc.

Mae hefyd yn werth nodi mai anaml y bydd ceiswyr gwaith hŷn ac iau yn cystadlu am yr un swyddi. Dyma'r rhesymau yr wyf yn cefnogi ymgyrch Age Cymru sy'n annog Llywodraeth Cymru i ystyried lledu'r fynedfa ar gyfer gweithwyr hŷn i raglenni cymorth cyflogaeth. Credaf fod lle i ddarparu rhagor o gefnogaeth a chymorth wedi'i dargedu er mwyn sicrhau nad yw'r sgiliau a phrofiadau helaeth pobl hŷn Cymru yn cael eu colli o'n heconomi. Nid wyf yn awgrymu am funud y dylem droi ein cefnau ar geisio mynd i'r afael â'r broblem o ddiweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Yr hyn yr wyf yn ei awgrymu yw y dylem geisio gwneud mwy i gefnogi'r bobl hŷn hynny sydd eisiau mynd yn ôl i'r gweithle.

Wrth gwrs, nid yw cyfraniad pobl hŷn i'r gymdeithas yn gyfyngedig yn unig i gyflogaeth. Mae'r gwaith y mae llawer o bobl hŷn yn ei wneud yn aml yn ddi-dâl ac yn help mawr i gymdeithas ehangach. Mae eu gwaith fel gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol o ran oriau di-dâl i economi Cymru. Mae'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol wedi awgrymu bod gwirfoddolwyr hŷn yn darparu cyfartaledd blynyddol syfrdanol o bron i 105 awr o wirfoddoli anffurfiol a 55 awr o wirfoddoli ffurfiol y pen yng Nghymru ar gyfer pobl dros 65 oed. Mae'r comisiynydd pobl hŷn wedi awgrymu bod gwerth y cyfraniad hwn, ynghyd â'r gwasanaethau gofal plant ar gyfer ffrindiau a theulu, yn rhoi amcangyfrif o oddeutu £750 miliwn bob blwyddyn.

Mae pobl hŷn hefyd yn gwneud cyfraniadau ariannol pwysig i gymdeithas drwy amrywiaeth o ddulliau eraill, gan gynnwys rhoddion, rhoddion a chymynroddion i elusennau, cynilion ar gyfer eu hwyrion, a throsglwyddo asedau ariannol i aelodau o'r teulu. Mae pobl hŷn sy'n ofalwyr hefyd yn darparu gwerth economaidd sylweddol i Gymru. Dangosodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn 2011, mai pobl rhwng 50 a 64 oed oedd yn darparu'r gofal mwyaf, sef amcangyfrif o 41% o'r boblogaeth. Yng Nghymru, mae tua 14,300 o'r bobl hŷn yn gweithio'n llawn amser ac yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos hefyd.

Recent research published by the University of Leeds, commissioned by Carers UK, suggested that the economic value of the contribution made by carers in Wales—this is just in Wales—was £5.6 billion each and every year. Age Cymru has predicted that this will continue to increase, of course, as we have an older population and time goes on. Chwarae Teg has highlighted that caring responsibilities remain a key barrier for some older women in the workplace, with an increasing trend of sandwich caring, where women care for their children and then go on to care for their parents. It is important that older women with caring responsibilities do not lose out on the opportunity to make a contribution in the workplace, and there is no doubt that we ought to be paying much more attention to this in the Senedd.

So, in conclusion, far from being a burden on Welsh society, our growing population of older people is something that we should all celebrate. Their contribution to the Welsh economy is growing, and the silver pound is becoming an ever-more important driver for economic growth. Helping older people into paid work brings benefits to the public purse, and it disproportionately helps job creation for younger people. The contribution to Wales of the unpaid work undertaken by older people, whether in the form of caring for a loved one, providing childcare or volunteering in the third sector, cannot be overestimated. So, given all of this, I believe that we need to do what we can to address discrimination against older people in Wales and to celebrate their contribution to the workplace.

Mae gwaith ymchwil diweddar a gyhoeddwyd gan Brifysgol Leeds, a gomisiynwyd gan Carers UK, yn awgrymu bod gwerth economaidd y cyfraniad a wneir gan ofalwyr yng Nghymru—dim ond Cymru yw hyn—yn £5.6 biliwn bob blwyddyn. Mae Age Cymru yn rhagweld y bydd hyn yn parhau i gynyddu, wrth gwrs, gan fod gennym boblogaeth hyn ac amser yn mynd rhagddo. Mae Chwarae Teg wedi amlygu bod cyfrifoldebau gofalu yn parhau i fod yn rhwystr allweddol i rai menywod hyn yn y gweithle, gyda thuedd gynyddol o rhyng-ofal, lle mae merched yn gofalu am eu plant ac yna mynd ymlaen i ofalu am eu rhieni. Mae'n bwysig nad yw menywod hyn â chyfrifoldebau gofalu yn colli allan ar y cyfle i wneud cyfraniad yn y gweithle, ac nid oes amheuaeth y dylem fod yn rhoi llawer mwy o sylw i hyn yn y Senedd.

Felly, i gloi, ymhell o fod yn faich ar gymdeithas Cymru, mae ein poblogaeth gynyddol o bobl hyn yn rhywbeth y dylem i gyd ei ddathlu. Mae eu cyfraniad i economi Cymru yn tyfu, ac mae'r bunt arian yn datblygu'n sbardun pwysicach fyth ar gyfer twf economaidd. Mae helpu pobl hyn i mewn i waith â thâl yn creu manteision i'r pwrs cyhoeddus, ac mewn modd anghymesur mae'n helpu i greu swyddi i bobl iau. Ni ellir gorbwysleisio'r cyfraniad a ddaw i Gymru yn sgîl y gwaith di-dâl a wneir gan bobl hyn, boed ar ffurf gofalu am rywun annwyl, darparu gofalu plant neu wirfoddoli yn y trydydd sector. Felly, o ystyried hyn i gyd, credaf fod angen inni wneud yr hyn a allwn i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl hyn yng Nghymru ac i ddathlu eu cyfraniad i'r gweithle.

18:16 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First, I thank Darren Millar for giving me a minute in this debate. The term 'older person' varies with employment. Being over 30 makes most sportspeople an older person, whereas at 40 they become positively ancient, while, in the Assembly, they would be considered relatively young. What older people bring is experience. For example, as we look like we are going to embark on another local government reorganisation, the experience of those who went through the last one will be invaluable, as will the experience of those going through this one when the next reorganisation occurs. While some managers and employers like the bright young person who has limited experience, they need to remember that they are more likely to make errors because they have not seen that doing certain things causes problems; those with experience have seen these mistakes made before. Using experience can be a way of not repeating the mistakes of between 20 and 30 years ago.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Darren Millar am roi munud yn y ddadl hon i mi. Mae'r term 'person hyn' yn amrywio gyda chyflogaeth. Mae bod dros 30 yn gwneud y rhan fwyaf ar y maes chwarae yn berson hyn, tra bod pobl 40 oed yn sicr yn hynafol, eto yn y Cynulliad, byddent yn cael eu hystyried yn gymharol ifanc. Yr hyn sydd gan bobl hyn i'w gynnig yw profiad. Er enghraifft, wrth i ni fynd ati i ystyried ad-drefnu llywodraeth leol unwaith yn rhagor, bydd profiad y rhai a aeth drwy'r un olaf yn amhrisiadwy, fel y bydd profiad y rhai sy'n mynd drwy'r ad-drefnu presennol pan ddigwydd y nesaf. Er bod rhai rheolwyr a chyflogwyr yn hoffi'r person ifanc disglair sydd â phrofiad cyfyngedig, mae angen iddynt gofio eu bod yn fwy tebygol o wneud camgymeriadau oherwydd nad ydynt wedi gweld bod gwneud rhai pethau yn achosi problemau; mae rhai sydd â phrofiad wedi gweld y camgymeriadau hyn yn cael eu gwneud o'r blaen. Gall defnyddio profiad fod yn ffordd o beidio ailadrodd camgymeriadau a wnaed rhwng 20 a 30 mlynedd yn ôl.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:17 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

While celebrating the contribution of older people in the workplace and as volunteers, as Darren Millar alluded to, I want to press the Government on another issue that is dealt with in a report from the older people's commissioner this month, which estimated that there are three times as many people not in education, employment or training in Wales aged over 50 as there are aged under 25, and 10 times as many as those aged under 19. My concern, while I acknowledge that the Government has a difficult job to do with regard to reductions in its budget, is that a concentration on training et cetera for those under 19 may, in fact, lead to these people over 50 being very much forgotten.

Wrth ddathlu cyfraniad pobl hyn yn y gweithle ac fel gwirfoddolwyr, fel y soniodd Darren Millar, hoffwn bwysio ar y Llywodraeth ar fater arall sy'n cael ei drin mewn adroddiad gan y comisiynydd pobl hyn y mis hwn, a oedd yn amcangyfrif bod tair gwaith cymaint o bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru dros 50 oed nag sydd o dan 25 oed, a 10 gwaith cymaint â rhai o dan 19 oed. Tra wyf yn cydnabod bod gan y Llywodraeth waith anodd ei wneud yn sgîl y cyfyngiadau ar ei chyllideb, fy mhryder yw y gall canolbwyntio ar hyfforddiant ac ati ar gyfer pobl o dan 19 oed, mewn gwirionedd, arwain at lwyr anghofio am bobl hyn dros 50.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:18

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Data from the Office for National Statistics show that around a third of all currently inactive older people would actually like to work. By 2030, the overall economic contribution of older people to the UK economy is set to have increased by 82%, in real terms, from 2010. However, with this in mind, it is critical that the older people of Wales are given the right encouragement to become, and remain, economically and occupationally active. The latest data show 41% of people in this age group claiming jobseeker's allowance in Wales, and they have been doing so for more than 12 months, compared to 18.5% of people aged 18 to 24. We have to get these older people into work, and I have constantly asked the Minister, previous Ministers and the First Minister whether they are able to identify and name a scheme—just one—that would actually secure employment and training for those over 50.

Mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos y byddai tua thraean o'r holl bobl hŷn sydd ar hyn o bryd yn anweithgar mewn gwirionedd yn hoffi gweithio. Erbyn 2030, mae disgwyl i gyfraniad economaidd cyffredinol pobl hŷn i economi'r DU fod wedi cynyddu 82%, mewn termau real, o 2010. Fodd bynnag, gyda hyn mewn golwg, mae'n hanfodol bod pobl hŷn Cymru yn cael yr anogaeth gywir i ddod, ac i barhau i fod, yn economaidd ac yn alwedigaethol weithredol. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod 41% o bobl yn y grŵp oedran hwn yn hawlio lwfans ceisio gwaith yng Nghymru, a'u bod wedi gwneud hynny am fwy na 12 mis, o gymharu â 18.5% o bobl 18 oed a 24. Mae'n rhaid i ni arwain y bobl hŷn hyn i mewn i waith, ac rwyf wedi gofyn yn gyson i'r Gweinidog, i Weinidogion blaenorol ac i'r Prif Weinidog a ydynt yn gallu canfod ac enwi cynllun—dim ond un—a fyddai'n sicrhau cyflogaeth a hyfforddiant mewn gwirionedd ar gyfer pobl dros 50 oed.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:19

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i ymateb i'r ddatl—Julie James.

Galwaf ar Ddirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i ymateb i'r ddatl—Julie James.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

18:19

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I am really pleased to be able to respond to this debate today, and I want to start off by saying how very happy I am, and how happy the Government is, to acknowledge the vast contribution to Wales of older people in every aspect of our lives. Culturally, they are extremely important—race memory is a very important thing in cultural terms—as they are in the caring and voluntary aspects that we have also discussed, which we do not have time to acknowledge fully today, but also, of course, in our economic life, in work and in the economy as a whole. I absolutely want to acknowledge as well the statistics quoted by Darren Millar and echoed briefly by others tonight in the Chamber about the value of the silver pound, the contribution that older people make to our economy—much more widely than just in the work that they do—and in general to the supply chain and to our local communities in shopping and the general economy. So, I absolutely acknowledge all of the points made in that regard.

Rwy'n hynod falch o allu ymateb i'r ddatl hon heddiw, ac rwyf am ddechrau drwy ddweud pa mor hapus iawn ydw i, a pha mor hapus yw'r Llywodraeth, i gydnabod y cyfraniad enfawr i Gymru gan bobl hŷn ym mhob agwedd ar ein bywydau. Yn ddiwylliannol, maent yn hynod o bwysig—mae cof hil yn beth pwysig iawn yn nhermau diwylliannol—gan eu bod yn yr agweddau gofal a gwirfoddol y bu i ni hefyd eu trafod, nad oes gennym amser i'w gydnabod yn llawn heddiw, ond hefyd, wrth gwrs, yn ein bywyd economaidd, yn y gwaith ac i'r economi yn ei chyfanrwydd. Rwyf hefyd yn awyddus i gydnabod yr ystadegau a ddyfynnwyd gan Darren Millar ac a adleisiwyd yn fyr gan eraill heno yn y Siambr am werth y bunt arian, y cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n heconomi—yn llawer ehangach na dim ond y gwaith y maent yn ei wneud—ac yn gyffredinol i'r gadwyn gyflenwi ac i'n cymunedau lleol wrth siopa a'r economi yn gyffredinol. Felly, rwy'n llwyr gydnabod yr holl bwyntiau a wnaed yn hynny o beth.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Some of the statistics quoted are interesting, are they not, and there are others that are very interesting as well about, for example, pay gaps, which I think are worth putting on the table. The gender pay gap in Wales for full-time employees is about 6.7%, but that increases if you are older. For males, the hourly rate is about £11 and, for females, it is about £10.50, which is a 5% pay gap for employees at the age of 16, for example, but it goes up quite considerably as you get older. Numerous reasons have been given for that, but there has been no real empirical study regarding why that is the case. The most common reason given for that is that a number of women work part-time over a large part of their career and lose out in terms of promotion, and so on.

Mae rhai o'r ystadegau a ddyfynnir yn ddiddorol, onid ydynt, ac mae eraill sy'n ddiddorol iawn hefyd, er enghraifft, y bylchau cyflog, sy'n werth eu rhoi ar y bwrdd yn fy marn i. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru ar gyfer gweithwyr llawn amser tua 6.7%, ond mae'n cynyddu wrth i chi fynd yn hŷn. Ar gyfer dynion, y gyfradd fesul awr yw tua £11 ac i ferched, mae oddeutu £10.50, sy'n fwlch cyflog 5% ar gyfer gweithwyr 16 oed, er enghraifft, ond mae'n mynd i fyny yn sylweddol wrth i chi fynd yn hŷn. Mae nifer o resymau wedi'u rhoi am hynny, ond ni chafwyd astudiaeth empirig wirioneddol ynghylch pam y mae hyn yn wir. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd am hynny yw bod nifer o fenywod yn gweithio'n rhan-amser dros ran fawr o'u gyrfa ac are u colled o ran cael eu dyrchafu, ac yn y blaen.

That leads me to talk about some of the things that the Government is currently doing to try to sort some of these positions out. Our January 2014 policy on skills set out our long-term ambition for employment and skills policy in Wales. You have heard me talk in the Chamber many times about this plan in terms of young people, but the plan is comprehensive. It covers all age groups in Wales; it is not aimed at young people. It talks about the skills agenda generally. The skills implementation plan sets out our key policy actions and the timeline to deliver them, and it works with employers, unions and delivery partners as part of a longer-term reform that is required for a resilient and sustainable skills system for Wales. I emphasise once again that, although we have talked a lot about young people in the Chamber, that plan is a comprehensive plan that considers the particular challenges for many different sectors.

All our employability policies and programmes specifically consider the particular challenges facing older people, and we encourage the same with all of our partners across the public and private sectors. Therefore, the only plans that concentrate on young people are the ones that we have been talking about, such as Jobs Growth Wales, which is aimed specifically at the under-24s. However, all of the other programmes operate right across the board.

We want to put this into the context that Darren Millar suggested in his speech. A third of UK workers are expected to be aged over 50 within 20 years and, within 20 years, nearly a quarter of the UK workforce will be aged 65 or over. As Mike Hedges said, age is a moving feast—he did not quite use that term, but that is what he meant. I, myself, am 56, so I am an older worker, for example, having worked full-time for most of my career, where at all possible. I have to say that I do not, myself, feel that I have reached the bracket of 'older people', but I was depressingly in a Careers Wales forum the other day, where one of the people who was talking about some of the online offer we have said that 'even people over 40' could sometimes access things online. [Laughter.] I was obliged to tell him that some of us were still breathing as well, in the room.

However, all joking apart, as our population ages, we stay healthier, we have many advances in longevity, we all expect things that our parents and grandparents did not expect to have, one of which is a fruitful working life while you still have the capacity to do it. We all know the value of that personally, and we know the value of it to the economy. So, I want to emphasise that we are absolutely on board and accept entirely the argument that we need to do something about it.

Mae hynny'n fy arwain i siarad am rai o'r pethau y mae'r Llywodraeth wrthi'n ei wneud i geisio datrys rhai o'r sefyllfaoedd hyn. Mae ein polisi Ionawr 2014 ar sgiliau yn nodi ein huchelgais hirdymor ar gyfer polisi cyflogaeth a sgiliau yng Nghymru. Rydych wedi fy nghlywed yn siarad yn y Siambr droeon am y cynllun hwn o ran pobl ifanc, ond mae'r cynllun yn gynhwysfawr. Mae'n cynnwys pob grŵp oedran yng Nghymru; nid yw'n cael ei anelu at bobl ifanc. Mae'n sôn am yr agenda sgiliau yn gyffredinol. Mae'r cynllun gweithredu sgiliau yn nodi ein camau gweithredu polisi allweddol a'r llinell amser i'w cyflawni, ac mae'n gweithio gyda chyflogwyr, undebau a phartneriaid cyflenwi fel rhan o ddiwygiad tymor hwy sydd ei angen ar gyfer system sgiliau cydnerth a chynaliadwy i Gymru. Pwysleisiaf unwaith eto, er ein bod wedi siarad llawer am bobl ifanc yn y Siambr, mae'r cynllun hwnnw yn gynllun cynhwysfawr sy'n ystyried yr heriau penodol ar gyfer llawer o wahanol sectorau.

Mae ein holl bolisiau a rhaglenni cyflogadwyedd yn ystyried yr heriau penodol sy'n wynebu pobl hŷn yn benodol, ac rydym yn annog yr un peth gyda phob un o'n partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Felly, yr unig gynlluniau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc yw'r rhai rydym wedi bod yn siarad amdanynt, megis Twf Swyddi Cymru, sydd wedi'i anelu'n benodol at bobl dan 24 oed. Fodd bynnag, mae pob un o'r rhaglenni eraill yn gweithredu ar draws y bwrdd.

Rydym am roi hyn yn y cyd-destun a awgrymodd Darren Millar yn ei araith. Mae disgwyl i un rhan o dair o weithwyr y DU fod dros 50 oed o fewn 20 mlynedd ac, ymhen 20 mlynedd, bydd bron chwarter o weithlu'r DU yn 65 oed neu'n hŷn. Fel y dywedodd Mike Hedges, mae oed yn wledd symudol—nid dyma'r union eiriau, ond dyna oedd yn ei olygu. Rwyf fi fy hun yn 56, felly rwy'n weithiwr hŷn, er enghraifft, ar ôl gweithio'n llawn amser am y rhan fwyaf o'm gyrfa, lle bu hynny'n bosibl. Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf i fy hun yn teimlo 'mod i wedi cyrraedd carfan 'pobl hŷn', ond teimlais yn ddigalon mewn fforwm Gyrfa Cymru y diwrnod o'r blaen, lle'r oedd un person yn sôn am rai o'r cynigion ar-lein, ac y byddai 'pobl sydd dros 40 oed hyd yn oed' yn gallu ei ddefnyddio. [Chwerthin.] Roedd yn rhaid i mi ddweud wrtho bod rhai ohonom yn yr ystafell ac yn dal i anadlu hefyd.

Fodd bynnag, dyna ddigon o gellwair, wrth i'n poblogaeth heneiddio, rydym yn parhau'n iachach, mae llawer o ddatblygiadau i hybu hirhoedledd, rydym i gyd yn disgwyl cael pethau na chafodd ein rhieni a'n neiniau a'n teidiau, ac un o'r pethau hynny yw bywyd ffrwythlon o weithio tra bo gennym y gallu i wneud hynny. Rydym i gyd yn gwybod gwerth hynny yn bersonol, ac yn gwybod ei werth i'r economi. Felly, rwyf am bwysleisio ein bod yn llwyr gytuno ac yn derbyn y ddadl bod angen i ni wneud rhywbeth am y peth.

I will not make the political points about why we are in the financial position we are in, but we are in a difficult financial position; I think we all accept that. Nevertheless, we are working extremely hard on our skills agenda with our employer supply chains. I have had, in the three months or so that I have held this portfolio, a very large number of meetings with employers from across Wales, on the Welsh borders and in the Welsh travel-to-work areas, in which we have emphasised the need to include employment for all ages, genders, communities and special interest groups, disabled people, people who need assisted employment, and so on, within those supply chains. I have to say that, increasingly, employers are really recognising the value of that.

Our work-based training programme providers are obliged not to discriminate on the grounds of age, race, faith or belief, sexual orientation, gender, pregnancy, maternity, civil partnership status, disability, transgender and age, of course. You heard me speaking earlier today in the debate on the Enterprise and Business Committee's report on STEM about gender difficulties with culture as a whole. One of the things that we also have to do is to work very hard on our employer base to make employers understand the contribution that older workers can make and not to see anybody over their particular age-break for older people as a barrier. Indeed, I have had many conversations over the last week or so with major employers in the construction industry, for example, which are actively recruiting older people because they need people to supervise the apprenticeship programme that we are all so proud of here in Wales.

So, we are actively working on those employability programmes, we are supporting older people who have been out of work for some time to gain confidence, motivation to improve their skills and to gain work experience. Work experience for older people is an interesting point, because many of them do have some work experience, but, as Members contributing to this debate tonight have said, a lot of that work experience needs updating and refreshing, and we have many programmes in place to do that.

I will finish by saying that skills are essential to enter into and maintain employment. We have focused a large share of our European funding on supporting specific individuals to improve their skills and to help them back into work. We are currently working on an effective transition into the 2014-20 structural funds programme, and our aim is to create a more flexible system of support that clearly identifies and responds to the needs of both businesses and individuals, of whatever variety, across the Welsh economy. So, I am really pleased to support many of the arguments that were made here tonight, to reiterate my continued support for individuals who are older—whatever we mean by 'older'—to be sustained in employment, and to give you the commitment of the Government to making sure that those individuals have their needs met to assist them into work.

Nid wyf am wneud pwyntiau gwleidyddol ynghylch ein sefyllfa ariannol bresennol, ond mae ein sefyllfa ariannol yn anodd; credaf ein bod i gyd yn derbyn hynny. Serch hynny, rydym yn cydweithio'n eithriadol o galed ar ein hagenda sgiliau gyda'n cadwyni cyflenwi o gyflogwyr. Yn y tri mis ers i mi gael y portffolio hwn, cefais nifer fawr iawn o gyfarfodydd gyda chyflogwyr o bob rhan o Gymru, ar y gororau ac yn yr ardaloedd teithio-i'r-gwaith yng Nghymru, lle'r ydym wedi pwysleisio'r angen i gynnwys cyflogaeth ar gyfer pob oedran, rhyw, cymunedau a grwpiau diddordeb arbennig, pobl anabl, pobl sydd angen cyflogaeth â chymorth, ac yn y blaen, o fewn y cadwyni cyflenwi hynny. Mae'n rhaid i mi ddweud bod, cyflogwyr yn wir yn cydnabod gwerth hynny fwyfwy.

Mae'n rhaid i'n darparwyr rhaglenni hyfforddiant yn y gwaith beidio â gwahaniaethu ar sail oedran, hil, fydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, beichiogrwydd, mamolaeth, statws partneriaeth sifil, anabled, trawsrywiol ac oed, wrth gwrs. Clywsoch fi'n siarad yn gynharach heddiw yn y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Wyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM) am anawsterau rhyw gyda'r diwylliant yn ei gyfanrwydd. Un o'r pethau y mae'n rhaid inni ei wneud hefyd yw gweithio'n galed iawn ar ein sylfaen cyflogwyr i wneud i gyflogwyr ddeall y cyfraniad y gall gweithwyr hŷn ei wneud ac i beidio â gweld unrhyw un dros eu trothwy oedran ar gyfer pobl hŷn fel rhwystr. Yn wir, cefais lawer o sgysiau dros yr wythnos neu ddwy ddiwethaf gyda phrif gyflogwyr yn y diwydiant adeiladu, er enghraifft, sydd yn mynd ati i recriwtio pobl hŷn oherwydd eu bod angen pobl i oruchwylio'r rhaglen brentisiaeth rydym i gyd mor falch ohoni yma yng Nghymru.

Felly, rydym yn gweithio'n ddiwyd ar y rhaglenni cyflogadwyedd hynny, rydym yn cefnogi pobl hŷn sydd wedi bod allan o waith am beth amser i fagu hyder, eu cymell i wella eu sgiliau ac i gael profiad gwaith. Mae profiad gwaith ar gyfer pobl hŷn yn bwynt diddorol, gan fod gan lawer ohonynt rywfaint o brofiad gwaith, ond, fel y dywedodd Aelodau a gyfrannodd i'r ddadl heno, mae angen diweddar llawer o'r profiad gwaith hwnnw a'i adnewyddu, ac mae gennym lawer o raglenni ar waith i wneud hynny.

Rwyf am orffen trwy ddweud bod sgiliau yn hanfodol er mwyn ennill a chynnal cyflogaeth. Rydym wedi canolbwyntio cyfran fawr o'n cyllid Ewropeaidd ar gefnogi unigolion penodol i wella eu sgiliau a'u helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar bontio effeithiol yn y rhaglen cronfeydd strwythurol 2014-20, a'n nod yw creu system fwy hyblyg o gefnogaeth sy'n nodi'n glir ac yn ymateb i anghenion busnesau ac unigolion, o ba bynnag amrywiaeth, ar draws economi Cymru. Felly, mae'n bleser gen i gefnogi llawer o'r dadleuon a gyflwynwyd yma heno, ac ailadrodd fy nghefnogaeth barhaus i unigolion sy'n hŷn—beth bynnag y mae 'hŷn' yn ei olygu—gael parhau mewn cyflogaeth, a rhoi ymrwymiad y Llywodraeth i chi y byddwn yn diwallu anghenion yr unigolion hynny o ran eu cynorthwyo i gael gwaith.

18:27

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

That brings today's proceedings to a close.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



*Daeth y cyfarfod i ben am 18:27.*

*The meeting ended at 18:27.*